Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 10fed Mawrth, 2026 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Am-Leoliad / Hybrid Meeting: Siambr Hywel Dda a Zoom |
| **PWYNT CYSWLLT** | Gwen Alaw Roberts<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Arweinydd y Cyngor |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Paul John Rowlinson | Aelod Cabinet Tai ac Eiddo |
| Menna Trenholme | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| June Jones | Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd |
| R Medwyn Hughes | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| Dewi Jones | Aelod Cabinet Addysg |
| Huw Wyn Jones | Aelod Cabinet Cyllid |
| Llio Elenid Owen | Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 CHWEFROR | | | 4 - 13 |
| 6 | CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER: CYNLLUN YMATEB CYNGOR GWYNEDD | Cyng. Nia Jeffreys | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr | 14 - 86 |
| 7 | ADRODDIAD CHWARTEROL - CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN YMATEB | | Yr Athro Sally Holland, Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb | 87 - 92 |
| 8 | CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-28 - ADOLYGIAD 2026/27 | Cyng. Nia Jeffreys | Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Corfforaethol Dewi Wyn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor | 93 - 124 |
| 9 | BIDIAU UN TRO 2026/27 | Cyng. Nia Jeffreys | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr | 125 - 127 |
| 10 | TREFNIADAU DIRPRWYO CYFRIFOLDEBAU GWARIANT | Cyng. Craig ab Iago | Dylan Owen, Cyfarwyddwr | 128 - 130 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| 11 | CRONFA TWF LLEOL Y DG YNG NGHYMRU: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDU 2026/27 | Cyng. R Medwyn Hughes | Sioned Williams, Pennaeth Economi a Cymuned (Uwch Swyddog Cyfrifol, Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru)<br><br>Dylan Griffiths, Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu'r Economi (Rheolwr (Rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru) | 131 - 136 |
| 12 | MABWYSIADU STRATEGAETH DATBLYGU ECONOMAIDD NEWYDD I WYNEDD | Cyng. R Medwyn Hughes | Dylan Griffiths Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu'r Economi<br><br>Nia Bowden Rheolwr Rhaglen Cefnogi Busnes, Gwasanaeth Datblygu'r Economi | 137 - 196 |
| 13 | BLAEN RAGLEN Y CABINET | Cyng. Nia Jeffreys | | 197 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 10 CHWEFROR 2026**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Dewi Jones a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Debbie Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg), Cyng. Cai Larsen (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid – Cyfrifeg a Phensiynau), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd), Ceri Hughes Thomas (Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Llyr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Nia Bowden (Rheolwr Rhaglen Cefnogi Busnes), Cyng. Elfed Powell Roberts (Aelod Lleol Ward Trawsfynydd) .

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Menna Trenholme a'r Cyng. Llio Elenid Owen.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganwyd buddiant personol gan y Cyng. June Jones mewn perthynas ag Eitem 6 gan ei bod yn Lywodraethwr yn yr Ysgol. Bu i'r Cyng. June Jones eistedd fel Aelod Lleol ar gyfer Eitem 6, ac o ganlyniad nid oedd ganddi bleidlais ar y mater.

Datganwyd buddiant personol gan y Prif Weithredwr mewn perthynas ag Eitem 6, a bu iddo adael y cyfarfod.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 20 Ionawr fel rhai cywir.

## 6. PAPUR CYNNIG - YSGOL Y GARREG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones

### PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd cyhoeddi rhybudd statudol, yn caniatáu cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 011/2018: ar y cynnig a ganlyn –

"Cau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026."

Bydd dalgylch Ysgol Cefn Coch yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Y Garreg.

### TRAFODAETH

Mynegwyd tristwch wrth gyflwyno'r eitem hon ac amlygwyd bod Ysgol y Garreg wedi gwasanaethu pentref Llanfrothen a'r gymuned ehangach dros gyfnod hir.

Datganwyd bod gorfod cau ysgolion yn deillio o'r newidiadau yn nemograffeg y Sir. Wrth gyfeirio at effaith y newidiadau hyn, datgelwyd bod ychydig dros 1,500 yn llai o blant 0-15 oed yn y Sir yn 2021 o'i gymharu â 2011. Pwysleisiwyd pwysigrwydd trafod sefyllfa Ysgol y Garreg mewn cyd-destun ehangach, gan nad yw sefyllfa'r Ysgol hon yn unigryw i Wynedd nac i Gymru – cyfeiriwyd at y nifer llai o blant sy'n byw yn ein cymunedau.

Tynnwyd sylw at y ffaith mai 2 ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Y Garreg, a'r disgyblion hynny ym mlwyddyn 6. Ychwanegwyd nad oes unrhyw ddisgybl wedi cofrestru ar gyfer cychwyn yn yr Ysgol ym mis Medi chwaith, felly ni fydd disgyblion yn yr Ysgol. Nodwyd nad yw dyfodol Ysgol y Garreg yn gynaliadwy o ganlyniad.

Diolchwyd i holl staff a llywodraethwyr yr Ysgol am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd.

Ategwyd tristwch y sefyllfa gan Aelod Lleol Ward Glaslyn, a soniwyd bod yr Ysgol wedi bod yn gwasanaethu'r gymuned ers oddeutu 143 o flynyddoedd. Pwysleisiwyd y newid hwn mewn demograffeg a'r lleihad yn nifer o blant yn ein cymdeithas, a chyfeiriwyd at allu rhieni i ddewis i ba ysgol i anfon eu plant. Anogwyd y Cyngor gan yr Aelod Lleol i ystyried ailstrwythuro adeilad yr Ysgol fel canolfan arbenigol ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth setlo mewn ysgolion prif lif, ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer Ysgol Anghenion Dysgu Arbennig.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Holwyd am farn y gymuned leol am y sefyllfa bresennol a'r dyfodol pe bai'r dewis i gau'r Ysgol. Mewn ymateb, nodwyd bod y weithdrefn i gau Ysgol sydd â llai na 10 disgybl yn wahanol i'r hyn a fyddai'n ofynnol gydag ysgol fwy. Cadarnhawyd bod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r Ysgol a'r llywodraethwyr. Tynnwyd sylw at y ffaith bod 92% o blant y dalgylch eisoes yn cael eu haddysgu mewn dalgylchoedd eraill, a ddengys bod nifer o rieni wedi gwneud y penderfyniad i anfon eu plant i ysgol arall yn barod.
- Ehangwyd ar y gwahaniaeth yn y weithdrefn o gau ysgol sydd â llai na 10 o blant - nodwyd nad oes ymgynghoriad yn cael ei gynnal fel rhan o drefn cau ysgol sydd â llai na 10 disgybl ond bod sesiynau ymgysylltu dal yn cael eu cynnal, ac yn dilyn hynny mae'r drefn yn symud yn syth i gyflwyno'r rhybudd statudol i gau'r ysgol. Cadarnhawyd y bydd cyfle i bobl wrthwynebu, ac y caiff y gwrthwynebiadau sydd wedi eu cyflwyno eu hystyried cyn dod i benderfyniad terfynol.
- Pryderwyd am staff Ysgol y Garreg a gofynnwyd a fydd swyddi eraill ar eu cyfer. Amlygwyd bod nifer o staff ar gytundebau tymor byr neu dros dro felly y bydd y rheiny yn dirwyn i ben. Eglurwyd bod trafodaethau wedi mynd rhagddo gyda'r staff arlwyo a glanhau am y camau nesaf.
- Mynegwyd pryder am gyflymder dirywiad y niferoedd disgyblion. Ymfalchïwyd bod asesiad effaith wedi'i gynnal, er nifer isel y disgyblion yn yr Ysgol.
- Ategwyd y syndod am y gwymp yn y niferoedd disgyblion gan swyddogion yr Adran Addysg, gan nodi fod 17 disgybl yn mynychu'r Ysgol flwyddyn yn ôl. Esboniwyd nad oes gan ysgolion bach y gwydnwch i ddygymod â newidiadau mewn niferoedd i'r un graddau ag ysgolion mwy, felly bod y broblem hon yn un sy'n codi'n aml yng Ngwynedd.
- O ran effaith cau Ysgol y Garreg ar ysgolion cyfagos, eglurwyd nad oes effaith yn cael ei ragweld gan fod y rhan fwyaf o rieni yn dewis anfon eu plant i ysgolion mewn dalgylchoedd eraill yn barod. Cydnabuwyd nad oes modd rhoi ateb pendant am yr effaith hir dymor ar y funud.
- Trafodwyd bod ystyriaethau wedi cael eu gwneud ynglŷn ag ôl-ddefnydd posib i'r adeilad. Amlygwyd nad oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yma gan ei fod yn ddibynnol ar adnoddau'r Adran a'r galw am ddarpariaeth.

## 7. STRATEGAETH YSGOLION 2026 - 2036

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Strategaeth Ysgolion 2026 - 2036 (Atodiad 1), a dirprwywyd awdurdod i'r Aelod Cabinet dros Addysg, mewn ymgynghoriad â Phennaeth yr Adran Addysg, i wneud newidiadau an-arwyddocaol a golygyddol i'r Strategaeth cyn ei chyhoeddiad ffurfiol, ar yr amod nad yw'r newidiadau hynny'n effeithio'n sylweddol ar gynnwys, cyfeiriad strategol, blaenoriaethau na goblygiadau ariannol y Strategaeth.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod y Strategaeth flaenorol wedi dod i ben a'i fod yn allweddol i strategaeth arall gael ei rhoi mewn lle ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

Amlygwyd bod trafodaethau eang wedi eu cynnal mewn perthynas â'r Strategaeth, a bod mewnbwn y sector, y gweithlu addysg a'r Fforwm Sirol Plant a Phobl Ifanc wedi ei dderbyn yn ogystal.
Pwysleisiwyd pwysigrwydd y Strategaeth hon i amlygu gweledigaeth ac uchelgais y Cyngor am y 10 mlynedd nesaf. Amlinellir gan y ddogfen yr heriau sy'n wynebu'r Sir, a nodwyd pwysigrwydd bod yr awdurdod a'r cyhoedd yn ymwybodol ac yn effro i'r heriau hynny.

Croesawyd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i'r cyfarfod i gyflwyno argymhellion y Pwyllgor. Adnabuwyd y Strategaeth fel dogfen allweddol i lywio cyfeiriad addysg y Sir ac esboniwyd y credir gan y Pwyllgor fod angen cryfhau rhai elfennau o'r Strategaeth cyn symud ymlaen. Adroddwyd bod angen ymgorffori lles a diogelu plant a phobl ifanc yn fwy pendant i mewn i'r ddogfen, a bod galw i sicrhau fod llais y plentyn yn rhan ganolog o'r cynllunio. Ymfalchïwyd bod newidiadau wedi eu gwneud i'r ddogfen yn sgil yr argymhellion hyn. Wrth gyfeirio at anghyfartaledd, nodwyd bod diffyg mesurau clir i asesu effaith penderfyniadau strategol ar y dysgwyr fwyaf bregus. Yn ogystal, eglurwyd i'r Pwyllgor drafod yr heriau parhaus wrth recriwtio a chadw'r gweithlu, gan ychwanegu fod angen mwy o bwyslais ar gynllunio'r gweithlu i sicrhau cynaladwyedd hirdymor.
Aethpwyd ymlaen i egluro argymhellion pellach y Pwyllgor Craffu, a gaiff eu nodi yn yr adroddiad.
Cadarnhawyd bod ystyriaeth wedi'i roi i'r holl argymhellion a godwyd gan y Pwyllgor Craffu yn yr adroddiad.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Wrth gyfeirio at y newid yn nemograffeg yr ardal, cwestiynwyd a oes ateb i'r her o recriwtio a chynllunio'r gweithlu yn y Strategaeth hon. Mewn ymateb, datganwyd nad yw pob agwedd o'r maes yn cael ei gyfarch drwy'r Strategaeth hon a bod amryw o strategaethau a gweithdrefnau eraill i gyfarch yr agweddau hynny. Cyfeiriwyd at heriau eraill megis cyfrwng iaith, yr angen i athrawon ddysgu amryw o bynciau, a'r ffaith fod nifer o bobl ifanc y Sir yn symud i ffwrdd. Cydnabuwyd nad yw'r heriau hyn yn unigryw i Wynedd, a bod y Strategaeth yn rhoi sylw parhaus i'r heriau hyn.
- Mynegwyd syndod a siom bod yr holiadur electronig ond wedi derbyn 19 ymateb, er ei fod yn agored am 8 wythnos. Ategwyd y siom hwn gan y swyddogion, ond nodwyd efallai fod hyn yn adlewyrchiad o'r ffaith iddo gael ei drafod cryn dipyn gydag ysgolion yn barod. Datgelwyd bod nifer wedi cychwyn yr holiadur ond nid ei gyflwyno.
- Ymfalchïwyd bod yr Adran wedi ymgysylltu gyda'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc, ac eglurwyd am y drafodaeth yn y sesiwn. Pwysleisiwyd bod barn gref y dylai'r Gymraeg fod yn rhan greiddiol ac yn flaenoriaeth o fewn holl weithdrefnau'r Cyngor.
- Holwyd a oes bwriad i ymgynghori ac ymgysylltu ymhellach, yn dilyn y diffyg ymatebion i'r holiadur electroneg. Amlygwyd bod cyfle teg wedi ei roi i bobl leisio eu barn ac felly nad oes bwriad i ymgysylltu eto.

- Gofynnwyd sut y bydd llwyddiant y Strategaeth hon yn cael ei fesur, a sut y caiff ei hadolygu dros amser. Cyfeiriwyd at gyrraedd y nod o sicrhau bod plant y Sir yn cyrraedd eu llawn botensial, a bod yr addysg a'r gefnogaeth orau'n cael ei roi i ddisgyblion. Ategwyd na fydd pob ysgol yn unfath, ond cadarnhawyd na fydd gwahaniaeth yn y safonau na'r cyfleoedd y mae'r bobl ifanc yn eu derbyn.
- Cwestiynwyd sut y bydd modd mesur cynnydd yn lles emosiynol a llesiant disgyblion yn gyffredinol. Mewn ymateb, soniwyd bod nifer o ysgolion yn gwneud hynny drwy amryw o holiaduron. Ychwanegwyd bod presenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion hefyd yn cael eu defnyddio fel dangosyddion.
- Nodwyd bod trafodaethau ynglŷn â mesur llesiant disgyblion yn mynd rhagddo, a soniwyd am rôl llywodraethwyr o fewn ysgolion i drafod hyn. Amlygwyd pwysigrwydd i lesiant gael ei drafod a'i fesur ar lefel ysgolion unigol, yn ogystal ag ar lefel sirol.
- Cyfeiriwyd yn ôl at y drafodaeth am y Fforymau Plant a Phobl Ifanc, gan ddatgan mai'r bwriad yw dod a'r fforymau lleol at ei gilydd er mwyn cynnal fforwm sirol. Adnabuwyd pwysigrwydd gwneud hyn mewn modd cynaliadwy, a'i fod yn cael ei wreiddio yng ngwaith y Cyngor.

**8. CYLLIDEB 2026/27**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Huw Wyn Jones

**PENDERFYNIAD**

Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2025) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £379,701,110 ar gyfer 2026/27 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £264,009,390 a £115,691,720 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 4.75% sylfaenol ynghyd â 0.42% pellach i gyfarch y lefi gan yr Awdurdod Tan, ac felly'n rhoi cyfanswm o 5.17%).

2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £40,179,430 yn 2026/27 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r rhagolygon ariannol o'r flwyddyn ariannol bresennol. Datganwyd bod oddeutu £5.3 miliwn o orwariant ar draws y Cyngor, a hynny lle nad oedd cyllidebau'r adrannau yn diwallu'r galw am wasanaeth.

Cyfeiriwyd at y cynnydd yn y setliad a dderbyniai'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru i 4.1%. Nodwyd fod hyn dal ymysg yr isaf yng Nghymru, ond yn gynnydd gwell na'r disgwyl.
Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, rhagdybiwyd bod codiad cyflog posib o 4% i athrawon, a 3.4% i weddill gweithlu'r Cyngor.

Rhoddwyd trosolwg o'r bidiau refeniw ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r traws doriad fesul adran.

Adnabuwyd bod cynnydd arferol mewn ardollau, sy'n cynnwys £458,000 i'r Awdurdod Tân, ac yna symiau llai i Gyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Eryri a Chydbwyllgor Corfforedig y Gogledd.
Amcangyfrifwyd y bydd angen gwario oddeutu £23.3 miliwn ychwanegol yn y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn cynnal gwasanaethau'r Cyngor. Amlygwyd y daw'r pwysau mwyaf o chwyddiant cyflogau, chwyddiant cyffredinol a'r cynnydd mewn galw am wasanaethau.

Cadarnhawyd bod gofynion gwario'r flwyddyn ariannol 2026/27, yn oddeutu £380miliwn. Amlygwyd bod y setliad gan Lywodraeth Cymru yn oddeutu £264miliwn, sy'n gadael bwlch o dros £116miliwn i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac arbedion.

Nodwyd bod gwerth £644 o filoedd o arbedion eisoes wedi eu cymeradwyo i Gyllideb 2026/27 - gydag oddeutu chwarter miliwn o bunnoedd o'r arbedion hyn ar gael i gyfrifo'r bwlch ariannu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Ers cyhoeddi'r adroddiad, tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi cael cadarnhad y bydd yn derbyn cymhorthdal tuag at ei gyfraniad at gostau'r Awdurdod Tân, sydd yn oddeutu £50,000 ychwanegol. Datgelwyd bod y Cyngor hefyd wedi manteisio ar y cyfle i ad-dalu benthyciad cyfalaf yn ddiweddar iawn, sy'n gostwng y swm blynyddol sydd angen ei glustnodi ar gyfer talu'r benthyciadau hyn.
Nodwyd bod hyn yn galluogi lleihau'r cynnydd mewn treth Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf o 4.9%, sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad, i 4.75%. Ychwanegwyd y bydd yr elfen tân yn ychwanegol i hyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Gwnaed sylwad o'r rhwystrau y mae cyllideb fesul blwyddyn yn ei greu ar gyfer cynghorau, a gofynnwyd unwaith eto am gyllideb aml-flwyddyn gan y Llywodraeth fel bod modd cynllunio o flaen llaw.
- Mynegwyd balchder bod arian ychwanegol wedi'i gyllidebu i gefnogi Ysgolion Arbennig a gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol o fewn ysgolion prif lif. Amlygwyd mai cyffwrdd yr ochrau yn unig y mae hyn, a bod angen buddsoddiad cenedlaethol yn y maes hwn.
- Holwyd am fanylion ychwanegol am yr ad-daliad o fenthyciad a wnaed. Mewn ymateb, datgelwyd bod cyfle wedi dod i ad-dalu benthyciad yn gynnar heb y costau ychwanegol. Cadarnhawyd bod cyngor wedi ei dderbyn, a bod ad-dalu'r benthyciad yn gynnar yn cynnig arbedion i'r Cyngor. Ychwanegwyd nad yw hyn yn digwydd yn aml.
- Datganwyd cefnogaeth i'r buddsoddiad yn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion a chartrefi henoed, yn dilyn blynyddoedd o lymder.
- Croesawyd y bidiau parhaol sy'n mynd tuag at y diffyg cyllideb cyffredinol, ai fod yn dangos awydd y Cyngor i wneud beth sy'n iawn i drigolion y Sir drwy ddarparu i'r galw cynyddol sydd ar wasanaethau.

- Cydnabuwyd bod unrhyw gynnydd yn y Dreth Cyngor am gael effaith ar bobl y Sir. Amlygwyd bod cymorth ar gael, a bod posib dod o hyd i'r wybodaeth ar wefan y Cyngor neu drwy ddod i gyswllt â Galw Gwynedd.

## 9. CYNLLUNIAU A FFIOEDD PARCIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd a galluogwyd y Gwasanaeth Parcio i fwrw 'mlaen i wireddu dau gynllun arbedion sydd angen ystyriaeth bellach cyn dod i benderfyniad terfynol, sef:

1.1.1 Ymestyn oriau gorfodaeth meysydd parcio arhosiad byr o 10:00 hyd at 16:30 i 9:00 hyd at 17:00.

1.1.2 Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2.

Cymeradwywyd gorchymyn parcio newydd sydd yn cysoni trefniadau cyfredol a chynnwys y newidiadau uchod.

**TRAFODAETH**

Rhoddwyd cefndir i'r eitem, gan nodi fod y cynllun hwn yn rhan o'r cynlluniau i gyfarch y diffyg rhwng y targed incwm parcio a'r hyn oedd yn cael ei gyflawni. Nodwyd y bu'r eitem gerbron y Cabinet yn 2024, a chadarnhawyd bod yr hyn a gymeradwywyd bellach yn weithredol ac yn perfformio fel y rhagolygwyd.

Datganwyd bod y targed incwm wedi cynyddu ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno yn 2024/25, felly bod angen cymryd camau pellach i'w gyrraedd.

Datgelwyd bod y newidiadau a'u cyflwynwyd yn 2025 wedi eu derbyn yn weddol, ac mai ond ychydig o adwaith a ddeilliodd o hynny. Tynnwyd sylw at y tocynnau tymor sy'n cynnig gwerth am arian da o'i gymharu â thalu gyda phob ymweliad. Eglurwyd bod yr Adran wedi adolygu'r gorchymyn parcio, a daethpwyd i'r casgliad bod angen cyflwyno gorchymyn newydd sy'n dod a mwy o gysondeb thaclusrwydd o ran mapiau o'r meysydd parcio er enghraifft.
Amlygwyd bod y gwasanaeth yn y broses o gyflwyno 32 peiriant talu ac arddangos newydd, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth o well safon i'r cwsmer yn ogystal â sicrhau bod yr incwm yn cael ei ddenu.

<u>Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:</u>

- Adnabuwyd ei bod yn hynod anodd i gymharu sefyllfa strwythur parcio Gwynedd â siroedd eraill, oherwydd bod y strwythurau yn amrywio o sir i

sir. Er hyn, nodwyd bod modd cymharu rhai agweddau megis prisiau tocynnau tymor blynyddol - ychwanegwyd bod y tocynnau hyn yn rhesymol iawn yng Ngwynedd. Adroddwyd bod adborth gan ymwelwyr hefyd yn cefnogi'r ffaith fod parcio yng Ngwynedd yn rhesymol o'i gymharu â'u hardaloedd lleol hwy. Eglurwyd y credir bod cydbwysedd wedi'i gyrraedd yma o ran darparu ar gyfer anghenion lleol ar y cyd â chynhyrchu incwm ble mae modd.

- Cyfeiriwyd at brisiau tocynnau parcio lleol a'r tocynnau parcio tymhorol, ac esboniwyd yr hyn a gynigir i drigolion. Datgelwyd bod yr holl wybodaeth ynghylch y ddarpariaeth hon ar wefan y Cyngor.
- Holwyd a oes ystyriaethau wedi'u gwneud i effaith yr oriau gorfodaeth estynedig ar fusnesau lleol. Sicrhawyd bod strategaeth parcio ar y stryd, sy'n galluogi i bobl barcio ar y stryd am gyfnodau o 30munud i awr er mwyn galw'n sydyn i mewn i siopau.
- Cwestiynwyd sut y caiff y newid hwn ei gyfathrebu â'r cyhoedd, fel nad yw pobl yn cael eu dal allan. Mewn ymateb, cynigwyd bod cyfle i fynd ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol yn statudol wrth rybuddio am y newid hwn er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol trigolion.
- Cynigiwyd y dylid cynnig cyfnod gras am gyfnod cychwynnol y cyfnod gorfodaeth estynedig, ond sicrhawyd bod digon o amser rhwng cymeradwyo'r cynnig a'i roi mewn grym er mwyn codi ymwybyddiaeth ddigonol o'r newid. Ategwyd yr heriau y byddai cyflwyno cyfnod gras yn ei achosi o ran cysondeb ar draws y sir, a'r heriau i'r swyddogion sy'n rhoi'r gorchmynion ar waith.
- Cyfeiriwyd at yr asesiad effaith cydraddoldeb, gan fynegi balchder nad oes newid i ddeiliaid bathodyn glas. Adnabuwyd yr her y mae pobl hŷn yn ei gael i ddefnyddio'r peiriannau parcio hyn, a chynhigiwyd y dylid rhoi sylw i wneud meysydd parcio yn fwy oed gyfeillgar wrth symud ymlaen. Mewn ymateb, gobeithiwyd y bydd y peiriannau newydd sy'n dod i'r meysydd parcio yn cynnig mwy o gysondeb i drigolion a bod ymgais i wneud y gwasanaeth yn fwy hygyrch.
- Tynnwyd sylw at y ffaith nad oes signal ffôn mewn nifer o ardaloedd, felly bod rhai pobl yn methu a thalu o ganlyniad.

## 10. CRONFA EFFAITH BALCHDER BRO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. R Medwyn Hughes

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i gyfeirio'r £1.5 miliwn sydd yn dod i Wynedd o Gronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DG i'r Cynlluniau a restrir yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Awdurdodwyd y Pennaeth Adran Economi a Chymuned, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Economi a'r Pennaeth Cyllid, i gadarnhau manylion y pecyn arfaethedig o gynlluniau i'w cefnogi, gan sicrhau trefniadau gweithredol yn unol â thelerau ac amodau'r Gronfa.

**TRAFODAETH**

Derbyniwyd cadarnhad ym mis Medi llynedd fod £1.5 miliwn wedi ei glustnodi i Wynedd o Gronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth DG. Esboniwyd mai cronfa gyfalaf yw hon sydd wedi ei rhaglennu ar gyfer cyfnod 2025/26 i 2026/27.

Ymhelaethwyd ar 3 prif amcan y Gronfa, sef adnewyddu mannau cymunedol, gwella mannau cyhoeddus, ac adfywio'r stryd fawr a chanol y dref.

Datganwyd bod amcanion y Gronfa yn cyd-fynd â'r Cynllun Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi, sydd o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28. Cyfeiriwyd at y fframwaith adfywio sydd o fewn y cynllun, a'r cynlluniau adfywio lleol sydd wedi eu datblygu ar gyfer 13 dalgylch ar draws y Sir.

Nodwyd bod Atodiad 1 yn cynnwys crynodeb o brosiectau adfywio sydd wedi sicrhau grantiau drwy'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio neu Wasanaeth Cefnogi Cymunedau yn ystod y cyfnod 2022/3 - 2025/6. Amlygwyd bod cyfanswm y grantiau sydd wedi eu gweinyddu yn £32m, gan gefnogi prosiectau gwerth £53m ar draws y Sir. Ychwanegwyd bod pecyn cynigion ar gyfer y Gronfa wedi ei gynnwys fel Atodiad 2.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cadarnhawyd bod tegwch ar draws y Sir yn flaenoriaeth, ac mai arian i Wynedd yw hwn.
- Holwyd pam fod rhai siroedd yn derbyn cyfanswm mwy o arian nac eraill. Mewn ymateb, amlygwyd nad proses ymgeisio oedd wrth wraidd hyn ac mai penderfyniad y Llywodraeth oedd pa siroedd oedd yn derbyn y gyfran uwch o arian. Cynigwyd y gall yr Arweinydd ysgrifennu at y Prif Weinidog er mwyn holi am eglurhad am y dyraniad hwn.
- Gofynnwyd am esiamplau o le y bydd yr arian hwn yn cael ei wario. Nodwyd y caiff hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiad a bod amryw o ffactorau yn cael eu hystyried wrth ddod i benderfyniad. Cyfeiriwyd at y prosiectau sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 2, gan nodi bod ymgais i ledaenu'r buddsoddiad ar draws y Sir. Cydnabuwyd nad yw'n swm sylweddol iawn, felly mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ei wario.

**11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Nia Jeffreys.

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.

## 12. CANOLFAN GWYDDONIAETH TRAWSFYNYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. R Medwyn Hughes.

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd y bwriad fod Cyngor Gwynedd yn:

• Arwain ar gais am nawdd Cytundeb Twf Gogledd Cymru i sefydlu Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Sgiliau a Busnes ar safle.

• Cymryd perchnogaeth dros yr adeilad newydd pan fydd wedi ei gwblhau ac yn cytuno les gyda thrydydd parti i redeg y ganolfan, pan yn briodol

• Ymrwymo £1m o arian cyfalaf Cyngor Gwynedd yn y cynllun ac ymrwymo i dargedu £1m o arian ychwanegol i'r ardal fel cyfraniad.

• Defnyddio hyd at £545,000 o arian NDA, Llywodraeth Cymru ac arian sydd wedi'i ymrwymo gan yr Adran eisoes i gyflawni'r camau nesaf hyd at ddylunio ac adeiladu.

• Negodi defnydd y tir sydd ei angen ar Safle Trawsfynydd gyda'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (perchnogion y Safle)

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yh a daeth i ben am 2:55yh.

**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cyfiawnder Trwy ein Dewrder: Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog perthnasol:** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10 Mawrth 2026 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Cymeradwyo a mabwysiadu y Cynllun Ymateb ar ei newydd wedd (Atodiad 1).

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Mabwysiadwyd y Cynllun Ymateb i droseddau gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn Ionawr 2025, ac mae wedi bod yn gynllun byw sydd wedi esblygu dros amser ers hynny. Dirprwywyd hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Arweinydd, yr Aelod Cabinet Plant a'r Aelod Cabinet Addysg, i wneud mân addasiadau golygyddol fel bo'r gofyn. Serch hynny, cydnabuwyd y byddai angen adolygu y Cynllun yn llwyr yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant.

2.2 Ar y 4ydd Tachwedd 2025, cyhoeddwyd 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder' ac mae'r Cynllun Ymateb bellach wedi ei ail-lunio yn dilyn hynny. Hwn yw'r newid mwyaf i'r Cynllun ers ei fabwysiadu.

2.3 Cyflwynwyd y Cynllun Ymateb ar ei newydd wedd i'r Bwrdd Ymateb ar 8 Rhagfyr, a chafwyd sylwadau a mewnbwn cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 13 Ionawr 2026, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Ionawr, y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Ionawr a'r Cyngor Llawn ar 5 Chwefror. Yn ogystal mae Grŵp Sicrwydd Gweinidogol wedi ei sefydlu gan y Gweinidog Addysg, Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol ac mae'r Arweinydd ac Aelodau Cabinet perthnasol yn mynychu ac yn adrodd ar gynnydd y Cynllun Ymateb bob yn ail fis – cyfarfu ddiwethaf ar yr 22ain o Ionawr.

2.4 Gofynnwyd i'r pwyllgorau graffu y canlynol gan nodi byddai argymhellion y pwyllgorau hynny yn cael eu cyfleu i'r cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn ar y 5ed Chwefror.

- Fod y Cynllun yn ymateb yn briodol a chyflawn i'r Adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder'.
- Ystyried y prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar unwaith.
- Cynghori ar ymdrin â dibyniaethau (e.e. aros am argymhellion rhanbarthol neu genedlaethol) a lliniaru risgiau posib.

2.5 Gofynnwyd i'r Cyngor Llawn am sylwadau pellach i'r Cabinet eu hystyried wrth fabwysiadu y Cynllun Ymateb.

## 3. Cyd-destun

3.1 Mabwysiadwyd y Cynllun Ymateb gwreiddiol gan y Cabinet ar 21 Ionawr 2025, gyda 4 ffrwd waith allweddol:

- Ffrwd Waith A – Cefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr
- Ffrwd Waith B – Sicrhau bod gennym y trefniadau diogelu gorau posib
- Ffrwd Waith C – Sefydlu, dysgu a gwella
- Ffrwd Waith Ch – Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars

3.2 Sefydlwyd Bwrdd Ymateb i graffu, herio a chynghori ar gyflawni cynnwys y Cynllun, wedi ei gadeirio yn annibynnol gan yr Athro Sally Holland. Mae Aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys nifer o sefydliadau statudol allanol fel sylwedyddion er mwyn herio a monitro cynnydd y Cynllun Ymateb, gan gynnwys Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Hefyd, cynrychiolaeth o Ysgol Friars (Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr), sector Uwchradd Gwynedd, Swyddogion y Cyngor, ynghyd ag Aelodau Cabinet o'r meysydd perthnasol i osod cyfeiriad gwleidyddol strategol y meysydd gwaith dan eu cyfrifoldeb tra hefyd yn craffu ar waith swyddogion a'u cefnogi.

3.3 Cyhoeddwyd yr adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar 4 Tachwedd, 2025. Cyn, ac ers hynny, mae'r gwaith wedi parhau i adolygu'r hyn sydd angen ei ymgorffori yng nghynllun Gwynedd wrth symud ymlaen gan gynnwys mynd i'r afael â'r themâu a'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad ac alinio â'r rhai a oedd eisoes yn rhan o'r cynllun ymateb (oedd yn cynnwys argymhellion o adroddiadau eraill hefyd).

3.4 Mae Atodiad 1 yn cynnwys copi o'r Cynllun Ymateb diwygiedig sy'n adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae'r rhain wedi'u nodi o dan 7 prif thema i gyd-fynd gyda themâu adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder:

- Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr
- Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant
- Hyfforddiant a Pholisïau
- Llywodraethu Ysgolion
- Arferion Cyfyngol
- Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng
- Ysgol Friars

3.5 Mae fersiwn hawdd i'w ddarllen o'r Cynllun Ymateb wedi ei gyflwyno yn Atodiad 2.

3.6 Cyflwynir rhaglen waith manwl i gyfarfodydd y Bwrdd Ymateb a gan fod hwn bellach wedi tyfu mewn maint cyflwynir hefyd adroddiad trosolwg ar gyfer pob un o'r 7 thema unigol, gan gynnwys diweddariad ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers cyfarfod blaenorol y Bwrdd a nodi beth fydd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y cyfnod nesaf.

3.7 Ynghlwm i'r adroddiadau cynnydd ar gyfer y 7 thema, mae Rhaglen Waith manwl yn cael ei gyflwyno i Aelodau y Bwrdd Ymateb i roi cyfle iddynt herio'r manylder. Mae'r rhaglen waith hwn yn cynnwys argymhellion a chamau gweithredu o'r adroddiad Cyfiawnder trwy ein Dewrder, y Cynllun Ymateb gwreiddiol a chamau ychwanegol eraill sydd wedi eu hadnabod.

3.8 Cyflwynwyd gopi or adroddiadau trosolwg a rhaglen waith fanwl er gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu Gofal, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Cyngor Llawn ac mae holl ddogfennau y Bwrdd Ymateb bellach yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

3.9 Er mwyn sicrhau ac olrhain cynnydd yn effeithiol, mae cyfres o fesurau perfformiad clir yn cael eu cymhwyso ar draws pob un o saith thema'r Cynllun Ymateb. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys dangosyddion meintiol (megis derbyn hyfforddiant, a gwiriadau cydymffurfio) ac asesiadau ansoddol (megis adborth gan fforymau ieuenctid, arolygon rhieni a staff, ac arolwg AGC ac Estyn). Bydd monitro rheolaidd yn erbyn y mesurau hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Ymateb adnabod meysydd cyflawni a'r rhai sydd angen ffocws ychwanegol, gan sicrhau bod gwelliannau yn cael eu cynnal ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau diogelu.

**4. Argymhellion y Pwyllgorau Craffu Gofal ac Addysg ac Economi, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Llawn**

4.1 Cafwyd nifer o argymhellion gwerthfawr gan y Pwyllgorau a'r Cyngor ac maent wedi eu hystyried yn llawn gan y Cabinet (Atodiad 3).

4.2 Mae'r holl sylwadau wedi eu hystyried gan arwain at addasu'r Cynllun Ymateb cyn ei gyflwyno heddiw, neu ychwanegu at raglen waith y Cynllun Ymateb gan gynnwys:

- Nodi na fyddai'r drws yn cau petai dioddefwyr yn dymuno derbyn pecyn cefnogaeth i'r dyfodol
- Cyfeiriad at arolwg Estyn yn 2023 wedi ei dynnu
- Wedi ychwanegu 'lles' plant a phobl ifanc i ddisgrifiad o ffrwd gwaith 7 – cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars.
- Ychwanegwyd i ran 2.4 o'r Cynllun Ymateb i roi mwy o gyd-destun ynghylch ymchwiliad i ddigwyddiadau 2019.
- Rhoi sylw i lais y teulu yn ogystal a llais y plentyn mewn trefniadau diogelu fel rhan o ffrwd gwaith 1
- Ychwanegu enw cyswllt benywaidd allanol i bosteri rhannu gwybodaeth am bryderon a sicrhau bod manylion cyswllt ar gael ar wefannau ysgolion a gwefan y Cyngor, a sicrhau fod ffurflenni cyfeiriadau diogelu yn cael eu dosbarthu yn ehangach nac i benaethiaid a chadeiryddion Llywodraethwyr yn unig.
- Nifer o addasiadau yn ymwneud â hyfforddi, grymuso a newid ymddygiad ar bynciau megis meithrin perthnasoedd amhriodol 'grooming' a defnydd o rym rhesymol
- Cyflwyno trefniadau i fesur fod hyfforddiant yn newid ymddygiad a phenderfyniadau yn ymarferol
- Mae dogfen hawdd i'w ddarllen o'r Cynllun Ymateb a dogfen syml er mwyn amlygu beth sydd wedi newid erbyn heddiw wedi ei ddatblygu (Atodiad 2).
- Trefniadau mesur sut mae llais y plentyn a phrofiad dioddefwyr yn dylanwadu ar benderfyniadau a chanlyniadau fel rhan o Ffrwd Gwaith 1.
- Sylw priodol i blant sy'n wynebu heriau ac osgoi rhagfarn diarwybod

- Ystyried addasrwydd oedolion i weithio gyda phlant ac oedolion bregus fel rhan o drefniadau diogelu
- Mae awdit o honiadau rhan 5 eisoes wedi ei ymestyn i gyfnod pum mlynedd
- Adolygu trefniadau i wirio cofnodion diogelu
- Sicrhau tryloywder drwy ryddhau cymaint o wybodaeth a phosib

**5. Gweithredu a threfniadau llywodraethu**

5.1 Y Bwrdd Ymateb sydd yn herio a monitro cyflawni y Cynllun Ymateb.

5.2 Sefydlwyd Bwrdd Ymateb i graffu, herio a chynghori ar gyflawni cynnwys y Cynllun, wedi ei gadeirio yn annibynnol gan yr Athro Sally Holland. Mae Aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys nifer o sefydliadau statudol allanol fel sylwedyddion er mwyn herio a monitro cynnydd y Cynllun Ymateb, gan gynnwys Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Hefyd, cynrychiolaeth o Ysgol Friars (Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr), sector Uwchradd Gwynedd, Swyddogion y Cyngor, ynghyd ag Aelodau Cabinet o'r meysydd perthnasol i osod cyfeiriad gwleidyddol strategol y meysydd gwaith dan eu cyfrifoldeb tra hefyd yn craffu ar waith swyddogion a'u cefnogi.

5.3 Cyflwynir adroddiad cynnydd Cadeirydd y Bwrdd Ymateb i Gabinet yn chwarterol, gan gynnwys y cyfarfod hwn.

**6. Adnoddau i weithredu'r Cynllun**

6.1 Flwyddyn yn ôl wrth fabwysiadu'r Cynllun Ymateb gwreiddiol, amlygwyd fod y dasg o ymateb i'r holl sefyllfa hon wedi ei ysgwyddo ar nifer fechan o swyddogion ac mae'n deg dweud fod hynny wedi arwain at faich sylweddol tra'n ceisio parhau i gyflawni eu gwaith dydd i ddydd yn ogystal.

6.2 Tra bod adnoddau ychwanegol wedi eu cyfeirio at weithredu y Cynllun Ymateb, dylid nodi fod llawer o'r gwaith yn parhau yn gyfrifoldeb ar swyddogion penodol ac mae wedi golygu fod risgiau mewn llefydd eraill yn parhau wrth i rai o brif faterion y Cyngor orfod derbyn blaenoriaeth is.

6.3 Rydym yn ffodus iawn o dderbyn grant dros dro gan Lywodraeth Cymru i ariannu nifer o'r ymyraethau sydd wedi bod eu hangen yn yr ysgol ei hun, ac rydym yn gosod £600k ychwanegol yn ein cyllideb ar gyfer flwyddyn nesaf er mwyn gweithredu ar nifer o argymhellion Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

6.4 Mae gofynion i ymateb i Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder yn parhau i gynyddu a byddwn yn adolygu sefyllfa adnoddau yn rheolaidd i sicrhau digon capasiti digonol ar gyfer y flaenoriaeth hwn.

**7. Ystyriaethau eraill**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

7.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda

cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Paratowyd y cynllun o fewn egwyddorion y Ddeddf a'r 5 ffordd o weithio.

7.2 Yn y Cynllun Ymateb newydd, rydym wedi ystyried yr hirdymor drwy sefydlu rhaglen waith aml-flwyddyn sy'n cryfhau'r saith ffrwd (e.e. llais y plentyn, hyfforddiant a pholisïau, llywodraethu ysgolion, a chynllunio ac ymateb i argyfwng) ac yn sicrhau adolygiad parhaus, fel y bydd anghenion pobl yn y blynyddoedd i ddod – megis cefnogaeth barhaus i ddioddefwyr, gwasanaethau trawma-wybodus, fersiynau 'hawdd i ddeall' i blant, a seilwaith diogelu cadarn sy'n addasu wrth i risgiau newid – yn cael eu diwallu'n gynaliadwy.

**Ymgynghori**

7.3 Ymgynghorwyd yn eang wrth ddatblygu'r Cynllun Ymateb er mwyn derbyn mewnbwn o sawl cyfeiriad gan gynnwys

- Cadeirydd yr adolygiad ymarfer plant
- Comisiynydd y Plant
- Estyn
- Arolygaeth Gofal Cymru
- RASASC
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau Cabinet
- Swyddogion Cyngor Gwynedd

7.4 Mae ystod eang o asiantaethau yn aelodau neu yn sylwedyddion annibynnol o sefydliadau statudol cenedlaethol ar y Bwrdd Ymateb sydd yn werthfawr o ran derbyn mewnbwn ac arbenigedd sectorau gwahanol.

7.5 Mae cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth wedi ymgynghori â hwy megis cynrychiolwyr sector ysgolion yng Ngwynedd.

7.6 Yn ogystal â hynny, ar gais yr Arweinydd yng nghyfarfod y Cabinet ar 11 Tachwedd 2025, mae Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd Ymateb ar hyn o bryd yn ystyried y dull mwyaf priodol o gynnwys llais dioddefwyr yn y gwaith.

**Cydweithio**

7.7 Mae cydweithio yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun hwn a drwy law y Bwrdd Ymateb rydym yn cydweithio gyda'r holl asiantaethau sydd yn ran ohono. Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd bob yn ail fis ac mae cyswllt cyson rhyngom. Bydd cydweithio gyda'r holl asiantaethau hyn, yn ogystal ac eraill megis yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd ac Awdurdodau Lleol eraill yn allweddol i lwyddiant ein Cynllun Ymateb

7.8 Datblygwyd y Cynllun Ymateb yn y lle cyntaf er mwyn gwneud popeth o fewn ein gallu fel na fydd unrhyw un yn dioddef yn yr un modd eto. Mae'r Cynllun yn cynnwys mesurau rhagweithiol megis monitro parhaus, adolygiadau rheolaidd, hyfforddiant staff, a chydweithio â phartneriaid i nodi risgiau'n gynnar, er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol.

7.9 Mae nifer helaeth o argymhellion adroddiad 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder' yn argymhellion rhanbarthol a chenedlaethol, neu i bob Awdurdod Lleol. Rydym eisoes wedi datgan ein parodrwydd i fod yn gweithredu cyn unrhyw newid ar lefel

rhanbarthol neu genedlaethol a'n awydd i fod yn gweithio gyda cyrff eraill megis Llywodraeth Cymru er mwyn peilota ar gynllun neu ganllaw newydd pe dymunir.

**Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

7.10 Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Y Ddeddf") (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol Bydd yn Cynllun yn cael ei gyflawni gan gyfarch ein dyletswyddau dan y Ddeddf a'n cyfrifoldebau dan Fesur Iaith ( Cymru) 2011. Rydym fodlon ei fod yn gydnaws a'n dyletswyddau.

7.11 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wedi'i baratoi (Atodiad 4). Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn dod i'r casgliad bod effaith gadarnhaol sylweddol i'r Cynllun Ymateb (dim effeithiau negyddol wedi'u nodi). Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y cynllun drwy gamau pendant megis hyfforddiant trawma-wybodus, llwybrau adrodd hygyrch a dwyieithog, polisi "Llais y Plentyn", cryfhau llywodraethiant a monitro parhaus gan y Bwrdd Ymateb a'r fforymau craffu

## 8. Camau nesaf

8.1 Bydd cynnydd ffrydiau gwaith y Cynllun Ymateb yn parhau i gael ei fonitro gan y Bwrdd Ymateb bob yn ail fis hyd nes bod yr holl gamau gweithredu y cynllun ymateb wedi gwreiddio neu yn cael sylw o fewn cyfundrefn herio perfformiad yr Awdurdod a bod aelodau'r Bwrdd yn fodlon bod tystiolaeth mewn perthynas â'r mesurau effaith a restrir yn dangos effeithiolrwydd y camau gweithredu hyn.

8.2 Bydd y Cabinet yn parhau i dderbyn adroddiad cynnydd chwarterol gan Gadeirydd Annibynnol y Bwrdd Ymateb, yr Athro Sally Holland

8.3 Mae cytundeb gyda'r Pwyllgor Craffu Gofal, y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn craffu ar y cynnydd ymhen 6 mis.

## 9. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 9.1 Prif Swyddog Cyllid

Bydd nifer o'r camau gweithredu sy'n ymddangos yn y Cynllun Ymateb yn cael eu cyflawni gan wasanaethau o fewn eu cyllidebau. Ar y llaw arall, bydd camau eraill yn gofyn am adnoddau ychwanegol, bod yn barhaol neu ar sail un-tro. Mae'r costau parhau ychwanegol wedi cael eu hystyried wrth lunio cyllideb 2026/27 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 5 Mawrth, ac mae bidiau un-tro yn destun eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma sy'n cynnwys ystyried cais am arian ychwanegol i ymdrin â chostau unwaith ac am byth Cyfiawnder Drwy ein Dewrder. Fel rwyf wedi adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flaenorol, rwyf yn fodlon na fydd ystyriaethau ariannol yn rwystr rhag cyflawni'r cynllun gweithredu

### 9.2 Swyddog Monitro

Mae'r Cynllun Ymateb diwygiedig yn ymateb cynhwysfawr i'r adroddiad AYP a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025. Cynhaliwyd proses graffu eang o’r Cynllun diwygiedig ac adroddir ar hyn yn briodol yn yr adroddiad. Mae’r canfyddiadau ac argymhellion wedi eu hadlewyrchu a’u gweithredu yn helaeth o fewn y Cynllun sydd yn adlewyrchu gwerth a chyfraniad ar draws holl aelodaeth y Cyngor. Mae’r cynllun diwygiedig yn ddogfen gorfforaethol sydd yn cynrychioli rhaglen gynhwysfawr ac yn gymesur a’r her a’r disgwyliad ar y Cyngor i gyflawni newidiadau angenrheidiol. Rwy’n cefnogi y penderfyniad a geisir a priodoldeb y Cynllun Gweithredu.

**Rhestr Atodiadau:**

**Atodiad 1:** Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder: Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd

**Atodiad 2:** Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder: Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd (fersiwn hawdd i’w ddarllen)

**Atodiad 3:** Penderfyniadau y Pwyllgorau Craffu Gofal, ac Addysg ac Economi, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’r Cyngor Llawn

**Atodiad 4:** Asesiad Cydraddoldeb

# Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder- Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd

*"Ni allwn am eiliad anghofio am y rhai pwysicaf yng nghanol hyn, sef y plant a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol. Holl bwrpas pob cam sy'n cael eu cymryd gennym yw gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto a dyna ddylai fod ar frig ein hystyriaethau pob amser."*

Rhagfyr 2024

Fersiwn 2. Tachwedd 2025

# Cynnwys


1. Crynodeb o'r cefndir
2. Datganiad o safbwynt y Cyngor
3. Adolygiad Ymarfer Plant – Tachwedd 2025
4. Amcanion y Cynllun Ymateb hwn
5. Sut ydym yn bwriadu mynd ati i gyflawni ein amcanion?
6. Ffrydiau gwaith y Cynllun Ymateb i Droseddu
    - Ffrwd Gwaith 1 – Llais y plentyn a chefnogi dioddefwyr
    - Ffrwd Gwaith 2 - Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy’n gweithio gyda phlant
    - Ffrwd Gwaith 3 – Hyfforddiant a Pholisïau
    - Ffrwd Gwaith 4 - Llywodraethiant Ysgolion
    - Ffrwd Gwaith 5 - Grym Rhesymol
    - Ffrwd Gwaith 6 - Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng
    - Ffrwd Gwaith 7 – Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars
7. Ymchwiliadau Pellach
8. Perchnogaeth a threfniadau llywodraethu’r Cynllun
9. Cynllun cyfathrebu

## 1. Crynodeb o'r cefndir

Cafodd Neil Foden, cyn-brifathro Ysgol Friars ym Mangor, ei arestio ar y 6ed o Fedi, 2023, yn ei weithle yn dilyn datgeliad gan un o'r dioddefwyr. Roedd yn wynebu 19 cyhuddiad, gan gynnwys 12 cyhuddiad o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn a dau gyhuddiad o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn tra roedd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Roedd yr achos troseddol yn ymwneud â phum merch dros gyfnod o bedair blynedd.

Ym mis Mai 2024, ar ôl gwrandawiad tair wythnos yn Llys y Goron yr Wyddgrug, cafwyd y troseddwr yn euog. Ar 1 Gorffennaf, 2024, cafodd ei ddedfrydu i 17 mlynedd yn y carchar.

Yn dilyn ei euogfarn, sefydlodd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru Adolygiad Ymarfer Plant (Child Practice Review - CPR) o dan Gadeirydd Annibynnol, Jan Pickles, i sefydlu amgylchiadau yr holl fater, canfod gwersi ac atal achosion tebyg yn y dyfodol.

Rhwng Medi 2023 a'r achos llys, roedd yr ymchwiliadau i'r honiadau yn erbyn y troseddwr yn cymryd lle. Roedd hwn yn ymchwiliad troseddol oedd yn cael ei arwain gan yr Heddlu. Gyda nifer o honiadau hanesyddol, roedd rhai o'r dioddefwyr a goroeswyr bellach yn oedolion a felly'r ymholiadau am droseddau yn cael eu cynnal gan yr Heddlu yn unig. Ar gyfer honiadau lle roedd y dioddefwyr a goroeswyr yn blant ar hyn o bryd, roedd yr ymchwiliadau yma eu cynnal yn unol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2020. Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau a cyd-ymchwiliadau rhwng Gwasanaethau Plant a'r Heddlu.

Yn unol ag ymarfer da mewn ymchwiliadau o'r fath, roedd yn allweddol nad oedd unrhyw weithredu yn ystod yr ymchwiliad troseddol allai danseilio gallu'r Heddlu i ymchwilio i drosedd. Cynhaliwyd yr ymchwiliadau yn ystod y cyfnod yn unol â Rhan 3 a Rhan 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru 2020. Arweiniodd y Cyngor ar y prosesau dan Rhan 5 o'r Gweithdrefnau i reoli a cymedroli gweithgareddau'r ymchwiliad.

Yn dilyn yr euogfarn gan y Llys, yn Mehefin 2024, bu i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ddatgan yn syth eu bod yn agor Adolygiad Ymarfer Plant. Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) yn gorff statudol o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'u cyfrifoldeb yw cydgysylltu, monitro a herio ei asiantaethau partner wrth ddiogelu plant yng Ngogledd Cymru.

Amcanion BDPGC yw:

- **AMDDIFFYN** plant yn ei ardal sydd, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu brofi mathau eraill o niwed ar hyn o bryd, ac

- **ATAL** plant sydd, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, rhag cael eu hesgeuluso neu brofi math arall o niwed.

Mae'r BDPGC yn nodi mai ei swyddogaeth yw gwneud "Diogelu yn fusnes i bawb". Yr asiantaethau partner yw'r chwe awdurdod lleol ar draws y rhanbarth (Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmni Ail sefydlu Cymunedol.

Penododd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gadeirydd i arwain y CPR, Jan Pickles, unigolyn profiadol iawn sydd wedi bod yn arwain adolygiadau proffil uchel o'r natur hwn ac yn arbenigo ar faterion diogelu plant ers blynyddoedd (manylion pellach yn rhan 5 isod). Bu i Jan Pickles ymweld ag Aelodau'r Cyngor ar 11eg o Orffennaf 2024 er mwyn amlinellu'r gwaith oedd o'i blaen a'r drefn o gyflawni'r gwaith hwnnw. Heb amheuaeth fe arweinir y CPR gan unigolyn profiadol, arbenigol ac angerddol yn y maes ac rydym fel Cyngor yn falch o hynny.

Rydym wedi elwa yn fawr o gyngor ac arweiniad Jan Pickles dros y misoedd diwethaf. Mae CPR o natur mor ddifrifol a chymhleth â hyn yn ddieithr i ran helaeth swyddogion ac Aelodau Cyngor Gwynedd ac rydym yn troedio tir newydd yn ddyddiol. Mae'r sefyllfa hon yn gwbl ddigynsail ac felly mae cael cyngor arbenigwraig gydnabyddedig wedi bod yn amhrisiadwy.

Y bwriad yn wreiddiol oedd i'r CPR anelu i ddod gasgliadau ymhen oddeutu 6 mis, sef yr amserlen arferol ar gyfer CPR. Fodd bynnag, bu i faint yr Adolygiad gael ei ymestyn gryn dipyn ers hynny a'i gylch gorchwyl yn ehangach a mwy trylwyr. Yn sicr, nid yw'n CPR arferol ac roedd y cylch gorchwyl yn gosod disgwyliad ar yr ymchwilwyr i ystyried digwyddiadau yn ôl hyd at 2017 (dwy flynedd cyn yr arestio fyddai'n arferol). Roedd hynny i'w groesawu ac yn naturiol bu'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith orfod cael ei hymestyn hefyd. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol, Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, ym mis Tachwedd 2025 ac yn sgil hynny adolygwyd a diweddarwyd y cynllun hwn er mwyn adlewyrchu casgliadau yr adroddiad.

Ystyriwyd ar y pryd mai'r CPR yn y lle cyntaf oedd yn y sefyllfa orau i ystyried yr holl ffeithiau a dod i gasgliadau ystyrlon. O'r herwydd, nid oeddem am gynnal adolygiad neu ymchwiliad ein hunain na fyddai'n cael ei weld cystal â CPR, neu yn taflu unrhyw gysgod ar ein hymddiriedaeth ym mhroses statudol ac annibynnol y CPR. O ganlyniad, ni fu i'r Cyngor gynnal adolygiadau ffurfiol neu ein ymchwiliadau ein hunain rhwng Mehefin a Hydref. Wedi dweud hynny, fel yr amlinellir yn y Cynllun Ymateb hwn, ni wnaeth hyn ein hatal rhag cyflawni sawl cam i sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol i'r sefyllfa.

Yn dilyn trafodaethau gyda Cadeirydd y CPR yn ystod yr hydref 2024, daethpwyd i'r casgliad ei bod yn briodol erbyn hynny i'r Cyngor symud yn gynt gyda rhai agweddau o'n hymateb yn hytrach nag aros tan gasgliadau y CPR i wneud unrhyw ymchwiliadau ein hunain, am nifer o resymau gan gynnwys:

- y newid yn amserlen y CPR er mwyn ehangu sgôp y gwaith,
- mae'r gwaith sylweddol o gasglu a chyflwyno tystiolaeth y Cyngor i ymchwilwyr yr Adolygiad bellach wedi ei orffen,
- gwybodaeth newydd oedd yn dod i'r amlwg wrth i amser fynd rhagddo nad oeddem yn ymwybodol ohono ar y cychwyn,
- y sylw sylweddol gan y cyfryngau torfol, ar y gwefannau cymdeithasol a'r diddordeb cyhoeddus yn yr achos wedi arwain at ganfyddiadau na wyddom os ydynt yn gywir a'i peidio.

Mae'r Ymchwiliadau ac Adolygiadau hynny wedi eu cwblhau, ac mae'r amrywiol gasgliadau ac argymhellion sy'n deillio o'r ymchwiliadau ac adolygiadau hyn wedi eu hychwanegu i'n cynllun a bydd y Bwrdd Ymateb yn monitro cynnydd y gweithredu. Rydym wedi datgan yn glir o'r cychwyn y byddwn yn cofleidio'r holl argymhellion o bob ymchwiliad ac yn eu gweithredu'n llawn ac yn ddi-oed. Yn ogystal, bydd ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal lle bo angen, er mwyn sicrhau bod pob agwedd yn cael ei hystyried yn drylwyr.

Mae'r Cynllun Ymateb hwn yn esbonio beth fyddwn yn ei wneud er mwyn ceisio cyflawni ein amcanion yng nghyswllt hyn oll, ac yn arbennig felly yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder'.

## 2. Datganiad o safbwynt y Cyngor

Cyn nodi ein amcanion, mae’n bwysig fod y Cyngor yn datgan ei safbwynt yn gwbl glir.

Mae gweithredoedd y troseddwr wedi cael effaith ddofn ac ysgytwol ar y dioddefwyr a goroeswyr, eu teuluoedd, yr ysgol, y gymuned, staff ac Aelodau’r Cyngor a’r sir gyfan.

Hanfod Cynllun Ymateb fel hwn yw ei fod yn ffurfiol ei natur, gan ei fod yn cyfeirio at nifer o faterion trefniadaethol. Ond, ni allwn am eiliad anghofio am y rhai pwysicaf yng nghanol hyn, sef y plant a phobl ifanc a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol. Holl bwrpas y Cynllun Ymateb hwn a phob cam sy’n cael eu cymryd gennym yw gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto, a dyna ddylai fod ar frig ein hystyriaethau pob amser.

Fel corff cyhoeddus cyfrifol mae’r Cyngor yn datgan a chydnabod fod y troseddau a gyflawnwyd yn atgas ac yn hunllefus i’r holl ddioddefwyr a goroeswyr. Rydym yn dymuno ymddiheuro i bob dioddefwr ac yn dymuno rhoi gwarant y byddwn yn rhoi o’n gorau i ganfod y ffeithiau i gyd ac yn cofleidio pob gwers sydd angen ei dysgu er mwyn gwella er lles cenedlaethau’r dyfodol.

Byddwn yn blaenoriaethu ein adnoddau i ymateb i gasgliadau pob ymchwiliad sydd eisoes wedi eu cwblhau gennym ni fel Cyngor a’r CPR statudol. Byddwn yn cydweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru ac rydym wedi ei gwahodd i gynnig mewnbwn a chyngor ar ein holl weithredu.

Yn ogystal â’r CPR, mae’r Cyngor hefyd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus i’r holl amgylchiadau ynghlwm â’r troseddu difrifol hwn. Llywodraeth Cymru sydd â'r grym statudol i sefydlu Ymchwiliadau Cyhoeddus.

Ein dyhead yw troi pob carreg, bod yn gwbl agored a thryloyw. Fel arall, bydd yn amhosib i ni gyflawni ein amcanion yn effeithiol.

## 3. Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant – Tachwedd 2025

Fel nodwyd yn rhan gyntaf y Cynllun hwn, bu i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru sefydlu Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) yn syth wedi dyfarniad y llys a bu i'r Cyngor ddatgan eu cefnogaeth lwyr i'r Adolygiad ac ymrwymo i wneud popeth posib i'r gefnogi yn ogystal a gweithredu'r holl argymhellion yn syth. Mae sefydlu CPR yn gam arferol ym mhob achos lle mae camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd ac mae plentyn wedi marw neu goddef niwed arwyddocaol.

Roedd Cadeirydd y CPR, Jan Pickles, yn unigolyn profiadol tu hwnt sydd wedi bod yn arwain adolygiadau proffil uchel o'r natur hwn ac yn arbenigo ar faterion diogelu plant ers blynyddoedd maith. Mae yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig gyda phrofiad helaeth gyda'r Gwasanaeth Prawf, yr Heddlu a'r NSPCC. Mae hi'n gyn-Swyddog Diogelu Dynodedig yng Nghyngor San Steffan ac yn gyn Gomisiynydd yr Heddlu cynorthwyol yn Ne Cymru. Bu'n aelod o Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru am 6 mlynedd, hyd at Mai 2022.

Ymysg ei gwaith diweddar, roedd Jan Pickles wedi arwain a chymryd rhan mewn sawl ymchwiliad uchel ei broffil, gan gynnwys cadeirio CPR i achos trist Logan Mwangi ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hi yw awdur yr adolygiad i achosion hanesyddol o gam-drin plant yng Ngholeg Winchester a bu iddi gadeirio adolygiad mewn Ysgol flaenllaw yn Llundain a gweithio fel rhan o'r adolygiad i achosion hanesyddol (o'r 1970au) o gam-drin plant yn rhywiol yng nghlwb pêl-droed Chelsea. Mae hefyd newydd gwblhau adolygiad annibynnol o achosion hanesyddol o gamdriniaeth plant ym mynachdy Ynys Bŷr.

Cefnogwyd y Cadeirydd gan ddau ymchwilydd annibynnol, Jane Foster ac Anna Henderson, sy'n brofiadol mewn gwaith o'r natur hwn. Bu i'r ymchwilwyr, gasglu tystiolaeth yn dilyn proses strwythuredig gyda'r cam cychwynnol yn canolbwyntio ar gyfarfod y dioddefwyr a goroeswyr a threulio amser yn yr Ysgol, cyfarfod gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol ac aelodau o'r cyhoedd sydd â gwybodaeth y teimlant y bydd yn cefnogi'r broses adolygu.

Cyflwynwyd llinellau amser, cronolegau a dadansoddiadau gan 14 asiantaeth, a bu'r Arolygwyr yn yr Ysgol ym mis Gorffennaf 2024 – treuliwyd naw diwrnod ar y safle i gwrdd â dros 80 aelod staff a chyfweld 60 arall dros gyfnod yr adolygiad.

Mae'r Panel Adolygu wedi canolbwyntio ar faterion allweddol megis ymddygiad y troseddwr ac ymddygiad proffesiynol. Mae trefniadau llywodraethu a rheoli datgeliadau hefyd wedi ei gynnwys yng nghwmpas yr adolygiad.

Roedd yr asiantaethau canlynol yn rhan o'r Adolygiad

- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Ynys Môn
- Cyngor Conwy
- Heddlu Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru

Bu i'r holl dystiolaeth sydd ym mherchnogaeth pob asiantaeth ei gasglu ynghyd a'i gyflwyno i'r Ymchwilwyr i greu un linell amser fanwl o'r holl ddigwyddiadau perthnasol.

Mewn ymateb i'r sefyllfa a oedd yn datblygu bu i ni ddefnyddio ymgynghorydd allanol i adnabod achosion plant a staff a oedd yn gysylltiedig â Ysgol Friars a llunio cronoleg cychwynnol gyda’r bwriad i adnabod unrhyw fater a oedd angen sylw brys. Cyflwynwyd y wybodaeth yma yn ei gyfanrwydd i'r CPR.

Adolygwyd y Cylch Gorchwyl  yn rheolaidd gan y Panel Adolygiad Ymarfer Plant, er mwyn adlewyrchu unrhyw bryderon newydd yr oedd yr adolygiad yn eu canfod. Cyhoeddwyd y cylch gorchwyl terfynol ar wefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ([Terms-of-reference-extended-child-practice-review-21.05.25.pdf]).

Yr oedd Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd i Uned Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynnydd yr adolygiad, a cyhoeddwyd yr adolygiad yn Nhachwedd 2025.

Bu i’r Cyngor hefyd gyfarfod Cadeirydd y Panel yn rheolaidd i dderbyn diweddariadau am y broses ganddi drwy gydol cyfnod yr adolygiad ac mae rhannu gwybodaeth y ddwy ffordd wedi digwydd yn rheolaidd ac effeithiol.

## Cyhoeddi’r Adolygiad Ymarfer Plant – ‘Cyfiawnder trwy ein Dewrder’

Ar y 4ydd o Dachwedd 2025, ddwy flynedd ar ôl arestio y troseddwr a ddeunaw mis ar ôl ei ddedfrydu a chychwyn yr Adolygiad, cyhoeddwyd adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant ‘Cyfiawnder Trwy ein Dewrder’. Mae'r adroddiad yn feirniadol iawn o sawl sefydliad, yn arbennig y Cyngor hwn ag Ysgol Friars. Mae'r Adolygiad wedi canfod nifer sylweddol o gyfleon a gollwyd ac roedd yn codi nifer o gwestiynau am addasrwydd penderfyniadau ar hyd y blynyddoedd. Mae’r adroddiad yn cynnig nifer o argymhellion, ar lefel lleol a rhanbarthol, ond hefyd ar lefel genedlaethol. Mae’r adroddiad yn arbennig o feirniadol nad yw argymhellion o adolygiad Clywch (2004) wedi cael eu gweithredu’n genedlaethol a bod nifer fawr o’r argymhellion hynny’n gorfod cael eu hailadrodd yn adroddiad y CPR hwn.

Rhannwyd ddatganiad ar ran y Cyngor yn gyhoeddus ar brynhawn y cyhoeddi:

> *“Mae’r cyfrifoldeb am nifer o’r methiannau sy’n cael eu rhestru yn yr adroddiad hwn yn gorwedd gyda Chyngor Gwynedd, ac rydym yn ymddiheuro’n gwbl ddidwyll am hynny.*
>
> *Er mor boenus ydi’r adroddiad i’w ddarllen, rydan ni’n ei groesawu, yn derbyn yr holl gasgliadau ac argymhellion ac yn rhoi addewid y byddwn yn parhau i roi ein holl egni i ymateb fel y byddai pobl Gwynedd yn ei ddisgwyl ohonom.*
>
> *Ddwy flynedd a rôl yr arestio, mae hefyd yn rhyddhad i allu trafod y mater hwn yn agored. Heddiw, wrth i ni weld holl ddarnau’r hanes torcalonnus hwn ynghyd am y tro cyntaf, mae’n **rhaid** i ni gofio’n bennaf am y rhai a ddioddefodd, ac a oroesodd. Plant a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol ond a gafodd eu bradychu. Rydym unwaith eto yn talu teyrnged, ac yn datgan ein hedmygedd, o’ch dewrder chi am sefyll yn erbyn bwli a phedoffeil.*
>
> *Rydym yn ymddiheuro eto o waelod calon i bob un ohonoch chi. Ddylech chi ddim fod wedi gorfod dioddef wrth law dyn yr oedd gennych hawl i ymddiried ynddo. Mae eich cryfder chi yn ein gyrru i ni i sicrhau gwelliant.*

*Mae'r adroddiad yn adnabod bod cyfleon wedi eu colli ar lawer gormod o achlysuron, a bod ein hymateb ni – fel un o'r sefydliadau ddylai fod wedi gweithredu i rhwystro troseddwr – wedi methu. Roedd ganddo ni yma, Bennaeth ysgol a ddylai fod wedi rhoi lles a diogelwch plant ar frig ei flaenoriaethau, ond fe droseddodd yn ddifrifol yn eu herbyn.*

*Dyma ddyn oedd wedi portreadu ei hun fel addysgwr cyfrifol ar lefel lleol a chenedlaethol, o fewn yr undebau a'r cyfryngau. Ond fe dwyllodd nifer o staff ei ysgol, y Cyngor a sefydliadau eraill, disgyblion a rhieni oedd wedi ymddiried ynddo.*

*Mae'r adolygiad hwn yn rhoi'r ddealltwriaeth gliriaf bosibl i ni o'r hyn a aeth o'i le, a sut mae'n rhaid i ni ei gywiro. Mae cyhoeddi'r adroddiad yn arf holl bwysig wrth fynd ati i wella.*

*Mae'r Athro Sally Holland, cyn-Gomisiynydd Plant Cymru yn cadeirio Bwrdd Ymateb y Cyngor ac mae wedi adrodd ein bod ni eisoes wedi gwneud cynnydd wrth weithredu nifer o welliannau. Ond mae gwaith mawr eto o'n blaen, a bydd yr Athro Holland a phob sefydliad arall sydd ar ein Bwrdd, yn parhau i'n herio ni'n dryloyw.*

*Mae'n rhy hwyr i ddadwneud y boen sydd wedi ei achosi, ond mae cyfrifoldeb ar nifer ohonom i weithredu i wella'n lleol. Ond mae angen gweithredu ar lefel cenedlaethol hefyd.*

*Mae cynifer o argymhellion o sawl ymchwiliad mawr drwy'r wlad wedi eu gwneud dros y blynyddoedd, ond dydyn nhw ddim wedi arwain at newid.*

*Gobeithio bydd pawb yn gweld casgliadau'r adroddiad hwn fel yr eiliad i drawsnewid gweithdrefnau diogelu plant drwy Gymru, ac i geisio sicrhau fod pob plentyn yn ddiogel – lle bynnag maen nhw'n byw, a pha bynnag ysgol mae nhw'n fynychu.*

*Mae ein diolch i Jan Pickles a'i thîm, am eu gwaith di-flino dros gyfnod o ddeuddeg mis. Maen nhw wedi llwyddo i fynd ymhell y tu hwnt i'r hyn a welir mewn adolygiadau arferol.*

*Wrth gloi, dwi ddim am ymddiheuro am fynd yn ôl at y bobl bwysicaf – y plant a ddylai fod wedi bod yn ddiogel yn eu hysgol. Holl bwrpas yr adroddiad hwn yw sicrhau bod unigolion a sefydliadau cyhoeddus yn gwneud popeth posib i geisio sicrhau na fydd* ***unrhywun*** *yn dioddef yn yr un modd fyth eto.*

*Mewn sefyllfaoedd lle mae sefydliad dan y chwyddwydr, mae tuedd weithiau i fod yn amddiffynnol. Dwi'n addo heddiw* ***na fydd*** *Cyngor Gwynedd yn gwneud hynny. Fyddwn ni ddim yn cuddio o'n cyfrifoldeb i wneud popeth sydd ei angen i ddiogelu plant heddiw ac i'r dyfodol."*

Yn dilyn cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, adolygwyd y cynllun hwn i sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol i'r argymhellion a nodwyd. Roedd y bwriad i adolygu'r Cynllun yn dilyn cyhoeddi'r CPR wedi ei ddatgan yn glir o'r chychwyn.

## 4. Amcanion y Cynllun Ymateb hwn

Mae saith prif amcan wedi eu hadnabod ar gyfer y Cynllun hwn. Ychwanegwyd yr amcan olaf gan y Bwrdd Ymateb yn ei gyfarfod cyntaf.

Rydym yn ymrwymo y byddwn yn:

1. **Cydnabod** yn agored a chyhoeddus na ddylai y fath droseddau fyth fod wedi digwydd ac na ddylai yr un plentyn oddef y fath brofiadau.

2. **Ymddiheuro** yn ddidwyll i'r dioddefwyr a goroeswyr a'u teuluoedd am yr hyn y maent wedi gorfod ei ddioddef.

3. **Cefnogi** y dioddefwyr a goroeswyr, yr ysgol a'r gymuned ehangach i geisio adfer eu sefyllfa.

4. **Sefydlu** holl ffeithiau yr achos, yr hanes o amgylch y sefyllfa a'r cyd-destun ehangach.

5. **Dysgu** yr holl wersi a gaiff eu hadnabod fel rhan o gasgliadau ac argymhellion pob ymchwiliad.

6. **Gwella** drwy ymateb yn gyflawn a chyflym i bob casgliad ac argymhelliad gyda'r nod o roi hyder i'r cyhoedd ein bod yn gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto.

7. **Atebolrwydd** drwy fod yn agored ac yn dryloyw am ein cynnydd gwelliant ac ymrwymo i fesur effaith y newidiadau rydym yn eu rhoi ar waith.

Wrth fynd ati i gyflawni'r uchod mae'n hanfodol ein bod yn ymagweddu'n agored a thryloyw bob amser. Yn hynny o beth mae'r Cynllun Cyfathrebu yn rhan 8 o'r Cynllun Ymateb hwn yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn rhannu gwybodaeth yn eglur, yn gyson ac yn amserol gyda'r holl rhanddeiliaid perthnasol.

## 5. Sut ydym yn bwriadu mynd ati i gyflawni ein amcanion?

Er mwyn cyflawni ein hamcanion yn llawn, buom yn canolbwyntio ar bedair prif ffrwd waith fel y dangosir isod. Dim ond drwy weithredu yn drwyadl, cyflawn ac amserol i gyflawni holl amcanion y Cynllun Ymateb hwn y gallwn fod yn dawel ein meddyliau ein bod wedi gwneud popeth posib i sicrhau adferiad.

| | | |
|---|---|---|
| **Ffrwd waith A** | Cefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr | Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr. Sefydlu perthynas â ofalgar gyda'r dioddefwyr a goroeswyr. |
| **Ffrwd waith B** | Sicrhau fod gennym y trefniadau diogelu gorau posib heddiw fel bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder ynddynt. | Sicrhau fod ein trefniadau diogelu yn gadarn ac o'r safon gorau posib |
| **Ffrwd waith C** | Ymchwilio i'r hyn sydd wedi digwydd, dysgu a gwella | Gwneud popeth posib i sicrhau ein bod yn llawn ddeall popeth sydd wedi digwydd ac wedi adnabod unrhyw wendidau. Cofleidio a gweithredu argymhellion er mwyn dysgu a gwella. |
| **Ffrwd waith Ch** | Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars | Sicrhau fod lles plant yr ysgol yn parhau i gael eu cynnal, fod staff yn hyderus a bod arweinyddiaeth Chorff Llywodraethu yr ysgol yn sefydlog ac effeithiol. |

Mae llawer o'r tasgau cychwynnol wedi eu cwblhau ers cyhoeddi'r cynllun gwreiddiol yn Rhagfyr 2024. Felly, yn dilyn cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, adolygwyd y ffrydiau gwaith hyn i sicrhau fod argymhellion yr adroddiad yn ran o'r Cynllun Ymateb. Rydym wedi ail becynnu y ffrydiau gwaith hyn i gyd-fynd â themâu yr adroddiad, fel a ganlyn:

| | **Thema** | **Disgrifiad** |
|---|---|---|
| Ffrwd Gwaith 1 | Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr | Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod llais y plentyn yn ganolog mewn materion yn ymwneud â phlant, a hynny wedi gwreiddio drwy'n holl weithgareddau.<br>Sicrhau y gwrandewir ar blant, a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifri.<br>Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw yn ddiogel. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr a sefydlu perthynas ofalgar gyda hwy. |
| Ffrwd Gwaith 2 | Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant | Sicrhau fod ein trefniadau diogelu yn gadarn ac o'r safon gorau posib.<br>Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym.<br>Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml asiantaeth cyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant. |
| Ffrwd Gwaith 3 | Hyfforddiant a Pholisïau | Sicrhau fod pecynnau hyfforddiant yn briodol a bod staff wedi derbyn hyfforddiant addas i'w swyddogaeth.<br><br>Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod ysgolion y sir yn mabwysiadu a gweithredu polisïau<br><br>Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall "y gallai ddigwydd yma" |
| Ffrwd Gwaith 4 | Llywodraethiant Ysgolion | Rhoi'r gefnogaeth gorau posib i Lywodraethwyr ein hysgolion i'w harfogi i arddel eu rolau.<br><br>Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel.<br>Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur diwylliant ehangach ysgolion. |
| Ffrwd Gwaith 5 | Grym Rhesymol | Gwneud popeth posib i sicrhau fod holl ysgolion wedi yn gweithredu arferion defnydd o grym rhesymol yn briodol |
| Ffrwd Gwaith 6 | Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng Diogelu | Sicrhau fod trefniadau cynllunio ac ymateb i argyfwng priodol a bod holl staff yn gwybod sut i ymateb mewn sefyllfa o argyfwng diogelu |
| Ffrwd Gwaith 7 | Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars | Sicrhau fod lles plant yr ysgol yn parhau i gael eu cynnal, fod staff yn hyderus a bod arweinyddiaeth Chorff Llywodraethu yr ysgol yn sefydlog ac effeithiol. |

Nes ymlaen yn y Cynllun hwn byddwn yn esbonio'r drefn llywodraethiant ar gyfer monitro ein cynnydd a sicrhau ein bod yn gweithredu'n amserol. Rhaid cydnabod yn glir ac agored fod gennym daith hir a heriol o'n blaen i gyrraedd y sefyllfa lle byddwn yn fodlon ein bod wedi gweithredu yn gyflawn a phriodol.

## 6. Ffrydiau gwaith y Cynllun

# Ffrwd waith 1 – Llais y Plentyn a Chefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

#### 1.1 - Cefnogaeth uniongyrchol

Yn dilyn y datgeliad cyntaf ar y 6ed o Fedi 2023, rhoddwyd cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr y troseddwr er mwyn cyfarch eu hanghenion uniongyrchol a rhoi gobaith iddynt ar gyfer y camau nesa. Darparwyd mynediad cyflym at swyddogion cymorth a chwnselwyr arbenigol, gyda Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a goroeswyr (Victim Liason Officers) yr Heddlu yn arwain o'r diwrnod cyntaf.

Bu i swyddogion cyswllt dioddefwyr a goroeswyr yr Heddlu eistedd ar yr Adolygiad Ymarfer Plant, (CPR) gan sicrhau bod lleisiau'r dioddefwyr a goroeswyr yn rhan greiddiol o unrhyw drafodaeth.

Mae'r gefnogaeth yn barhaus gyda'r gwaith hwn yn cael ei fonitro'n gyson gan grŵp partneriaeth rhanbarthol sy'n rhedeg Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr Cymru lle mae'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol. Mae'r drefn yn un genedlaethol gydnabyddedig. Mae eraill a effeithir gan hyn oll wedi cael cynnig cefnogaeth yn ogystal.

Yn naturiol, mae'r gefnogaeth yma'n digwydd yn dawel yn y cefndir ac wedi ei deilwra yn benodol ar gyfer anghenion cefnogaeth y dioddefwyr a goroeswyr unigol.

#### 1.2 – Cefnogaeth ehangach yn yr ysgol

Ehangwyd gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol trwy gydweithio â sefydliadau fel Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol(RASASC) Gogledd Cymru, gan sicrhau cefnogaeth arbenigol i ddioddefwyr a goroeswyr a disgyblion eraill a allai fod wedi'u heffeithio. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod y cymorth yn parhau'n addas ac yn effeithiol. Yn ffodus, bu i Ysgol Friars gydweithio â chwmni lleol i greu canolfan llesiant ar y safle yn 2023, ynghyd â staff cymwys, sydd wedi bod o fendith fel gofod pwrpasol ar gyfer adferiad a chefnogaeth emosiynol.

Byddwn yn parhau i adolygu'r cymorth yn rheolaidd ac mae'r gefnogaeth ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr, disgyblion a staff. Yn ogystal, rydym yn sicrhau bod mwy o gefnogaeth ar gael ar adegau allweddol – er enghraifft, pan fo sylw cyhoeddus neu stori yn torri yn y wasg sy'n cael effaith ar unigolion, gan gynnwys dioddefwyr a chymuned yr ysgol. Ein blaenoriaeth yw gwneud yn siŵr fod y gefnogaeth briodol ar gael i bawb sydd ei angen, heb oedi.

#### 1.3 – Cydnabod ac Ymddiheuro

Rydym eisoes wedi cydnabod ac ymddiheuro'n gyhoeddus am yr hyn mae'r plant a phobl ifanc wedi ei ddioddef ac mae rhan 2 o'r Cynllun hwn yn ail-ddatgan hynny'n ffurfiol.

Fodd bynnag, datganiad cyhoeddus yn unig ydi hynny , a chyfrifoldeb a dymuniad y Cyngor oedd cynnig ymddiheuriad personol i bob un o'r dioddefwyr a goroeswyr. Gyda chymorth y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr a chadeirydd y CPR, bu i ni sefydlu sut i gynnig yr ymddiheuriad personol hwnnw.

Mae angen cadw mewn cof fod pob un o'r dioddefwyr a goroeswyr wedi dioddef a'n dymuniad wrth gydnabod ac ymddiheuro oedd cynnig peth cymorth tuag at eu sefyllfa. Roedd yn hanfodol fod y gwaith yma yn cael ei arwain gan y dioddefwyr a goroeswyr. Bu i ni dderbyn cyngor ac arweiniad eraill sy'n fwy profiadol yn y maes hwn wrth fynd ati i wneud hyn gan fod yn llwyr wyliadwrus nad oeddem yn gwneud unrhyw beth na fyddai'n cael ei groesawu gan y genethod a merched ifanc.

Mae ymddiheuriadau personol gan Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor wedi eu gwneud yn y modd yr oedd pob dioddefwr a goroeswr am ei dderbyn.

### 1.4 – Cynllun Cefnogaeth personol

Ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Ionawr, rydym wedi gwneud cynnydd wrth weithredu dull personol o gefnogi dioddefwyr a goroeswyr. Mae trafodaethau unigol bellach wedi'u cynnal gyda'r mwyafrif ohonynt i sefydlu eu anghenion penodol, gan gynnwys cefnogaeth emosiynol, mynediad at wasanaethau therapiwtig a chymorth ymarferol. Nid oedd pob un o'r dioddefwyr yn dymuno derbyn y cynnig, ond fe fydd y cynnig yn parhau petaent yn dymuno ei dderbyn i'r dyfodol. Rydym wedi sefydlu proses ffurfiol i adolygu'r gefnogaeth yn rheolaidd, gan sicrhau hyblygrwydd i ymateb i anghenion sy'n newid dros amser. Yn ogystal, mae adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu i ddarparu cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd wedi profi trawma, gan weithio'n agos gyda'r Comisiynydd Plant a phartneriaid allanol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynhwysfawr ac yn sensitif i'w profiadau. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu lles y dioddefwyr drwy ddarparu pob cefnogaeth briodol i'w helpu i wynebu'r camau nesaf yn eu bywydau, gan adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad ac ymrwymo i wella'n barhaus.

## Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n hamcanion?

### 1.5 - Llais y plentyn

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i'n hymateb ac i'n gweithgareddau dydd i ddydd. Yn dilyn argymhellion Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu polisi clir sy'n sicrhau bod pob plentyn sy'n destun cyfeiriad rhan 5 yn cael cyfle i fynegi ei farn drwy sgwrs uniongyrchol â gweithiwr cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn eisoes ar y gweill, gan gynnwys datblygu dulliau ymarferol i gryfhau cyfranogiad plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu ac ehangu ein hyfforddiant i staff er mwyn sicrhau bod egwyddorion llais y plentyn wedi'u gwreiddio ar draws pob gwasanaeth, gan adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad ac ymateb i'r disgwyliadau cenedlaethol

### 1.6 – Gwaith ehangach i sicrhau fod hawliau plant yn ganolog ac wedi gwreiddio yng ngweithgareddau'r Cyngor

Rydym wedi ail-fframio ein ffrydiau gwaith i adlewyrchu argymhellion Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, gan roi blaenoriaeth i sicrhau fod hawliau plant, gan gynnwys llais y plentyn, yn ganolog i bob agwedd ar ein gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys datblygu un polisi corfforaethol "Llais y Plentyn" ar draws yr holl wasanaethau, gweithio gyda'r Comisiynydd Plant Cymru i fabwysiadu arferion gorau, a sefydlu grŵp tasg gyda'r Adran Addysg i adolygu ac uno trefniadau presennol. Yn ogystal, rydym yn cryfhau'r fforwm ieuenctid sirol i sicrhau cynrychiolaeth o grwpiau penodol megis pobl ifanc mewn gofal, plant Derwen, a gofalwyr ifanc. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod barn a phrofiadau plant yn dylanwadu'n

uniongyrchol ar bolisi, strategaeth a phenderfyniadau, gan wreiddio egwyddorion hawliau'r plentyn yn ein diwylliant sefydliadol.

Yn ogystal, rydym yn gweithio tuag at sicrhau statws "Sir Plentyn Gyfeillgar", gan gydweithio â phartneriaid cenedlaethol i greu amgylchedd lle mae hawliau a llais plant yn cael eu parchu a'u hyrwyddo ym mhob maes.

## 1.7 –Adnabod a gweithredu ar ymddygiadau '*grooming*'

Ers mabwysiadu'r Cynllun gwreiddiol ym mis Ionawr, rydym wedi cryfhau ein hymateb i'r risgiau sy'n gysylltiedig â "grooming" drwy weithredu nifer o gamau pendant. Mae pecynnau hyfforddiant diwygiedig wedi'u rhannu gyda'r ysgolion, gan gynnwys canllawiau penodol ar ymddygiadau "grooming" a sut i'w hadnabod yn gynnar. Rydym wedi cysoni hyfforddiant diogelu ar draws lefelau addysg gwahanol er mwyn sicrhau dull cyson a chydlynol. Yn ogystal, mae rôl Hyrwyddwr Diogelu wedi'i sefydlu i gefnogi staff rheng-flaen a chynyddu ymwybyddiaeth o'r materion hyn.

Mae gwaith pellach ar y gweill i adolygu cynnwys y pecynnau hyfforddiant yn dilyn cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, gan gynnwys ychwanegu modiwlau ar gamdriniaeth rhywiol a dulliau adnabod ymddygiadau risg. Mae gwaith pellach i'w wneud a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid cenedlaethol i sicrhau bod ein dulliau yn adlewyrchu'r safonau gorau ac yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch plant.

## 1.8 – Adrodd ar bryderon i unigolyn neu wasanaeth tu allan i'r ysgol

Gofynnir i holl ysgolion Gwynedd arddangos manylion unigolion dynodedig diogelu yr ysgol gan gynnwys aelod allanol o'r corff llywodraethu. Nid oedd hyn yn bodoli yn yr ysgol dan sylw ar adeg arestio y troseddwr ond mae hynny bellach wedi newid. Mae hyn yn un o'r materion mae'r Swyddogion Ansawdd Diogelu yn eu gwirio pan yn cynnal ymweliadau ansawdd ac felly'n cael ei fonitro yn gyson.

Ers cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder, rydym wedi dechrau ymgynghori â disgyblion ar draws ysgolion Gwynedd i ganfod y dulliau mwyaf effeithiol o'u galluogi i gysylltu â pherson neu wasanaeth y tu allan i'r ysgol i rannu pryderon. Mae'r adborth hyd yma yn pwysleisio'r angen am opsiynau hygyrch, cyfrinachol ac amlwg. O ganlyniad, rydym wedi cytuno ar egwyddorion allweddol i arddangos manylion cyswllt gwasanaethau diogelu a llinellau cymorth yn amlwg ym mhob ysgol, gan gynnwys ar wefannau a mannau cyhoeddus; i ddarparu hyfforddiant i staff er mwyn egluro'r llwybrau cyfeirio; a datblygu dull digidol diogel i alluogi disgyblion i godi pryderon yn uniongyrchol. Bydd y gwaith ymgynghori yn parhau i sicrhau bod y trefniadau hyn yn adlewyrchu anghenion disgyblion ac yn rhoi blaenoriaeth i'w llais.

## 1.9 – Cyngor Trawma Wybodus

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddod yn Gyngor Trawma Wybodus er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n ymateb yn sensitif i effaith trawma ar unigolion. Mae hyn yn golygu adeiladu diwylliant sy'n cydnabod ac yn ymateb i arwyddion trawma, gan osgoi ail-drawma a hyrwyddo lles. Rydym eisoes wedi dechrau ar y daith hon drwy ddarparu hyfforddiant "Trawma Ymwybodol" i dros 1,000 o staff ysgolion, ac mae bron i hanner ysgolion Gwynedd wedi hyfforddi aelodau staff i lefel diploma mewn ysgolion a chymunedau sy'n wybodus am drawma ac iechyd meddwl. Yn ogystal, rydym yn datblygu asesiad gwaelodlin ar draws adrannau'r Cyngor i nodi bylchau a blaenoriaethau, gan weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i sicrhau dull cydlynol. Bydd y gwaith hwn yn gosod sylfaen ar gyfer polisïau a gweithdrefnau sy'n rhoi blaenoriaeth i gefnogaeth sensitif, gan

adlewyrchu'r risgiau uwch ymysg plant mewn gofal a sicrhau bod ein gweithlu yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ymateb yn briodol.

## Ffrwd waith 2 - Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

#### 2.1 – Trefniadau Diogelu Corfforaethol

Adolygwyd y Polisi Diogelu yn ystod ail hanner 2023, cafodd ei fabwysiadu gan y Cabinet yn Chwefror 2024 a chyflwynwyd y fersiwn newydd i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2024. Polisi Diogelu

Canolbwyntia gweithdrefnau Diogelu Corfforaethol Cyngor Gwynedd ar sicrhau diogelwch a lles plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae cyfrifoldeb ar holl weithwyr, aelodau etholedig, a phartneriaid y Cyngor i greu amgylchedd lle mae diogelu'n cael ei flaenoriaethu a lle mae cam-drin yn llai tebygol o ddigwydd.

Mae holl adrannau'r Cyngor yn cael y dasg o weithredu mesurau diogelu fel rhan o'u gweithrediadau dydd i ddydd, tra mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl arweiniol a phenodol wrth fynd i'r afael ag achosion lle mae unigolion mewn perygl eisoes. Ar lefel gorfforaethol, mae'r Cyngor yn sicrhau bod staff ac Aelodau wedi'u hyfforddi'n drylwyr, yn darparu llwybrau clir ar gyfer adrodd am bryderon, ac yn defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i sicrhau arferion recriwtio mwy diogel.

Cydlynir ymdrechion diogelu corfforaethol trwy'r Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Diogelu Gweithredol, sy'n goruchwylio ac yn monitro perfformiad, polisïau, a chydymffurfiaeth adrannol. Cyfrifoldeb y Panel yw adolygu a diweddaru'r Polisi Diogelu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol ac yn ymatebol i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu weithdrefnol, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed yn y gymuned.

#### **2.2 – Trefniadau Diogelu Ysgolion**

Ers arestio y troseddwr, mae Polisi Diogelu Ysgolion a phecyn hyfforddiant ar gyfer ysgolion wedi eu diweddaru.

Ers Ebrill 2023 mae Swyddog Arweiniol Diogelu yr Adan Addysg wedi cynnal ymweliadau Monitro Trefniadau Diogelu ym mhob ysgol yng Ngwynedd.

Mae'r ymweliadau yma yn cynnwys:

- Gwirio polisïau Diogelu
- Gwirio dyddiadau a lefelau hyfforddiant
- Gwirio trefniadau ymarferol Diogelu
- Holi'r Person Dynodedig Diogelu, aelodau o staff a disgyblion am lefel hyder a gwybodaeth yn ymwneud â diogelu
- Gwirio cynnwys Awdit Blynyddol Trefniadau Diogelu'r ysgol
- Cynnig cefnogaeth / arweiniad cyffredinol.

Mae gan pob ysgol yng Ngwynedd Berson Diogelu Dynodedig (Designated Safeguarding Person neu DSP), sy'n chwarae rhan ganolog mewn sicrhau diogelu ac amddiffyn plant effeithiol. Uwch aelod o staff yw'r person dynodedig a ganddo ef / hi mae'r awdurdod ac arbenigedd mewn materion diogelu a'r cyfrifoldeb dros gydlynu polisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant yr ysgol.

Gweithreda’r unigolyn yma fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl bryderon diogelu, gan ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth i staff. Tasg y person dynodedig yw cadw cofnodion diogel o bryderon diogelu, sicrhau cyfeiriadau amserol i awdurdodau priodol a hyfforddi staff yr ysgol gan sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau diogelu. Mae eu rôl yn ganolog i feithrin amgylchedd diogel a chefnogol i bob disgybl.

Mae’r person dynodedig yn gweithio’n agos gyda Swyddog Arweiniol Diogelu yr Adan Addysg, sy’n darparu cyngor arbenigol, cefnogaeth, a throsolwg i sicrhau gweithrediad effeithiol polisïau diogelu ac amddiffyn plant ar draws holl ysgolion y sir.

Mae pob ysgol yn derbyn polisi enghreifftiol gan yr Awdurdod Addysg ac anogir pob ysgol i wneud man addasiadau (e.e. addasu enw’r ysgol, a pherson dynodedig diogelu i’w berthnasu i’r ysgol) a mabwysiadu y polisi hwn, sydd wedi ei lunio yn unol â gofynion chanllawiau a safonau chydnabyddedig. Cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw sicrhau bod polisïau diogelu effeithiol wedi eu mabwysiadu ac yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a rhoddir cefnogaeth barhaus iddynt gyflawni hynny. Rhaid i lywodraethwyr weithio gydag arweinwyr yr ysgol i greu amgylchedd diogel, monitro cydymffurfiaeth â chyfreithiau diogelu, a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau neu ddiffygion mewn arferion diogelu yn brydlon.

Roedd yr Awdurdod Addysg eisoes yn cynnal arolygiad Diogelu ym mhob ysgol pob dwy flynedd, sydd tu hwnt i ofynion cyfredol, ond erbyn hyn rydym wedi cynyddu capasiti yn y maes ac yn cynnal arolygiad yn ein hysgolion ar gylch blwyddyn. Er nad oes unrhyw ofynion ffurfiol i ni fod yn cynnal rhaglen o’r fath, credwn ei bod yn hynod bwysig ac fe ymhelaethir ar yn 2.5 isod.

### 2.3 – Adolygiadau Estyn mewn Ysgolion penodol

Yn unol â’r trefniadau Arolygu Cenedlaethol gan Estyn, mae pob ysgol yn derbyn archwiliad llawn ar raglen gylchol oddeutu 5 mlynedd. Dros gyfnod COVID-19 bu’n rhaid atal y drefn hon ar draws y wlad. Ers ail gychwyn y drefn, mae 51 o Ysgolion Gwynedd wedi derbyn Archwiliad llawn sy’n cynnwys edrych ar y trefniadau Diogelu gan ddilyn proses gyffelyb i’r un a amlinellir uchod.

Bu i bob un o’r ysgolion hyn gyrraedd y safonau diogelu disgwyliedig.

### 2.4– Ymchwiliad i ddigwyddiadau yn 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg

Yn ystod yr achos llys bu cyfeiriad at ddigwyddiadau penodol yn 2019. Cafodd y digwyddiadau hyn wedi cael cryn sylw yn y wasg hefyd. Fel sydd eisoes wedi ei nodi, bu i amserlen a chylch gorchwyl y CPR gael ei ymestyn cryn dipyn ers i Jan Pickles ddod i gyfarfod gyda Aelodau’r Cyngor cyn haf 2024. Yn sgil hynny, ac yn wyneb diddordeb cyhoeddus yn y materion penodol hyn, bu i'r Cyngor gomisiynu Ymchwiliad Annibynnol i'r materion penodol hyn er mwyn gallu dod i gasgliadau yn gynt nag amserlen y CPR.

Mae’r gwaith hwn eisoes wedi ei gynnal gan Genevieve Woods, sy’n fargyfreithiwr yn Raymond Buildings, Llundain. Mae hi’n arbenigo mewn ymchwiliadau o’r fath ac wedi cydweithio gyda Jan Pickles yn y gorffennol ar faterion fel hyn. Mae ganddi arbenigedd a phrofiad helaeth o weithio ar faterion diogelu yn ogystal â gweithredu ymchwiliadau annibynnol.

Bu iddi gael ei chomisiynu i gynnal ymchwiliad cwbl annibynnol ac nid i gynrychioli y Cyngor.

Bwriad yr Ymchwiliad Annibynnol oedd sefydlu holl gamau ffeithiol y digwyddiadau dan sylw, ystyried eu harwyddocâd a pherthnasedd, penderfynu a ddilynwyd gweithdrefnau cydnabyddedig, a

weithredwyd yn briodol o dan yr amgylchiadau, a oedd camau pellach i'r Cyngor eu hystyried ac a oedd gwersi i'w dysgu.

Cwblhawyd y gwaith a bu i gopi o'r adroddiad llawn gael ei ddarparu i'r CPR ac mae'r argymhellion a gyflwynwyd gan yr ymchwilydd wedi ei drosglwyddo i raglen waith y Bwrdd Ymateb ac wedi eu rhannu gyda Aelodau'r Cyngor.

Oherwydd natur yr adroddiad, mae'n cynnwys gwybodaeth sensitif megis manylion am faterion yn ymwneud â phlant, data personol unigolion, datganiadau tystiolaeth gan dystion ayb. Fel gydag unrhyw adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth o'r natur hwn, cafwyd gyngor nad oedd modd, yn gyfreithlon, rhannu mwy na'r argymhellion, yn arbennig gan fod prosesau pellach yn parhau.

Fodd bynnag, mae hanes y digwyddiadau oedd yn destun yr ymchwiliad wedi eu cynnwys a'u hadrodd yn yr adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder.

## Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n amcanion?

### 2.5 – Trefniadau Diogelu Ysgolion

Adeg llunio'r Cynllun hwn yn wreiddiol roedd ein hadnodd staffio presennol yn caniatáu i ni gynnal Ymweliadau Monitro Trefniadau Diogelu gan y Swyddog Diogelu Arweiniol ym phob ysgol unigol bob yn ail flwyddyn. Nid ydym yn ymwybodol o Awdurdodau eraill sy'n gwneud hyn yn y modd yma, ond rydym yn credu fod yr ymweliadau hyn yn werthfawr, ac yn cynnig cefnogaeth i ysgolion unigol sicrhau fod eu trefniadau diogelu yn ddigonol ac i gynnig cefnogaeth gyffredinol iddynt yn y maes hanfodol hwn.

Daethpwyd i'r farn y byddai'n ychwanegu mwy o werth petai modd cynyddu amlder yr ymweliadau hyn a'u bod yn digwydd pob blwyddyn ym mhob ysgol. Rydym felly wedi buddsoddi i gynyddu'r adnodd staffio sydd gennym yn yr Adran Addysg er mwyn gallu cyflawni hyn a chryfhau ein strwythur cefnogol i ysgolion. Rydym wrthi'n buddsoddi yn y Tim Llesiant a Diogelu Addysg unwaith yn rhagor er mwyn gallu cynnig mwy fyth o gefnogaeth a her i ysgolion ar faterion Diogelu.

### 2.6 – Ymchwiliad Craffu i Drefniadau Diogelu Mewn Ysgolion

Mae gan ein trefniadau Craffu rôl hanfodol i'w chware fel rhan o drefniadau llywodraethiant ffurfiol y Cyngor ac o ystyried difrifoldeb y sefyllfa sy'n ein hwynebu mae'n gwbl briodol i ni fod yn gwneud gwaith craffu yn y maes hwn.

Ychwanegwyd yr eitem 'Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion' fel eitem ychwanegol i raglen waith blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar ôl y gweithdy blynyddol ar gais yr aelodau craffu a cafodd y mater ei graffu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2024. Yn dilyn hynny trafodwyd y posibilrwydd o gynnal Grŵp Tasg a Gorffen neu Ymchwiliad Craffu i'r maes. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnal trafodaeth bellach ar 5 Medi 2024 lle mynegwyd dymuniad gan yr aelodau oedd yn bresennol i fod yn gwirio a chadarnhau fod trefniadau diogelu mor dynn a phosib o fewn ein ysgolion.

Bu i'r briff ar gyfer yr Ymchwiliad Craffu yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror 2025 – ( Briff - Ymchwiliad trefniadau diogelu mewn ysgolion.pdf.)

Y prif gwestiwn sy'n cael ei ystyried yw - *'A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson? '*

## 2.7 – Mewnbwn gan y Comisiynydd Plant

Yn dilyn trafodaethau rhwng y Comisiynydd Plant, swyddogion ac Aelodau Cabinet yng Ngorffennaf 2024 ac yn Nhachwedd 2024, ac yna cyfarfod pellach rhwng y Prif Weithredwr a'r Comisiynydd ar y 9fed o Ragfyr, gwahoddwyd y Comisiynydd i roi mewnbwn i'n Cynllun Ymateb ac i fod yn rhan o'r drefn i fonitro ein cynnydd ar y gwahanol ffrydiau gwaith.

Mae'r drafodaeth honno'n parhau ac yn drafodaeth gadarnhaol.

Rydym wedi datgan ein hawydd i gydweithio'n agored a chadarnhaol gyda'r Comisiynydd a'i swyddogion ac yn rydym yn gwerthfawrogi'r cyfleon i gael trafodaethau adeiladol gyda nhw a derbyn eu mewnbwn arbenigol a phrofiadol mewn meysydd fel hyn.

Erbyn hyn wrth gwrs mae Comisiynydd y Plant bellach yn sylwedydd ar ein Bwrdd Ymateb ac yn darparu her ac arweiniad gwerthfawr wrth i ni weithredu y Cynllun hwn.

## 2.8 Ymholiadau Adran 47 a Rhan 5 o'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Mae Gweithdrefnau Diogelu Rhan 5 yng Nghymru yn cael eu hadolygu yn genedlaethol ar hyn o bryd. Argymhellir yn adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod y gweithdrefnau newydd yn ei wneud yn ofynnol i lais y plentyn yn cael ei ystyried hyd yn oed os nad plentyn sydd wedi gwneud y datgeliad. Rydym eisoes yn gweithredu hyn a byddwn yn ei gynnwys yn y Polisi Llais y Plentyn sydd i'w fabwysiadu yn 2026.

Byddwn yn sicrhau fod awdurdodau lleol eraill yn mynychu cyfarfodydd ffurfiol Adran 47 a Rhan 5 os yn berthnasol i blentyn o'u hardal, a sicrhau presenoldeb Cadeirydd Llywodraethwyr neu lywodraethwr wedi ei ddirprwyo ar ei ran/ rhan pan fo'n ymwneud â disgybl neu aelod staff o ysgol.

Rydym hefyd wedi cyflwyno mesurau i sicrhau nad yw penderfyniadau ar gyfeiriadau yn disgyn ar unigolyn a byddwn hefyd yn peilota prosesau newydd ar gyfer cyfeiriadau yn ymwneud ag unigolion mewn safle ymddiriedaeth a'r cam cyntaf fydd ymestyn allan i asiantaethau eraill – Heddlu Gogledd Cymru yn benodol, i ystyried ymarferoldeb ac adnoddau sydd eu hangen i wneud hyn.

Argymhellir fod trefniadau aml-asiantaeth i drafod cyfeiriadau cyn dod i benderfyniad ar gyfer unigolion mewn rolau ymddiriedaeth. Mae'r argymhelliad yn ymwneud â hyn yn benodol i'r Llywodraeth a nes bydd newid cenedlaethol wedi ei wneud, bydd ein gwasanaethau Plant yn ei beilota ac mewn trafodaethau â'r asiantaethau eraill ar hyn o bryd.

Rydym eisoes wedi cyflwyno newidiadau i weithdrefnau trafodaethau Rhan 5 fel bod holl wybodaeth ar gofnodion plentyn yn cael ei adolygu wrth asesu eu risg a bregusrwydd.

Pan fo datgeliad neu bryderon am unigolion mewn "position of trust", rydym eisoes wedi cryfhau yr angen i asesu 'addasrwydd i weithio gyda phlant'.

## 2.9 - Pryderon lefel Isel

Mae angen cryfhau a safoni'r broses o adrodd ar bryderon lefel isel, sef pryderon nad ydynt yn cyrraedd trothwy diogelu neu amddiffyn plant, ar draws ein gwasanaethau. Mae canllawiau 'Keeping Children Safe in Education' yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion yn Lloegr ddatblygu a gweithredu Polisi Pryderon Lefel Isel ('Adult Conduct of Concerns Policy'). Un o argymhellion Adroddiad Cyfiawnder

Trwy ein Dewrder yw y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud hynny'n ofynnol i ysgolion yng Nghymru hefyd.

Tra bod y mater hwn yn cael ei ystyried ar lefel genedlaethol, ac yn hytrach na disgwyl am newid, bydd y Cyngor yn datblygu system ganolog i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw gan Adnoddau Dynol o unrhyw aelod o staff sydd wedi bod yn destun pryderon o dan Rhan 5. Bydd y pryderon hyn yn cael eu nodi'n glir ar gofnodion adnoddau dynol yr unigolyn, gyda mecanwaith fflagio priodol i sicrhau bod y pryderon yn cael eu hadnabod a'u hystyried. Gan fod rhai aelodau staff yn tueddu symud rhwng siroedd cyfagos, byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o rannu'r wybodaeth hon gyda'r awdurdodau lleol hynny hyd nes y bydd canllawiau cenedlaethol ar waith.

Bydd cyfarwyddiadau clir yn cael eu datblygu i gyd-fynd â'r drefn hon, er mwyn sicrhau eglurder ynghylch cyfrifoldebau, rôl a'r trefniadau gweithredu.

## 2.10 - Dysgu o'r adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder

Y nod yw datblygu fersiwn electroneg o'r ffurflen gyfeirio er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch ac yn hawdd i unrhyw un ei chanfod a'i defnyddio heb rwystrau. Mae datblygiadau ar y gweill ar lefel genedlaethol i greu ffurflen gyfeirio safonol a newid i system ddata newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd ac bydd y rhain yn llywio unrhyw newidiadau pellach i'r trefniadau presennol.

## 2.11 - Cydweithredu / cyfathrebu

Byddwn yn gwella perthynas weithio a chyswllt y Cyngor yn ganolog gydag ysgolion, gan sicrhau gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng gwasanaethau plant ac addysg yn ogystal. Mae'r Tim Diogelu a Lles Addysg wedi bod yn gam sylweddol i'r cyfeiriad cywir yn hyn o beth.

## Ffrwd waith 3 – Hyfforddiant a Pholisïau

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

#### 3.1 – Hyfforddiant a pholisïau Diogelu

Ers arestio'r troseddwr, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i gryfhau trefniadau diogelu. Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a chanllawiau cenedlaethol, gan sicrhau bod egwyddorion diogelu yn cael eu gwreiddio ar draws pob adran. Yn ogystal, mae pecynnau hyfforddiant diwygiedig wedi'u darparu i holl staff, gan gynnwys modiwlau gorfodol ar amddiffyn plant, diogelu oedolion, camdriniaeth ddomestig ac atal caethwasiaeth fodern. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu goruchwylio gan y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol, gan ddarparu sicrwydd bod safonau diogelu yn cael eu cynnal a'u gwella'n barhaus, ac erbyn hyn mae holl Adrannau'r Cyngor yn adrodd ar lefelau cwblhau hyfforddiant mandadol yn eu cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad.

Er mwyn sicrhau bod egwyddorion diogelu wedi'u gwreiddio ar draws y Cyngor, rydym wedi sefydlu proses archwilio mewnol i asesu lefel ymwybyddiaeth y gweithlu. Mae'r archwiliad hwn yn cynnwys arolygon staff, cyfweliadau sampl a gwirio cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi i nodi bylchau gwybodaeth a blaenoriaethau hyfforddiant pellach. Yn ogystal, bydd yr archwiliad yn mesur effeithiolrwydd y polisïau presennol ac yn darparu tystiolaeth o welliant parhaus. Mae'r gwaith hwn yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i ddiogelu, gan sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithredu'n brydlon i amddiffyn plant ac oedolion.

Yn ogystal â darparu pecynnau hyfforddiant diwygiedig, rydym wedi sefydlu proses adolygu barhaus i sicrhau bod hyfforddiant diogelu mewn ysgolion yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r arferion gorau. Mae hyn yn cynnwys monitro cydymffurfiaeth, dadansoddi data cwblhau hyfforddiant, ac adolygu cynnwys modiwlau yn rheolaidd i ymateb i newidiadau deddfwriaethol neu argymhellion cenedlaethol. Mae adborth gan ysgolion a phartneriaid yn cael ei gasglu'n systematig i wella ansawdd a pherthnasedd y hyfforddiant. Bydd y broses hon yn sicrhau bod pob aelod staff yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ddiogelu plant yn effeithiol.

#### 3.2 - Ymchwiliad i drefniadau ymdrin â cheisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Yn sgil y nifer eithriadol o geisiadau rhyddid gwybodaeth a dderbyniwyd yn sgil yr achos eithriadol yma (yn bennaf gan y wasg) ni lwyddwyd i ateb popeth o fewn y terfynau amser arferol. Roedd angen ystyried y ceisiadau yma i gyd yn unol â'r Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Golygai hyn adolygu y wybodaeth ac ystyried os oedd angen gweithredu eithriadau i sicrhau e.e nad oedd data personol unigolion neu faterion amddiffyn plant yn cael ei ryddhau yn amhriodol. Bu i ni ateb pob cais ac un ai rhyddhau'r wybodaeth, os oedd yn briodol gwneud hynny, neu weithredu eithriad statudol priodol.

Er mwyn sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth, cynhaliwyd archwiliad gwirfoddol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar ein trefniadau ymateb i geisiadau FOI. Mae'r adroddiad archwiliad bellach wedi'i dderbyn a nodwyd '*lefel resymol o sicrwydd bod prosesau a gweithdrefnau ar waith ac yn sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI). Mae'r archwiliad wedi nodi rhywfaint o gyfle i wella'r trefniadau presennol i leihau'r risg o beidio â chydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA)*'. Mae lefel yma o sicrwydd yn sgorio ail o 4 haen o lefelau sicrwydd (Uchel, Rhesymol, Cyfyngedig, Cyfyngedig Iawn).

Rydym wedi mabwysiadu cynllun gweithredu i ymateb i'w hargymhellion, gan gynnwys:

- Cryfhau prosesau monitro i sicrhau ymatebion o fewn y terfynau amser.
- Adolygu a gloywi canllawiau mewnol ar ddefnyddio eithriadau.
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i staff ar egwyddorion FOI a diogelu data.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac yn cael ei adrodd i'r Panel Strategol a'r Pwyllgor Craffu i sicrhau gwelliant parhaus.

## Beth sydd arall sydd angen ei wneud i gwrdd â'r amcanion?

### 3.3 - Polisïau a hyfforddiant Canu'r Gloch

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i adolygu ac atgyfnerthu'r Polisi Canu'r Gloch a'r trefniadau hyfforddiant cysylltiedig. Mae fersiwn newydd o'r polisi bellach wedi'i lunio gan y grŵp tasg, gyda mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol, Adnoddau Dynol ac Archwilio Mewnol. Mae'r camau nesaf yn cynnwys ymgynghori â'r undebau, cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, ac yna cyflwyno i'r Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyaeth derfynol. Ar ôl hynny, bydd rhaglen codi ymwybyddiaeth yn cael ei gweithredu, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol i reolwyr a modiwl e-ddysgu newydd i staff. Yn ogystal, mae gwaith parhaus i asesu budd comisiynu cwmni allanol arbenigol i gefnogi'r Cyngor gyda gweithredu'r polisi. Mae'r rhaglen waith hefyd yn cynnwys cynllun i gomisiynu system gofnodi a monitro newydd ar gyfer gweithredu'r polisi, gan sicrhau tryloywder a chysondeb. Bydd y trefniadau hyn yn cryfhau diwylliant agored a diogel lle gall staff godi pryderon heb ofn, gan adlewyrchu'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiadau blaenorol.

Gan mai polisi y Cyngor fel cyflogwr yw hwn o dan amodau cyflogaeth staff, byddwn hefyd yn sicrhau fod ein cyfundrefnau ar gyfer adrodd am bryderon gan Aelodau yn glir a chadarn a'u bod yn cynnig llwybr diogel a chyfrinachol. Byddwn hefyd yn sicrhau fod y cyfundrefnau hyn yn cael lle blaenllaw yn ein rhaglen anwytho a hyfforddi Aelodau fel bod pawb yn deall sut a phryd i'w defnyddio.

### 3.4 – Hyfforddiant adnabod arwyddion "grooming"

Ymhellach i rhan 1.7 o'r cynllun hwn sy'n nodi fod hyfforddiant Diogelu wedi ei addasu i gynnwys darn ar "grooming", byddwn yn darparu rhaglen hyfforddi ar adnabod arwyddion "grooming" i staff Adrannau Plant ac Addysg, gan gynnwys staff gweinyddol a chyfleusterau mewn ysgolion ac Aelodau etholedig perthnasol, gan amlygu sut mae troseddwyr rhyw yn gweithredu ac yn defnyddio "grooming".

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu pecyn priodol gan nad yw hyfforddiant sydd eisoes ar gael i'w brynu yn cyfarch gofynion Cyfiawnder Trwy ein Dewrder fel ag y mae.

### 3.4 - Goruchwyliaeth

Nododd adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' y bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu trefniadau Llywodraethu mewn ysgolion yng Nghymru gan gynnwys sicrhau bod Swyddogion Dynodedig Diogelu (SDD)a'u dirprwyon yn derbyn goruchwyliaeth allanol gan Weithwyr Cymdeithasol cymwys. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Diogelu a Lles yn Adran Addysg yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i'r SDD mewn ysgolion ledled Gwynedd ac mae'r trefniant hwn yn unigryw i'r sir gyda'r Rheolwr Tîm mewn cysylltiad parhaus â thîm amddiffyn plant Gwynedd. Gyda bron i gant o SDD mewn ysgolion (heb gynnwys dirprwy SDDau), bydd angen sicrhau adnoddau ychwanegol i weithredu'r argymhelliad hwn yn effeithiol – bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol yn gyntaf i sicrhau dealltwriaeth a chyd-ymateb i'r disgwyliad hwn.

# Ffrwd waith 4 – Llywodraethiant mewn Ysgolion

## Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

### 4.1 Cefnogi Llywodraethwyr Ysgolion Gwynedd

Mae'r gyfundrefn Addysg sy'n bodoli ar hyn o bryd yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Gyrff Llywodraethol (fel endid ar wahân i Adrannau Addysg Llywodraeth leol) i fod yn gyfrifol am bob ysgol unigol. Mae'r Cyrff hyn yn gyfuniad o Lywodraethwyr sy'n cynrychioli rhanddeiliaid amrywiol mewn ysgolion ac maent yn swyddogaethau gwirfoddol.

Er mwyn cefnogi Llywodraethwyr i gyflawni eu rôl mae trefniadau mewn lle i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth. Mae'r trefniadau hyn yn aml yn deillio ganllawiau cenedlaethol a'r hyfforddiant wedi bod yn cael ei ddarparu ar sail rhanbarthol.

Rydym eisoes yn darparu y canlynol i gefnogi Llywodraethwyr:

- Sicrhau bod holl aelodau corff llywodraethol yn meddu ar DBS dilys.
- Hyfforddiant diogelu i lywodraethwyr yn eu hysgolion.
- Darparu hyfforddiant diogelu penodol i Gadeiryddion a PDD ar gyrff llywodraethu.
- Rhaglen hyfforddiant mandadol ar gyfer llywodraethwyr yn weithredol ar draws y sir.
- Cyngor a chefnogaeth barhaus ar gael i gyrff llywodraethu drwy'r Swyddog Cefnogi Addysg Cynorthwyol.
- Cefnogaeth ac arweiniad i glercod llywodraethwyr, gan gynnwys camu mewn yn uniongyrchol i glercio yn Ysgol Friars i sefydlogi trefniadau.
- Wedi cyhoeddi a rhannu llawlyfr newydd i lywodraethwyr, gan sicrhau cysondeb a safonau clir ar draws ysgolion

Mae'r gyfundrefn genedlaethol yn rhoi baich a chyfrifoldebau sylweddol ar y Cyrff Llywodraethol ac yn aml iawn mae cyflawni'r rôl yn hynod heriol, yn arbennig ar sail wirfoddol am ychydig oriau yma ac acw. Mae amrediad eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn eang a heriol gan gynnwys materion cyllid, staffio, adeiladau, safon addysg ayb. Mae Llywodraethwyr hefyd yn wynebu, ac yn cofleidio, yr her o hyrwyddo disgyblion i fod yn ddinasyddion cyflawn a iach, hyrwyddo priodoldeb a thegwch tuag at bawb, gan cynnwys cyflwyno'r Cwricwlwm Addysg Cydberthnasedd a Rhyw newydd yn llwyddiannus.

Credwn fod angen trafodaeth genedlaethol ar addasrwydd y gyfundrefn bresennol a'r baich sy'n cael ei osod ar ysgwyddau Llywodraethwyr, ac rydym wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ystyried hynny a nodi ein amrywiol rhwystredigaethau gyda'r drefn bresennol.

Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn adolygiad o drefniadau Llywodraethu mewn ysgolion.

### 4.2 Adolygiad o'r ymateb i adroddiad gan Banel Cwynion Annibynnol yn 2019

Yn 2019 cynhaliwyd Panel Cwynion Annibynnol yn unol â'r drefn o gwynion mewn ysgolion, i ystyried cwynion yn erbyn y Corff Llywodraethol Ysgol Friars.

Mewn ymateb, cynhaliwyd Ymchwiliad Annibynnol i'r modd yr ymatebwyd i'r argymhellion yn Adroddiad y Panel Cwynion Annibynnol. Prif ddiben y comisiwn oedd asesu a ymatebodd yr Ysgol, y Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn ddigonol ac yn briodol i ganfyddiadau Adroddiad y Panel Cwynion.

Cwblhawyd y gwaith hwn yng ngwanwyn ac mae'r argymhellion a gyflwynwyd gan yr ymchwilydd wedi ei drosglwyddo i raglen waith y Bwrdd Ymateb.

## Beth arall sydd ei angen er mwyn cwrdd â'n amcanion?

### 4.3 Ymateb a gweithredu unrhyw ddiwygiadau i drefniadau llywodraethu ysgolion

Rydym yn aros yn eiddgar am ganlyniad adolygiad Llywodraeth Cymru i drefniadau llywodraethu mewn ysgolion, ond yn y cyfamser mae angen i ni sicrhau ein bod yn cynnig yr hyfforddiant a chefnogaeth gorau posib i lywodraethwyr ein holl ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau heriol ac eang, ac felly byddwn yn newid ein trefniadau presennol er mwyn ceisio sicrhau fod y gwirfoddolwyr hyn yn teimlo'n hyderus i gyflawni eu rôl ac yn derbyn y gefnogaeth briodol.

Mae'r hyn yr ydym eisoes yn fwriadu ei weithredu i'w cefnogi yn cynnwys datblygu a darparu arweiniad pellach i glercod ar flaenoriaethu materion, amserlennu a chynnwys papurau llywodraethu; adolygu'r ystod o hyfforddiant presennol a nodi ffyrdd amgen neu fwy hyblyg o'i gyflwyno i sicrhau bod pob llywodraethwr yn cael mynediad amserol; ac ystyried creu pwl o glercod llawn amser, fyddai'n gwasanaethu'r ysgolion yn ôl yr angen ac yn darparu cefnogaeth annibynnol a phroffesiynol, gan gryfhau llywodraethu ar draws y sir.

# Ffrwd Gwaith 5 - Grym Rhesymol

## Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

### 5.1 Arferion a hyfforddiant grym rhesymol

Yn yr achos hwn roedd y troseddwr yn gweithredu yn groes i bolisi ysgolion ynglŷn â ffilmio digwyddiadau lle bu defnyddio arferion cyfyngol. Mae gan yr awdurdod bolisi enghreifftiol i ysgolion a disgwylir iddynt fabwysiadu'r polisi hwn. Mae'r polisi grym rhesymol ysgolion unigol yn cael eu gwirio mewn ymweliadau ansawdd gan y Tîm Diogelu ac mae hyfforddiant hefyd yn gael ei ddarparu i Ysgolion gan y gwasanaeth cynhwysiad. Penodwyd Swyddog Diogelu a Llesiant ychwanegol i'r Tîm yn ddiweddar er mwyn gallu cyflawni ymweliadau ansawdd blynyddol.

## Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n amcanion?

### 5.2 Cysoni ymarferion a hyfforddiant grym rhesymol

Bydd yr awdurdod yn parhau i adolygu cynnwys y polisi i adlewyrchu yr hyn y bydd y Llywodraeth yn ei gyhoeddi fel atodiad ac yn cyfathrebu unrhyw newid perthnasol i'r ysgolion a'r cyrff llywodraethol.

Yn bresennol mae dau fath o hyfforddiant defnydd grym rhesymol yn cael ei gynnig drwy wasanaethau gwahanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i unioni rhain i sicrhau dulliau sy'n gyson sefydlog ar draws ein gwasanaethau. Bydd hyn yn digwydd ochr yn ochr a'r gwaith o wella dealltwriaeth staff a dysgwyr o'r defnydd o Rym Rhesymol.

Bydd yr awdurdod yn sefydlu briff a chomisiynu cwmni allanol i werthuso'r polisi presennol, trefniadau hyfforddiant, cefnogaeth ysgolion, cefnogaeth disgyblion a dulliau monitro cydymffurfiaeth. Mae Gweithgor Addysg/Diogelu/ADY wedi ei sefydlu i arwain a hwyluso'r gweithredu fydd yn deillio o'r gwerthusiad hwn.

# Ffrwd Gwaith 6 – Cynllunio ac Ymateb i Argyfwng

## Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

### 6.1 Ymateb i argyfwng mewn ysgolion

Darparwyd hyfforddiant delio a sefyllfa o argyfwng i holl Ysgol Gwynedd yn 2024, wedi ei drefnu gan Bartneriaeth Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru ar gyfer sefyllfaoedd o argyfwng megis tân, damwain neu drywanu

Fodd bynnag, yn yr achos hwn, roedd yn argyfwng diogelu ac yn ymwneud â Rheolwr y Safle, y Pennaeth, sef yr unigolyn a fyddai'n arferol yn cymryd rheolaeth o sefyllfa o argyfwng yn yr ysgol.

Mae canllawiau tymor byr wedi rhannu gydag ysgolion a llywodraethwyr yn eu hatgoffa o drefniadau ac i atgyfnerthu negeseuon y dylid ffonio 999 ar unwaith os oes achos o argyfwng. Fodd bynnag byddwn yn rhoi trefniadau mwy cadarn mewn lle fel bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb mewn sefyllfa fel hyn.

## Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n amcanion?

### 6.2 Adolygu trefniadau cynllunio argyfwng yn gorfforaethol

Mae cynlluniau ymateb i argyfwng yn seiliedig ar reolwr safle yn rheoli'r sefyllfa – yn cymryd rheolaeth a chyfarwyddo eraill er mwyn diogelu plant / staff / y cyhoedd. Mae angen i ni fod yn adolygu'r gweithdrefnau hyn ar gyfer sefyllfaoedd pan fo'r rheolwr safle (neu Y Pennaeth ei hun fel yn yr achos hwn) yw'r un sydd yn achosi y perygl / argyfwng.

Er mwyn cryfhau ein gallu i ymateb yn effeithiol i argyfyngau diogelu, bydd y ffrydiau gwaith newydd yn canolbwyntio ar greu trefniadau cadarn ar gyfer cynllunio, cydlynu a gweithredu mewn sefyllfaoedd brys. Bydd hyn yn cynnwys datblygu protocolau clir i ymateb i hyn mewn argyfwng diogelu er mwyn gwarchod dioddefwyr, diogelu tystiolaeth a rheoli'r troseddwr honedig.

Gall hyn fod yn berthnasol i safleoedd yn ehangach na ysgolion wrth gwrs, megis cartrefi gofal neu ganolfan hamdden ac mae'n hanfodol fod cynlluniau argyfwng ar draws y Cyngor yn ymateb i hynny.

## Ffrwd waith 7 – Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars

### Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn?

#### 7.1 - Cynllun Cefnogi'r Ysgol

Yn dilyn arestio y troseddwr ar y 6ed o Fedi rhoddwyd cefnogaeth sydyn ac ymatebol i'r ysgol, ac fe fabwysiadwyd Cynllun Cefnogi Ysgol oedd yn cynnwys arweiniad allanol beirniadol. O fis Hydref 2023 tan Mawrth 2024, penodwyd Sarah Sutton fel ffrind beirniadol i'r Pennaeth mewn Gofal, tra penodwyd Margaret Davies er mwyn cefnogi'r Dirprwy Bennaeth Lles.

Er mwyn cefnogi'r ysgol a lles y staff drwy'r cyfnod heriol hwn, mae Arweinydd Tîm Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol a Phennaeth Cynorthwyol yr Adran Addysg sydd â chyfrifoldeb am gefnogi'r sector uwchradd, yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth weithredol.

Yn ogystal, mae athro sydd phrofiad sylweddol yn maes cynhwysiad a oedd dan yn ddiweddar iawn yn gweithio mewn Ysgol Uwchradd arall o fewn y Sir yn cynnig cymorth pellach rhwng tri a phedwar diwrnod yr wythnos.

Ers Medi 2023 mae'r Adran Addysg wedi darparu cymorth ac adnodd diwyro i'r Ysgol, sy'n cynnwys cyfraniad ac arbenigedd holl staff yr Adran Addysg, gan sicrhau sefydlogrwydd a chefnogaeth cyson ar gyfer adferiad Ysgol Friars. Rhoddwyd cefnogaeth i adolygu eu polisïau diogelu ac mae polisïau newydd wedi eu mabwysiadu gan yr ysgol.

Mae swyddogion o'r Adran Addysg wedi bod yn cyfarfod cynrychiolwyr yr Undebau yn rheolaidd hefyd, gan gymryd y cyfle i wrando ar bryderon a cheisio rhannu gwybodaeth amserol gyda hwy.

#### 7.2 - Diwygio'r Corff Llywodraethol

Yn dilyn dedfrydu y troseddwr yn mis Mai 2024, bu i'r Cyngor adolygu aelodaeth yr Awdurdod ar y Corff Llywodraethol gan gynnwys penodi pedwar Aelod ar ran yr Awdurdod.

Yn ogystal, bu i aelodau eraill ymadael a bellach mae 14 allan o 19 aelod o'r Corff Llywodraethu yn newydd i'w rôl, gyda Chadeirydd newydd wedi ei phenodi.

Mae cefnogaeth barhaus yn cael ei roi gan Swyddogion yn yr Adran Addysg er mwyn hyfforddi a chynnig cefnogaeth ymarferol i lywodraethwyr newydd yr Ysgol.

Yr Awdurdod sydd yn darparu cefnogaeth clercio i'r Corff Llywodraethol bellach.

#### 7.3 - Newidiadau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Ysgol wedi gweld newidiadau sylweddol ers i'r troseddwr gael ei arestio. Yn ogystal â charchariad y troseddwr, mae aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi gadael eu rolau ac mae Tîm gwbl newydd bellach mewn lle .

Mae cyfrifoldebau y Swyddog Dynodedig Diogelu a oedd yn rhan o'r Uwch Dîm Arwain hefyd wedi ei drosglwyddo i aelod gwahanol o staff.

Bu i'r Ysgol dderbyn goruchwyliaeth gan Margaret Davies, sy'n bennaeth profiadol ac ar y pryd yn bennaeth ar ysgol mewn sir arall.

### 7.4 - Penodiad Pennaeth Dros Dro

Ar ôl heriau recriwtio sylweddol, penodwyd Lynne Hardcastle yn Bennaeth dros dro i ddarparu arweinyddiaeth yn y cyfnod rhwng Tachwedd a diwedd Rhagfyr 2024, yn y lle cyntaf.

Penodwyd Margaret Davies yn Bennaeth i'r ysgol am 4 tymor o Pasg 2025 tan Awst 2026. Bydd y cyfnod estynedig yn y rôl yn cyfle i sefydlogi'r ysgol ac adolygu y trefniadau gweithredu yn drwyadl. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i gefnogi staff am gyfnod estynedig ac yn rhoi ffydd i'r rhieni fod yr ysgol o dan arweinyddiaeth newydd profiadol sydd â chefndir cryf hefyd yn y maes diogelu.

## Beth arall sydd angen ei gyflawni er mwyn cwrdd â'n amcanion?

### 7.5 – Penodi Pennaeth Parhaol newydd

Hyd yma nid yw'r Llywodraethwyr wedi gallu Penodi Pennaeth Parhaol newydd i'r Ysgol a dyma pam fod trefniadau dros dro wedi eu gweithredu. Bydd penodiad Margaret Davies hyd diwedd Tymor yr Haf 2026 yn rhoi cyfle i'r ysgol sefydlogi a chychwyn ar bennod newydd.

Bydd yr ysgol yn cychwyn ar broses recriwtio ar gyfer penodi Pennaeth parhaol newydd yn fuan yn 2026.

### 7.6 – Comisiwn i edrych ar drefniadau gweithredol yn yr ysgol

Wrth i'r Corff Llywodraethu newydd sefydlu eu hunain, ac wrth i'r Pennaeth dros dro gael cyfle i adolygu hol drefniadau'r ysgol, byddwn fel Cyngor yn eu cefnogi i gynnal darn o waith i gymharu trefniadau gweithredu Ysgol Friars gyda'r trefniadau gweithredol yng ngweddill ysgolion y sir gan geisio adnabod gwahaniaethau er mwyn ystyried os oes newidiadau gweithredol sydd angen eu cyflawni.

Bwriedir i'r gwaith hwn gael ei gyflawni ar y cyd rhwng y Corff Llywodraethol newydd a'r Adran Addysg.

## 7. Ymchwiliadau Pellach

Mae ystyriaeth fanwl ar y gweill i ba ymchwiliadau pellach y gallai fod yn briodol i'r Cyngor eu comisiynu, gan ystyried yr adolygiadau sydd eisoes wedi'u cwblhau a'r gwaith sy'n parhau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Drwy'r Cynllun Ymateb hwn, rydym yn ymrwymo i wneud popeth sy'n bosibl i gryfhau diogelu, sicrhau atebolrwydd, ac adfer hyder y cyhoedd.

Er fod yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder wedi rhoi mewnwelediad a gwybodaeth fanwl i ni, mae'r Cyngor wedi datgan yr angen i roi ystyriaeth i pa ymchwiliadau ac adolygiadau pellach sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion sydd wedi eu gosod yn rhan 4, sef cydnabod, ymddiheuro, cefnogi, sefydlu, dysgu, gwella ac atebolrwydd.

Rydym yn ceisio barn a mewnbwn gan sefydliadau ac arbenigwyr allanol i'n cynorthwyo i ddod i gasgliadau pa ymchwiliadau pellach fyddai'n cefnogi ein hamcanion ac yn dilyn hynny bydd angen dod i gasgliad pa waith fydd yn cael ei gomisiynu a bydd angen sefydlu cylch gorchwyl ar eu cyfer.

Wrth ddod i gasgliad byddwn angen bod yn glir os yw'r pwerau gennym i gynnal ymchwiliad i faes penodol ac os mai ni yw'r sefydliad priodol i ni fod yn comisiynu gwaith o'r fath neu a fyddai'n fwy tryloyw i ni alw ar eraill i ystyried hyn. Rydym eisoes wedi datgan ein cefnogaeth i Ymchwiliad Cyhoeddus ac mae'n bosib mai dyma'r cerbyd cywir ar gyfer cyflawni rhai agweddau os ydynt tu hwnt i bwerau'r Cyngor hwn.

Pwrpas yr ymchwiliadau ac adolygiadau hyn fydd i ddysgu gwersi er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Yn y man byddwn yn derbyn casgliadau yr ymchwiliadau uchod a byddwn angen gweithredu ar yr amrywiol gasgliadau ac argymhellion. Bydd yr hyn fydd yn ddisgwyliedig ohonom yn ddibynnol ar y casgliadau a'r argymhellion hynny.

Rydym wedi datgan yn glir o'r cychwyn y byddwn yn cofleidio'r holl argymhellion o bob ymchwiliad ac yn eu gweithredu'n llawn ac yn ddi-oed, ac mae'n briodol i ni ail ddatgan hynny yma.

## 8. Perchnogaeth a threfniadau llywodraethu'r Cynllun

Cabinet y Cyngor sydd yn comisiynu'r Cynllun Ymateb hwn.

Mabwysiadwyd y Cynllun Ymateb gan y Cabinet ar 21 Ionawr 2025 ac yn dilyn hynny sefydlwyd Bwrdd Ymateb penodol i gydlynu a sicrhau cynnydd priodol ac amserol. Gwahoddwyd nifer o gyrff allanol i fod yn rhan o'r Bwrdd a phenodwyd Gadeirydd annibynnol ac chyfarfu'r Bwrdd Ymateb am y tro cyntaf mis Mawrth 2025.

Cadeirir y Bwrdd Ymateb gan yr Athro Sally Holland, cyn Gomisiynydd y Plant, sydd â´r cefndir a phrofiad perthnasol i alluogi herio'r cyflawni a'r gweithredu. Mae nifer o sylwedyddion ar y Bwrdd ymateb gan gynnwys Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Plant.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Ymateb yn adrodd i Gabinet yn chwarterol ac i'w gadarnhau yn y Cylch Gorchwyl y cyfeirir ato uchod.

Mae rôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Craffu Gofal hefyd i graffu'r cynnydd a'r cyflawni (yn ogystal â chyflawni'r Ymchwiliad Craffu a nodir yn rhan 2.7).

Bydd angen adolygu cynnwys y Cynllun hwn yn rheolaidd ac wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Mae hwn yn gynllun byw, ac mae'n anorfod y bydd yn newid wrth i ni symud o'r cam ymchwilio a dysgu i'r cyfnod adfer.

Mae'n anorfod y bydd cynnydd yn anodd i'w fesur gan y bydd nifer o faterion yn agored i farn bersonol. Un ffon fesur fydd cyflawni yr holl gamau unigol a adnabuwyd yn Ffrydiau Gwaith y cynllun ac mae cynllun gweithredu cynhwysfawr a manwl i'w olrhain sydd a dros 200 o dasgau a gweithredoedd i gyflawni amcanion y cynllun hwn. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cytuno ar gyfres o fesurau effaith, gan gynnwys monitro barn pobl ifanc, rhieni a staff ynghylch effeithiolrwydd diogelu mewn ysgolion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen cydnabod y bydd cyflawni hyn oll yn broses hirdymor a byddwn yn ymrwymo i wneud hynny, doed a ddêl.

## 9. Cynllun cyfathrebu

Cyn cyhoeddi Cyfiawnder Trwy ein Dewrder ym mis Tachwedd 2025 roedd cyfyngiadau ar allu'r Cyngor i gyfathrebu gwybodaeth yn llawn rhag amharu ar waith yr adolygwyr annibynnol. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad, mae modd bellach i'r Cyngor rannu llawer mwy o wybodaeth am y gwaith o addasu a chryfhau ein trefniadau mewn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion. Er hyn, mae'n bwysig nodi fod rhaid parhau i droedio'n ofalus gyda'r materion hynny sydd ynghlwm ag achosion unigol plant a/neu oedolion neu'n faterion Adnoddau Dynol.

Mae'r Cynllun Cyfathrebu gwreiddiol – a oedd yn cynnwys cyfres o is-gynlluniau i gyfathrebu gwybodaeth i ran-ddeiliaid allweddol – wedi ei gwblhau. Bellach, mae'r gwaith wedi dechrau i greu Cynllun Cyfathrebu newydd fydd yn seiliedig ar y ffrydiau gwaith yn y Cynllun Ymateb diwygiedig.

Yn ogystal, mae tudalen gwe wedi ei sefydlu fel bod unrhyw ddatganiadau a gwybodaeth berthnasol yn cael ei gadw mewn un lle - www.gwynedd.llyw.cymru/ymatebidroseddau

# CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

## Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd

*Fersiwn hawdd i'w ddarllen*

## 1. BETH DDIGWYDDOD

- Cafodd cyn-bennaeth Ysgol Friars ei arestio yn 2023 am droseddau difrifol yn erbyn plant.
- Cafwyd ef yn euog yn 2024 ac wedi'i ddedfrydu i 17 mlynedd yn y carchar.
- Ym mis Gorffennaf 2024, sefydlwyd Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) annibynnol i ddarganfod beth aeth o'i le ac i ddysgu gwersi.
- Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y CPR, *Cyfiawnder drwy ein Dewrder* ym mis Tachwedd 2025.

## 2. BETH MAE'R CYNGOR YN EI DDWEUD

- Mae'r Cyngor yn ymddiheuro'n glir ac yn agored i'r dioddefwyr.
- Mae'r Cyngor yn cytuno bod methiannau wedi digwydd ac yn derbyn cyfrifoldeb.
- Nod y Cyngor yw sicrhau nad yw hyn byth yn digwydd eto.

## 3. ADOLYGIAD YMARFER PLANT

Ar ôl penderfyniad y llys, sefydlwyd **Adolygiad Ymarfer Plant (CPR)** ar unwaith. Mae hyn yn digwydd bob tro mae camdriniaeth neu esgeulustod difrifol wedi digwydd i blentyn. Roedd y Cyngor yn llawn cefnogaeth ac yn addo gweithredu ar bob argymhelliad.

Arweiniwyd yr adolygiad gan **Jan Pickles**, arbenigwraig hynod brofiadol ym maes diogelu plant, gyda dau ymchwilydd annibynnol yn ei chefnogi. Fe wnaethon nhw gasglu tystiolaeth drwy siarad â dioddefwyr, goroeswyr, staff yr ysgol, gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd.

Cyflwynodd **14 asiantaeth** wybodaeth fanwl i greu llinell amser o'r digwyddiadau. Treuliodd yr Arolygwyr 9 diwrnod yn yr ysgol ac ymgynghorwyd â dros 140 o bobl.

Canolbwyntiodd y Panel ar ymddygiad y troseddwr, ymddygiad proffesiynol, a sut mae materion datgelu a llywodraethu'n cael eu rheoli.

Roedd nifer o asiantaethau lleol a rhanbarthol yn rhan o'r gwaith, gan gynnwys Cynghorau'r gogledd, yr Heddlu a'r GIG.

Yn ystod y broses, casglwyd a chyflwynwyd pob tystiolaeth berthnasol, adolygwyd **Cylch Gorchwyl** yr adolygiad yn rheolaidd, a darparwyd diweddariadau i Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd yr adolygiad ym mis Tachwedd 2025.

Bu'r Cyngor hefyd yn cwrdd yn aml â Chadeirydd y Panel i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n glir ac yn effeithiol.

Ar y 4 Tachwedd 2025, cyhoeddwyd adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant *Cyfiawnder drwy ein Dewrder*, ddwy flynedd ar ôl arestio'r troseddwr ac ddeunaw mis ar ôl dechrau'r Adolygiad. Roedd yr adroddiad yn feirniadol iawn o sawl sefydliad, yn enwedig y Cyngor ag Ysgol Friars. Canfuwyd bod nifer fawr o gyfleoedd wedi'u colli dros y blynyddoedd, ac roedd cwestiynau difrifol ynghylch rhai penderfyniadau a wnaed. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd argymhellion pwysig o Adolygiad Clywch (2004) wedi'u gweithredu'n genedlaethol.

Ar ddiwrnod y cyhoeddi, rhannodd y Cyngor ddatganiad cyhoeddus. Derbyniodd y Cyngor gyfrifoldeb am sawl methiant, a mynegwyd ymddiheuriad llwyr. Pwysleisiodd y datganiad:

- fod y Cyngor yn ymddiheuro'n gwbl ddidwyll,
- fod y Cyngor yn derbyn holl gasgliadau ac argymhellion yr adroddiad,
- eu bod yn benderfynol o wella ac yn barod i ddelio'n agored â'r mater,
- cofio'r dioddefwyr a'u dewrder wrth siarad allan,
- cydnabod bod y pennaeth a weithredodd y troseddau wedi camddefnyddio ymddiriedaeth a dwyllo llawer o bobl,
- a bod angen newid lleol a chenedlaethol i gryfhau diogelu plant.

## 4. CYNLLUN YMATEB

Ar ôl cyhoeddir adroddiad, sefydlwyd gynllun gweithredu, sef y **Cynllun Ymateb** hwn sydd yn esbonio beth fyddwn yn ei wneud er mwyn ymateb i argymhellion yr adroddiad *Cyfiawnder drwy ein Dewrder*.

Nododd y Cyngor hefyd fod Athro Sally Holland, cyn-Gomisiynydd Plant Cymru, yn cadeirio Bwrdd Ymateb y Cyngor, ac bod gwaith gwella eisoes ar y gweill. Serch hynny, mae llawer o waith pellach i'w wneud.

Pwrpas y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb ydi edrych, herio a gyrru'r holl ffrydiau gwaith sy'n deillio o'r adolygiadau ac ymchwiliadau yn dilyn troseddau Cyn-Bennaeth Ysgol Friars.

Mae'r Bwrdd yn un annibynnol sy'n cynnwys pobl broffesiynol o sefydliadau eraill fel Estyn, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Plant ac Arolygaeth Gofal Cymru, felly mae'n gallu edrych ar y gwaith yn wrthrychol, a chynnig her o'r tu allan. Mae'r Bwrdd yn edrych ar effaith y newidiadau mae Cyngor Gwynedd yn eu cyflwyno, ac yn adrodd ar yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd wedi newid. Mae mwy o wybodaeth am aelodaeth a gwaith y Bwrdd ar waelod y dudalen hon.

Mae hyn yn bwysig er mwyn rhoi hyder i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd bod camau'n cael eu cymryd i ddysgu gwersi o'r achos hwn.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, adolygwyd y cynllun gweithredu presennol er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb yn llawn i'r argymhellion. Roedd hyn wedi'i gynllunio ers y dechrau.

## 5. AMCANION Y CYNLLUN YMATEB

Mae saith prif amcan wedi eu hadnabod ar gyfer y Cynllun hwn ac rydym yn ymrwymo y byddwn yn:

1. **Cydnabod** yn agored a chyhoeddus na ddylai y fath droseddau fyth fod wedi digwydd ac na ddylai yr un plentyn oddef y fath brofiadau.
2. **Ymddiheuro** yn ddidwyll i'r dioddefwyr a goroeswyr a'u teuluoedd am yr hyn y maent wedi gorfod ei ddioddef.
3. **Cefnogi** y dioddefwyr a goroeswyr, yr ysgol a'r gymuned ehangach i geisio adfer eu sefyllfa.
4. **Sefydlu** holl ffeithiau yr achos, yr hanes o amgylch y sefyllfa a'r cyd-destun ehangach.
5. **Dysgu** yr holl wersi a gaiff eu hadnabod fel rhan o gasgliadau ac argymhellion pob ymchwiliad.
6. **Gwella** drwy ymateb yn gyflawn a chyflym i bob casgliad ac argymhelliad gyda'r nod o roi hyder i'r cyhoedd ein bod yn gwneud popeth posib i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd fyth eto.
7. **Atebol** drwy fod yn agored ac yn dryloyw am ein cynnydd gwelliant ac ymrwymo i fesur effaith y newidiadau rydym yn eu rhoi ar waith.

## 6. SUT FYDD Y CYNGOR YN GWNEUD HYN

Ers cyhoeddi'r cynllun gwreiddiol yn Rhagfyr 2024, mae llawer o'r tasgau cyntaf eisoes wedi'u cwblhau. Ar ôl cyhoeddi *Cyfiawnder drwy ein Dewrder*, cafodd y ffrydiau gwaith eu hadolygu a'u hail-drefnu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu argymhellion yr adroddiad. Trefnwyd y gwaith yn ôl themâu clir:

Yn nes ymlaen yn y Cynllun, byddwn yn esbonio sut caiff ein cynnydd ei fonitro. Rydym yn cydnabod yn glir fod gennym daith hir a heriol o'n blaen cyn gallwn ddweud ein bod wedi gweithredu popeth yn llawn ac yn briodol.

**Thema 1: Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**



**Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod Cyngor Gwynedd yn:**

- Gwrando ar blant a phobl ifanc, ac yn eu credu, ac yn eu cymryd o ddifri.
- Gwneud popeth sydd yn bosib i gefnogi y rhai sydd wedi dioddef.
- Cynnwys plant a phobl ifanc yn y drafodaeth pan mae penderfyniadau yn cael eu gwneud.

### Beth mae adroddiad *Cyfiawnder drwy ein Dewrder* yn ei ddweud?

- Nid oedd gweithwyr proffesiynol wedi gwrando ar bryderon plant.
- Pan gafodd pryderon diogelu eu codi, nid oedd gweithwyr wedi siarad efo'r plentyn er mwyn clywed eu stori ar bob achlysur.
- Mae angen gwneud mwy i gefnogi dioddefwyr sydd wedi profi trawma.

### Beth sydd wedi digwydd yn barod i wella pethau?

- Mae ymddiheuriad personol wedi ei gynnig i'r merched a gafodd eu cam-drin gan y cyn-bennaeth.
- Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda arbenigwyr o Ganolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol (RASAC) Gogledd Cymru a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVAs) i wneud yn siŵr bod cymorth personol ar gael i'r rhai sydd wedi dioddef. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth emosiynol, mynediad at wasanaethau therapiwtig a chymorth ymarferol. Nid yw pob un dioddefwr wedi derbyn y cynnig, ond bydd y gefnogaeth yn parhau i fod ar gael iddynt ar unrhyw adeg os ydynt ei angen.
- Mae'r Cyngor wedi newid y trefniadau pan mae pryder diogelu yn ymwneud â phlentyn ac oedolyn proffesiynol yn cael ei adrodd (mae hyn yn cael ei adnabod fel 'cyfeiriad Rhan 5'). Mae Adran Plant Cyngor Gwynedd rŵan yn sicrhau bod y plentyn yn cael cyfle i siarad efo gweithiwr cymdeithasol ar bob achlysur.
- Mae Cyngor Gwynedd yn cyflogi gweithiwr i gefnogi'r Fforwm Ieuenctid i wneud yn siŵr fod pobl ifanc yn gallu lleisio eu barn a chyfrannu at benderfyniadau'r Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi atgoffa pob Ysgol fod angen arddangos posteri gyda manylion cyswllt yr NSPCC mewn mannau amlwg yn eu hysgolion fel fod plant a phobl ifanc yn gwybod sut i gael cefnogaeth os ydynt ei angen.

### Beth fydd yn digwydd rhwng mis Ionawr 2026 a mis Gorffennaf 2026?

Bydd Cyngor Gwynedd yn ....

- Datblygu Siarter Llais y Plentyn a fydd yn egluro sut mae Cyngor Gwynedd yn gwrando ar blant a phobl ifanc.
- Cynnal gweithdy Hawliau'r Plentyn ar gyfer y Fforwm Ieuenctid ac Aelodau'r Bwrdd Rhaglen (Chwefror 2026).
- Edrych ar sut mae plant a phobl ifanc yn dweud eu dweud ar draws y Cyngor, ac edrych ar beth fyddai angen ei newid er mwyn gwneud yn siŵr bod Gwynedd yn gyngor "Plentyn-gyfeillgar".

### Beth fydd Cyngor Gwynedd wedi ei gyflawni erbyn Chwefror 2027?

- Bydd holl staff Cyngor Gwynedd yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant i wneud yn siŵr eu bod yn deall sut y gall profiadau anodd effeithio ar blant. Y nod yw gwneud Cyngor Gwynedd yn lle sy'n meddwl am deimladau ac yn "drawma-wybodus".
- Bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud yn siŵr bod pob disgybl ysgol yn gallu adnabod yr arwyddion os yw oedolyn yn creu perthynas amhriodol ( "grooming"), ac yn gwybod sut, ac yn hyderus, i adrodd hynny.
- Bydd trefn mewn lle i wneud yn siŵr bod y Fforwm Ieuenctid yn rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau, a bod aelodau'r Fforwm yn cael cyfle i roi eu barn ar waith y Cyngor.

### Mesur effaith

- Adborth gan y Grŵp Cefnogi Dioddefwyr am y profiad a safon y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig gan Cyngor Gwynedd.
- Adborth gan Fforwm Ieuenctid Gwynedd, gan ystyried hyder a phrofiad pobl ifanc o'r drefn diogelu mewn ysgolion.
- Canran staff y Cyngor sydd wedi cwblhau'r Hyfforddiant Trawma-Wybodus.
- Polisi Cyfranogiad / Polisi Llais y Plentyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn rheolaidd, gyda mewnbwn gan blant a phobl ifanc ledled Gwynedd.

## Thema 2: Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n Gweithio gyda Phlant

**Rydym eisiau:**



Amddiffyn plant drwy sicrhau bod unrhyw bryderon diogelu yn cael eu cymryd o ddifri ac yn cael sylw'n gyflym.

Gwneud yn siŵr bod Cyngor Gwynedd, Yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i gilydd wrth ymateb i bryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant.

### Beth mae adroddiad *Cyfiawnder drwy ein Dewrder* yn ei ddweud?

- Roedd hi'n anodd dod o hyd i'r ffurflen ar gyfer cyfeirio pryderon diogelu ar y wefan, ac roedd y ffurflen yn anodd i'w ddefnyddio.
- Ni wnaeth gweithwyr proffesiynol adrodd am eu pryderon.
- Ni chafodd gwybodaeth ei rannu gyda gweithwyr proffesiynol yn y ffyrdd cywir nac ar yr adeg iawn.
- Nid oedd pob gweithiwr proffesiynol yn deall y maes yn ddigonnol, nac yn deall beth oedd angen ei wneud i ymateb i bryderon diogelu.
- Nid oedd gwybodaeth diogelu blaenorol yn cael ei ystyried bob tro wrth wneud penderfyniadau.
- Roedd cynghorau yn anghytuno ar beth ddylai ddigwydd pan oedd pryderon am faterion diogelu yn codi. Nid oedd y bobl iawn yn mynd i'r cyfarfodydd i drafod diogelu ac nid oedd penderfyniadau bob amser yn cael eu rhannu.

### Beth sydd wedi digwydd yn barod i wella pethau?

- Mae'r daflen sy'n cael ei ddefnyddio i gofnodi trafodaethau a chyfarfodydd diogelu ('Strategaeth Rhan 5') wedi newid. Erbyn hyn, mae unrhyw wybodaeth diogelu blaenorol neu hanesyddol am y plentyn yn cael ei gofnodi a'i rannu.
- Mae'r ffurflen ar gyfer cyfeirio honiadau o gamdriniaeth bellach ar gael yn fwy amlwg ar wefan y Cyngor ar y dudalen Cam-drin Plant
- Mae'r Cyngor wedi gwneud yn siŵr bod pob ysgol yn y sir wedi derbyn copi o'r ffurflen ar gyfer cyfeirio honiadau o gamdriniaeth.
- Mae'r Cyngor wedi addasu trefniadau fel nad ydi'r cyfrifoldeb am benderfyniadau diogelu yn disgyn ar un gweithiwr yn unig. Mae pob cyfeiriad yn cael ei ddarllen gan y Tîm Derbyn Cyfeiriadau, gyda sgwrs wedyn yn cael ei chynnal gyda'r Swyddogion Diogelu.
- Creu Tîm Diogelu a Llesiant i ymweld a chefnogi ysgolion.

## Beth fydd yn digwydd rhwng mis Ionawr 2026 a mis Gorffennaf 2026?

**Bydd Cyngor Gwynedd yn:**

- Gwneud yn siŵr bod gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol restr o staff Cyngor Gwynedd sydd wedi bod yn destun pryderon diogelu (drwy'r drefn sydd yn cael ei hadnabod fel 'Rhan 5').
- Gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i edrych ar ffyrdd o gryfhau'r cyd-weithio.
- Recriwtio Swyddog Dynodedig Diogelu (*Designated Officer for Safeguarding neu DOS*) ychwanegol i helpu efo'r gwaith o dderbyn pryderon am gam-drin plant.
- Cyflwyno trefniadau cydweithio cryfach rhwng gweithwyr Adran Plant a gweithwyr Adran Addysg Cyngor Gwynedd.

## Beth fydd Cyngor Gwynedd wedi ei gyflawni erbyn Chwefror 2027?

- Bydd trefn newydd ar gyfer gwirio bod y gwaith mae'r Adran Plant a Chefnogi Teulu yn ei wneud o ansawdd. Fel rhan o'r drefn newydd, bydd disgwyliad i'r Cyngor adolygu pa swyddogion sy'n mynychu trafodaethau diogelu (strategaeth "Rhan 5") ac ansawdd y cofnodion sy'n cael eu cadw wrth wneud penderfyniadau am ddiogelu.
- Ei gwneud yn haws i adrodd pryder drwy greu ffurflen gyfeirio ddigidol ar wefan y Cyngor, fel nad oes rhaid lawrlwytho ffurflen PDF a'i hanfon dros e-bost. Mae cynllun ehangach hefyd ar waith i gyflwyno un ffurflen gyfeirio genedlaethol ar gyfer holl gynghorau Cymru.

## Mesur effaith

- Adolygiad rheolaidd gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol o'r cyfeiriadau diogelu plant ("Rhan 5") sy'n cael eu gwneud.
- Casglu, dadansoddi ac adrodd ar dystiolaeth o hyder staff sydd yn ymwneud â phenderfyniadau diogelu ("Rhan 5").

**Thema 3: Hyfforddiant a Pholisïau**



**Rydym eisiau gwneud yn siŵr:**

- Bod staff Cyngor Gwynedd wedi eu hyfforddi i fod yn fwy drwgdybus, hynny yw i feddwl y 'gwaethaf posib' a deall y 'gallai ddigwydd yma'.
- Ein bod yn datblygu a chryfhau polisïau er mwyn gwneud yn siŵr bod arweiniad clir ar gyfer gweithwyr Cyngor Gwynedd.

### Beth mae adroddiad *Cyfiawnder drwy ein Dewrder* yn ei ddweud?

- (Hon ydi'r adroddiad gafodd ei chyhoeddi yn dilyn ymchwiliad Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru i droseddau y cyn-bennaeth. (Gweld yr adroddiad)
- Nid oedd y Person Diogelu Dynodedig yr ysgol lle gwnaeth y cyn-Brifathro droseddu wedi derbyn hyfforddiant diogelu addas. (Y Person Diogelu Dynodedig ydi'r person sydd wedi'i benodi i fod yn gyfrifol am faterion diogelu mewn ysgol).
- Nid oedd Llywodraethwyr a staff yr ysgol wedi derbyn hyfforddiant diogelu addas.
- Nid oedd staff Cyngor Gwynedd na staff yr Ysgol yn gwybod pryd a sut i gyflwyno pryder (trefn sy'n cael eu hadnabod fel "Canu'r Gloch").

### Beth sydd wedi digwydd yn barod i wella pethau?

- Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnwys gwybodaeth am feithrin perthnasoedd amhriodol ("grooming") yn y pecyn hyfforddiant i bob ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (Medi 2025).
- Mae Tîm Diogelu a Llesiant Ysgolion wedi ei sefydlu o'r newydd. Mae'r Tîm yn rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i'r Person Diogelu Dynodedig ym mhob ysgol yng Ngwynedd.
- Mae gweithiwr wedi cael ei benodi i godi ymwybyddiaeth o'r maes diogelu ar draws y Cyngor a rhoi gwybod am yr hyfforddiant diogelu sydd ar gael i staff.
- Mae pob adran o fewn Cyngor Gwynedd yn gwirio faint o staff sydd wedi mynychu hyfforddiant Diogelu, ac hyfforddiant ar Drais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Ers Ionawr 2025 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn cael ymweliad gan y Tîm Diogelu a Llesiant Ysgolion unwaith y flwyddyn. Bydd y Tîm yn edrych ar ddiogelu o fewn yr ysgol, ac yn sicrhau bod posteri a gwybodaeth ar gael, a bod staff yn gwybod sut i ddelio â phryderon.

### Beth fydd yn digwydd rhwng mis Ionawr 2026 a mis Gorffennaf 2026?

**Bydd Cyngor Gwynedd yn:**

- Trefnu hyfforddiant ychwanegol i staff sy'n gweithio â phlant er mwyn eu helpu i adnabod newid mewn ymddygiad plentyn a allai fod yn arwydd o berthynas amhriodol neu gam-driniaeth.
- Mabwysiadu polisi cyflwyno pryder (Polisi "Canu'r Gloch") a gwneud mwy o waith i godi ymwybyddiaeth staff ar draws y Cyngor. Bydd polisi tebyg hefyd yn cael ei gyflwyno ar gyfer Cynghorwyr Gwynedd.
- Cyflwyno hyfforddiant cadw cofnodion diogelu.
- Bydd aelodau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor (grŵp o gynghorwyr sy'n gwirio bod y Cyngor yn gwneud pethau'n iawn) yn gorffen ymchwilio i drefniadau diogelu mewn ysgolion.

### Beth fydd Cyngor Gwynedd wedi ei gyflawni erbyn Chwefror 2027?


**Bydd Cyngor Gwynedd wedi:**

- Gwneud yn siŵr bod pob aelod newydd o staff yn derbyn hyfforddiant diogelu yn amserol ar ddechrau eu swydd.
- Derbyn canlyniad yr ymchwiliad gan aelodau Pwyllgorau Craffu a llunio cynllun i weithredu ar unrhyw argymhellion.

Mesur effaith

- Bod pob aelod o staff sydd angen Tystysgrif DBS ar gyfer eu swydd efo Tystysgrif DBS gyfredol. (Tystysgrif DBS ydi'r archwiliad i wirio os ydi person yn ddiogel i weithio gyda phlant neu bobl bregus)
- Adrodd ar nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu a'r hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Bod pob ysgol yn derbyn ymweliad gan y Tîm Diogelu a Llesiant Ysgolion, a nifer yr ysgolion sydd yn dilyn polisïau diogelu'r Cyngor.

**Thema 4: Llywodraethiant Ysgolion**



**Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod:**

Llywodraethwyr ysgolion Gwynedd yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel. (Grŵp o bobl sy'n gwirfoddoli i reoli ysgol ydi Llywodraethwyr.)

Systemau mewn lle er mwyn mesur lles disgyblion, staff, a diwylliant ehangach ysgolion.

Beth mae adroddiad *Cyfiawnder drwy ein Dewrder* yn ei ddweud?

- Roedd gan y cyn-Bennaeth ormod o reolaeth yn yr Ysgol.
- Nid oedd llywodraethwyr yr ysgol yn teimlo'n hyderus i herio'r Pennaeth. Dywedasant nad oeddent yn cael anghytuno ag ef, gan y gallai hynny arwain at gael eu gorfodi i adael y corff llywodraethu.
- Roedd yr ysgol yn gweithredu polisïau diogelu oedd wedi eu hysgrifennu gan y pennaeth, nid Polisi y sir.
- Nid oedd y Llywodraethwyr wedi cael digon o hyfforddiant ar sut i ddiogelu plant.

Beth sydd wedi digwydd yn barod i wella pethau?

- Mae hyfforddiant diogelu yn cael ei gwblhau gan bob llywodraethwr ysgol yng Ngwynedd. Yn ychwanegol i hyn, rhoddir hyfforddiant ychwanegol i Gadeiryddion a Llywodraethwr sy'n gyfrifol am Ddiogelu ar pob corff llywodraethu.
- Mae llawlyfr llywodraethwr newydd wedi'i greu ac wedi'i rannu gyda holl lywodraethwyr Gwynedd.
- Mae gan y Cyngor weithiwr sydd yn darparu cyngor a chefnogaeth i gyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd.

Beth fydd yn digwydd rhwng mis Ionawr 2026 a mis Gorffennaf 2026?

Bydd Cyngor Gwynedd yn ....

- Paratoi, datblygu a rhannu rhaglen sefydlog ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion Gwynedd. Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar materion diogelu lles, ac yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw i ddeall sut mae eu hysgol yn gwneud.

### Beth fydd Cyngor Gwynedd wedi ei gyflawni erbyn Chwefror 2027?

- Bydd Cyngor Gwynedd wedi rhoi pob argymhelliad perthnasol i gynghorau sir ar waith ar ôl adolygiad Llywodraeth Cymru o lywodraethu ysgolion yng Nghymru.

### Mesur effaith

- **Arolygiadau ysgolion Estyn (Tîm o bobl sy'n ymweld ag ysgolion i weld pa mor dda maen nhw'n gwneud)** yn dangos fod pob ysgol yn dilyn y trefn diogelu.
- **Canran o gyrff llywodraethu** ysgolion Gwynedd sy'n adrodd bod pob aelod o'u corff llywodraethu wedi cwblhau hyfforddiant diogelu.

## Thema 5: Grym Rhesymol

**Rydym eisiau gwneud yn siŵr:**

Bod arferion cyfyngol ond yn cael eu defnyddio i gadw plentyn yn ddiogel neu i atal niwed difrifol. Ni ddylid byth ei ddefnyddio i gosbi, rheoli na bychanu plentyn.



Bod staff ysgolion yn cael hyfforddiant a rheolau clir ynglŷn â sut a phryd i ddefnyddio grym rhesymol.

Os defnyddir grym, rhaid i'r plentyn gael cymorth a chefnogaeth os ydyn nhw wedi cael eu brifo yn gorfforol neu'n feddyliol.

### Beth mae adroddiad *Cyfiawnder drwy ein Dewrder* yn ei ddweud?

- Roedd lefelau anghyfreithlon o rym yn cael ei ddefnyddio yn yr ysgol dan sylw yng nghyfnod y cyn-bennaeth.
- Fe wnaeth y cyn-Bennaeth gam-arwain staff yr ysgol i feddwl ei fod yn iawn i ddefnyddio grym fel hyn.
- Roedd y cyn-Bennaeth yn annog staff yr ysgol i ffilmio ataliaeth corfforol ar blant.
- Pan ddefnyddiwyd ataliaeth corfforol ar blentyn, nid oedd trefniadau mewn lle i wneud yn siŵr fod y plentyn heb frifo ac i gynnig cymorth trawma
- Nid oedd rhieni plant oedd wedi cael eu hatal yn gorfforol yn teimlo bod eu cwynion yn cael eu deall na'u parchu.

### Beth sydd wedi digwydd yn barod i wella pethau?

- Pan fydd Tîm Diogelu a Llesiant Addysg yn ymweld ag ysgolion maent bob tro yn edrych ar Bolisi Arferion Cyfyngol yr ysgol.
- Mae hyfforddiant Arferion Cyfyngol yn cael ei roi i staff sydd ei angen.

### Beth fydd yn digwydd rhwng mis Ionawr 2026 a mis Gorffennaf 2026?

Bydd Cyngor Gwynedd yn ....

- Adolygu'r Polisi Arferion Cyfyngol sirol ac yn sicrhau bod pob ysgol yn mabwysiadu'r polisi hwnnw yn llawn

- Cysoni'r hyfforddiant sy'n cael ei ddefnyddio gan Wasanaethau Addysg a Phlant y Cygor yn y maes arferion cyfyngol fel bod yr un dulliau'n cael eu defnyddio.

Mesur effaith

- Bod pob un o ysgolion Gwynedd yn cydymffurfio efo'r Polisi Arferion Cyfyngol sirol.
- Pan fo digwyddiadau arferion cyfyngol mewn Ysgol, bydd y Cyngor yn cadw tystiolaeth fod trafodaethau proffesiynol yn cael eu cynnal

**Thema 6: Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng Diogelu**

**Rydym eisiau gwneud yn siŵr:**

Bod trefniadau cynllunio ac ymateb i argyfwng addas mewn lle, a bod pawb yn gwybod beth i'w wneud mewn sefyllfa argyfwng diogelu.



Beth mae adroddiad *Cyfiawnder drwy ein Dewrder* yn ei ddweud?

- Nid oedd cynllun argyfwng gan yr ysgol, lle bu i'r cyn-Bennaeth gam-drin disgyblion.
- Nid oedd yn glir beth oedd angen ei wneud gan fod yr argyfwng yn ymwneud â'r Pennaeth.
- Ni chafodd yr heddlu eu galw ar unwaith pan roedd un o ddisgyblion yr ysgol mewn perygl.
- Ni chafodd y cyn-Bennaeth ei atal rhag dod i'r ysgol pan gafodd staff wybod am y trosedd.

Beth sydd wedi digwydd yn barod i wella pethau?

- Mae tîm o fewn y Cyngor wedi cyfarfod er mwyn adolygu'r cynllun argyfwng.
- Sgyrsiau efo aelodau staff allweddol i ddeall be aeth o'i le ar ddiwrnod yr arest a sut i wella trefniadau i'r dyfodol.
- Adolygu trefniadau rhannu gwybodaeth sydd eisoes ar waith yn y maes diogelu a chynllunio at argyfyngau i weld os oes angen eu cryfhau.

Beth fydd yn digwydd rhwng mis Ionawr 2026 a mis Gorffennaf 2026?

Bydd Cyngor Gwynedd yn ....

- Cyd-weithio gyda'r Heddlu er mwyn gwneud yn siŵr fod trefniadau cadarn mewn lle pe bai sefyllfa argyfwng diogelu yn codi yn y dyfodol.
- Paratoi adnodd hyfforddi ar sut i ymateb i argyfyngau diogelu.

Beth fydd Cyngor Gwynedd yn gyflawni mewn blwyddyn?

- Bydd staff yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio efo argyfwng diogelu.
- Bydd y Cyngor yn gweithio gyda gwahanol wasanaethau ac awdurdodau lleol eraill drwy'r Bwrdd Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol.

Mesur effaith

- **Canran o staff y Cyngor sydd** wedi mynychu hyfforddiant cynllunio argyfwng
- Canran o ysgolion Gwynedd sydd wedi mabwysiadu Polisi Rheoli Argyfwng
- **Nifer archwiliadau boddhaol** o gynlluniau argyfwng ar y safleoedd y Cyngor

**Thema 7: Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars**

**Rydym eisiau:**

Cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars.



Beth mae adroddiad *Cyfiawnder drwy ein Dewrder* yn ei ddweud?

Er nad oes argymhelliad penodol i Ysgol Friars yn unig yn yr Adroddiad, mae'n dangos yn glir fod y cyn-bennaeth wnaeth droseddu yn:

- rheoli pob agwedd o'r ysgol.
- herio unrhyw un a oedd yn codi pryder amdano.
- creu awyrgylch o ofn a diffyg ymddiriedaeth gan gynnwys bwlio disgyblion, rhieni a staff.

Beth sydd wedi digwydd yn barod i wella pethau?

- Penodwyd Pennaeth newydd i arwain yr Ysgol.
- Ers Medi 2023, mae Adran Addysg Cyngor Gwynedd wedi helpu'r ysgol drwy ddarparu staff ychwanegol a chefnogaeth i'r arweinyddiaeth newydd i adolygu'r polisïau.
- Mae disgyblion a staff yr ysgol yn cael cefnogaeth i edrych ar ôl eu llesiant.
- Mae corff llywodraethu'r ysgol wedi newid. Mae pedwar aelod newydd wedi cael eu penodi i gynrychioli'r Cyngor, ac mae clerc newydd yn helpu i drefnu a chadw trefn ar y cyfarfodydd.

Beth fydd Cyngor Gwynedd yn ei wneud rhwng mis Ionawr 2026 a mis Gorffennaf 2026?

Bydd Cyngor Gwynedd yn ....

- Cymharu trefniadau gweithredu'r ysgol gyda'r threfniadau ysgolion eraill y sir er mwyn ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

Beth fydd Cyngor Gwynedd wedi gyflawni mewn blwyddyn?

- Bydd yr Ysgol wedi cael cyfle pellach i sefydlogi.

Mesur effaith

- **Adborth Cyngor yr Ysgol** ar ddiogelwch a lles yn yr ysgol wedi ei gasglu a'i ystyried

## 7. YMCHWILIADAU PELLACH

Rydym yn ystyried yn ofalus pa ymchwiliadau pellach sy'n briodol, gan feddwl am yr adolygiadau sydd eisoes wedi digwydd a'r gwaith sy'n parhau'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Drwy'r Cynllun Ymateb hwn, rydym yn addo gwneud popeth posibl i gryfhau diogelu, sicrhau atebolrwydd ac adfer hyder y cyhoedd.

Er bod yr adroddiad *Cyfiawnder drwy ein Dewrder* wedi rhoi llawer o wybodaeth i ni, rydym wedi cydnabod bod angen edrych ar ba ymchwiliadau neu adolygiadau pellach sydd eu hangen i:

- gydnabod beth sydd wedi digwydd,
- ymddiheuro,
- cefnogi pobl,
- sefydlu'r ffeithiau,
- dysgu gwersi,
- gwella,
- a sicrhau atebolrwydd.

Rydym yn gofyn am farn a chyngor gan sefydliadau ac arbenigwyr allanol i ein helpu penderfynu pa ymchwiliadau fyddai'n ein cefnogi fwyaf. Ar ôl hynny, bydd angen penderfynu pa waith i'w gomisiynu a chreu cylch gorchwyl clir ar eu cyfer.

Wrth wneud penderfyniadau, bydd angen i ni wirio:

- a oes gennym y pwerau i gynnal ymchwiliad penodol,
- a ydyn ni'n gorff addas i gomisiynu'r gwaith,
- neu a fyddai'n fwy tryloyw galw ar gorff arall i ystyried y mater.

Rydym eisoes wedi cefnogi'r galwad am Ymchwiliad Cyhoeddus, ac efallai mai hwn fydd y lle gorau i ymdrin â rhai agweddau sydd y tu hwnt i bwerau'r Cyngor.

Prif bwrpas yr ymchwiliadau hyn yw dysgu gwersi a sicrhau gwelliant parhaus.

Byddwn yn derbyn casgliadau'r ymchwiliadau pan fyddant yn barod, ac yna bydd angen i ni weithredu ar y canfyddiadau a'r argymhellion. Bydd yr hyn a ddisgwylir gennym yn dibynnu ar y casgliadau hynny.

Rydym wedi bod yn glir o'r dechrau: byddwn yn derbyn ac yn gweithredu ar bob argymhelliad o bob ymchwiliad, yn llawn ac ar unwaith. Mae'n briodol i ni ailgadarnhau hynny yma.

## 8. PERCHNOGAETH A THREFNIADAU MONITRO'R CYNLLUN

- Cabinet y Cyngor sydd wedi comisiynu'r Cynllun Ymateb.
- Mabwysiadwyd y cynllun ar 21 Ionawr 2025.
- Wedi hynny, sefydlwyd Bwrdd Ymateb i gydlynu'r gwaith a sicrhau cynnydd amserol.
- Gwahoddwyd sawl corff allanol i ymuno, ac mae'r Athro Sally Holland yn Gadeirydd annibynnol.

Ar y Bwrdd mae arsylwyr o Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Plant.

Mae'r Cadeirydd yn adrodd i'r Cabinet bob chwarter.

Mae sawl pwyllgor o fewn y Cyngor hefyd yn craffu ar y cynnydd:

- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Craffu Gofal

Mae'n rhaid diweddaru'r Cynllun yn rheolaidd gan ei fod yn gynllun byw. Mae'n debygol y bydd yn newid wrth i ni symud o ymchwilio a dysgu i gyfnod adfer.

Mae mesur cynnydd yn anodd oherwydd natur sensitif y materion, ond:

- mae dros 200 o dasgau yn y cynllun gwaith manwl,
- a mesurau effaith wedi'u cytuno, gan gynnwys barn plant, rhieni a staff am ddiogelu mewn ysgolion.

Rydym yn cydnabod bod hyn yn daith hir, ac rydym yn ymrwymo i'w gwblhau.

## 9. CYNLLUN CYFATHREBU

Cyn cyhoeddi *Cyfiawnder Trwy ein Dewrder* ym mis Tachwedd 2025, roedd cyfyngiadau ar beth y gallai'r Cyngor ei rannu, er mwyn peidio amharu ar yr adolygiad. Bellach, mae'n bosibl rhannu mwy o wybodaeth am y gwaith o wella trefniadau diogelu.

Er hynny, rhaid dal ati i fod yn ofalus gyda:

- achosion unigol o blant neu oedolion,
- a materion Adnoddau Dynol.

Mae'r Cynllun Cyfathrebu gwreiddiol eisoes wedi'i gwblhau. Rydym nawr yn datblygu Cynllun Cyfathrebu newydd, wedi'i seilio ar y ffrydiau gwaith diwygiedig yn y Cynllun Ymateb hwn.

Yn ogystal, mae tudalen gwe wedi ei sefydlu fel bod unrhyw ddatganiadau a gwybodaeth berthnasol yn cael ei gadw mewn un lle - www.gwynedd.llyw.cymru/ymatebidroseddau

ATODIAD 3

1. **Penderfyniad Pwyllgor Craffu gofal**

- Nodi'r rhaglen waith
- Gofyn am adroddiad cynnydd mewn 6 mis ar y rhaglen waith gan gynnwys gwybodaeth am y polisi canu'r gloch a'i weithrediad
- Gofyn am adroddiad ar y gwaith o sicrhau statws Sir Plentyn Gyfeillgar a dod yn Gyngor Trawma Wybodus
- Gofyn i'r Cabinet ystyried
    - ychwanegu enw cyswllt benywaidd allanol i'r poster rhannu gwybodaeth am bryderon a sicrhau bod manylion cyswllt ar gael ar wefannau ysgolion a gwefan y Cyngor
    - rhoi sylw i lais y teulu yn ogystal â llais y plentyn yn ffrwd gwaith 1
    - diwygio'r testun o dan y pennawd '2.3 – Archwiliad Estyn o Adran Addysg y Cyngor' ar dudalen 18 y Cynllun Ymateb i gynnwys brawddeg sy'n adlewyrchu y cyd-destun sef serch y ganmoliaeth gan Estyn arestiwyd pennaeth ysgol ychydig fisoedd wedyn
    - sicrhau bod hyfforddiant meithrin perthnasoedd amhriodol 'grooming' ar gael i bawb sydd ei angen
    - darparu hyfforddiant diogelu arbenigol allanol i aelodau ac i lywodraethwyr
    - ychwanegu "lles plant a phobl ifanc" at ddisgrifiad ffrwd gwaith 7 - Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars

gohebu gyda Llywodraeth Cymru i ddatgan pryder am y heriau a'r risgiau ynghylch rôl llywodraethwyr ysgolion

2. **Penderfyniad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

- Derbyn manylder y Cynllun Ymateb
- Yn diolch i'r Swyddogion am eu gwaith ac yn croesawu bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm
- Bod angen crynodeb / blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu
- Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol â'r sefyllfa
- Cais gan y Pwyllgor i Estyn gydnabod gwendidau eu hadroddiad ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023
- Bod Trefniadau Canu'r Gloch a Threfniadau Diogelu angen bod ymysg y gorau - croesawu adolygiadau i'r polisïau hyn - angen diweddariad ar y gwaith, yr amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu
- Nodyn: Cais i adolygu paragraff olaf 2.5 o'r Cynllun Ymateb: 'Ymchwiliad i Ddigwyddiadau 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg' – angen mwy o gyd-destun am yr ymchwiliad annibynnol a gwblhawyd a beth oedd y penderfyniad dros beidio rhannu'r adroddiad / casgliadau. Cais i osod cyd-destun i ganmoliaeth Estyn i drefniadau diogelu'r Cyngor (Mehefin 2023). Y geiriad fel y mae yn amhriodol o ystyried y methiannau a ddaethpwyd i'r amlwg yn ddiweddarach.

3. **Penderfyniad Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**

- Derbyn a nodi'r adroddiad a'r rhaglen waith gan ofyn am ddiweddariad mewn 6 mis.
- Argymell i'r Cabinet:

Ffrwd Gwaith 1: Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr

- Dylid sefydlu trefniadau mesuradwy sy'n dangos yn glir sut mae llais y plentyn a phrofiad dioddefwyr yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau a chanlyniadau;
- Bod angen sicrhau cefnogaeth hirdymor i ddioddefwyr heb beri rhagor o drawma;
- Bod angen rhoi sylw priodol i blant sy'n wynebu heriau ac osgoi rhagfarn ddiarwybod;
- Dylid sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn hawdd i'w ddarllen ac yn hygyrch i blant.

Ffrwd Gwaith 2: Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant

- Dylai'r trefniadau ar gyfer rheoli honiadau a phryderon sicrhau bod unrhyw amheuaeth am addasrwydd oedolion i weithio gyda phlant ac oedolion bregus yn cael ei hasesu'n gynnar, ei uwch gyfeirio yn briodol, a'i herio'n annibynnol, beth bynnag yw statws ymarferydd;
- Bod angen trefniadau diogelu clir ar gyfer unigolion sy'n codi pryderon;
- Bod angen edrych ar ddigwyddiadau sydd ddim yn ymwneud yn uniongyrchol efo plant;
- Dylid casglu tystiolaeth i ddangos fod newid yn digwydd ac i alluogi craffu yn y dyfodol;
- Dylid ystyried ymestyn cyfnod amser yr awdit o honiadau Rhan 5, Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ymhellach na dwy flynedd;
- Dylid gwirio bod mecanwaith mewn lle i sicrhau, os oes angen, y symudir o brosesau adnoddau dynol i weithdrefnau Rhan 5.

Ffrwd Gwaith 3: Hyfforddiant a Pholisïau

- Dylai polisïau a hyfforddiant fod yn drylwyr a chael eu hadolygu i gefnogi barn broffesiynol a her;
- Bod angen tystiolaethu bod hyfforddiant yn newid ymddygiad a phenderfyniadau yn ymarferol, nid mater o bresenoldeb yn unig;
- Dylai cofnodion diogelu cael eu hadolygu a'u goruchwylio'n rheolaidd gan swyddog penodol er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r gofynion;
- Dylai 'grooming' gael ei adnabod yn benodol yn nhrefniadau hyfforddiant a chael sylw amserol.

Ffrwd Gwaith 4: Llywodraethiant Ysgolion

- Dylai trefniadau llywodraethu ysgolion gael eu cryfhau i adnabod patrymau risg dros amser, sicrhau llwybrau uwch gyfeirio clir, a chynnwys elfen o her neu sicrwydd annibynnol;
- Dylid cynnig cefnogaeth addas i arfogi llywodraethwyr i herio'n briodol ac adnabod patrymau;
- Bod angen ystyried yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer Cadeiryddion a Llywodraethwyr Dynodedig Diogelu.

Ffrwd Gwaith 5: Grym Rhesymol

- Dylid sicrhau bod staff yn deall pryd mae defnyddio grym rhesymol yn briodol, a'u bod yn teimlo'n hyderus ac wedi'u cefnogi i weithredu i ddiogelu plant;
- Dylid sicrhau bod adolygiadau'n canolbwyntio ar ddysgu gwersi yn hytrach na beio.

Ffrwd Gwaith 6: Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng Diogelu

- Dylai cynllunio ac ymateb i argyfwng gael ei drin fel proses fyw sy'n rhan o'r broses ddiogelu a dylid ei brofi yn rheolaidd;
- Bod angen eglurder o ran rolau;
- Dylid sicrhau cyfathrebu effeithiol efo staff;
- Bod angen adolygu trefniadau yn barhaus er mwyn sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o Ysgol Friars yn parhau'n weithredol dros amser.

Ffrwd Gwaith 7: Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars

- Dylai cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars gael ei ddefnyddio fel sail i ddysgu ar lefel system gyfan, gan brofi bod sefydlogrwydd wedi arwain at welliant cynaliadwy mewn diogelu a newid diwylliannol ar draws ysgolion;
- Dylid gofyn i ysgolion:
- gynnwys gwybodaeth am eu trefniadau diogelu yn amlwg ar eu gwefannau;
- ystyried addasu cynnwys eu cwricwlwm addysg cyd-berthynas i adlewyrchu'r hyn a ddigwyddodd yn Ysgol Friars.

Cyffredinol

- Bod angen sicrhau bod trosolwg o'r ffrydiau gwaith yn eu cyfanrwydd;
- Ystyried rhoi trefniadau mewn lle i sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn ddiymdroi ac yn gwirio ei systemau pan mae pryder sylweddol a all fod yn systemig ei natur yn dod i law;
- Bod angen rhoi sylw i drefniadau cyfathrebu gwybodaeth efo rhieni a theuluoedd er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol;
- Dylid ystyried rhyddhau cymaint o wybodaeth a phosib er mwyn sicrhau tryloywder;

  Ni ddylid dyfynnu na chyfeirio at Adroddiad Archwiliad Estyn o Adran Addysg y Cyngor yn 2023 yn y Cynllun Ymateb.

4. **Penderfyniad Cyngor Llawn**

- Atgyfnerthu'r cais i Lywodraeth Cymru am ymchwiliad cyhoeddus, gan rannu ymateb y Llywodraeth i'r cais gydag Aelodau'r Cyngor Llawn.
- Pwysleisio pwysigrwydd effeithlonrwydd Polisïau Canu'r Gloch, Diogelu a Grym Rhesymol.
- Gofyn i Ffurflenni Cyfeiriadau Diogelu gael eu dosbarthu yn ehangach nac i Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yn unig.
- Rhannu gwybodaeth am wariant ar gefnogaeth, therapi a chwnsela i ddioddefwyr i roi sicrwydd ein bod yn gwario digon ar y gefnogaeth hyn.
- Pwysleisio pwysigrwydd Polisi Grym Rhesymol a'i fod yn cael sylw priodol yn yr ymateb.
- Ystyriaeth i sut mae sicrhau fod polisi diogelu yn cael ei ddilyn pan fo'r wybodaeth yn gyfrinachol a ddim yn hysbys i holl aelodau o gorff llywodraethu ysgol
- Rhoi ystyriaeth i sicrhau bod pryderon yn cael eu hystyried o ddifrif a bod hynny yn cael ei atgyfnerthu mewn diwylliant
- Sicrhau bod trefniadau cadw cofnodion, ac unrhyw hyfforddiant perthnasol, yn cael eu adolygu ac ystyried swyddog penodol i wirio ansawdd cofnodion.
- Yr angen am sicrwydd petai rhywun yn codi pryderon heddiw beth fyddai'n wahanol
- Yr angen i gyhoeddi fersiwn cryno a hawdd i ddarllen o'r ddogfen.

  PENDERFYNWYD:

- Gofyn i'r Cabinet ystyried y sylwadau uchod, yn ogystal a sylwadau Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Gofal (13 Ionawr 2026), Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (19 Ionawr 2026) a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (15 Ionawr 2026), wrth fabwysiadu'r Cynllun Ymateb newydd.

# Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae’r ddogfen yma yn asesu’r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
    - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
    - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a’r rhai nad ydynt.
    - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae’r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o’r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy’n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

# Cynllun Ymateb

**Awdur:** Eleri Jones (TA)

**Teitl Swydd:**

**Dyddiad**: January 2, 2026

**Fersiwn:** Cynllun Ymateb

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

**1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?**

- Cynlluniau tymor canolig i'r tymor hir (e.e. cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, darparu gwasanaeth a chynlluniau gwella)
- Gweithredu Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol (cyfeiriwch at unrhyw AEC cenedlaethol ac ystyried effaith leol)

**2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn asesu effaith strategol, weithredol a diwylliannol Cynllun Ymateb Cyngor Gwynedd i faterion a nodwyd yn adroddiad statudol Cyfiawnder Trwy ein Dewrder (Tachwedd 2025).

Mae'r Cynllun Ymateb yn ceisio:

- Cydnabod methiannau hanesyddol a darparu ymateb clir a thryloyw.
- Cefnogi dioddefwyr a chymuned Ysgol Friars.
- Adfer ymddiriedaeth y cyhoedd mewn trefniadau diogelu.
- Cryfhau polisi, hyfforddiant, llywodraethiant ac ymateb aml-asiantaeth.
- Sicrhau na fydd plant byth eto'n profi'r niwed a ddigwyddodd dan oruchwyliaeth sefydliadol.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

- Merched / Merched ifanc
- Plant ag ADY
- Plant sydd wedi profi trawma
- Staff newydd neu staff mewn rolau diogelu

## CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Nag Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Gofal | 13 Ionawr 2026 | |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 15 Ionawr 2026 | |
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 19 Ionawr 2026 | |
| Cyngor Llawn (Arbennig) | 5 Chwefror 2026 | |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol | Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Hil** | • Disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig efallai'n llai tebygol o adrodd am gamdriniaeth oherwydd rhwystrau iaith, diffyg ymddiriedaeth neu brofiadau o wahaniaethu sefydliadol | • Arddangos gwybodaeth mewn iaith glir, hygyrch ac aml-iaith lle bo'n briodol.<br>• Ymgysylltu gyda fforymau ieuenctid a rhieni o leiafrifoedd ethnig wrth ddiweddaru polisïau.<br>• Hyfforddiant i staff ar ymwybyddiaeth diwylliannol ac adnabod risgiau mewn gwahanol gymunedau. |
| **Anabledd** | • Plant ag anableddau (corfforol, dysgu neu niwroamrywiol) yn fwy tebygol o fod mewn perygl o or-ddefnydd greym rhesymol neu gamdriniaeth<br>• Profiad o gyd-destun dad-trawmteiddio yn gallu gwaethygu symptomau (e.e. ADHD, ASD, Gorbryder).<br>• Staff ag anableddau gallai wynebu rhwystrau wrth gwblhau hyfforddiant, adroddiadau neu ddefnyddio prosesau digidol. | • Polisi grym rhesymol yn cael ei adolygu a'i unioni yn genedlaethol ac yn lleol.<br>• Hyfforddiant trawma-wybodus i holl staff ysgolion<br>• Darparu llwybrau adrodd dewisiol – gan gynnwys digidol, wyneb yn wyneb ac mewn ffurf hygyrch. |
| **Rhyw** | • Roedd yr achos troseddol yn ymwneud â merched ifanc, sy'n golygu effaith anghymesur ar ferched a merched ifanc yn y system addysg.<br>• Risg y gall fwy o enghreifftiau o gamdriniaeth rhyw godi yn sefydliadol, o ystyried methiannau llywodraethiant hanesyddol. | • Hyfforddiant penodol ar gamdriniaeth rywiol, 'grooming', ac ymddygiad oedolion mewn swyddi o ymddiriedaeth sy'n gweithio gyda phlant.<br>• Gwaith ehangach gyda sefydliadau arbenigol megis RASASC. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Sicrhau bod pwynt cyswllt annibynol (tu hwnt i'r ysgol) i blant allu codi pryderon a bo hynny gyda benyw neu wryw.<br>• Adolygu prosesau adrodd gan ddisgyblion i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau o ran rhyw i godi pryderon. |
| **Oedran** | • Effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc a ddioddefodd gamdriniaeth<br>• Rhieni sydd wedi profi trawma eilaidd<br>• Plant mewn gofal, dysgwyr ADY, neu ddisgyblion sy'n profi heriau emosiynol yn fwy agored i niwed. | • Strategaeth newydd "Llais y Plentyn" yn sicrhau mynediad at weithwyr cymdeithasol a chyfranogiad mewn penderfyniadau<br>• Estyniad sylweddol o gefnogaeth therapiwtig, gan gynnwys gwasanaethau trawma a chwnsela ysgol. Hyn yn parhau yn agored i'r dyfodol.<br>• Cryfhau prosesau cyfeirio a mynediad at asiantaethau allanol. |
| **Crefydd a Chred** | • Gall credoau crefyddol effeithio ar dueddiad i adrodd am gamdriniaeth (e.e. tabŵ, stigma).<br>• Gall fframweithiau diogelu wrthdaro â gwerthoedd teulu / gwerthoedd cymunedol. | • Sicrhau bod arferion diogelu yn sensitif i gefndiroedd crefyddol.<br>• Creu llwybrau cyfrinachol nad ydynt yn gofyn am gefnogaeth rhieni.<br>• Ymgynghori gyda gwahanol fforymau, e.e. fforwm ieuenctid, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth cynhwysol yn cynnwys ystyriaeth i grefydd a chred. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | • Disgyblion LGBTQ+ yn fwy tebygol o wynebu camdriniaeth sefydliadol, ac weithiau'n llai tebygol o adrodd.<br>• Risg o wahaniaethu gan staff neu cyd-ddisgyblion mewn sefyllfaoedd sensitif. | • Strategaeth llais y plentyn i sicrhau barn pob plentyn yn cael eu clywed, beth bynnag yw eu hunaniaeth.<br>• Hyfforddiant ar wahaniaethu a chydraddoldeb yn rhan o becynnau diogelu.<br>• Sicrhau ffyrdd diogel o ran adrodd lle nad oes risg |

| | | |
|---|---|---|
| **Ail-bennu rhywedd** | • Mae llawer o bobl ifanc traws yn profi cam-drin neu fwlio, ac efallai'n llai tebygol o ymddiried yn oedolion i rannu pryderon.<br>• Mae stigma a phrofiadau blaenorol o wahaniaethu yn gallu lleihau'r tebygolrwydd y bydd unigolion traws yn defnyddio llwybrau adrodd, yn enwedig os ydynt wedi wynebu camdriniaeth sefydliadol o'r blaen.<br>• Risg yn cynyddu os nad yw staff wedi'i hyfforddi - os nad yw hyfforddiant diogelu yn cynnwys sensitifrwydd i hunaniaeth rhywedd, gall staff naill ai gamddeall ymddygiad fel "chwilio am sylw", neu fethu adnabod arwyddion o gamdriniaeth sy'n benodol i bobl draws (gan gynnwys camdriniaeth wedi'i thargedu). | • Polisi Llais y Plentyn - polisi yn sicrhau y caiff pob plentyn gyfle i fynegi ei farn yn uniongyrchol ac mewn modd sy'n ddiogel ac yn barchus — hyn yn cynnwys pobl ifanc traws.<br>• Llwybrau adrodd amgen - mynediad uniongyrchol at wasanaethau allanol a dulliau cyfrinachol yn arbennig o bwysig i bobl ifanc traws sydd angen llwybrau diogel nad ydynt yn dibynnu ar rieni, athrawon penodol, na staff nad ydynt yn gyfeillgar i LGBTQ+<br>• Cyngor trawma-wybodus - Mae dulliau trawma-wybodus yn arbennig o bwysig i bobl draws, lle mae profiadau blaenorol o wahaniaethu neu ddad-ddyneiddio yn gyffredin. Bydd hyfforddiant i gefnogi ymateb i hyn mewn modd sensitif. |
| **Priodas a Phartneriaetgh Sifil** | • Effaith benodol ar rieni neu staff mewn perthnasoedd trawmatig neu anghydfodol.<br>• Gall pryderon am ddiogelwch plant achosi tensiwn yn y cartref. | • Cyfeirio at wasanaethau cefnogi teulu.<br>• Cefnogaeth AD i staff sydd dan straen. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | • Staff ysgolion sy'n feichiog neu ar gyfnod mamolaeth yn fwy agored i bryderon a straen cysylltiedig â'r argyfwng. | • Cefnogaeth llesiant yn yr ysgol a drwy AD.<br>• Hyfforddiant staff ar nodi risgiau penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Disgyblion beichiog neu rhieni ifanc yn fwy agored i niwed os oes diffyg ymddiriedaeth yn yr ysgol. | |
| **Iaith Gymraeg** | • Risg i blant a phobl ifanc beidio â rhannu datgeliadau neu bryderon os nad ydynt yn gallu gwneud hynny yn yr iaith maent yn teimlo fwyaf diogel.<br>• Risg y caiff disgyblion, dioddefwyr a staff lai o fynediad at wasanaethau cefnogi (cwnsela, trawma, llinellau cymorth) yn Gymraeg, gan effeithio ar hygyrchedd ac ansawdd profiad.<br>• Risg i wasanaethau a gyflenwir gan drydydd parti (e.e. trawma a chefnogaeth arbenigol) beidio â chydymffurfio â Safonau Iaith. | • Tudalennau gwe a chynlluniau cyfathrebu dwyieithog<br>• Swyddogion lles, diogelu ac addysg yng Ngwynedd yn gweithredu'n naturiol trwy'r Gymraeg<br>• Polisi Llais y Plentyn - hawl plentyn i fynegi barn yn yr iaith maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus.<br>• Trefniadau sicrwydd ansawdd diogelu i wirio argaeledd cyfathrebu dwyieithog<br>• Sicrhau darpariaeth hyfforddiant ar gael drwy gyfwng y gymraeg |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Mae plant o deuluoedd incwm is neu dan anfantais gymdeithasol yn fwy tebygol o;<br>• brofi camdriniaeth neu esgeulustod heb gael eu clywed, hefyd yn<br>• wynebu rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau cefnogi<br>• ddibynnu mwy ar gefnogaeth ysgol fel prif ffynhonnell lles.<br>Mae cymunedau â lefelau uwch o amddifadedd yn fwy agored i:<br>• ddiffyg ymddiriedaeth posib mewn awdurdodau<br>• heriau cysylltedd i wasanaethau allanol | • Gall ymrwymiad i ystyried llais y plentyn a sicrhau bod llwybrau adrodd clir mewn lle helpu'r plant mwyaf agored i niwed economaidd.<br>• Mae'r ymestyniad o wasanaethau cwnsela a chymorth yn ysgolion yn cefnogi teuluoedd heb allu ariannol i gael gwasanaethau preifat.<br>• Mesur lliniaru yn gallu cynnwys monitro data ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol i adnabod patrymau a bylchau yn ôl dosbarth economaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| | • llai o fynediad at adnoddau digidol ar gyfer llwybrau adrodd. | |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | • Gall absenoldeb rhiant mewn lluoedd arfog olygu bod datgeliadau'n mynd heb sylw neu fod ymddygiadau risg ddim yn cael eu nodi'n gynnar.<br>• Gall symud ysgolion ddigwydd heb drosglwyddo gwybodaeth diogelu digonol. | • Gall y llwybrau adrodd gwell a'r pwyslais ar llais y plentyn sicrhau nad yw plant o deuluoedd milwrol yn disgyn trwy'r rhwyd<br>• Cydweithio aml-asiantaethol i helpu wrth i deuluoedd symud ar draws siroedd a rhanbarthau. |
| **Hawliau Dynol** | • Gall diffyg ymwybyddiaeth staff neu fylchau mewn hyfforddiant leihau gallu plant i adnabod eu hawliau<br>• Gall methiant i gyfathrebu'n glir a thryloyw danseilio hawl rhieni i wybodaeth ddigonol. | • Mae'r Cynllun Ymateb yn atgyfnerthu hawliau plant trwy ganolbwyntio ar lais y plentyn, tryloywder ac atebolrwydd.<br>• Ymgorffori egwyddorion Hawliau'r Plentyn yn hyfforddiant gorfodol ar draws y Cyngor |
| **Arall** | • Nid oes unrhyw effaith arall wedi ei adnabod | • Nid oes unrhyw effaith arall wedi ei adnabod |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

- Nid oes unrhyw fylchau wedi eu hadnabod ar hyn o bryd

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

- Nid oes unrhyw effaith gynyddol wedi ei adnabod ar hyn o bryd

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

- Mae'r cynnig yn dangos sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus drwy sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb, diogelwch a hawliau plant wedi'u gwreiddio ym mhob agwedd o'r Cynllun Ymateb. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo cyfle cyfartal drwy hyfforddiant, llwybrau adrodd hygyrch a pholisi llais y plentyn; dileu gwahaniaethu drwy gryfhau polisïau ac ymateb i honiadau'n gyflym ac yn gyson; a meithrin perthnasau da drwy weithio'n agos gyda rhieni, cymuned yr ysgol a phartneriaid aml-asiantaethol, gan adfer ymddiriedaeth ac adeiladu diwylliant diogel, agored a thryloyw.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

- Mae'r cynnig yn dangos sylw dyledus i fynd i'r afael ag anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod cefnogaeth, llwybrau adrodd a gwasanaethau diogelu yn hygyrch, am ddim ac wedi'u targedu'n benodol at y plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed er mwyn cau bylchau anghydraddoldeb.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y**

**gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

- Mae'r cynnig yn dangos cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg trwy sicrhau nad yw'r Gymraeg byth yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan ddarparu pob cyfathrebiad, llwybr adrodd, hyfforddiant a gwasanaeth diogelu yn ddwyieithog ac yn weithredol yn hybu ac ehangu cyfleoedd i blant, teuluoedd a staff ddefnyddio, dysgu a byw drwy'r Gymraeg yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

- Mae'r cynnig yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy weithredu'r pum ffordd o weithio—hynny yw, cymryd camau ataliol, gweithio'n hirdymor, integreiddio gwasanaethau, cydweithio ag asiantaethau allanol ac ymgysylltu'n ystyrlon â phlant, rhieni a staff—gan gyfrannu'n uniongyrchol at y saith nod llesiant, yn enwedig creu Cymru fwy cyfartal, ddiogel a chydnerth lle caiff pob plentyn ei ddiogelu a'i gefnogi.

**CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau**

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

- Dim yn uniongyrchol ond mae posib y bydd rhai elfennau cysylltiedig yn deillio o'r Cynllun megis cwnsela, hyfforddiant a chefnogaeth therapiwtig yn cael eu darparu'n rhannol trwy gontractwyr.

**CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer**

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**

- Cryfhau systematig yr holl drefniadau diogelu.
- Ail-seilio diwylliant ysgolion ar hawliau plant a thrawma-wybodaeth.
- Gwella llywodraethiant ysgolion a threfniadau atebolrwydd.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**

- Dim effaith negyddol

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Dim effaith negyddol

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

N/a

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Mae cyfres o fesurau i fesur effaith y cynllun mewn lle ac yn cael eu gwirio yn rheolaidd gan y Bwrdd Ymateb

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

N/a

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

N/a

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arewiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu risgiau yn deillio o'r Cynllun yn rheolaidd | Bwrdd Ymateb | 2 fis | Dafydd Gibbard | Ia |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | Amserlen ac Amlder | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| Adolygu'n barhaus fel rhan o drefniadau'r Bwrdd Ymateb | 2 fis | Sally Holland | Na |
| Adolygiad o'r Cynllun Ymateb drwy'r Fforymau Craffu | 6 mis | Dafydd Gibbard | Na |

## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Chwarterol – Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb (Mawrth 2025) |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog perthnasol:** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10 Mawrth 2025 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron sef y trydydd adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

**2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2025 i goladu'r holl gefnogaeth, adolygiadau, archwiliadau a ffrydiau gwaith eraill yn ymwneud â'r ymateb i droseddu yr gan y Pennaeth Ysgol , Neil Foden.

Bu addewid i adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.

Rhennir yr adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau a'r hyn sydd wedi ac yn parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Comisiynwyd y Prif Weithredwr i roi trefniadau mewn lle i weithredu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Cabinet.

Penodwyd yr Athro Sally Holland i ymgymryd a rôl Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ym mis Chwefror 2025. Mae Sally yn Athro Gwaith Cymdeithasol yng Nghanolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn gyn Gomisiynydd Plant Cymru (2015-2022).

Fel yr addewid, bydd Sally yn adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb. Dyma'r trydydd o'r adroddiadau hyn (gweler adroddiadau blaenorol - Gorffennaf 2025, Tachwedd 2025).

Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd sy'n cael ei wneud ers mabwysiadu'r Cynllun Ymateb diwygiedig yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant (Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder) ym mis Tachwedd 2026.

**3.2 Camau nesaf**

Gwaith y Bwrdd yn parhau gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Cabinet ar gynnydd ymhen 3 mis.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant a nid oes gennyf sylwadau pellach i'w cynnig.

**4.2 Swyddog Monitro**

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu gan y Cabinet gyda Chadeirydd Annibynnol i gydlynu a sicrhau cynnydd ar y Cynllun Ymateb a fabwysiadwyd ganddo. Mae'n allweddol i'r trefniant llywodraethu hwn bod y Cabinet yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn y gwaith hollbwysig yma. Mae adroddiad gan y Cadeirydd Annibynnol, yr Athro Sally Holland yn ddull tryloyw a chadarn o ddarparu'r sicrwydd hwnnw. Rwy'n croesawu'r adroddiad.

# ADRODDIAD CHWARTEROL I'R CABINET: BWRDD RHAGLEN Y CYNLLUN YMATEB

YR ATHRO SALLY HOLLAND: CADEIRYDD Y BWRDD YMATEB

DYDDIAD: 10 Mawrth 2026

## Cyflwyniad

Ers fy adroddiad blaenorol i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2025, mae Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb ("y Bwrdd") wedi parhau i gwrdd ac yn goruchwylio'r cynnydd mewn ymateb i'r Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) (adroddiad 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder') a'r Cynllun Ymateb ehangach.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgarwch allweddol y Bwrdd, y datblygiadau, a'r gwaith trosolwg ers y diweddariad chwarterol diwethaf.

## Y Sefyllfa Gyfredol

**Cyfnodau Gwaith Strategol**

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymgymryd â'r gwaith ymateb hwn mewn dau gam sy'n gorgyffwrdd, ac mae trafodaethau, craffu a chyngor y Bwrdd wedi adlewyrchu hyn.

a. *Yr Ymateb Uniongyrchol i'r Troseddau a Chyhoeddi Adroddiad 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder'*–
Roedd y cynllun ymateb a'r gweithredoedd yn gamau gwellhaol yn bennaf, yn cynnwys cefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr, cefnogi a sefydlogi Ysgol Friars a gwella polisïau, gweithdrefnau a'r ymgymryd â hyfforddiant.
Bu i'r Bwrdd gefnogi a chraffu ar Gyngor Gwynedd drwy'r cyfnod o amgylch cyhoeddiad yr adroddiad CPR 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder', gyda ffocws ar sicrhau cefnogaeth briodol i ddioddefwyr a goroeswyr y troseddau, ac ar gynorthwyo'r Cyngor i baratoi ar gyfer y cyhoeddi a chynllunio'r ymateb.

b. *Ymateb a Monitro ar Draws y System* –
Cyhoeddwyd yr adroddiad CPR ('Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder') ar 4 Tachwedd 2025, ac fe arweiniodd hyn at y newid mwyaf i'r Cynllun Ymateb ers ei fabwysiadu. Symudodd y pwyslais tuag at ddull system gyfan i sicrhau bod mesurau i atal niwed yn eu lle, ar y cyd ag ymatebion addas pan allai niwed fod wedi digwydd.
Mae'r Cynllun Ymateb wedi cael ei ailwampio i adlewyrchu'r argymhellion allweddol a'r dysgu sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder yn cynnwys symleiddio blaenoriaethau a sicrhau bod cynlluniau presennol yn cael eu hintegreiddio yn llawn i'r Cynllun Ymateb.

Y saith thema allweddol yw;

1. Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr

2. Rheoli Honiadau a Phryderon ynghylch Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant
3. Hyfforddiant a Pholisïau
4. Llywodraethu Ysgol
5. Arferion Cyfyngol
6. Cynllunio ar gyfer Argyfwng ac Ymateb mewn Argyfwng
7. Cefnogi Ysgol Friars

Mae cynllun gwaith manwl yn cael ei gylchredeg i aelodau cyn cyfarfodydd y Bwrdd Ymateb ac mae adroddiad trosolwg hefyd yn cael ei gynnwys erbyn hyn ar gyfer pob un o'r saith thema gydag 'arweinydd thema' yn cael ei adnabod i gryfhau atebolrwydd. Mae'r adroddiadau trosolwg yn cynnwys diweddariadau ar y cerrig milltir allweddol a gyflawnwyd ers y cyfarfod diwethaf a'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen, yn cynnwys unrhyw ddibyniaethau, risgiau a phroblemau o ran adnoddau.

**Ffocws sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn ac Ymgysylltu â'r Dioddefwyr**
Mae bwrw ymlaen â dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn yng ngweithgareddau'r Cynllun Ymateb yn flaenoriaeth barhaus. Mae'r Bwrdd wedi cefnogi Cyngor Gwynedd yn ei ymdrechion i ymgorffori ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ymhellach, ac yn fy rôl fel Cadeirydd rwyf wedi gweithio gyda Jan Pickles a arweiniodd yr adolygiad CPR a SARC i ystyried y dulliau o gyfathrebu gyda'r dioddefwyr a chanfod eu barn ar y cynnydd mewn ffordd sy'n sensitif, ystyrlon a pharchus.

**Hawliau a Chyfranogiad Plant**
Mae'r Bwrdd hefyd wedi ymgysylltu gydag ymdrechion i gryfhau hawliau a chyfranogiad plant ledled yr awdurdod lleol. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant hawliau plant ar 2 Chwefror, gan ddod â phobl ifanc, aelodau Cabinet, cyfarwyddwyr, penaethiaid adran a staff eraill at ei gilydd. Canolbwyntiodd y digwyddiad ar sut y gellir integreiddio hawliau plant ym mholisi'r Cyngor. Yn ogystal â sicrhau bod gan bawb yn bresennol gyd-ddealltwriaeth o hawliau plant, a dyletswyddau'r awdurdod lleol i ddilyn yr hawliau hynny, roedd y sesiwn yn cynnwys trafodaeth ar ddefnyddio Asesiadau Effaith Hawliau Plant a datblygu strategaeth gyfranogi. Rwyf yn ddiolchgar i swyddogion o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru am weithio gyda mi i gynllunio ac arwain y sesiwn.

Roedd yn galonogol gweld y strategaeth cyfranogiad plant drafft a rannwyd yn ystod cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac edrychaf ymlaen i'w gweld yn cael ei rhoi ar waith yng Nghyngor Gwynedd.

Roedd aelodau'r Bwrdd yn croesawu egni a brwdfrydedd yr holl gyfranogwyr yn ystod y diwrnod hyfforddiant i fwrw ymlaen â'r ymdrechion hyn. Bydd angen gwaith pellach i sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ymgorffori ym mhrosesau a diwylliant Cyngor Gwynedd. Ymysg yr enghreifftiau o sut allai hyn gael ei wneud mae;

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Llais y Plentyn
- Datblygu'r Fforwm Ieuenctid ymhellach, a'u hymwneud â datblygu polisïau a gwasanaethau yng Nghyngor Gwynedd.

- Cynnwys gwaith y fforwm ieuenctid gyda gwaith y bwrdd ymateb, e.e. mynychu cyfarfodydd y Bwrdd i rannu'r gwaith y maent yn ei wneud; ystyried sut allai Gwynedd eu cynnwys a bod yn atebol.
- Gwaith ar yr egwyddorion (5 Egwyddor Dull y Ffordd Gywir) sy'n ategu dull ataliol a sylfaenol tuag at ddiogelu er mwyn creu yr amodau i blant yng Ngwynedd ffynnu.

## Craffu a Sicrwydd

**Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Sicrwydd Gweinidogol yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder'. Nid oes gan y Bwrdd Ymateb gysylltiadau llywodraethu ffurfiol gyda'r Bwrdd Gweinidogol, ond fel Cadeirydd fe fynychais gyfarfod mis Ionawr y Bwrdd i roi diweddariad i Weinidogion ar waith parhaus y Bwrdd Ymateb.

**Archwiliad diogelu ar y cyd gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru**

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Ionawr 2026 ac fe'i rhannwyd gyda'r Bwrdd. Mae'r argymhellion o'r adroddiad hwnnw wedi'u cynnwys yn y cynllun ymateb, ac felly bydd cynnydd Cyngor Gwynedd i gwrdd â'r rhain ar gael er mwyn i'r Bwrdd graffu ar hyn a chynnig cyngor.

**Rôl Esblygol y Bwrdd**
Yn fy marn i, yn ystod y misoedd diwethaf, mae rôl y Bwrdd wedi parhau i aeddfedu o ran craffu. Tra'n parhau i ddarparu cyngor a chefnogaeth i Gyngor Gwynedd, mae'r Bwrdd wedi mynd ati'n gynyddol i weithredu swyddogaeth graffu gadarn. Mae'r Cadeirydd yn nodi bod aelodau mewnol ac aelodau etholedig y Bwrdd yn arwain yn gryfach gyda'r gweithgarwch caffael, gan ategu cyfraniad gwerthfawr aelodau allanol y Bwrdd.

**Triongli Mewnwelediad ac Ymgysylltiad**
I gryfhau'r ddealltwriaeth o gynnydd y tu hwnt i gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd, mae'r Cadeirydd wedi gweithredu'r gweithgareddau triongli strwythuredig, yn cynnwys:

- Cyfarfodydd dwyochrog chwarterol gydag aelodau allanol y Bwrdd ac aelodau Cabinet unigol i adolygu'r cynnydd a chytuno ar y blaenoriaethau allweddol.
- Ymgysylltu â hysbyswyr allweddol y tu allan i'r Bwrdd, yn cynnwys cynrychiolwyr o SARC, RASASC (Y Ganolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol), ac arweinyddion Ysgol Friars (yn cynnwys y Pennaeth / Cadeirydd y Llywodraethwyr), i sicrhau safbwyntiau amrywiol ar newidiadau i systemau.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cynyddu sicrwydd ynghylch cynnydd ac yn cefnogi rôl trosolwg y Cadeirydd.

**Mesur Effaith**
Mae'r gwaith i ddatblygu a mireinio mesurau effaith sy'n seiliedig ar hawliau yn parhau. Mae'r Bwrdd yn pwysleisio pwysigrwydd tracio dangosyddion cynnydd ystyrlon, yn

cynnwys cyfraddau cwblhau hyfforddiant, sgyrsiau ansoddol gyda phobl ifanc, rhieni a staff, arolygon arferol a mesurau deilliant eraill. Yn y Bwrdd diweddaraf, cyflwynwyd set newydd o fesurau effaith i gyd-fynd â'r rhaglen waith newydd.

**Tryloywder a Llywodraethu**
Yn unol ag ymrwymiad y Bwrdd tuag at dryloywder ac atebolrwydd, bydd cofnodion a phapurau'r Bwrdd yn cael eu cyhoeddi yn gyfnodol.

## Camau Nesaf

Wrth i'r Bwrdd symud tuag at y chwarter nesaf, bydd yn:

- Parhau i adolygu a chynghori ar weithrediad y Cynllun Ymateb a'r blaenoriaethau perthnasol sy'n codi o'r CPR.
- Cefnogi'r gwaith o ymwreiddio gwelliannau diogelu ymhellach ar draws gwasanaethau.
- Parhau i graffu cynnydd yn gadarn drwy fwy o driongli ac ymgysylltu.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i ymgorffori hawliau, cyfranogiad a mesur effaith mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu pa mor hir y dylai barhau fel endid ar wahân. Mae hyn hefyd wedi cael ei drafod gyda Bwrdd Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru. Y cynllun cyfredol yw i'r Bwrdd barhau hyd nes haf 2026, gydag adolygiad pellach ar y pwynt hwnnw.

## Sylwadau i Gloi

I gloi, hoffwn gydnabod yr ymrwymiad a ddangoswyd gan aelodau'r Bwrdd yn ystod cyfnod o waith sydd wedi bod yn gymhleth ac yn sensitif. Mae presenoldeb a chyfranogiad yn parhau ar lefel uchel. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod cryfhau trefniadau diogelu ac ymgorffori dull o ganolbwyntio ar y plentyn, sy'n seiliedig ar hawliau ar draws system gyfan, yn cymryd amser, arweinyddiaeth barhaus a chraffu gofalus. Mae'n galonogol gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud a'r parodrwydd i ddysgu ac addasu. Mae'r Rhaglen yn uchelgeisiol a bydd yn parhau i fynnu amser ac adnoddau eraill uwch swyddogion er mwyn bod yn llwyddiannus. Bydd y Bwrdd yn parhau i ddarparu cefnogaeth adeiladol a throsolwg gadarn i'r Cabinet wrth i'r gwaith fwrw yn ei flaen, gyda ffocws barhaus ar effaith, tryloywder, a phrofiadau byw plant a phobl ifanc.

**Yr Athro Sally Holland**

Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb

23/02/26

# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Adolygiad 2026/27 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Nia Jeffreys |
| **Swyddog perthnasol:** | Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Corfforaethol & Dewi Wyn Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10fed Mawrth 2026 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

1.1 Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028 – Adolygiad 2026/27 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 14eg o Fai 2026.

1.2 Dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd i wneud addasiadau golygyddol ac i ddiwygio'r Cynllun, gan gynnwys diweddaru'r rhagair, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

2.1 Er mwyn sicrhau bod cytundeb ar gynnwys y Cynllun, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau sydd wedi ei wneud iddo, cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar gyfer ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 14eg o Fai 2026.

**3. Cyflwyniad ac Ystyriaethau Perthnasol**

3.1. Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yw ein datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Mae'n cyfleu ein blaenoriaethau a'n huchelgais ar gyfer y 5 mlynedd nesaf ynghyd a'r prosiectau y byddwn yn eu cyflawni.

3.2. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o brosiectau ar gyfer pum mlynedd (2023-28) o dan saith maes blaenoriaeth: Gwynedd Yfory, Gwynedd Lewyrchus, Gwynedd Glyd, Gwynedd Ofalgar, Gwynedd Gymraeg, Gwynedd Werdd a Gwynedd Effeithlon. Y meysydd blaenoriaeth yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ceir copi o'r fersiwn cyfredol yma - Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

3.3. Pwrpas adolygu'r Cynllun yw edrych ar lle rydym wedi cyrraedd a ninnau dros hanner ffordd trwy'r Cynllun gan edrych yn benodol ar:

- **Adolygu'r uchelgeisiau a chyflawniad prosiectau** (edrych ar lle da ni eisiau bod erbyn diwedd 2028 ac ydy'r prosiectau presennol y rhai cywir i ni gyrraedd yno)
- **Sut yr ydym am gyrraedd yno?** (amlinellu beth fydd y camau y bwriedir eu cymryd a sefydlu cerrig milltir ystyrlon ar gyfer 2 flynedd olaf y Cynllun).
- **Sefydlu beth yw'r effaith ar bobl Gwynedd** (Edrych i wella sut yr ydym yn mesur yr effaith ar drigolion a sut i adrodd ar hyn).

3.4. Nodir hefyd bod disgwyliad arnom i fod yn adolygu ein Hamcanion Llesiant (Meysydd Blaenoriaeth) yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol.

3.5. Bu inni ystyried beth sydd wedi newid, gan edrych ar feysydd blaenoriaeth, uchelgeisiau a'r prosiectau sydd yn y Cynllun presennol ac ystyried os oes yna rai y dylid eu hychwanegu, addasu, tynnu allan/symud oherwydd eu bod wedi cyflawni neu fod y prosiectau bellach wedi eu hymgorffori i fusnes arferol yr adrannau.

3.6. Yn ystod mis Ionawr cynhaliwyd 2 sesiwn gweithdy (1 ar gyfer yr Aelodau Cabinet a'r llall ar gyfer y Tîm Rheoli) i edrych ar lle'r ydym wedi ei gyrraedd ac i adolygu cynnwys y Cynllun presennol. Cynhaliwyd sesiwn pellach i'r Aelodau Cabinet ar y 12fed o Chwefror er mwyn ystyried y materion a godwyd yn y 2 sesiwn gyntaf a chytuno ar addasiadau i fersiwn 2026/27 o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

4. **Adolygu'r uchelgeisiau a'r prosiectau**

4.1. Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r addasiadau i'r Cynllun. Mae manylder ynghylch yr addasiadau hyn wedi eu hamlygu yn **Atodiad 1.**

4.1.1. Awgrymir cynnwys Adran Newydd o fewn y Cynllun er mwyn cydnabod pwysigrwydd gwaith y Cynllun Ymateb:

- **Cynllun Ymateb : Cyfiawnder Drwy ein Dewrder**

4.1.2. Er mwyn cyfleu pwysigrwydd Cydraddoldeb a thrin pawb yn gyfartal awgrymir sefydlu Maes Blaenoriaeth Newydd (Gwynedd Gyfartal) a symud y prosiectau canlynol i'r flaenoriaeth hynny:

- **Sicrhau tegwch i bawb** symud o ***Gwynedd Effeithlon***
- **Merched mewn arweinyddiaeth** symud o ***Gwynedd Effeithlon***

4.1.3. Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd:

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Lewyrchus/Gwynedd Gymraeg***

- **Nôl i Wynedd**
- **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd**

4.1.4. Mae angen addasu neu newid sgôp neu gynnwys y prosiectau/rhaglenni canlynol:

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory***

- **Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir**

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Lewyrchus***

- **Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu.**
- **Adfywio cymunedau a chanol trefi**
- **Cadw'r Budd yn Lleol**

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Glyd***

- **Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr**

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Ofalgar***

- **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned**
- **Cynllun Awtistiaeth**
- **Llechen Lân**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Effeithlon*

- **Datblygu diwylliant y Cyngor**

4.1.5. Mae'r prosiectau canlynol yn trosglwyddo i fod yn rhan o brosiect blaenoriaeth arall; wedi ei hymgorffori yng ngwaith dydd i ddydd yr Adran berthnasol o 2026/27 ymlaen, neu wedi eu cyflawni :

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory*

- **Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Glyd*

- **Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Gymraeg*

- **Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Werdd*

- **Cymunedau Glân a Thaclus**
- **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Effeithlon*

- **Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch**
- **Cynllunio'r Gweithlu**
- **Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol**

4.1.6. Yn ogystal, awgrymir bod teitl y prosiectau canlynol yn cael eu haddasu (nodir y newid mewn coch) er mwyn rhoi gwell adlewyrchiad o bwyslais y prosiectau a'r hyn yr anelir i'w gyflawni am weddill cyfnod y Cynllun:

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory*

- **~~Llunio a~~ Gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Lewyrchus*

- **Cefnogi pobl Gwynedd mewn i waith sy'n eu galluogi i fyw bywyd da**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Glyd*

- **Cynyddu'r cyflenwad o dai addas i bobl leol**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Ofalgar*

- **Datblygu ymhellach y ddarpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Werdd*

- **Sefydlu Cynllun Datblygu Lleol newydd**

*Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Effeithlon*

- **Gweithredu Cynllun Digidol**

4.2. Awgrymir bod gweddill y prosiectau o dan y saith maes blaenoriaeth yn parhau o 2025/26.

4.3. Mynychodd dros 20 o Gynghorwyr sesiwn gweithdy ar 24 Chwefror, lle'r oedd cyfle iddynt roi sylwadau ar y newidiadau a gynigir i'r Cynllun fel rhan o'r adolygiad. Mae'r prif faterion a nodwyd ganddynt wedi'u hamlinellu isod. Yn gryno, mae'r rhain yn feysydd sy'n bosibl eu hymgorffori o fewn prosiectau presennol y Cynllun drwy ychwanegu camau gweithredu neu gerrig milltir.

- **Mwy o bwyslais ar greu swyddi a gwaith o safon ledled y Sir. –** awgrym fod hyn yn derbyn sylw gan brosiectau o fewn y Maes Blaenoriaeth Gwynedd Lewyrchus
- **Hyrwyddo a galluogi pobl anabl i weithio drwy sicrhau'r gefnogaeth a'r amgylchedd cywir.** - awgrym i gadw'r prosiect **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth** yn y cynllun yn hytrach na'i fod yn.....*trosglwyddo i fod yn rhan o brosiect blaenoriaeth arall; wedi ei hymgorffori yng ngwaith dydd i ddydd yr Adran berthnasol o 2026/27 ymlaen, neu wedi eu cyflawni.*
- **Cefnogaeth i rieni a gofalwyr (di-Gymraeg) plant yn y ddarpariaeth drochi fel eu bod yn gallu eu cefnogi'n hyderus.** – awgrym i gynnwys cerrig milltir o fewn y prosiect **Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg**
- **Mwy o gyfleoedd cymdeithasol a gweithgareddau i bobl ifanc.** – mae hyn eisoes yn derbyn sylw o fewn y prosiect **Ymestyn cyfleoedd cymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir.**

4.4. Rydym hefyd wedi ymgynghori gyda'r undebau llafur (fel sy'n ofynnol o dan y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol) er mwyn derbyn eu mewnbwn ar yr argymhellion ond heb dderbyn ymateb.

4.5. Dros yr wythnosau nesaf awgrymir bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn cydweithio gyda'r Arweinydd er mwyn llunio rhagair fydd yn gosod cyfeiriad a blaenoriaethau gwleidyddol ar gyfer 2 flynedd olaf y Cynllun. Bydd y rhagair yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r adolygiad i gyfarfod y Cyngor Llawn ar y 14eg o Fai.

## 5. Sut yr ydym am gyrraedd yno?

5.1. Unwaith bydd y rhestr o brosiectau wedi eu cadarnhau awgrymir y dylid dilyn y camau isod er mwyn adnabod y canlyniadau a cherrig milltir ar gyfer 2 flynedd olaf y Cynllun:

5.1.1. **Prosiectau Newydd**

a) Y Cabinet i gadarnhau'r comisiwn a gofyn i Adrannau adnabod canlyniad a cherrig milltir i weithredu'r prosiect dros y ddwy flynedd nesaf.
b) Adrannau i nodi'r effaith ar drigolion a sut y byddant yn ei mesur.

5.1.2. **Prosiectau i'w Cadw**

a) Adrannau i adnabod canlyniad a cherrig milltir i weithredu'r prosiect dros y ddwy flynedd nesaf.
b) Adrannau i nodi'r effaith ar drigolion a sut y byddant yn ei mesur.
c) Pwyslais yn symud i gyflawni a chwblhau.

5.1.3. **Prosiectau gyda Newidiadau neu Addasiadau**
Aelodau'r Cabinet i weithio gyda'r Adrannau i:
a) Osod disgwyliadau'r Cabinet ar y newidiadau sydd eu hangen.
b) Cytuno ar y canlyniad a cherrig milltir i weithredu'r prosiect dros y ddwy flynedd nesaf.
c) Pwysleisio'r angen i nodi ac amlinellu'r effaith ar drigolion a sut y caiff hynny ei fesur.

5.1.4. **Prosiectau'n trosglwyddo i fod yn Waith Dydd i Ddydd**
a) Adrannau i adnabod ac adrodd ar berfformiad drwy fesurau a Herio Perfformiad Adrannol.

**6. Sefydlu beth yw'r effaith ar bobl Gwynedd**

6.1. Er mwyn cryfhau'r sylw a roddir o fewn adroddiadau i'r effaith y mae prosiectau yn ei gael ar drigolion y Sir mae'r Tîm Cefnogi Busnes wedi addasu'r templed adrodd i'r cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad. Bydd colofn yn cael ei hychwanegu sy'n gofyn i Adrannau amlinellu'r effaith (neu effaith tebygol) ar drigolion a sut y bwriedir mesur hynny (amlinellir mewn llachar liw melyn). Ceir enghraifft o'r templed yn **Atodiad 2.**

6.2. Mae'r templed ar gyfer adrodd ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni ar ddiwedd y flwyddyn eisoes yn gofyn am y wybodaeth hon er efallai nad yw pawb yn rhoi sylw llawn i hyn. Byddwn yn cymryd camau i atgoffa'r Adrannau o bwysigrwydd amlygu'r effaith ar drigolion wrth adrodd ar ddiwedd y flwyddyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Ceir enghraifft o'r templed yn **Atodiad 3.**

6.3. Nodir fod gennych chi fel Aelodau Cabinet (hefo cefnogaeth y PW/Cyfarwyddwyr Corfforaethol) rôl allweddol i'w chwarae yn sicrhau bod sylw yn cael ei roi i effaith ar drigolion mewn adroddiadau a gyflwynir i gyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad hefyd gan gwestiynu a herio os nad oes gwybodaeth ystyrlon yn cael ei gyflwyno.

7. **Adnoddau**

7.1. Mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir ar gyfer nifer o'r prosiectau o fewn y Cynllun. Heb yr adnodd mae'n bosibl na fydd modd i ni gyflawni'r hyn a nodir.

7.2. Mae camau rhagweithiol wedi eu cymryd i adnabod adnoddau ar gyfer y materion sy'n dod i mewn i'r Cynllun o'r newydd neu lle mae sgôp y gwaith wedi newid. Bydd nifer o'r bidiau hyn yn cael eu hystyried yn yr un cyfarfod Cabinet a fydd yn ystyried yr Adolygiad o Gynllun y Cyngor a cheir gwybodaeth bellach isod:

| **Cynllun/Prosiect** | **Adnodd** |
|---|---|
| Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Drwy ein Dewrder | £600,000 o refeniw parhaol wedi ei gynnwys yn y gyllideb refeniw sydd eisoes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet a fydd wedi ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar Fawrth 5ed. £200,000 o gyllid refeniw un-tro hefyd yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn o'r Cabinet. |

| | |
|---|---|
| Gwynedd Gyfartal | £200,000 o gyllid refeniw un-tro yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn o'r Cabinet. |
| Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu. (Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd) | £1M o gyfalaf eisoes wedi ei ymrwymo gan y Cyngor ac Achos Busnes Amlinellol (OBC) am £10M o arian y Cynllun Twf yn cael ei ystyried gan Is Bwyllgor Economaidd y Cyd Bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar Fawrth 13eg. Bidiau am arian o ffynonellau eraill hefyd mewn llaw. |
| Nôl i Wynedd | £200,000 o gyllid refeniw un-tro yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwn o'r Cabinet. |
| Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd | Yn cael ei gyflawni o fewn adnoddau presennol yr Adran Economi |

8 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

8.1 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant. Ein saith maes blaenoriaeth yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae ein Datganiad Llesiant ar gyfer 2023-28 yn parhau i fod yn gyfredol.

9 **Ymgynghoriad Cyhoeddus**

9.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus newydd ar yr adolygiad gan fod gwaith helaeth eisoes wedi'i wneud wrth lunio Cynllun y Cyngor 2023–28, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth o'r cynllun blaenorol, ymgysylltiad **'Ardal Ni'**, ac Asesiadau Llesiant Gwynedd a Môn.

9.2 Fel y nodir uchod cynhaliwyd sesiwn gweithdy ar gyfer yr Aelodau Etholedig ym mis Chwefror 2026. Yn gyffredinol, roedd cytundeb i'r addasiadau ynghyd â chroeso i'r cyfle i fwydo i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r adolygiad o'r Cynllun yn ffurfiol i'r Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn.

10 **Deddf Cydraddoldeb 2010**

10.1 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 4**.

10.2 Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

11 **Camau nesaf ac Amserlen**

11.1 O gymeradwyo'r addasiadau i'r Cynllun, bwriedir cyflwyno'r Cynllun diwygiedig i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 14eg o Fai 2026.

12 **Sylwadau Swyddogion Statudol**

i. **Prif Swyddog Cyllid**
Gallaf gadarnhau'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad yma. Mae Cynllun y Cyngor yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac mae ei gadw dan adolygiad yn hanfodol. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniadau a geisir

ii. **Swyddog Monitro**
Mae Cynllun y Cyngor yn rhan o Fframwaith Polisi y Cyngor sydd yn nwylo y Cyngor Llawn i'w fabwysiadu ac addasu. Fodd bynnag yn unol a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 a adlewyrchir yn y Cyfansoddiad cyflwynir y mater i benderfyniad y Cyngor ar argymhelliad y Cabinet. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

**Rhestr Atodiadau:**
Atodiad 1 – Addasiadau i Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 Adolygiad 2026-27
Atodiad 2 – Templed Cerrig Milltir Bl4 a 5
Atodiad 3 – Templed Cerrig Milltir Diwedd Blwyddyn Enghreifftiol
Atodiad 4 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Adolygiad 2026/27

**Atodiad 1**

## Addasiadau arfaethedig i Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (Adolygiad 2026/27)

Awgrym o addasiad i deitl prosiectau wedi ei arddangos mewn **Coch**

**Adran Newydd**

| **Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Drwy ein Dewrder** |
|---|
| Oherwydd pwysigrwydd y gwaith nododd y 2 weithdy ddymuniad i gynnwys cyflwyno adran newydd yn nogfen Cynllun y Cyngor i gydnabod gwaith y Cynllun Ymateb.<br><br>Pwrpas ein Cynllun Ymateb yw esbonio sut fydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau na fydd troseddu fel hyn yn digwydd eto yng Ngwynedd a bod ein trefniadau Diogelu plant a phobl ifanc o'r safon uchaf posibl. Mae themâu y Cynllun yn cynnwys Llais y Plentyn a chefnogi dioddefwyr, rheoli honiadau a phryderon, hyfforddiant a pholisïau, llywodraethiant, grym rhesymol, ymateb i argyfwng, a chefnogi Ysgol Friars.  Mae'r Cynllun yn gynhwysfawr ac yn cynnwys nifer fawr o ffrydiau gwaith a manylir ar y cyfan yn y Cynllun Ymateb. |

**Maes Blaenoriaeth Newydd (Gwynedd Gyfartal)**

| Maes Blaenoriaeth | Prosiect |
|---|---|
| **Gwynedd Gyfartal** | **Sicrhau tegwch i bawb** |
| **Gwynedd Gyfartal** | **Merched mewn arweinyddiaeth** |

**GWYNEDD YFORY - Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc**

*Sgôp neu bwrpas gwreiddiol y prosiectau yn parhau*

| Adran | Prosiect |
|---|---|
| Addysg | **Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar** |
| Addysg | **Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu** |
| Addysg | **Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd** |
| Addysg | ~~Llunio a~~ **Gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd** |

*Sgôp neu bwrpas y prosiectau wedi newid*

| Adran | Prosiect | Yr addasiad a geisir |
|---|---|---|
| Addysg | **Ymestyn cyfleoedd ~~chwarae a~~ cymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir** | Mae'r elfennau ynghlwm â darpariaeth a threfniadau caeau chwarae wedi eu cyflawni. Mae'r gwaith ar gefnogi Fforwm Ieuenctid Gwynedd yn parhau o dan un o ffrydiau Cynllun Ymateb Cyfiawnder Drwy ein Dewrder. Felly, mae sgôp y prosiect i ganolbwyntio ar gyfleon cymdeithasu i blant a pobl ifanc. |

*Trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adran*

| Adran | Prosiect | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Addysg | Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol | Mae'r gwaith ar gwblhau awdit, mapio a chanllaw ar gost anfon plant i'r ysgol wedi ei gyflawni. Bydd gweithredu ar y canfyddiadau yn trosglwyddo i waith dydd i ddydd yr Adran ac yn adrodd i brosiect blaenoriaeth Cefnogi Pobl |

**GWYNEDD LEWYRCHUS - Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng**

*Sgôp neu bwrpas gwreiddiol y prosiectau yn parhau*

| Adran | Prosiect |
|---|---|
| Economi a Chymuned | **Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy** |
| Economi a Chymuned | **Cefnogi pobl Gwynedd mewn i waith sy'n eu galluogi i fyw bywyd da** |

*Sgôp neu bwrpas y prosiectau wedi newid*

| Adran | Prosiect | Yr addasiad a geisir |
|---|---|---|
| Economi a Chymuned | **Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu.** | Yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod ar y 10/2/26 mae angen ystyried sut y gellir cynnwys y bwriad i sefydlu Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Sgiliau a Busnes o fewn y rhaglen waith a'r cerrig milltir. |
| Economi a Chymuned | **Adfywio cymunedau a chanol trefi** | Cerrig milltir i ddangos ymwneud cymunedau yn gyrru'r adfywio. Angen canolbwyntio ar faterion lle mae gennym ddylanwad. Dangos gwahaniaeth a'i fesur. |
| Economi a Chymuned | **Cadw'r Budd yn Lleol** | Ystyriaeth i gerrig milltir ar gyfer dangos cefnogaeth i fusnesau bach a busnesau lleol drwy ein trefniadau caffael. Ystyried cerrig milltir ynghylch sut y gellir edrych ar pwy sy'n cyflenwi ein cyflenwyr ac olrhain cynnyrch. Adnabod lle mae'r gwariant mwyaf a cheisio targedu y meysydd hynny a lle ceir y mwyaf o effaith. |

*Prosiectau Newydd*

| **Prosiect** |
|---|
| **Nôl i Wynedd**<br>Ein bwriad fydd cryfhau poblogaeth Gwynedd drwy ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg, pobl ifanc a gweithwyr medrus. Trwy wneud hyn, byddwn yn ymateb i heriau demograffig a phrinder sgiliau er mwyn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy, bywiog ac economaidd gystadleuol. |
| **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd**<br>Bydd y Strategaeth yn anelu i greu economi fwy cynhyrchiol, gynaliadwy a chynhwysol i Wynedd, gan gryfhau'r Gymraeg, cynyddu cyfleoedd lleol a gwella llesiant cymunedau. Y bwriad fydd helpu pobl a busnesau i ffynnu drwy greu swyddi gwell, gwella sgiliau, a sicrhau bod buddion economaidd yn aros yn y sir. |

**GWYNEDD GLYD - Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau**

*Sgôp neu bwrpas gwreiddiol y prosiectau yn parhau*

| Adran | Prosiect |
|---|---|
| Tai ac Eiddo | **Cynyddu'r cyflenwad o dai addas i bobl leol** |
| Tai ac Eiddo | **Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd** |

*Sgôp neu bwrpas y prosiectau wedi newid*

| Adran | Prosiect | Yr addasiad a geisir |
|---|---|---|
| Tai ac Eiddo | **Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr** | Ystyried cerrig milltir sy'n gwerthuso'r ymyraethau sydd wedi eu rhoi ar waith, a mesur effaith y premiwm a'i ddefnydd. |

*Trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adran*

| Adran | Prosiect | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Tai ac Eiddo | **Ymdrin efo'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd** | Mae'r prosiect wedi gwireddu ei amcanion o sefydlu trefniadau cydweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo cynlluniau arbed ynni. Mae Tîm Ynni mewn lle sy'n cynnal y trefniadau hynny a mae'r gwaith o gefnogi trigolion gyda chostau ynni yn rhan o'u gwaith dydd i ddydd. |

**GWYNEDD OFALGAR - Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau**

*Sgôp neu bwrpas gwreiddiol y prosiectau yn parhau*

| Adran | Prosiect |
|---|---|
| Oedolion | **Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol** |
| Plant a Theuluoedd | **Datblygu ymhellach y ddarpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan** |
| Oedolion | **Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd** |
| Oedolion | **Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal** |
| Oedolion | **Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth** |
| Trawsadrannol | **Cefnogi Llesiant Pobl** |

*Sgôp neu bwrpas y prosiectau wedi newid*

| Adran | Prosiect | Yr addasiad a geisir |
|---|---|---|
| Oedolion | **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned** | Ystyriaeth i gerrig milltir a mesurau ynghlwm â chomisiynu'r trydydd sector a gwasanaethau digartrefedd. |
| Plant a Theuluoedd | **Cynllun Awtistiaeth** | Ystyriaeth i gerrig milltir ar gyfer paratoi dyfodol y gwaith tu hwnt i'r ariannu presennol |
| Oedolion / Plant a Theuluoedd | **Llechen Lân** | Ystyried cerrig milltir ar gyfer sefydlu Llechen Lân Plant; a cherrig milltir ar gyfer gweithredu argymhellion Llechen Lân Oedolion |

**GWYNEDD GYMRAEG - Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posibl i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.**

*Sgôp neu bwrpas gwreiddiol y prosiectau yn parhau*

| Adran | Prosiect |
|---|---|
| Addysg | **Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg.** |
| Gwasanaethau Corfforaethol | **Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd** |

*Trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adran*

| Adran | Prosiect | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Addysg | **Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant** | Mae'r elfen moderneiddio yr unedau iaith, y safle we, adnoddau a hyfforddiant gweithlu wedi eu cyflawni. Bydd gwerthusiad ac asesiad effaith o'r gyfundrefn drochi yn parhau fel cerrig milltir o dan y prosiect "Adolygu Polisi Iaith" uchod. |

**GWYNEDD WERDD - Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd**

*Sgôp neu bwrpas gwreiddiol y prosiectau yn parhau*

| Adran | Prosiect |
|---|---|
| Amgylchedd | **Gwastraff ac Ailgylchu** |
| Tim Arweinyddiaeth | **Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur** |
| Priffyrdd, Peirianneg a YGC | **Gweithredu ar risgiau llifogydd** |
| Amgylchedd | **Sefydlu Cynllun Datblygu Lleol newydd** |
| Amgylchedd | **Teithio Llesol** |

*Trosglwyddo i fod yn waith dydd i ddydd yr Adran*

| Adran | Prosiect | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Amgylchedd | **Cymunedau Glân a Thaclus** | Mae Tîm Tacluso a threfniadau cydweithio gyda chymunedau wedi eu datblygu a'u rhoi ar waith, a felly bydd y gwaith yn parhau yn yr adrannau o dan drefniadau Herio Perfformiad arferol. |
| Amgylchedd | **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | Mae nodau y prosiect wedi eu cyflawni sef cwblhau adolygiad strategol o'r rhwydwaith a chyflwyno cerbydau trydan. |

**GWYNEDD EFFEITHLON - Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon**

*Sgôp neu bwrpas gwreiddiol y prosiectau yn parhau*

| Adran | Prosiect |
|---|---|
| Cyllid | **Cynllun Digidol** |
| Tai ac Eiddo | **Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol** |

*Sgôp neu bwrpas y prosiectau wedi newid*

| Adran | Prosiect | Yr addasiad a geisir |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Corfforaethol | **Datblygu diwylliant y Cyngor** | Ystyried cerrig milltir sy'n rhoi pwyslais ar wella ystyriaeth i brofiad y trigolion wrth ddarparu gwasanaeth.<br><br>Ystyried ychwanegu cerrig milltir ar hyfforddiant cyswllt cwsmer ac effeithlonrwydd drysau ffrynt / mynediad i'n gwasanaethau. |

*Trosglwyddo i fod yn waith dydd i ddydd yr Adran*

| Adran | Prosiect | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Corfforaethol | **Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch** | Symud i waith dydd i ddydd yn yr adrannau |
| Gwasanaethau Corfforaethol | **Cynllunio'r Gweithlu** | Symud i waith dydd i ddydd yn yr adrannau |
| Gwasanaethau Corfforaethol | **Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol** | Symud i waith dydd i ddydd yn yr adrannau |

**ATODIAD 2**

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 4 a 5

## Gwynedd Glyd: Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau

| **Adran** | **Prosiect** | **Beth ydym am ei gyflawni yn ystod Blwyddyn 4 a 5 26-28 (cerrig milltir):** | **Diweddariad ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma** (nodwch y dyddiad) | **Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol** (Ydi / Nac Ydi) | **Amlinellwch beth yw'r effaith (neu effaith tebygol) ar drigolion Gwynedd a sut y byddwch yn mesur hynny** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tai ac Eiddo** | **Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol** | 1<br>2<br>3<br>4 | 1<br>2<br>3<br>4<br>5 | 1<br>2<br>3<br>4<br>5 | |

ATODIAD 3

# Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

## Gwynedd Glyd: Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas yn eu cymunedau

| Adran | Prosiect | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Diweddariad ar y cynnydd gyda'r cerrig milltir hyd yma (nodwch y dyddiad) | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau / yn debygol o'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (Ydi / Nac Ydi) | Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd?<br>Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl gyda nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun y Cyngor 2023-28, Adolygiad 2026/27

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2023 a 2028. Dyma bedwaredd blwyddyn y Cynllun. Cafodd fersiwn wreiddiol y Cynllun ei fabwysiadau gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 2 Fawrth 2023.

Mae'r Cynllun yn datgan ein gweledigaeth am 5 mlynedd ers ei fabwysiadu, ac yna bydd pob adolygiad blynyddol yn cynnig diweddariad sy'n crynhoi yn fyr ble yr ydym wedi ei gyrraedd ar y siwrnai, a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Dyma'r newidiadau sydd wedi'u gwneud yn Adolygiad 2026/27:

Mae'r Adran newydd canlynol wedi'i hychwanegu o'r newydd:
**Cynllun Ymateb: Cyfiawnder Drwy ein Dewrder**.

- Oherwydd pwysigrwydd y gwaith hwn, nodwyd y dymuniad i gynnwys cyflwyno'r adran newydd i gydnabod gwaith y Cynllun Ymateb. Pwrpas y Cynllun Ymateb yw esbonio sut fydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau na fydd troseddu fel hyn yn digwydd eto yng Ngwynedd a bod trefniadau Diogelu plant a phobl ifanc o'r safon uchaf posibl.

Mae'r Maes Blaenoriaeth Newydd canlynol wedi'i gynnwys o'r newydd:
**Gwynedd Gyfartal** – mae dau brosiect o Gwynedd Effeithlon yn cael eu symud yma (**Sicrhau tegwch i bawb** a **Merched mewn arweinyddiaeth**).

Mae sgôp neu bwrpas y prosiectau canlynol wedi newid:
***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory***

- **Ymestyn cyfleoedd cymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir** – diwygiad i drosolwg y prosiect.

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Lewyrchus***

- **Creu'r amgylchedd gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu.**
- **Adfywio cymunedau a chanol trefi**
- **Cadw'r Budd yn Lleol**

– diwygiad i drosolwg y prosiectau

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Glyd***

- **Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.**

– diwygiad i drosolwg y prosiect.

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Ofalgar***

- **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned.**
- **Cynllun Awtistiaeth**
- **Llechen Lân**

– diwygiad i drosolwg y prosiectau.

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Effeithlon***

- **Datblygu diwylliant y Cyngor**

– diwygiad i drosolwg y prosiect.

Mae'r prosiectau canlynol wedi'u hychwanegu o'r newydd:
***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Lewyrchus***

- **Nôl i Wynedd**
- **Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd**

Mae'r prosiect canlynol wedi trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr Adran berthnasol yn ystod 2026/27:
***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Yfory***

- **Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol.**

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Glyd***

- **Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd.**

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Gymraeg***

- **Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant.**

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Werdd***

- **Cymunedau Glân a Thaclus**
- **Trafnidiaeth Gyhoeddus**

***Maes Blaenoriaeth: Gwynedd Effeithlon***

- **Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch.**
- **Cynllunio'r Gweithlu**
- **Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol**

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob prosiect unigol o fewn y Cynllun gael Asesiad ar wahân, yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y prosiectau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor, Gwasanaethau Corfforaethol

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Ionawr 2023 – fersiwn 1- asesiad llawn o'r Cynllun
Hwn yw fersiwn 4 – Chwefror 2026 - adolygiad 2026/27 o'r Cynllun

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd.

## 2.2 Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ymgysylltu gyda phobl gyda nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023 i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori . Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol.

Anogwyd cymaint â phosibl o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhaeadru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlenni aelodau etholedig a staff y Cyngor.

Cysylltwyd â sefydliadau sy'n cynrychioli neu'n gweithio gyda phobl a/neu blant gyda nodweddion cydraddoldeb i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac i ofyn iddynt hysbysu eu defnyddwyr am yr holiadur.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw o 8fed o Rhagfyr 2022 hyd at 3ydd Ionawr 2023.

Derbyniwyd 643 o ymatebion i'r holiadur. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno â'r meysydd blaenoriaeth a'r prosiectau ac nid oedd unrhyw bryderon penodol yn ymwneud â'r nodweddion cydraddoldeb.

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

| Ardal | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Arfon | 282 | 43.9% |
| Dwyfor | 137 | 21.3% |
| Meirionnydd | 203 | 31.6% |
| Tu allan i Wynedd | 9 | 1.4% |
| Dim ateb | 12 | 1.9% |
| **Cyfanswm** | **643** | **100.0%** |

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau cwestiynau am eu nodweddion cydraddoldeb (yn ddewisol) a roedd yr wybodaeth a gasglwyd fel a ganlyn:

Rhyw

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dyn / Gwryw | 267 | 41.5 |
| Dynes / Benyw | 313 | 48.7 |

| | | |
|---|---|---|
| Dwi’n uniaethu mewn ffordd wahanol | 1 | 0.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 47 | 7.3 |
| Dim ateb | 15 | 2.3 |
| **Cyfanswm** | **643** | **100.0** |

Oed

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 15 oed neu iau | 4 | 0.6 |
| 16 - 24 oed | 11 | 1.7 |
| 25 - 34 oed | 59 | 9.2 |
| 35 - 44 oed | 60 | 9.3 |
| 45 - 54 oed | 119 | 18.5 |
| 55 - 64 oed | 162 | 25.2 |
| 65 - 74 oed | 128 | 19.9 |
| 75 - 84 oed | 38 | 5.9 |
| 85 + oed | 4 | 0.6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 46 | 7.2 |
| Dim ateb | 12 | 1.9 |
| **Cyfanswm** | **643** | **100.0** |

Ydych chi’n deall, siarad, darllen a/ neu’n ysgrifennu’n Gymraeg?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Siarad Cymraeg | 329 | 51.2 |
| Deall Cymraeg ar lafar | 281 | 43.7 |
| Darllen Cymraeg | 279 | 43.4 |
| Ysgrifennu'n Gymraeg | 243 | 37.8 |
| Ddim yn deall Cymraeg (dim un o'r uchod) | 107 | 16.6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 66 | 10.3 |
| Arall | 75 | 11.7 |
| **Cwestiwn aml-ddewis** | | |

Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymreig | 304 | 47.3 |
| Seisnig | 83 | 12.9 |
| Albanaidd | 5 | 0.8 |
| Gwyddelig o Ogledd Iwerddon | 1 | 0.2 |
| Prydeinig | 161 | 25.0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 46 | 7.2 |
| Arall | 30 | 4.7 |
| Dim ateb | 13 | 2.0 |
| **Cyfanswm** | **643** | **100.0** |

Hil

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 556 | 86.5 |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd | 0 | 0.0 |
| Asiaidd | 1 | 0.2 |
| Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig | 2 | 0.3 |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 8 | 1.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 57 | 8.9 |
| Arall | 7 | 1.1 |
| Dim ateb | 12 | 1.9 |
| **Cyfanswm** | **643** | **100.0** |

Beth yw eich crefydd

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim crefydd | 238 | 37.0 |
| Cristion | 286 | 44.5 |
| Mwslim | 0 | 0.0 |
| Bwdhaidd | 4 | 0.6 |
| Hindŵ | 0 | 0.0 |
| Iddewig | 3 | 0.5 |
| Sîc | 0 | 0.0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 71 | 11.0 |
| Arall | 26 | 4.0 |
| Dim ateb | 15 | 2.3 |
| **Cyfanswm** | **643** | **100.0** |

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 506 | 78.7 |
| Dyn hoyw | 10 | 1.6 |
| Dynes hoyw / lesbiaidd | 8 | 1.2 |
| Deurywiol (Bisexual) | 10 | 1.6 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 79 | 12.3 |
| Arall | 10 | 1.6 |
| Dim ateb | 20 | 3.1 |
| **Cyfanswm** | **643** | **100.0** |

Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydi | 10 | 1.6 |
| Nac ydi | 541 | 84.1 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 67 | 10.4 |
| Dim ateb | 25 | 3.9 |
| **Cyfanswm** | **643** | **100.0** |

Nid oedd yn bosibl adnabod patrwm yn ymatebion unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb.

Dylai prosiectau unigol ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ac ymgysylltu ymhellach â thrigolion Gwynedd yn ôl yr angen.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, ym mis Gorffennaf 2022, gofynnwyd i Benaethiaid Adran nodi ac ystyried blaenoriaethau a chynlluniau posibl ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriwyd sawl darn o waith / gwybodaeth, gan gynnwys y prosiectau oedd yn y Cynllun blaenorol 2022-23, adborth o waith ymgysylltu Fframwaith Adfywio 'Ardal Ni', a'r Asesiadau Llesiant gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Yn ychwanegol, yn Hydref 2022 cynhaliwyd gweithdy gyda'r Aelodau Cabinet er mwyn trafod cynlluniau posibl ar gyfer y Cynllun newydd.

Cynhaliwyd 2 sesiwn gweithdy pellach gydag aelodau etholedig ym mis Rhagfyr 2022 er mwyn rhoi cyfle i aelodau lleol mynegi eu barn ac i amlygu unrhyw faterion ychwanegol a oedd angen sylw.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, penderfynwyd ymgysylltu ar fersiwn 2023-28 o'r Cynllun gyda'r cyhoedd ym mis Rhagfyr 2022 – Ionawr 2023. Roedd hwn yn gyfle i drigolion, busnesau, grwpiau a sefydliadau, aelodau etholedig, a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned gael dweud eu dweud ar y blaenoriaethau drafft.

Cynhaliwyd gweithdai adolygu Cynllun y Cyngor gydag Aelodau Cabinet ac Aelodau Etholedig ym mis **Ionawr a Chwefror 2026** ac mae'r pwyntiau a godwyd yn y gweithdai hyn wedi bwydo i mewn i'r adolygiad.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau Herio a Chefnogi Perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwyllgorau craffu yn herio cynnydd a datblygiad y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau ar y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.

Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw.

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 ynghyd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl gyda'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor am 2024-28 yn ystyried yn arbennig unrhyw faterion yn codi o Gynllun Gweithredu Cymru Gwrth-Hiliol Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' o fewn Cynllun y Cyngor yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys hil. |
| **Anabledd** | Positif | Mae gofal yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith bositif. Disgwylir i bob cynllun unigol arall edrych ar yr effaith ar anabledd wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.<br><br>Fe nodwyd 9.8% (N=63) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus fod ganddynt anabledd.<br><br>Roedd canran uwch o'r ymatebwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd (95.2%, N=60) yn cytuno gyda Maes Blaenoriaeth 3 o gymharu a phawb a wnaeth ateb i'r ymgynghoriad (85.1%, N=547).<br><br>Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys anabledd. |
| **Rhyw** | Positif | Ceir un cynllun unigol yn y benodol yn y maes yma sef "Merched mewn Arweinyddiaeth" felly disgwylir effaith bositif yma. Wedi dweud hynny, nid yw'n bosibl adnabod effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd heb gwblhau asesiadau effaith ar y cynlluniau unigol eraill.<br><br>Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys rhyw. |
| **Oedran** | Positif | Mae oedran yn cael ei flaenoriaethu mewn nifer o feysydd felly disgwylir cael effaith bositif ar faes plant, pobl ifanc a phobl hŷn.<br><br>Disgwylir i bob cynllun unigol edrych ar yr effaith ar oedrannau gwahanol wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Roedd 91.3% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cytuno â Maes Blaenoriaeth 1.<br><br>Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys oedran. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif | Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys crefydd. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys ailbennu rhywedd. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys beichiogrwydd a mamolaeth. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif | Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys priodas a phartneriaeth sifil. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Ansicr ar hyn o bryd oherwydd diffyg tystiolaeth | Mae blaenoriaeth benodol o fewn y Cyngor sydd yn ymwneud â hybu defnydd o'r Gymraeg, gyda dau brosiect wedi eu hadnabod dan y flaenoriaeth honno. Mae nifer o brosiectau unigol o fewn y Cyngor sydd yn cyfrannu at amcan strategol y Cyngor i hybu defnydd o'r Gymraeg hefyd. Gan nad oes asesiadau unigol wedi eu paratoi/cyflwyno ar gyfer y prosiectau unigol, mae'n anodd iawn ar y pwynt yma asesu effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd ar y Gymraeg a'i siaradwyr, boed hynny yn gadarnhaol neu yn negyddol.<br><br>Disgwylir i bob cynllun unigol edrych ar yr effaith ar yr iaith wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.<br><br>Roedd 66.9% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cytuno â Maes Blaenoriaeth 5.<br><br>Bydd y prosiect 'Sicrhau Tegwch i Bawb' yn gweithredu ar bob nodwedd gan gynnwys iaith. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod nifer o bobl Gwynedd yn byw mewn amodau o anghyfartaledd oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Felly mae eisoes nifer o'r prosiectau sydd yng Nghynllun y Cyngor yn ymwneud â lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol. Isod mae enghreifftiau o brosiectau:<br><br>Gwaith –<br>**Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu** |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Cefnogi pobl Gwynedd mewn i waith sy'n eu galluogi i fyw bywyd da**<br><br>Addysg - **Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar**<br><br>Iechyd - **Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned**<br><br>Cyfiawnder a Safonau Byw – **Cefnogi Llesiant Pobl** |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion penodol i'w hystyried. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Prosiect – **Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant** |

Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n newydd-ddyfodiaid yn cael cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, a hynny drwy ddarpariaeth gyfoes o'r radd flaenaf, a gaiff ei ledaenu ar draws Cymru. Mae'n hanfodol bod dysgwyr sy'n llai hyderus eu Cymraeg hefyd yn cael y cyfle i fagu hyder a gloywi eu Cymraeg drwy gefnogaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi. Rydym hefyd am weld ehangu ein dulliau trochi iaith i gefnogi'r Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau ble mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar yr aelwyd a thu allan i'r ysgol yn gyfyngedig. Bydd y prosiect yma mewn cydweithrediad â'r Gyfundrefn Drochi a'n hysgolion yn rhoi'r cyfle gorau i'n holl ddysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Prosiect - **Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg**

Prosiect - **Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd**
Byddwn yn cynnal prosiectau penodol fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol.

Bydd gwybodaeth o'r Asesiadau Effaith unigol yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut y bydd y prosiectau'n gweithredu yn unol, â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2023 a 2028. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob prosiect unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynlluniau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i hybu'r iaith Gymraeg yn eu meysydd.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Isod mae esiamplau o brosiectau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun sy'n ymateb i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol:

Gwaith - **Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith.**

**Cefnogi pobl Gwynedd mewn i waith sy'n eu galluogi i fyw bywyd da**
Byddwn yn cefnogi busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd i ffynnu mewn sawl ffordd megis datblygu cynnyrch a chael mynediad i farchnadoedd newydd, helpu mentrau i arbed arian drwy leihau gwastraff a defnyddio technoleg yn well, cefnogi busnesau yng Ngwynedd i fasnachu gyda'i gilydd a blaenoriaethu helpu mentrau sydd yn ymrwymo i dalu 'cyflog byw gwirioneddol' i'w gweithwyr. Byddwn yn hybu busnesau i wneud y mwyaf o'r Gymraeg, yn datblygu mwy o unedau busnes i'w gosod ar rent, ac yn ymdrechu i sicrhau bod prosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn elwa pobl Gwynedd. Byddwn hefyd yn helpu pobl Gwynedd i gyflawni eu potensial a chefnogi y rhai sydd wedi eu heithrio o'r farchnad llafur i ddychwelyd i waith a gweithio gyda chyflogwyr i'w helpu i sicrhau gweithwyr digonol.

Addysg **- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar.**
Mae'r blynyddoedd cynnar yn allweddol i ddatblygiad cymdeithasol plant, a gwelwyd pwysigrwydd y cyfnod hwn yn enwedig yn ystod y pandemig. Rydym am drawsnewid y gwasanaeth yma a byddwn yn cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd a'r Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau fod holl blant y sir yn cael y cychwyn gorau posibl i'w cyfnod mewn addysg.

Iechyd – **Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal**

Mae angen i ni alluogi pobl Gwynedd i fyw bywyd da cyn hired â phosibl o fewn eu cymunedau'n lleol. I gyflawni hyn, mae angen iddynt fod â'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i fanteisio ar gyfleon cymunedol fyddai'n hyrwyddo eu llesiant, yn ogystal â dulliau hyblyg o drefnu'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt.

Cyfiawnder a Safonau Byw – **Cefnogi Llesiant Pobl.**
Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd a mae sefyllfa nifer o drigolion wedi gwaethygu yn sgil yr argyfwng costau byw. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel, ac i gadw'n iach.

Mae gennym rwydwaith eang drwy ein cymunedau sy'n helpu ac yn cefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw, a byddwn yn gweithio i gryfhau'r gwaith hanfodol yma dros y blynyddoedd nesaf.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Mae disgwyl i bob prosiect unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono a bydd hyn yn cynnwys asesu'r anfantais economaidd gymdeithasol. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynlluniau unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i leihau anghyfartaledd o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu meysydd.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n ymddangos y dylai'r meysydd blaenoriaeth gael effaith sylweddol bositif ar nifer o'r nodweddion cydraddoldeb. Disgwylir i bob asesiad effaith cydraddoldeb unigol edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. Mae hyn yn arbennig o wir os ydi ystyriaethau Covid am gael eu hystyried yn llawn yn eu hasesiadau effaith.

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effeithiau sylweddol negyddol wedi eu hadnabod gyda'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae pob asesiad effaith unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau gyda'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r asesiadau unigol yn adnabod unrhyw effeithiau negyddol a'r camau i'w lliniaru.

### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

| |
|---|
| Nid ydym wedi adnabod unrhyw weithred ar gyfer y Cynllun yn ei gyfanrwydd ond bydd yn cael ei ystyried yn yr asesiadau unigol. |

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi’n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Mae Adrannau’r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau Herio a Chefnogi Perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwyllgorau craffu yn herio cynnydd a datblygiad y gwaith sy’n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy’r flwyddyn. Mae’r adroddiadau ar y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.<br><br>Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw.<br><br>Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 ynghyd â’r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei chyflwyno i’r Cabinet a’r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu’n flynyddol. |

**ADRODDIAD I'R CABINET**
10 MAWRTH 2026

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor

**Pwnc:** Bidiau Un Tro 2026/27

**Swyddog cyswllt:** Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo y bidiau un-tro o £2,870,280 ar gyfer 2026/27 sydd i'w cyllido o'r gronfa Trawsffurfio.

## 2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad

Mae'r bidiau am adnodd un-tro yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad ar wahân i adroddiad y Gyllideb gan nad yw dyrannu adnodd un tro yn cael effaith ar osod ein cyllideb refeniw flynyddol nac yn ystyriaeth wrth orfod pennu cyfradd y Dreth Cyngor. Cyflwynir yr adroddiad hwn cyn dechrau y flwyddyn ariannol 2026/27 fel bod modd gweithredu o 1 Ebrill 2026.

## 3. Cyflwyniad / Cefndir

3.1 Yn flynyddol gwahoddir adrannau'r Cyngor i gyflwyno bidiau am adnodd un tro ar gyfer materion megis ymdopi gyda phwysau dros dro, cyflawni prosiectau Cynllun y Cyngor, trawsffurfio gwasanaethau neu arbrofi cyn dod i gasgliad os yw'n synhwyrol darparu cyllideb barhaol.

3.2 Er fod nifer o fidiau wedi eu cyflwyno gan yr adrannau, rhaid oedd blaenoriaethu a chyfyngu ar y bidiau oedd i dderbyn cymeradwyaeth i sicrhau nad oes defnydd gormodol o'r cronfeydd yn cael eu gwneud.

3.3 Yn arferol Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor sydd yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r bidiau un-tro. Mae balans o £4.19 miliwn heb ymrwymiad yn y gronfa, felly ar gael i gyllido'r bidiau o £2.87 miliwn.

| | **Balans 31/03/2026** | **Cyllido'r bidiau un tro** | **Balans diwygiedig** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Strategaeth Ariannol | 17,575 | | 17,575 |
| Cronfa Trawsffurfio | 4,191 | (2,870) | 1,321 |
| **Cyfanswm** | **21,766** | **(2,870)** | **18,896** |

## 4. Bidiau Un-tro 2026/27

4.1 Mae'r bidiau a dderbyniwyd wedi eu hasesu gennyf i, y ddau gyfarwyddwr a'r Pennaeth Cyllid a cyflwynir fanylion y bidiau un-tro a argymhellir i dderbyn cefnogaeth ariannol ar gyfer 2026/27 yn y tabl isod.

4.2 Argymhellir cymeradwyo 19 o fidiau gwerth £2,870,280 fel sydd wedi eu rhestru yn **Nhabl 1** isod. Mae'r gronfa trawsffurfio sydd ar gael i gyllido blaenoriaethau'r Cyngor, i'w defnyddio fel ffynhonnell i gyllido'r bidiau yma.

**Tabl 1 Bidiau Refeniw Un-tro 2026/27**

| | **Teitl y Bid** | **Swm a argymhellir (£)** |
|---|---|---|
| 1 | Costau yn ymwneud â pharatoi Cynllun Datblygu Lleol newydd i Wynedd | 374,000 |
| 2 | Cyllideb Dysgu a Datblygu | 240,000 |
| 3 | Costau unwaith ac am byth ychwanegol yn y maes diogelu yn sgil Cynllun Ymateb Cyfiawnder Drwy ein Dewrder | 200,000 |
| 4 | Adolygu ac asesu risgiau trafnidiaeth fewnol ac allanol ar draws ysgolion Gwynedd | 185,325 |
| 5 | Trefniadau Cynllunio ac Ymateb i Argyfwng | 114,000 |
| 6 | Costau yn ymwneud â pharatoi ar gyfer yr Ardoll Ymwelwyr | 100,000 |
| 7 | Cymorth i waredu ôl groniad gwaith prosesu ceisiadau y Gwasanaeth Trethi | 99,900 |
| 8 | Gwella hygyrchedd y wefan gorfforaethol | 82,420 |
| 9 | Cyllideb pontio Cronfa Cefnogi Digwyddiadau | 70,000 |
| 10 | Cyfraniad i'r Fenter Iaith | 30,000 |
| 11 | Cyllideb i'r fforwm Ieuenctid | 20,000 |
| 12 | Strategaeth Iaith – Gweithredu Strategaeth Iaith 2026 – 2032 | 300,000 |
| 13 | Parhau gyda gwaith adfywio Cymunedau a Chanol Trefi | 279,696 |
| 14 | Cyfreithiwr Plant a Oedolion | 177,462 |
| 15 | Goleuadau stryd newydd/ychwanegol oddi fewn i'n cymunedau ar draws Gwynedd gyfan | 75,000 |
| 16 | Llewyrch o'r Llechi: Cefnogi Treftadaeth Byd y Gogledd Orllewin | 82,477 |
| 17 | Cynnydd yng nghostau profi strwythur colofnau goleuadau stryd | 40,000 |
| 18 | Costau i weithredu prosiect 'Nol i Wynedd' | 200,000 |
| 19 | Costau i weithredu maes blaenoriaeth 'Gwynedd gyfartal' | 200,000 |
| | **CYFANSWM** | **2,870,280** |

## 5. Casgliad

5.1 Yn dilyn cymeradwyaeth i'r bidiau a nodir yn Rhan 4 o'r adroddiad, bydd yr arian yn cael ei ddyrannu i'r Adrannau perthnasol fel eu bod yn gallu gweithredu i wario ar y gwasanaethau yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Gallaf gadarnhau cywirdeb y ffigyrau sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad. Rwyf yn fodlon fod adnoddau digonol wedi eu hadnabod, fel sydd wedi ei ddangos yn rhan 3.3, i ariannu'r bidiau un-tro a welir yn Tabl 1.

---

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **10 Mawrth 2026** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Craig ab Iago** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Trefniadau Dirprwyo Cyfrifoldebau Gwariant** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1. Y penderfyniad a geisir

i. Bod y Cabinet yn cymeradwyo newid yr hawl i ddirprwyo gwariant y gronfa cynllun hinsawdd oddi wrth y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur, i'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb arweiniol ar y portffolio hinsawdd a natur, mewn ymgynghoriad aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd Hinsawdd a Natur).

### 2. Y Rheswm Dros yr Angen am Benderfyniad

i. Mae Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol 2000, Rheoliadau Awdurdodau Lleol 2007, a chyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn amlinellu ble mae cyfrifoldebau yn gorwedd er mwyn gosod cyllideb, ac yna pwy sy'n cael cymryd penderfyniadau ar sut i wario'r gyllideb honno.

ii. Yng nghyfarfod y Cyngor ar 3 Mawrth 2022 fe gytunwyd i greu 'cronfa cynllun hinsawdd' gwerth £3m drwy'r broses bidiau refeniw un-tro, at bwrpas gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur.

iii. Yna, mewn cyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd ar 12 Mawrth 2024 fe gytunwyd y byddai'r Cabinet yn dirprwyo'r hawl i flaenoriaethu gwariant gweddill y gronfa cynllun hinsawdd i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.

iv. Ers haf 2025 mae newidiadau wedi bod yn aelodaeth y Bwrdd Hinsawdd a Natur, ac nid yw'r Prif Weithredwr nac Arweinydd y Cyngor bellach yn aelodau ohono, felly mae angen diwygio'r hawl dirprwyiedig er mwyn adlewyrchu aelodaeth presennol y Bwrdd Hinsawdd a Natur.

v. Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 22 Ionawr 2026 fe drafodwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i graffu materion ariannu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Roedd y cais yn holi am resymeg a chyfleon i wella'r drefn o ddirprwyo penderfyniadau ariannol fel bo mewnbwn gwleidyddol ac ehangach iddynt.

vi. Byddai'r trefniadau dirprwyo cyfrifoldebau gwariant newydd sy'n cael eu cynnig hefyd yn cryfhau atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder ymhellach, gan y byddai'r penderfyniadau yn cael eu cyhoeddi drwy Daflen Benderfyniad Aelod Unigol o'r Cabinet ar wefan y cyngor. Yn dilyn y cyhoeddiad mae cyfle pellach i herio'r penderfyniad yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.

## 3. Cefndir

i. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi datganiad argyfwng hinsawdd fis Mawrth 2019 ac yn sgil hynny fe gyhoeddwyd y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) 2022/23-2029/30 (CAHN) fis Mawrth 2022. Mae'r CAHN hefyd yn un o'r prosiectau o fewn pennawd Gwynedd Werdd yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028.

ii. Mae'r cyllid i weithredu'r CAHN wedi dod o'r gronfa cynllun hinsawdd (gweler 2.i uchod); o geisiadau uniongyrchol i'r Cabinet am gyllid i gefnogi prosiectau (ee. penderfyniad Cabinet 22 Tachwedd 2022 i roi £2.8m i osod paneli solar PV ar ein asedau); ac yn bennaf o grantiau o ffynonellau allanol. Rhwng 2019/20 a 2024/25 buom yn llwyddiannus yn denu grantiau gwerth £13.5m i gefnogi gwaith y CAHN.

iii. Mae'r penderfyniadau ar wariant ar brosiectau'r CAHN yn cael eu cymryd yn unol â blaenoriaethau'r cynllun, ac yn dilyn trefniadau rheolaeth cyllid y Cyngor.

iv. Ers 12 Mawrth 2024, pan ddirprwywyd yr hawl i flaenoriaethu gweddill y gronfa hinsawdd gan y Cabinet, mae'r cyllid yn y gronfa wedi ei wario neu ei neilltuo yn ei gyfanrwydd.

v. Os ydi'r Cabinet yn penderfynu neilltuo cyllid ychwanegol er mwyn ariannu prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur o 2026/27 ymlaen, yna bydd y trefniadau newydd y gofynnir am benderfyniad arnynt yn dod yn weithredol.

vi. Ers haf 2025 nid yn unig bod aelodaeth y Bwrdd Hinsawdd a Natur hefyd wedi newid, ond yn ogystal mae'r cyfrifoldeb portffolio dros faterion newid hinsawdd wedi ei drosglwyddo oddi wrth Arweinydd y Cyngor i'r Aelod Cabinet Amgylchedd. Mae'r cyfrifoldeb gweithredol hefyd wedi ei drosglwyddo oddi wrth y Prif Weithredwr i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.

vii. Er mwyn adlewyrchu'r cyfrifoldebau presennol, mae'n amserol i newid yr hawl dirprwyedig dros wariant y gronfa cynllun hinsawdd ac felly fe ofynnir i'r Cabinet ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb arweiniol ar y portffolio hinsawdd a natur, mewn ymgynghoriad aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd Hinsawdd a Natur).

## 4. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

i. Lluniwyd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur pan y gafodd ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae'r asesiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r Adroddiad Blynyddol ar y CAHN yn ogystal.

## 5. Camau nesaf ac amserlen

i. Bydd y trefniadau dirprwyo cyfrifoldeb gwariant newydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2026.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir. Mae'r dirprwyo yn cynnig trefn briodol a thryloyw ar gyfer didoli'r gronfa pan gaiff ei hail gyflenwi.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon na fydd mabwysiadu'r penderfyniad a geisir yn gwanhau rheolaeth ariannol Cronfa'r Cynllun Hinsawdd, ac mae'r briodol fod yr hawliau dirprwyedig yn cael eu trosglwyddo am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad. Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

---

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10 Mawrth 2026 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| **Swyddog Cyswllt:** | Sioned Williams,<br>Pennaeth Economi a Cymuned (Uwch Swyddog Cyfrifol, Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru)<br><br>Dylan Griffiths,<br>Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu'r Economi (Rheolwr (Rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru) |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679547<br><br>01286 679611 |
| **Teitl yr Eitem:** | **CRONFA TWF LLEOL Y DG YNG NGHYMRU: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A GWEITHREDU 2026/27** |

### 1. PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Fod Cyngor Gwynedd yn parhau i fod yn awdurdod lleol arweiniol i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng ngogledd Cymru hyd at ddiwedd y rhaglen (30 Medi 2026) a chwblhau ei weinyddiaeth (01 Ionawr 2027).

1.2. Fod Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd yn parhau hyd at ddyddiad diwedd diwygiedig y Gronfa; gyda'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Aelod Cabinet Cyllid a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol ynghyd â'r Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol (neu eu cynrychiolwyr) yn aelodau.

1.3. Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i fod yn awdurdod lleol arweiniol gogledd Cymru ar gyfer Cronfa Twf Lleol y DG yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn gyntaf y rhaglen (2026/27).

1.4. Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i barhau gyda threfniadau llywodraethu rhanbarthol y Gronfa Ffyniant Cyffredin i berwyl y Gronfa Twf Lleol ar gyfer y flwyddyn gyntaf (2026/27) gan gyflwyno cynllun yn amlinellu'r bwriad i Lywodraeth Cymru.

1.5. Awdurdodi’r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda’r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a’r Prif Weithredwr yn ddarostyngedig i 1.6 isod i gytuno a chwblhau cytundebau gyda’r llywodraeth (au) er gweithredu y swyddogaeth arweiniol.

1.6. Awdurdodi’r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda’r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a’r Prif Weithredwr i sefydlu cytundebau cyfreithiol rhyng-awdurdod ac amodau ariannu gyda siroedd eraill Gogledd Cymru i warchod buddiannau Cyngor Gwynedd.

1.7. Fod Cyngor Gwynedd yn cytuno i barhau’r trefniadau llywodraethu lleol i berwyl y Gronfa Twf Lleol yng Ngwynedd fel a’u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae Llywodraeth y DG wedi ymestyn cyfnod y Gronfa Ffyniant Gyffredin (Shared Prosperity Fund / SPF) am chwe mis. Mae gofyn i Gyngor Gwynedd barhau i fod yn awdurdod lleol arweiniol i’r rhaglen ar gyfer cyfnod yr estyniad.

2.2. Bydd gofyn i barhau trefniadau addas o fewn y Cyngor i fonitro'r SPF ar gyfer y cyfnod ychwanegol ond mae dymuniad addasu’r aelodaeth.

2.3. Bydd olynydd yr SPF, y Gronfa Twf Lleol (Local Growth Fund) yn weithredol o 01 Ebrill 2026. Mae cais i barhau gyda threfniadau gweinyddol yr SPF ar gyfer flwyddyn gyntaf y Gronfa Twf Lleol (2026/27) ac felly gofyn i Gyngor Gwynedd fod yn awdurdod lleol arweiniol ar gyfer y Gronfa Twf Lleol yng Ngogledd Cymru.

## 3. CYFLWYNIAD

<u>Cronfa Ffyniant Gyffredin</u>

3.1. Mae’r Gronfa Ffyniant Gyffredin (Shared Prosperity Fund / SPF) yn raglen ariannol i gefnogi datblygiad cymunedol a’r economi lleol. Llywodraeth y DG sy’n rheoli’r rhaglen ac mae’n cael ei weithredu drwy law awdurdodau lleol. Yng Nghymru, mae gofyn i siroedd pob rhanbarth gydweithio gydag un sir yn gyfrifol am yr arian. Cyngor Gwynedd yw’r awdurdod lleol arweiniol ar gyfer y gogledd.

3.2. Eleni (2025/26) mae £42.42 miliwm yn dod i Ogledd Cymru drwy law’r SPF. Mae £8.19 miliwn o’r cyfanswm yn dod i Wynedd. Dyma flwyddyn olaf yr SPF.

3.3. Roedd gweithgaredd y rhaglen yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026, gydag adroddiad terfynol i’w gyflwyno i Lywodraeth y DG ar 01 Mai a disgwyl i weinyddiaeth y Gronfa ddod i ben cyn 01 Gorffennaf 2026.

3.4. Ar 17 Rhagfyr 2025 dyma Lywodraeth y DG yn cyhoeddi y byddent yn caniatáu gweithgaredd wedi ei ariannu gan yr SPF barhau hyd at 30 Medi 2026 ond heb unrhyw arian ychwanegol. Dyddiad diwygiedig cyflwyno adroddiad terfynol i Lywodraeth y DG fydd 02 Tachwedd ac mae disgwyl i weinyddiaeth y Gronfa ddod i ben cyn 01 Ionawr 2027.

Cronfa Twf Lleol y DG yng Nghymru

3.5. Y Gronfa Twf Lleol (Local Growth Fund) fydd prif olynydd yr SPF. Bydd £547 miliwn yn dod i Gymru o'r Gronfa dros dair blynedd rhwng 2026/27 a 2028/29. Bydd yr arian yn mynd i Lywodraeth Cymru yn y lle gyntaf.

3.6. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei dull arfaethedig o ran Cronfa Twf Lleol y DU yng Nghymru yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2025. Mae ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad i'w weld ar wefan y Cyngor.

3.7. Bydd y cynllun twf lleol yn weithredol o 01 Ebrill 2026.

3.8. Bwriad y Gronfa Twf Lleol yw cefnogi cenhadaeth twf Llywodraeth y DG a chyfrannu at ei nodau strategol i sicrhau incwm gwirioneddol uwch a rhoi hwb i Gynnyrch Domestig Gros (Gross Domestic Product - GDP).

3.9. Nod arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa *yw cefnogi twf cynhyrchiant a mynd i'r afael â materion sy'n arwain at anghydraddoldebau economaidd.*

3.10. Bydd y Gronfa yn gweithredu ar sail thema gan Lywodraeth y DG

- Cymorth i fusnesau
- Cymorth sgiliau a gwaith ar gyfer twf
- Galluogi isadeiledd twf lleol

3.11. Mae cynigion Llywodraeth Cymru yn pwysleisio cydweithio a chydlynu rhanbarthol, er bod pwysigrwydd cyflawni'n lleol yn cael ei gydnabod. Mae'r cynigion hefyd yn cadw sgôp ar gyfer gweithgareddau / ymyriadau cenedlaethol lle bo hynny'n briodol.

3.12. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried blwyddyn gyntaf y Gronfa (2026/27) fel cyfnod pontio.

3.13. O 2027/28 ymlaen, maent yn bwriadu dyrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid i'r Cydbwyllgorau Corfforedig (CJCs) i gynllunio a rheoli portffolio rhanbarthol a lleol o brosiectau fel rhan o gynllun cyflawni rhanbarthol tair blynedd i wireddu gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer y rhanbarth.

3.14. Ar gyfer 2026/27 maent yn dymuno defnyddio'r strwythurau sydd eisoes ar waith i gyflawni'r SPF (awdurdod lleol arweiniol sy'n gweithio gyda'r siroedd eraill o fewn y rhanbarth) i gyflawni'r Gronfa Twf Lleol.

3.15. Mae'n debygol bydd £35.69 miliwn yn dod i'r gogledd yn 2026/27 o'r Gronfa Twf Lleol. Bydd 70% o'r arian yn dod ar ffurf cyfalaf.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Cronfa Ffyniant Gyffredin

4.1. Er nad oes mwy o arian yn cael ei gynnig, bydd amser ychwanegol ar gyfer gwariant SPF yn rhoi cyfle i brosiectau gwblhau eu gweithgaredd ac i gasglu

tystiolaeth am ganlyniadau eu gwaith. Bydd hefyd yn lleihau'r risg o weithgaredd yn dod i ben yn sydyn ar ddiwedd y rhaglen.

4.2. Mae bob sir yn y gogledd yn dymuno cynnig y cyfle i'w cynlluniau. Rhagwelir y bydd oddeutu hanner y prosiectau sydd ar waith yn falch o gael rhywfaint o amser ychwanegol.

4.3. O ymestyn cyfnod gwariant prosiectau bydd yn rhaid parhau i weinyddu'r SPF am chwe mis yn hwy na'r hyn oedd yn ddisgwyliedig.

4.4. I'r perwyl hwn bydd angen i Gyngor Gwynedd gytuno i barhau i fod awdurdod lleol arweiniol i'r SPF am y cyfnod ac i ymestyn y trefniadau gwaith sy'n gysylltiedig gan gynnwys y cytundeb cyfreithiol rhwng Gwynedd a siroedd eraill y Gogledd.

4.5. Roedd cyllid eisoes wedi ei ddarparu i berwyl cwblhau gweinyddiaeth yr SPF. Bydd y gyllideb yma'n parhau i fod yn ddigonol; er bod y cyfnod yn hirach, mae sylwedd y gwaith am barhau'r un peth.

4.6. Yn yr un modd, yn sirol bydd angen cynnal ein trefniadau i oruchwylio'r SPF yng Ngwynedd.

4.7. Sefydlwyd Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd gan Gabinet y Cyngor ar 24 Ionawr 2023 i ymgymryd â'r gwaith; gyda'r aelodaeth yn cynnwys Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol.

4.8. Ar gyfer cyfnod hyd at 01 Ionawr 2027 dymunir diwygio aelodaeth y Panel i adlewyrchu'r gofynion, i gynnwys yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Aelod Cabinet Cyllid a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol ynghyd â'r Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol (neu eu cynrychiolwyr).

<u>Cronfa Twf Lleol y DG yng Nghymru (2026/27)</u>

*Corff arweiniol*

4.9. Mae'n ddymuniad gan Lywodraeth Cymru fod awdurdodau lleol arweiniol yn parhau yn eu rôl ar gyfer flwyddyn gyntaf y Gronfa Twf Lleol er mwyn caniatáu amser i baratoi ar gyfer trefn newydd drwy law'r cydbwyllgorau corfforedig (Uchelgais Gogledd Cymru) o 2027/28 ymlaen. Cyngor Gwynedd yw awdurdod lleol arweiniol presennol ar gyfer yr SPF.

*Egwyddorion gweithredu*

4.10. Mae siroedd y gogledd wedi datgan dymuniad i barhau - cyn belled ag y bo modd - gyda'r trefniadau presennol, a'r pwyslais ar benderfyniadau a pherchnogaeth leol gan adlewyrchu'r egwyddorion:

- mai mater i ardaloedd lleol yw penderfynu ar ddefnydd cyllid; ac,
- fod angen i ardaloedd lleol ddewis bod yn rhan o gynlluniau sy'n dymuno gweithredu ar draws siroedd.

*Dyraniadau lleol*

4.11. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn darparu dyraniad o'r Gronfa Twf Lleol ar gyfer siroedd unigol dymunir parhau gyda dosbarthiad ar yr un sail a'r SPF (gan adlewyrchu'r dull mae'r Llywodraeth wedi ei ddefnyddio i ddethol arian 2026/27 ymhlith rhanbarthau Cymru), sef:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Conwy | 19.4% | Gwynedd | 19.3% |
| Sir Ddinbych | 20.3% | Ynys Môn | 12.7% |
| Sir y Fflint | 10.4% | Wrecsam | 17.9% |

*Llywodraethiant rhanbarthol*

4.12. Bydd gofyn sefydlu cytundeb cyfreithiol pellach rhwng Cyngor Gwynedd a siroedd y Gogledd i warchod buddiannau'r Cyngor. Bydd y cytundeb yn gwarantu fod siroedd unigol yn atebol am eu penderfyniadau a'r atebolrwydd ariannol fydd yn deillio o hynny. Bydd y cytundeb yn seiliedig ar y ddogfen bresennol wedi ei addasu i adlewyrchu gofynion Llywodraeth Cymru.

4.13. Yn gyfochrog, mae angen sicrhau fod strwythurau llywodraethu priodol - a thimau /cyllidebau addas - yn cael eu cynnal yn rhanbarthol ac ymhob sir i reoli a monitro'r rhaglen (caniateir defnydd cyfran o'r dyraniad ariannol i sicrhau adnoddau priodol i gyflawni'r gwaith).

4.14. Yn rhanbarthol, bwriedir parhau gyda Bwrdd Cydlynu o brif swyddogion y chwe sir (ynghyd â chynrychiolaeth o Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru) i oruchwylio cyflawni'r Gronfa Twf Lleol yn rhanbarth y gogledd. Bydd y Bwrdd yn parhau i gael ei gefnogi gan Grŵp Cydlynu o'r rheolwyr ymhob sir sy'n gyfrifol am y Gronfa o ddydd i ddydd.

*Llywodraethant lleol*

4.15. Gan adlewyrchu'r dymuniad am barhad a chysondeb gyda'r drefn bresennol, bydd penderfyniadau ar ddefnydd y Gronfa Twf Lleol yn aros gyda Chyngor Gwynedd ar gyfer 2026/27 a hynny drwy law penderfyniad Cabinet. Bydd hefyd angen sicrhau parhad mewnbwn ystod o randdeiliad a phartneriaid wrth fonitro gweithredu'r Gronfa Twf Lleol a blaenoriaethu cynigion.

4.16. Bydd Fforwm Economi Gwynedd (fydd yn esblygiad o'r grŵp ymgynghorol sefydlwyd i berwyl yr SPF) yn gyfrwng i sicrhau perchnogaeth a mewnbwn ein partneriaid.

4.17. Yn unol â'r bwriad, strategaeth datblygu economaidd newydd Gwynedd fydd yn sail ar gyfer adnabod a blaenoriaethu prosiectau y Gronfa Twf Lleol.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. O fod wedi ei ymestyn bydd cyfnod cyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn parhau hyd at 30 Medi 2026 gyda'r gwaith adrodd a gweinyddu i ddod i ben erbyn 01 Ionawr 2027.

5.2. Rhagwelir y bydd cynnig Gogledd Cymru ar gyfer arian 2026/27 o'r Gronfa Twf Lleol yn dod i law yn ystod mis Mawrth 2026 gyda chyfnod gweithredol yn cychwyn o 01 Ebrill 2026.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Ymgynghori

6.1. Mae cynigon Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Twf Lleol wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

6.2. Mae dymuniadau siroedd y gogledd o ran ymestyn cyfnod y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r dull o weithredu'r Gronfa Twf Lleol wedi bod yn destun ymgynghori ymhlith swyddogion o'r chwech awdurdod lleol.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

6.3. Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid:

*"Cadarnhaf fod trefn llywodraethu a gweithredu cadarn mewn lle er mwyn gwarchod buddiannau'r Cyngor, gan gynnwys rôl y Cyngor fel awdurdod arweiniol ar gyfer rhanbarth gogledd Cymru. Yn sgil yr estyniad ar gyfer y flwyddyn bontio 2026/27, mae'n briodol parhau gyda'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli. Cadarnhaf gywirdeb y dyraniadau a nodir yn yr adroddiad, a byddwn yn cyd-weithio'n agos gyda'r swyddogion o'r Adran Economi a Chymuned gan sicrhau gweithrediad y cynlluniau o fewn y dyraniad. Rwyf felly yn cefnogi'r penderfyniadau a geisir."*

6.4. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*"Mae natur trosiannol y sefyllfa gyfredol yn cefnogi parhau ar sail yr hyn sydd eisoes mewn lle yn y rhanbarth. Yn y cyd destun yma mae'r adroddiad yn cynnig ffordd ymlaen pragmataidd gan dderbyn y bydd angen ceisio cydgordio a pharatoi ar gyfer trosi i gorff atebol newydd. Gyda hyn mewn golwg byddai fudd fel rhan o'r gwaith yma adnabod cyfleon i baratoi a hwyluso trosglwyddo y rôl corff atebo er gwarchod buddiannau y Cyngor."*

.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 10 Mawrth 2026 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes<br>Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dylan Griffiths<br>Rheolwr, Gwasanaeth Datblygu'r Economi<br><br>Nia Bowden<br>Rheolwr Rhaglen Cefnogi Busnes, Gwasanaeth Datblygu'r Economi |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679611<br><br>01286 679774 |
| **Teitl yr Eitem:** | **Mabwysiadu strategaeth datblygu economaidd newydd i Wynedd** |

### 1. PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyo cynnwys 'Economi sy'n Gweithio i Bawb: Gwynedd 2035' fel sydd wedi ei gyflwyno yn Atodiad 1

1.2. Cytuno i argymell mabwysiadau 'Economi sy'n Gweithio i Bawb: Gwynedd 2035' i gyfarfod llawn Cyngor Gwynedd.

1.3. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned gwblhau unrhyw fan addasiadau sy'n angenrheidiol a chytuno ar ddyluniad y Strategaeth mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet.

1.4. Cytuno i sefydlu 'Fforwm Economi Gwynedd' ar y sail amlinellir yn adrannau 4.19 i 4.24 yr adroddiad.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae Adran 4 Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn nodi fod strategaeth datblygu economaidd yn rhan o'r Fframwaith Polisi ac mae'n ofynnol i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo drwy law argymhelliad gan y Cabinet

## 3. CYFLWYNIAD

3.1. Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau sy'n cyfeirio at ddatblygu'r economi:

- O fewn Cynllun y Cyngor 'Gwynedd Lewyrchus' un o'r saith blaenoriaeth';
- mae Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri yn cynnig arweiniad ar gyfer rhan o'r economi lleol; ac,
- mae Cynlluniau Adfywio Lleol Ardal Ni yn adnabod blaenoriaethau lleol ar gyfer yr economi.

3.2. Y cynlluniau yma - ynghyd â dogfennau rhanbarthol, megis Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru - sydd wedi gosod y sail ar gyfer gwaith y Cyngor yn y maes datblygu'r economi yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

3.3. Drwy law Cynllun y Cyngor, dyma'r Cabinet yn adnabod fod peidio cael un cynllun ar gyfer economi'r sir yn fwlch a dyma ofyn i'r Adran Economi a Chymuned lunio strategaeth datblygu economaidd newydd i Wynedd.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Y gofyn am strategaeth datblygu economaidd

4.1. Mae ariannu ar gyfer y maes datblygu'r economi yn gynyddol ansicr ac yn ddibynnol ar ariannu am gyfnodau byr; er enghraifft, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn dod i ben yn ystod y flwyddyn ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol ARFOR a dim olynydd i'r Gronfa Ffyniant Bro (LUF) sydd ariannu'r rhaglen Llewyrch o'r Llechi.

4.2. Mae pwyslais cynyddol gan Lywodraeth Cymru ar gydweithio rhanbarthol, yn enwedig yng nghyd-destun Uchelgais Gogledd Cymru a'r cyfrifoldeb lles economaidd sydd gan y Cydbwyllgor Corfforedig.

4.3. Mae buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG ym Mhorthladd Rhydd Ynys Môn a Pharth Buddsoddi Fflint a Wrecsam, ond dim cynlluniau cyffelyb ar gyfer Gwynedd

4.4. Drwy lunio a mabwysiadau strategaeth bydd modd crynhoi'r achos ar gyfer datblygu economi Gwynedd, pennu blaenoriaethu cytûn ar gyfer ymateb i'n hanghenion a sefydlu canllaw cyson ar gyfer dewis a dethol cynlluniau a blaenoriaethu gwariant yn y maes.

4.5. O fod wedi mabwysiadu strategaeth allwn adnabod a datblygu gweithgareddau priodol a mesur yn well effaith ein hymdrechion.

Yr heriau sydd angen sylw

4.6. Mae'r prif faterion sydd angen ymateb iddynt yn cynnwys:

- Llai o bobl oed gwaith yn gweithio
- Llai o bobl oed gwaith
- Cyflogau isel
- Gormod o waith rhan-amser a tymhorol

- Pobl mewn tlodi er eu bod yn gweithio
- Cynhyrchiant isel
- Diffyg amrywiaeth diwydiannau
- Dim digon o fentrau newydd yn cychwyn
- Mentrau ddim yn tyfu

Camau i ddatblygu'r Strategaeth

4.7. Mae testun terfynol strategaeth datblygu economaidd newydd i Wynedd; 'Economi sy'n Gweithio i Bawb: Gwynedd 2035', wedi ei amgáu yn Atodiad 1 yr adroddiad.

4.8. Mae cynnwys y Strategaeth yn deillio o broses datblygu estynedig ar y cyd gydag ystod eang o rhanddeiliaid gan gynnwys partneriaid allweddol y Cyngor o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector.

4.9. Dyma'r prif gamau yn natblygiad y Strategaeth yn cynnwys:

- ymchwil i gyfansoddiad a pherfformiad cymharol economi Gwynedd;
- adolygiad o arfer da yng Nghymru, ac ardaloedd cyffelyb ledled Prydain;
- ceisio barn mentrau o bob math ac o bob rhan o Wynedd drwy law arolwg;
- trafodaethau unigol - ac ar y cyd - gyda rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector; ac,
- derbyn mewnbwn aelodau etholedig y Cyngor drwy law'r Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi.

4.10. Ar sail y wybodaeth a gasglwyd lluniwyd drafft o'r Strategaeth. Derbyniwyd adborth adeiladol a chadarnhaol ar y drafft gan y Pwyllgor Craffu a rhanddeiliaid y Cyngor ar draws y tair sector cyn cadarnhau'r cynnwys.

4.11. O dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet bydd y Strategaeth yn cael ei osod a'i ddylunio cyn mynd gerbron y Cyngor Llawn.

Ffurf y Strategaeth

4.12. Mae ffurf y Strategaeth yn dilyn trefn resymegol i dywys y darllenwr o'r achos dros weithredu, i'r blaenoriaethau ac yna ymlaen i sut bwriedir gweithredu a mesur llwyddiant.

4.13. Mae adrannau 2, 3 a 4 y Strategaeth yn gosod allan y sefyllfa bresennol, yn cyfleu pam fod angen gweithredu ac yn crynhoi be sydd angen newid.

4.14. Yn adran 5 mae sail y Strategaeth, yr achos dros weithredu ar y cyd ac aliniad ein blaenoriaethau o fewn cyd-destun lleol, rhanbarthol a cenedlaethol yn cael ei amlinellu.

4.15. Yn ei dro, mae blaenoriaethau'r Strategaeth yn cael eu cyflwyno (adran 6) cyn yr adran olaf sydd yn nodi sut bwriedir rhoi'r Strategaeth ar waith a'i gydlynu, ynghyd â sut fydd cynnydd yn cael ei fesur.

Blaenoriaethau'r Strategaeth

4.16. Gweledigaeth ‘Economi sy’n Gweithio i Bawb: Gwynedd 2035’ yw:

**‘Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy’n cryfhau’r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb’**

4.17. Mae’n weledigaeth sy’n rhoi pobl, cymunedau a mentrau Gwynedd yn ganolog ac er mwyn ei weithredu, mae tair thema wedi eu hadnabod: **Mentergarwch**, **Pobl** a **Lle**.

4.18. Ar gyfer pob un o’r tair thema, mae dwy flaenoriaeth strategol:

*Mentergarwch: mentrau lleol llewyrchus sy’n rhagori*

1. Uchafu gwerth ein heconomi bresennol:
   Gwireddu potensial ein mentrau a'n sectorau presennol drwy gynyddu eu gwerth, cryfhau eu gwydnwch a'u cefnogi i leihau allyriadau
2. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd newydd:
   Cefnogi a gwneud y mwyaf o ddiwydiannau a gweithgareddau newydd â photensial sylweddol gan sicrhau fod y budd yn aros yn lleol

*Pobl: gweithlu medrus a chynhwysol*

3. Sicrhau gweithlu medrus:
   Meithrin, denu a chadw talent gan ymateb i anghenion sgiliau hirdymor y sir
4. Cefnogi ein pobl:
   Cefnogi pobl Gwynedd i wireddu eu llawn botensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleoedd yn lleol

*Lle: yr amodau gorau i ffynnu*

5. Y cysylltedd a’r isadeiledd gorau posibl:
   Gweithredu am well cysylltedd ac isadeiledd busnes i hybu’r economi
6. Lle gwych i fyw, gweithio a mentro:
   Hyrwyddo Gwynedd fel lle gwych i fyw, gweithio a mentro, gan ddathlu’r iaith Gymraeg a’n hunaniaeth arbennig

<u>Rhoi’r Strategaeth ar waith</u>

4.19. Thema gyson drwy gydol y Strategaeth yw’r angen am berchnogaeth eang ac ymdrech ar draws sefydliadau a sectorau er mwyn ei gwireddu.

4.20. Mae’r panel ymgynghorol sefydlwyd i gefnogi gwireddu’r SPF yng Ngwynedd wedi amlygu’r gwerth sy’n deillio o ddod a sefydliadau o’r sectorau cyhoeddus, preifat a’r drydedd sector ynghyd.

4.21. Byddwn felly yn sefydlu ‘Fforwm Economi Gwynedd’ er mwyn gweithredu’r Strategaeth.

4.22. Bydd aelodaeth y Fforwm yn cynnwys y prif sefydliadau sy’n cyfrannu i ffyniant lleol, a’r cyrff sy’n gweithio i ddatblygu economi sy’n buddio ein cymunedau. Bydd y Fforwm yn dod â phartneriaid lleol ynghyd o’r sector gyhoeddus, sector breifat a’r drydedd sector. Bydd sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol hefyd yn rhan o’r Fforwm.

4.23. Byddwn yn sicrhau llais i rannau gwahanol o Wynedd er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'r amrywiaethau ar draws y sir.

4.24. Bydd y Fforwm yn cwrdd o leiaf dair gwaith y flwyddyn, er mwyn:

- Llunio a chydlynu Cynllun Cyflawni blynyddol ar gyfer y Strategaeth.
- Monitro gweithgareddau a'u dangosyddion unigol a chyfansawdd.
- Cynnal gorolwg o'r cynnydd tuag at gyflawni'r Strategaeth.
- Adolygu a diweddaru'r Strategaeth yn ôl yr angen.
- Cynnal gorolwg o'r maes a datblygiadau ehangach sy'n berthnasol i economi Gwynedd gan lobio o blaid ein hanghenion.
- Hyrwyddo a hwyluso cydweithio rhwng sefydliadau gyda rôl yn datblygu economi'r sir a phartneriaethau / fforymau eraill.

4.25. Mae'r Strategaeth yn sefydlu'r nod ac yn adnabod dull o fynd i'r afael â'r heriau economaidd hirdymor sydd wedi eu hadnabod ar gyfer Gwynedd.

4.26. Bydd Cynllun Cyflawni yn cael ei lunio yn flynyddol dan arweiniad Fforwm Economi Gwynedd i weithredu'r Strategaeth. Bydd y Cynllun yn cynnwys gweithgaredd sydd eisoes ar waith, a phrosiectau sydd ar y gweill gan nodi eu haliniad gyda'r Strategaeth a'r ardaloedd fydd yn elwa. Bydd Fframwaith Monitro a Gwerthuso'r Strategaeth yna'n fodd o fesur llwyddiant ac effaith y gweithgareddau.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. Gyda sêl bendith y Cabinet bwriedir cyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2026, i'w fabwysiadu.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Ymgynghori

6.1. Mae'r Strategaeth wedi bod yn destun cyrchu barn eang i lunio'r Strategaeth ac ymgynghori sylweddol drwy gydol cyfnod ei lunio, ymhlith y rhanddeiliaid sydd wedi cynnig mewnbwn mae:

- Llywodraeth Cymru
- Uchelgais Gogledd Cymru
- Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru
- Busnes Cymru
- Prifysgol Bangor.
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cymdeithas tai Adra
- Ffederasiwn y Busnesau Bychain (FSB) Cymru
- Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035
- Yr Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFW) ac Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol Gwynedd

- Mantell Gwynedd

6.2. Mae Adran 4 yr Asesiad Effaith (Atodiad 2) yn cynnig crynodeb o ystod o'r sylwadau sydd wedi eu derbyn a'u hymgorffori o fewn y Strategaeth.

6.3. Yn ogystal â phartneriaid allanol mae'r Strategaeth wedi ei drafod gydag ystod o swyddogion o fewn y Cyngor gan gynnwys:

- Yr Uned Iaith a Chydraddoldeb (Gwasanaethau Corfforaethol)
- Yr Uned Gaffael (Gwasanaethau Corfforaethol)
- Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy (Economi a Chymuned)
- Strategaeth Llechen Lân (Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol)

6.4. Mae ymdrech hefyd wedi bod i ennyn barn Aelodau Etholedig y Cyngor drwy law Aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Addysg a'r Economi.

Asesiad Effaith

6.5. Mae Asesiad Effaith y Strategaeth Economaidd wedi'i atodi fel Atodiad 2. Mae'n ystyried effaith y Strategaeth ar drigolion Gwynedd, gan:

- adnabod prif nodweddion y berthynas rhwng y Gymraeg a'r economi yng Ngwynedd, ac yn dangos sut mae'r Strategaeth yn ymateb i'r nodweddion hyn er mwyn cryfhau'r Gymraeg.
- asesu effaith y Strategaeth ar lesiant mewn modd cyfannol, gan gynnwys agweddau economaidd a chymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol
- egluro sut mae'r Strategaeth yn bodloni gofynion a phwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys yr Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy (h.y., y Pum Ffordd o Weithio) a'r Saith Nod Llesiant

6.6. Mae llunio'r Asesiad wedi bod yn broses iterus gyda swyddogion cydraddoldeb a iaith y Cyngor i hysbysu cynnwys y Strategaeth.

6.7. Yn ogystal, cynhaliwyd asesiad unswydd o aliniad y Strategaeth i ofynion a dymuniadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi ei amgáu yn Atodiad 3. Mae canlyniad yr asesiad wedi arwain at lunio adran 3 y Strategaeth (yr achos dros weithredu).

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

6.8. Sylwadau'r Prif Swyddog Cyllid:

*'Mae'r Strategaeth ddrafft sy'n cael ei gyflwyno yma yn cynnwys nifer o feysydd gweithgaredd, a pwysleisir yn yr adroddiad a'r Strategaeth fod angen am berchnogaeth eang ac ymdrech ar draws sefydliadau a sectorau er mwyn ei gwireddu. Yn y cyd-destun hwn nodir nad yw'r Strategaeth yn amlygu'r costau refeniw a chyfalaf fydd Cyngor Gwynedd yn eu wynebu er mwyn ei wireddu. Tra bydd llawer o'r costau hyn yn cael eu hariannu o gyllidebau cyfredol, os bydd angen gwneud ceisiadau am gyllideb ychwanegol rwyf yn disgwyl y bydd hynny yn cael eu gwneud trwy drefniadau arferol y Cyngor.'*

6.9. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*"Mae'r Strategaeth yn rhan o Fframwaith Polisi y Cyngor sydd yn nwylo y Cyngor Llawn i'w fabwysiadu ac addasu. Fodd bynnag yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 a adlewyrchir yn y Cyfansoddiad cyflwynir y mater i benderfyniad y Cyngor ar argymhelliad y Cabinet. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir."*

**Atodiad 1**

# Economi sy'n Gweithio i Bawb
## GWYNEDD 2035

Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Gwynedd yn sir unigryw. Yn ei chymunedau clos, ei harddwch naturiol ac ym mywiogrwydd y Gymraeg yn y sir, mae ganddi hunaniaeth ac apêl unigryw sy'n rhoi iddi ei lle ymhlith y lleoedd gorau i fyw a gweithio yng Nghymru a thu hwnt.

Mae yma hefyd economi fodern ac arloesol gyda photensial sylweddol yn y mentrau sydd yma eisoes a chyfleoedd mewn diwydiannau a gweithgaredd newydd am ddyfodol llewyrchus i bobl Gwynedd.

Ond mae llawer o'r potensial hwn eto i'w wireddu. Yn ôl sawl dangosydd, mae bwlch sylweddol rhwng economi Gwynedd a gweddill Cymru a'r Deyrnas Gyfunol (DG). Yn rhannol o'r herwydd, y teimlad yn aml yw nad oes yma y cyfleoedd, y math o waith priodol, na'r cyflogau sydd eu hangen ar gyfer byw bywydau cyflawn.

Mae'r Strategaeth hon yn ymateb i'r bwlch hwn a bydd yn siapio ein gwaith hyd at 2035. Mae'n asesiad gonest o'r economi heddiw ond yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Trwy adnabod ein cryfderau a'n gwendidau, y cyfleoedd sydd yma yn y sir, a'r meysydd hynny sydd angen eu gwella, pwrpas y Strategaeth yw gwireddu potensial ein pobl a'n mentrau, a chreu buddion a chyfleoedd newydd. Ein gweledigaeth yw creu:

**"Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb."**

Nid twf er ei fwyn ei hun yw'r bwriad. Pwrpas y Strategaeth yw cryfhau'r economi mewn ffordd gynhwysol a chynaliadwy fel bod pawb yng Ngwynedd - yn unigolion, yn fusnesau ac yn fentrau cymunedol - yn cael budd gwirioneddol. Wrth ei hanfod, mae'n weledigaeth sy'n canolbwyntio ar y gwerthoedd hynny sy'n golygu fwyaf i bobl Gwynedd:

- **Cael byw ag urddas**: Fe ddylai pawb gael digon i gynnal eu hunain a'u teuluoedd, i fyw heb eisiau, yn llawn ac yn hapus.
- **Cyfleoedd:** Fe ddylai pob unigolyn allu cyrraedd y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwireddu eu llawn botensial, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.
- **Tegwch:** Ni ddylai unrhyw ardal, berson neu gymuned fod wedi'u gadael ar ôl.
- **Gwreiddiau lleol:** Mentrau Gwynedd yw hanfod economi Gwynedd, a trwyddynt y mae modd cadw'r cyfoeth rydym yn ei greu yn lleol.
- **Cynaliadwyedd:** Rhaid meithrin a gwarchod y Gymraeg a'r amgylchedd sydd, fel ei gilydd, yn gwneud Gwynedd yn le mor arbennig i fyw, gweithio a mentro.

Wrth i'r tirlun ariannu newid, bydd angen penderfynu lle a sut i dargedu adnoddau i sicrhau'r budd mwyaf yn economaidd ac yn gymdeithasol. Gall hyn gynnwys targedu adnoddau yn ddaearyddol neu at grwpiau neu sectorau penodol. Mae'r Strategaeth hon yn rhoi'r strwythur i ni asesu a

blaenoriaethu ymyraethau, er mwyn cydbwyso rhwng twf ac ansawdd bywyd.

Nid Strategaeth y Cyngor yn unig mo hon. Bydd angen cydweithio â phartneriaid ar bob lefel yn lleol, sirol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf posibl. Byddwn yn adeiladu ar brofiadau cadarnhaol o gydweithio drwy sefydlu **Fforwm Economi Gwynedd**. Bydd y Fforwm yn dod â sefydliadau a phartneriaid ynghyd i lunio a chydlynu cynllun cyflawni blynyddol fydd yn cynnwys gweithgaredd ar waith a phrosiectau ar y gweill. Fe fydd hyn yn gymorth i adnabod bylchau daearyddol a thematig o ran gweithredu'r Strategaeth.

Er mwyn adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Strategaeth, mae Fframwaith monitro a gwerthuso wedi'i ddatblygu. Mae'r dangosyddion o fewn y fframwaith yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Strategaeth a'r newid sydd ei angen. Bydd yn gymorth i'r Fforwm wrth werthuso ac adolygu cynnydd.


Dyma weledigaeth sy'n rhoi pobl, cymunedau a mentrau Gwynedd yn ganolog. Er mwyn ei gweithredu, mae gennym dair thema: *Mentergarwch, Pobl a Lle*.

Mae **mentrau** lleol o bob maint – masnachol, cymunedol a gwirfoddol - yn allweddol i greu cyfleoedd i **bobl** leol gynnal eu hunain a gwireddu eu potensial.

Mae **pobl** fedrus yn allweddol i **fentrau** os ydynt am lwyddo.

Mae **pobl** a **mentrau** angen ei gilydd os am ffynnu a chyfrannu'n gadarnhaol i'w cymunedau.

Mae **lle** effeithiol a deniadol sy'n eu helpu i lwyddo yn allweddol i **fentrau** a **phobl**.



Ar gyfer pob un o'r tair thema, rydym wedi adnabod dwy flaenoriaeth strategol:

EIN GWELEDIGAETH:
Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.

- MENTERGARWCH – mentrau lleol llewyrchus sy'n rhagori
  - **BLAENORIAETH UN**
    **Uchafu gwerth ein heconomi bresennol**

    Gwireddu potensial ein mentrau a'n sectorau presennol drwy gynyddu eu gwerth, cryfhau eu gwydnwch a'u cefnogi i leihau allyriadau
  - **BLAENORIAETH DAU**
    **Gwneud y mwyaf o gyfleoedd newydd**

    Cefnogi a gwneud y mwyaf o ddiwydiannau a gweithgareddau newydd â photensial sylweddol gan sicrhau fod y budd yn aros yn lleol
- POBL – gweithlu medrus a chynhwysol
  - **BLAENORIAETH TRI**
    **Sicrhau gweithlu medrus**

    Meithrin, denu a chadw talent gan ymateb i anghenion sgiliau hir-dymor y sir
  - **BLAENORIAETH PEDWAR**
    **Cefnogi ein pobl**

    Cefnogi pobl Gwynedd i wireddu eu llawn botensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleoedd yn lleol
- LLE – yr amodau gorau i ffynnu
  - **BLAENORIAETH PUMP**
    **Y cysylltedd a'r isadeiledd gorau posibl**

    Gweithredu am well cysylltedd ac isadeiledd busnes i hybu'r economi
  - **BLAENORIAETH CHWECH**
    **Lle gwych i fyw, gweithio a mentro**

    Hyrwyddo Gwynedd fel lle gwych i fyw, gweithio a mentro, gan ddathlu'r iaith Gymraeg a'n hunaniaeth arbennig

# EIN STRATEGAETH I DDATBLYGU ECONOMI GWYNEDD HYD AT 2035

# I. RHAGAIR

Yma yng Ngwynedd, mae gennym hanes economaidd cryf y gallem ymfalchïo ynddo. O'n cymunedau chwarelyddol byd-enwog i'n prifysgol a'n pwerdai - mae pob cwr o Wynedd yn dyst i ddyfeisgarwch a blaengarwch sylweddol.

Ond nid ydym am fodloni ar y gorffennol. Heddiw, mae digon o botensial yma yng Ngwynedd – yn ein trigolion, ein cymunedau a'n entrepreneuriaid; ond nid yw'r potensial hwnnw yn cael ei wireddu bob tro. Mae bwlch sylweddol o hyd rhwng perfformiad yr economi yng Ngwynedd a gweddill Cymru a'r Deyrnas Gyfunol (DG).

Braint felly yw cael cyflwyno'r Strategaeth Economaidd hon sy'n gosod yn glir ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau hirdymor ar gyfer economi Gwynedd:

**"Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb."**

Nid twf er ei fwyn ei hun yw ein bwriad. Rhaid creu economi sy'n dod â budd i bawb drwy greu cyflogaeth newydd, lleihau tlodi a gwella ansawdd bywyd ledled y sir. Dyma economi fydd yn rhoi i'n pobl y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i aros neu ddychwelyd i'w cymunedau, a ffynnu. A dyma economi fydd yn cryfhau ac yn gwarchod y Gymraeg a'r amgylchedd. Wrth galon hyn, bydd mentrau Gwynedd yn gwireddu eu llawn botensial, yn wydn ac yn tyfu, a bydd y cyfoeth rydyn ni'n ei greu yn aros yn lleol.

Mae'n weledigaeth sy'n ymateb i'r alwad am ffyniant a fynegwyd gan drigolion Gwynedd yn yr ymgynghoriad Ardal Ni. Clywsom alwadau am swyddi cyflog uwch llawn-amser, am economi fwy sefydlog ac amrywiol, am ganol trefi bywiog, ac am gyfleoedd i'n pobl ifanc ffynnu yng Ngwynedd.

Rydym eisiau economi sy'n rhoi cyfle i bawb fyw bywydau cyflawn a gwireddu eu llawn botensial, ac economi sy'n cryfhau'r cyfoeth naturiol a diwylliannol sy'n gwneud ein sir mor unigryw.

Ffyniant sydd nid yn unig yn gynaliadwy felly, ond sy'n **gynhwysol** a **theg** ac yn **adfer** cyfoeth cymunedol, naturiol a diwylliannol ein sir.

Gyda newidiadau economaidd sylweddol ar droed, mae cyfle cyffrous o'n blaenau i wneud Gwynedd yn gyrchfan rhagoriaeth mewn diwydiannau newydd – yn y diwydiannau creadigol a digidol, gwasanaethau proffesiynol, ynni glân a gweithgaredd carbon isel, y gwyddorau bywyd, gweithgynhyrchu uwch ac awyrofod. Yn yr un modd, rhaid ein bod yn gefn i'r diwydiannau hynny sydd eisoes yng Ngwynedd ac yn hanfodol i'n cymunedau, mentrau a'n trigolion – gyda'r ail arwynebedd mwyaf yng Nghymru o ran tir amaeth, er enghraifft, rhaid meithrin ac ychwanegu gwerth at ein sectorau traddodiadol,

fel amaeth a thwristiaeth,  fel sylfaen gadarn a rhan lawn o economi fodern ac arloesol.

Yn sgil hyn, mae angen llais clir a chryf i lywio datblygu sy'n effeithio arnom a chadw buddion yn lleol. I'r pwrpas hwn y lluniwyd y Strategaeth Economaidd hon. Mae'n cydnabod y bydd angen cydweithio â phartneriaid ar bob lefel a dylanwadu arnynt os am fanteisio ar gyfleoedd a goresgyn heriau, ac wrth i'r tirlun ariannu a pholisi economaidd newid, bydd gwerth a phwysigrwydd cydweithio yn cynyddu.

Edrychwn ymlaen at weld y Strategaeth Economaidd hon yn cyflawni'i gweledigaeth.

**Cyng. R. Medwyn Hughes**
**Aelod Cabinet Economi a Chymuned**
**Cyngor Gwynedd**

## II. PROFFIL ECONOMI GWYNEDD


Gwynedd yw'r ail sir fwyaf yng Nghymru o ran maint. Wedi'i lleoli yng ngogledd-orllewin Cymru, mae Gwynedd yn ymestyn o Fae Ceredigion yn y gorllewin hyd at lannau Afon Menai yn y gogledd, gyda rhan sylweddol o'r sir o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ddaearyddiaeth hon yn siapio dosbarthiad gofodol y boblogaeth gyda'r mwyafrif yn byw ar hyd yr arfordir a'r tir isel, yn enwedig yng ngogledd y sir, a'r gweddill mewn pentrefi, trefi llai neu yng nghefn gwlad.

Mae Gwynedd yn sir arbennig gyda chyfoeth diwylliannol ac amgylcheddol eithriadol. Gwynedd yw'r sir â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac mae 92% o ardaloedd lleol y sir * uwchlaw trothwy dwysedd Cymraeg uchel y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Mae'r sir hefyd yn amgylcheddol gyfoethog ac yn cynnwys mynyddoedd Eryri, Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, a Pharth Biosffer Bro Dyfi. Mae yma hefyd dreftadaeth fyd-enwog ac unigryw a adlewyrchir yn y ddau Safle Treftadaeth y Byd UNESCO - Cestyll Edward I a Thirwedd Llechi Gwynedd.

Poblogaeth
117,000

Arwynebedd
2,535km$^2$

Dwysedd poblogaeth
46 person fesul km$^2$




** Mae'r ardaloedd wedi eu diffinio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) – ardaloedd ystadegol safonol sy'n cael eu defnyddio i gasglu a chyhoeddi data ar lefel leol fach, fel arfer yn cynnwys tua 1,500 o bobl.*

Y FARCHNAD LAFUR

- Mae 72.1% o boblogaeth Gwynedd mewn cyflogaeth, sydd yn is na Chymru (73.4%) a'r Deyrnas Gyfunol (DG) (75.4%).[i]
- Mae cyfradd y gweithlu sy'n hunangyflogedig dros 50% yn uwch yng Ngwynedd nag yng Nghymru, a 26% yn uwch na'r DG.[ii]
- Mae gweithwyr Gwynedd yn ennill rhai o'r cyflogau isaf yn y DG: £669.20 yr wythnos o'i gymharu â £719.30 yng Nghymru, a £766.60 yn y DG.[iii]

CYNHYRCHIANT

- O ran cynhyrchiant, mae gwerth ychwanegol gros (GVA) fesul person yng Ngwynedd yn gymharol â'r gogledd a Chymru gyfan, ond yn 33% yn llai na'r DG.[iv]
- Wrth ystyried GVA ar sail pob swydd sy'n cael ei lenwi, mae Gwynedd yn perfformio ar lefel 35% yn llai na'r DG, ac 20% yn llai na gogledd Cymru.[v]
- Mae ffigyrau GVA fesul yr awr a weithir yn dangos nid yn unig fod Gwynedd yn dangos y ffigwr ail isaf dros ogledd Gymru, ond ei fod hefyd wedi profi'r twf lleiaf yn y rhanbarth rhwng 2004 a 2023. [vi]

SGILIAU

- Mae llai o bobl oedran gwaith heb unrhyw gymwysterau yng Ngwynedd (4%) na gogledd Cymru (8.5%) a Chymru (7.9%).[vii]
- Mae gan pobl o oedran gwaith yng Ngwynedd gymwysterau uwch na rhanbarth gogledd Cymru a Chymru gyda 70.6% o'r boblogaeth yn meddu ar gymhwyster uwch na Lefel A.[viii]
- Mae mwy o bobl oedran gwaith sy'n anweithgar eisiau swydd yng Ngwynedd (32.7%) nag yng Nghymru (19.3%) na'r DG (20.5%).[ix]

MENTRAU'R SIR

- Roedd dros hanner y busnesau a sefydlwyd yng Ngwynedd yn 2019 yn dal i fasnachu yn 2024 – y gyfradd oroesi pum mlynedd uchaf yng Nghymru. Roedd hyn 45% yn uwch na chyfradd Cymru gyfan, a 44% yn fwy na chyfradd y DG. Mae busnesau Gwynedd felly yn fwy tebygol o oroesi yn y tymor canolig.[x]
- Mae 93.3% o fusnesau cynhenid Gwynedd yn cyflogi llai na 10 o bobl, sy'n gymharol â gweddill Cymru a'r DG.[xi]
- Er mai dim ond 225 o fentrau mawr (mentrau sy'n cyflogi dros 250 o bobl) sy'n bodoli yn y sir, mae'r ganran yma (1.7%) yn is nag yng ngogledd Cymru a Chymru gyfan.[xii]
- Mae bron i 13,000 o mentrau cynhenid yng Ngwynedd[xiii], wedi'u gwasgaru dros nifer o sectorau, fel a ganlyn: (*gwybodaeth i'w gynnwys fel graff yn y ddogfen wedi ei dylunio'n derfynol)*

SECTORAU

- Mae gan Wynedd y ganran uchaf yn y gogledd o fentrau lletygarwch (14%).[xiv]
- Mae gan y sir hefyd y ganran uchaf o fentrau amaethyddol (23%, sy'n gyfartal â Môn).[xv]
- Ar y pegwn arall, dim ond 5% o fentrau gweithgynhyrchu sydd gan y tair sir (Gwynedd, Conwy a Môn) yng ngorllewin y rhanbarth.[xvi]

---

[i] Data Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 25 Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn

[ii] Data Nomis ar gyflogaeth a diweithdra ar gyfer y cyfnod Hydref 2024 – Medi 2025 i'r boblogaeth o oedran gwaith (18-64) yn dangos 11.9% yn hunangyflogedig yng Ngwynedd, 7.9% yn Nghymru a 9.5% yn y DG Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics

[iii] Data Nomis o gyflog wythnosol a mesul awr yn ôl lleoliad yn dangos bod Gwynedd yn is na Chymru a'r DG Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics

[iv] Data Llywodraeth Cymru ar GVA ar gyfer 2023 yn dangos £23,848 y pen i Wynedd, £27,395 y pen i ogledd Cymru, £25,742 i Gymru a £35,661 i'r DG
Gwerth ychwanegol Crynswth yn ôl awdurdod lleol Cymru a blwyddyn | StatsCymru

[v] Data Swyddfa Ystadegau Gwladol yn mesur cynhyrchedd ar gyfer y cyfnod 2004 i 2023, yn dangos GVA fesul swydd a lenwir o £43,076 yng Ngwynedd, £66,402 ar gyfer y DG, a cyfartaledd o £53,042 i Gogledd Cymru - Subregional productivity: labour productivity indices by local authority district - Office for National Statistics

[vi] Subregional productivity: labour productivity indices by local authority district - Office for National Statistics – Data Swyddfa Ystadegau Gwladol yn mesur cynhyrchedd ar gyfer y cyfnod o 2004 i 2023, yn dangos GVA fel awr a weithir o £29.3 yng Ngwynedd yn 2023, twf o 43% ers 2004.

[vii] Data Llywodraeth Cymru – Lefelau uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio (18-64) am y flwyddyn 2024 yn dangos canran heb ddim cymwysterau Lefelau uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl rhanbarth a awdurdod lleol | StatsCymru

[viii] Data Llywodraeth Cymru – Lefelau uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio (18-64) am y flwyddyn 2024 yn dangos canran wedi cymhwyso i lefel 3 (Lefel A) neu uwch Lefelau uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl rhanbarth a awdurdod lleol | StatsCymru

[ix] Data am anweithgarwch poblogaeth gan Nomis ar gyfer y cyfnod Hydref 2024 – 2025 Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics

[x] Data Swyddfa Ystadegau Gwladol yn mesur niferoedd o fusnesau sydd wedi goroesi ar ôl 5 mlynedd ers sefydlu. Mae gan Wynedd cyfradd goroesi o 55.2% ar ôl pum mlynedd, y cyfradd uchaf yn Nghymru, i gymharu a cyfradd o 38.1% i Gymru cyfan, a 38.4 i'r DG (Tabl 5.1a) Business demography, UK - Office for National Statistics

[xi] Data Llywodraeth Cymru Dadansoddiad o faint y busnesau yn ôl diwydiant (SIC2007), band maint, ardal a blwyddyn | StatsCymru ar gyfer pob diwydiant yn dangos bod 93.3% o fusnesau Gwynedd, 94% o fusnesau gogledd Cymru, 94.6% o fusnesau Cymru a 95.6% o fusnesau'r DG yn fusnesau micro (0-9 o weithwyr)

[xii] Data Llywodraeth Cymru sydd yn cyfrif nifer o fusnesau yn ôl maint a diwydiant, yn dangos mai dim ond 1.7% o fusnesau Gwynedd sydd yn cyflogi 250 neu fwy o weithwyr, i gymharu a 2.2% ar gyfer Cymru a Gogledd Cymru Dadansoddiad o faint y busnesau yn ôl diwydiant (SIC2007), band maint, ardal a blwyddyn | StatsCymru

[xiii] Dadansoddiad o faint y busnesau yn ôl diwydiant (SIC2007), band maint, ardal a blwyddyn | StatsCymru

[xiv] Data Swyddfa Ystadegau Gwladol yn mesur niferoedd o fusnesau fesul sector ym mhob sir (Tabl 1) UK business: activity, size and location - Office for National Statistics

[xv] Data Swyddfa Ystadegau Gwladol yn mesur niferoedd o fusnesau fesul sector ym mhob sir (Tabl 1) UK business: activity, size and location - Office for National Statistics

[xvi] Data Swyddfa Ystadegau Gwladol yn mesur niferoedd o fusnesau fesul sector ym mhob sir (Tabl 1) UK business: activity, size and location - Office for National Statistics

## III. YR ACHOS DROS WEITHREDU

Yn ôl sawl dangosydd, mae bwlch sylweddol rhwng yr economi yng Ngwynedd a gweddill Cymru a'r Deyrnas Gyfunol (DG). Mae hyn yn cynrychioli anghyfartaledd strwythurol dwfn ac yn rhoi pobl Gwynedd dan anfantais gymharol. Mae'n cyfyngu ar allu ein pobl i gael gwaith addas sy'n cynnig sicrwydd a chyflogau teg, a photensial yr economi leol i wella safonau byw a chyfleoedd bywyd.

Yn ôl y Mynegai Cystadleurwydd (2025), mae Gwynedd ymhlith y 10% o siroedd sy'n tanberfformio fwyaf yn economaidd ledled Cymru a Lloegr - yn y 308fed safle ar draws 330 o ardaloedd lleol, a'r wythfed isaf ymhlith siroedd Cymru.

Mae'n her ganolog sy'n cael effaith uniongyrchol ar lesiant pobl Gwynedd. Yn wir, fel y gwelir isod, mae'r bylchau mwyaf yn dangos tanberfformiad Gwynedd ym mwy nag un Dangosydd Llesiant Cenedlaethol:

BYLCHAU YN ECONOMI GWYNEDD

1. BWLCH GWEITHLU

   Cyfradd ddiweithdra isel, ond cyfradd anweithgarwch y sir (h.y. cyfran y boblogaeth 16 i 64 oed nad ydynt mewn gwaith) yn uwch na chyfartaledd gogledd Cymru a'r DG.

   (Dangosydd Llesiant 21: Cyfran y boblogaeth mewn gwaith)

2. BWLCH POBLOGAETH

   Poblogaeth yn heneiddio'n gyflymach na Chymru a'r DG, gyda chyfran uwch o bobl hŷn mewn oed ymddeol a lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc.

3. BWLCH CYFLOG

   Cyflog cyfartalog wythnosol gweithiwr llawn-amser ac incwm gwario gros aelwydydd yn gyson is yng Ngwynedd ers 2010 na chyfartaleddau Cymru a'r DG.

   (Dangosyddion Llesiant 10: Incwm Gwario Gros Aelwydydd y Pen)

4. BWLCH AMODAU GWAITH

   Cyfraddau sylweddol uwch o weithwyr yng Ngwynedd yn gyflogeion rhan-amser a thymhorol o gymharu â Chymru a'r DG.

   (Dangosydd Llesiant 16: Canran y boblogaeth sydd mewn gwaith, ar gontractau parhaol ac sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol).

5. BWLCH LLESIANT

Cyflogau isel a swyddi rhan-amser yn achosi lefelau uchel o dlodi mewn ardaloedd gwledig a threfol, gyda thlodi mewn gwaith yn arbennig o uchel yng Ngwynedd o gymharu â Chymru a'r DG.

(Dangosyddion Llesiant 18: Canran o aelwydydd mewn tlodi o gymharu â'r DG)

(Dangosydd Llesiant 19: Canran yr aelwydydd mewn amddifadedd materol)

6. BWLCH CYNHYRCHIANT

Gwerth yr hyn a gynhyrchir yng Ngwynedd (fesul pob awr a weithir; fesul pob swydd a lenwir) yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG yn 2023, a chyfradd twf cynhyrchiant yng Ngwynedd yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG ers 2004.

(Dangosydd Llesiant 09: GVA fesul yr awr a weithir o gymharu â chyfartaledd y DG)

7. BWLCH DIWYDIANNOL

Amrywiaeth cymharol gul o ddiwydiannau gyda chyflogeion a mentrau yn fwy niferus mewn ystod llai o ddiwydiannau.

8. BWLCH MENTERGARWCH NEWYDD

Y gyfradd geni busnes yng Ngwynedd ymhlith yr isaf ar draws siroedd Cymru yn 2023, yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DG.

9. BWLCH PERFFORMIAD UCHEL

Canran y mentrau a welodd gynnydd o 20% yn nifer y cyflogeion dros gyfnod tair blynedd yn gyson is yng Ngwynedd na Chymru a'r DG rhwng 2018 a 2023.

10. BWLCH CYSYLLTEDD DIGIDOL

Canran yr eiddo â mynediad at gysylltedd gigabeit (>1,000 Mbps) yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DG, gyda chyfran uwch o eiddo hefyd â chysylltedd gwan (<15 Mbps). Cyrhaeddiad 4G a 5G hefyd yn is yng Ngwynedd.

(Dangosydd Llesiant 50: Cynhwysiant digidol)

## IV. Y NEWID SYDD EI ANGEN

Mae'r bylchau sy'n wynebu Gwynedd yn dangos angen clir am newid sylfaenol yn yr economi: newid sydd, ar un llaw, yn mynd i'r afael â tan berfformiad cymharol yr economi ac yn creu'r amodau gorau posibl i'n mentrau, ac ar y llaw arall, newid sy'n cael effaith bositif uniongyrchol ar lesiant ein pobl a chyfleoedd bywyd yng Ngwynedd. Mae'r Strategaeth wedi'i datblygu er mwyn egino a chefnogi'r mathau hyn o newid.

O fewn y fframwaith rydym wedi nodi'r newidiadau i'r economi a'r gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl Gwynedd yr ydym am eu gweld.

Ar lefel yr economi gyfan, mae'n cynnwys:

- **Codi lefelau cynhyrchiant ein mentrau a'n gweithwyr** er mwyn ysgogi cyflogau uwch ac amodau gwaith gwell.
- **Cynyddu cystadleurwydd ein mentrau cynhenid** fel eu bod yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn gwireddu'u hamcanion busnes hir-dymor ac yn creu swyddi o safon.
- **Cryfhau cysylltedd digidol ac isadeiledd busnes y sir** er mwyn creu'r amodau gorau posibl ar gyfer mentro.
- **Creu sylfaen ddiwydiannol sy'n fwy amrywiol** gyda mentrau lleol mewn ystod o ddiwydiannau yn creu cyfleoedd newydd ac economi mwy gwydn.
- **Cefnogi ein pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt** fel eu bod nhw, ynghyd â'r mentrau sy'n eu cyflogi, yn gallu manteisio'n llawn ar gyfleoedd.
- **Cadw mwy o'r cyfoeth rydym yn ei greu yn lleol yng Ngwynedd** er mwyn uchafu buddion i bobl, mentrau a chymunedau Gwynedd.
- **Adeiladu economi sy'n gynaliadwy** yn amgylcheddol, ieithyddol a diwylliannol.

Rydym am weithredu'r newidiadau hyn yn bennaf er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl Gwynedd. Y canlyniadau pwysicaf sy'n effeithio pobl Gwynedd yw:

- Cyflogau ac incwm gros aelwydydd yn uwch
- Mwy o bobl wedi'u cyflogi mewn swyddi sefydlog
- Lefelau is o dlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol
- Amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith yn lleol
- Mwy o bobl yn gallu aros, byw a gweithio yn eu cymunedau lleol
- Mwy o bobl yn mwynhau eu gwaith ac yn gwireddu eu llawn botensial
- Economi werdd sy'n amddiffyn amgylchedd naturiol eithriadol y sir
- Economi Gymraeg sy'n cynyddu defnydd a gwelededd yr iaith gyda chwsmeriaid ac yn y gweithle ledled Gwynedd.

Bydd angen i ni fod yn ddewr wrth weithredu'r Strategaeth hon gan annog eraill i wneud yr un fath. Bydd angen i ni fod yn barod i arbrofi gyda dulliau newydd a gwahanol, gan dderbyn na fydd pob ymdrech yn dwyn ffrwyth.

# V. DATBLYGU'R STRATEGAETH I ECONOMI GWYNEDD

Datblygwyd y Strategaeth trwy ymchwil pen-desg ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid rhwng 2024 a 2025. Mae'n asesiad gonest o'r economi ond yn uchelgeisiol hefyd. Fe wnaethom ei chynllunio yng ngolau cyfleoedd, heriau ac anghenion Gwynedd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bosib ei gyflawni gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid.

Ymchwil ac ymgysylltu

Fe wnaethom ystyried proffil economi Gwynedd yn gyntaf - ei nodweddion a'i pherfformiad, sut mae'n cymharu ag ardaloedd eraill o Gymru a'r Deyrnas Gyfunol (DG), a'r materion y mae angen ymateb iddynt fwyaf. Trwy ymarferiadau amlygwyd y Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a'r Bygythiadau sy'n wynebu Gwynedd, ynghyd â'r dylanwadau ehangach sy'n effeithio ar Wynedd heddiw neu sy'n debygol o wneud yn y dyfodol. Law yn llaw â'r ymchwil yma, mapiwyd y cyd-destun strategol a pholisi - yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol (Cymru a'r DG) - er mwyn adeiladu ar, ategu a chael y budd gorau posibl i Wynedd o'r ystod fwyaf posibl o weithgareddau datblygu economaidd.

Fe wnaethom ymgysylltu yn helaeth â rhan-ddeiliaid hefyd, yn bartneriaid strategol i'r Cyngor, ac yn fusnesau a thrigolion y sir. Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd unigol â phrif bartneriaid y Cyngor yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y maes datblygu economaidd. Er mwyn ennyn mewnbwn gan gymuned fusnes Gwynedd, defnyddiwyd Arolygon Busnes y Cyngor yn 2024 a 2025; y negeseuon gan fusnesau am eu bwriad i'r dyfodol, y cyfleoedd a'r heriau sy'n eu wynebu, a'r mathau o gymorth sydd ei angen arnynt.

Defnyddiwyd hefyd ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus y Cyngor. Mae'n cynnwys yr ymgynghoriad sylweddol am economi a chymunedau Gwynedd sef Ymgynghoriad Ardal Ni. Casglwyd negeseuon gan bobl Gwynedd am yr hyn a deimlant sy'n dda am eu hardaloedd lleol, pethau sydd ddim cystal, a'r hyn a maent yn deimlo sydd angen newid. Mae'n fesur defnyddiol o'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd a'r math o economi y dymunant ei weld.

Dylanwadu a chyd-weithio

Mae gan gyflogwyr o'r sector gyhoeddus, sector breifat a'r trydydd sector ran allweddol i'w chwarae ar draws y Strategaeth hon. Trwyddyn nhw y bydd llawer o'r newidiadau yn dwyn ffrwyth, ac mae'n gofyn ein bod yn eu cefnogi – boed â dylanwad uniongyrchol y Cyngor, neu ein partneriaid. Mae'r meysydd sydd o fewn dylanwad lleol yn cynnwys:

- Grantiau datblygu busnes
- Benthyciadau datblygu
- Cynlluniau harddu ac adfywio

- Gweinyddu trethi busnes ac annomestig
- Trwyddedau busnes a safonau masnachu
- Tir, eiddo ac unedau busnes
- Cynllunio a rheolaeth adeiladu
- Caffael, tendro a gwariant cyhoeddus
- Cymorth a chyngor gyrfaol
- Addysg a sgiliau, yn cynnwys addysg bellach ac addysg uwch
- Ymchwil a Datblygu
- Ymyraethau iechyd a gofal, tai a gwasanaethau cymdeithasol i gadw'r gweithlu yn iach, saff a gyda'r gallu i weithio.

Un maes sydd o arwyddocâd penodol wrth ddatblygu'r economi yw sicrhau fod cytundebau cyhoeddus yn cefnogi cyflenwyr lleol. Boed yn unigol, neu wrth ffurfio mentrau cydweithredol, mae gan gyflenwyr lleol, gyda chefnogaeth, y capasiti i gyflenwi cytundebau sylweddol. Mae cadw'r bunt yn lleol yn bwysicach nag erioed. Mae dyletswydd, nid yn unig i'r Cyngor, ond i'n holl bartneriaid i wneud ymdrech benodol i gefnogi'r gadwyn gyflenwi leol, yn uniongyrchol trwy ymarferion caffael, ac yn anuniongyrchol trwy annog busnesau unigol i'w ddefnyddio.

Mae llawer o'r meysydd hyn yn cael eu siapio gan bolisi cenedlaethol gyda llawer o'r grymoedd mwyaf o fewn yr haenau llywodraethu hynny; yn Llywodraeth y DG a Llywodraeth Cymru. Mae gofyn am gydweithio a dylanwadu er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i Wynedd. Byddwn yn parhau i wneud yr achos cryfaf dros sicrhau cyfran deg o fuddsoddiad economaidd o bob ffynhonnell i'r dyfodol.

Bydd buddsoddiadau o bob math - cyhoeddus, preifat a mentrau ar-y-cyd - yn hollbwysig wrth wireddu'r Strategaeth hon. Rydym eisoes yn gweithredu ar brosiectau trwy bartneriaeth, a byddwn yn parhau i gynnal ac ehangu ein rhwydwaith o bartneriaid cyllido. Byddwn yn archwilio'n rhagweithiol i ddulliau traddodiadol ac arloesol o ddod â chyrff at ei gilydd i gyllido'r prosiectau priodoli'r sir.

<u>Y cyd-destun strategol a pholisi</u>

Mae'r gwaith cyd-weithio hwn yn gofyn am ddealltwriaeth gadarn o'r cyd-destun polisi a strategol rydym yn gweithredu ynddo, yn enwedig ym meysydd datblygu economaidd. Mae'r Strategaeth yn ymateb i'r cyd-destun hwn gan adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn ei le er mwyn ychwanegu gwerth a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Wynedd. Bydd y cyd-destun hwn yn cael ei fonitro dros gyfnod y Strategaeth er mwyn sicrhau ei bod yn fyw i newidiadau polisi ehangach.

Mae hefyd yn cydnabod bod Gwynedd yn rhan o ranbarth ehangach gyda phobl a busnesau yn gweithio a gweithredu ar draws ffiniau sirol. Nid yw'n bosibl i economi Gwynedd ffynnu heb dderbyn a chyfrannu syniadau, dulliau a thalent o fewn y rhanbarth a thu hwnt.

**Ardaloedd lleol**

- Ardal Ni: Cynlluniau Adfywio Lleol : Yn 2022, ymgynghorodd Cyngor Gwynedd â chymunedau ledled y sir. Defnyddiwyd yr allbwn i ddatblygu 13 o gynlluniau adfywio lleol. Mae'r cynlluniau yn ddogfennau byw sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol gyda mewnbwn y cymunedau. Ar y cyd maent yn ffurfio fframwaith adfywio i'r sir. Mae materion sy'n ymwneud â'r economi yn thema gyffredin ar draws y cynlluniau ac maent wedi siapio'r Strategaeth hon. Yn ei dro mae'r Strategaeth yn fodd o ddiwallu rhai o'r anghenion cyffredin.
- Cynlluniau Adfywio Trefi: Mae gan Gyngor Gwynedd wyth o gynlluniau i wella ei brif ganolfannau masnachol fydd yn ganllaw ar gyfer buddsoddiad i'r dyfodol.
- Cynlluniau lleol a chymunedol**:** Mae rhwydweithiau ledled Gwynedd sy'n gweithredu'n lleol, yn gynghorau tref a chymunedol, ac yn fforymau lleol ehangach. Mae gan nifer o'r cyrff hyn ddogfennau sydd yn gosod allan blaenoriaethau ac anghenion lleol.

**Gwynedd**

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28: Mae cynllun corfforaethol y Cyngor yn adnabod Gwynedd Lewyrchus ymhlith ei flaenoriaethau strategol. Y bwriad yw "*cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng*". Mae'r Cynllun yn amlinellu blaenoriaethau Cyngor Gwynedd o fewn y maes am y cyfnod dan sylw.
- Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 **:** Mae'r Cynllun Strategol wedi ei fabwysiadu gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i wireddu eu hegwyddorion economi ymweld i *ddathlu, parchu a gwarchod ein cymunedau, iaith, diwylliant a threftadaeth; cynnal a pharchu ein hamgylchedd a sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd ac Eryri yn fwy nac unrhyw anfanteision.*
- Strategaeth Iaith Cyngor Gwynedd 2023-2033: Mae'r Strategaeth Iaith yn nodi blaenoriaethau Cyngor Gwynedd o ran hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd ar draws y sir. Mae sylw arbennig i'r berthynas rhwng yr iaith a'r economi ym maes blaenoriaeth "Gwaith a Gwasanaeth".
- Cynllun Eryri <https://cynlluneryri.org/cy/>**:** Cynllun Eryri yw Cynllun Rheoli Statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i warchod rhinweddau unigryw Eryri. Mae'n gynllun ar y cyd gyda phartneriaeth eang ac mae sicrhau fod *Eryri yn lle gwych i fyw, datblygu a gweithio ynddo* ymhlith y canlyniadau a ddymunir.

- Polisi Cynllunio: Mae tiriogaeth Gwynedd o ran cynllunio gwlad a thref wedi ei rannu rhwng awdurdodau cynllunio Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. O ganlyniad, mae dau Gynllun Datblygu Lleol yn rheoli defnydd tir gan gynnwys tir ar gyfer cyflogaeth.

**Rhanbarthol**

- Cynllun Twf Gogledd Cymru: Trwy law Uchelgais Gogledd Cymru mae'r Cynllun Twf wedi sicrhau cyllid o £120 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £120 miliwn gan Lywodraeth y DG i fuddsoddi mewn detholiad o brosiectau ar draws pum rhaglen. Mae'r Cynllun yn anelu i gynhyrchu 4,000 o swyddi erbyn 2036. Mae bellach dan arweiniad Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd sy'n dod â chwe awdurdod lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri at ei gilydd i ymdrin â'r blaenoriaethau rhanbarthol.
- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025: Mae Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru yn adnabod anghenion cyflogwyr a chyflogai o fewn yr economi ac yn cynnig arweiniad i sefydliadau ar sut i fodloni'r galw.
- Fframwaith Economaidd Rhanbarthol Gogledd Cymru: Yn 2021 cyhoeddodd Uchelgais Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru fframwaith yn amlinellu sut mae'r rhanbarth yn gweithio tuag at flaenoriaethau cyffredin.
- Rhaglen ARFOR: Mae ARFOR yn bartneriaeth rhwng cynghorau Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr sydd wedi ei ariannu gan Llywodraeth Cymru. Mae ARFOR yn edrych ar yr heriau economaidd-gymdeithasol sy'n cael effaith ar hyfywedd y Gymraeg mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg gan ganolbwyntio ar gynllunio economaidd fydd yn elwa cymunedau Cymraeg cynhenid a, drwy hynny, yn buddio'r iaith.

**Cymru**

- Buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru: fframwaith: Fframwaith Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu eu dull gweithredu arfaethedig ar gyfer y maes buddsoddi rhanbarthol, gan gyfuno gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach : Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu economi fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrddach ar sail pedwar maes blaenoriaeth; *llewyrch gwyrdd a thrawsnewid cyfiawn, cefnogi pobl ifanc, cyd-weithio rhanbarthol cryfach* a *buddsoddi mewn twf.* Mae'r ddogfen hefyd yn pwysleisio twf sy'n gynhwysol.
- Economi sylfaenol: datganiad cenhadaeth: Datganiad o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sectorau maent yn ystyried yn sylfaenol i'r economi gan gynnwys gwasanaethau iechyd a gofal, rheoli tai cymdeithasol, adeiladu cartrefi ac adeiladau masnachol, ynni a chyfleustodau, bwyd, siopau a gwasanaethau'r stryd fawr, twristiaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus.

- Strategaeth arloesi i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar sut i ddefnyddio arloesedd i wella bywydau pobl yng Nghymru a sbarduno'r economi.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Gosodir cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ystyried llesiant y boblogaeth a chenedlaethau'r dyfodol, ac i weithredu yn unol â'r Pum Ffordd o Weithio a'r Saith Nod Llesiant. Mae'r Strategaeth hon wedi'i datblygu yn unol â egwyddorion a phwrpas y Ddeddf hon, ac fe eglurir hyn yn yr asesiad llesiant atodol.

**Y Deyrnas Gyfunol**

- Cenhadaeth Economi: Twf economaidd yw blaenoriaeth pennaf y llywodraeth bresennol yn Llundain. Y nod yw cynyddu cynhyrchedd a chreu economi gystadleuol, amrywiol ac arloesol.
- Strategaeth ddiwydiannol, 2035: Mae strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y DG, *Invest 2035*, yn ganolog i Genhadaeth Economi Llywodraeth y DG. Mae'n adnabod wyth sector twf strategol pwysig ar sail eu potensial twf, ac yn adnabod cyfuniad o ymyraethau i'w cefnogi. Mae Cynllun Gweithredu Deallusrwydd Artiffisial y Llywodraeth hefyd yn ganolog i'r agenda twf ac yn ceisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r dechnoleg ymhlith mentrau Gwynedd a'r economi ehangach.

## VI. BLAENORIAETHAU'R STRATEGAETH

EIN GWELEDIGAETH:

Economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb.

## Mentergarwch
## Mentrau lleol llewyrchus sy'n rhagori

BLAENORIAETH UN: Uchafu gwerth ein heconomi bresennol

Nod (beth?):

Gwireddu potensial ein mentrau a'n sectorau presennol drwy gynyddu eu gwerth, cryfhau eu gwydnwch a'u cefnogi i leihau allyriadau.

Meysydd gweithgaredd (sut?):

1.1 Cefnogi mentrau i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol, a chreu mwy o werth.

1.2 Cefnogi mentrau i ddod yn fwy effeithlon, a lleihau costau a gwastraff.

1.3 Cefnogi mentrau i fabwysiadu ac/neu ymateb i dechnolegau newydd.

1.4 Cefnogi mentrau i arloesi drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i greu a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

1.5 Cefnogi mentrau lleol i gyrraedd marchnadoedd newydd.

1.6 Cefnogi cynlluniau olyniaeth sy'n cadw perchnogaeth yn lleol.

1.7 Cadw mwy o wariant cyhoeddus yn lleol.

1.8 Ymgysylltu rheolaidd â mentrau Gwynedd er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd a gwybodaeth busnes.

1.9 Cefnogi'r newid at economi sero net a manteisio ar gyfleoedd sy'n dod o hynny.

1.10 Annog mentrau maint micro a bychain i gydweithio er mwyn adeiladu ar gryfderau ei gilydd.

1.11 Annog a chefnogi perchnogaeth leol o asedau economaidd.

BLAENORIAETH DAU: Gwneud y mwyaf o gyfleoedd newydd

Nod (beth?):

Cefnogi a gwneud y mwyaf o ddiwydiannau a gweithgareddau newydd â photensial sylweddol gan sicrhau fod y budd yn aros yn lleol

Meysydd gweithgaredd (sut?):

2.1 Denu buddsoddiad er mwyn creu cyflogaeth o ansawdd i'r sir.

2.2 Manteisio ar fuddsoddiadau sylweddol yn rhanbarth y Gogledd er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Wynedd o Gynllun Tŵf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Wrecsam a Sir Fflint, a Phorthladd Rhydd Ynys Môn.

2.3 Cefnogi mentrau lleol sydd â photensial mewn diwydiannau a gweithgaredd newydd er mwyn cadw'r budd yn lleol.

2.4. Cefnogi mentrau lleol i fanteisio ar gyfleoedd buddsoddiad amgen a phreifat.

2.5. Gwneud y mwyaf o'n hasedau strategol â photensial i ddenu datblygiadau sylweddol.

2.6. Sicrhau bod datblygiadau newydd yng Ngwynedd yn elwa'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt.

2.7 Sicrhau fod mentrau Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd yn deillio o newidiadau mawrion yn yr economi fyd-eang.

2.8 Annog a galluogi mentrau a sefydliadau addysg i gydweithio ar gyfleoedd ymchwil a datblygu.

## Pobl
## Gweithlu medrus a chynhwysol

BLAENORIAETH TRI: Sicrhau gweithlu medrus

Nod (beth?):

Meithrin, denu a chadw talent gan ymateb i anghenion sgiliau hir-dymor y sir

Meysydd gweithgaredd (sut?):

3.1. Cefnogi mentrau Gwynedd i oresgyn heriau recriwtio ac anghenion sgiliau.

3.2 Cyd-weithio â phartneriaid sector addysg er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion sgiliau hir-dymor.

3.3 Cadw cyswllt â phobl ifanc sy'n gadael y sir, neu sy'n ystyried gwneud, a dangos y cyfleoedd gwaith sydd yma yng Ngwynedd.

3.4 Hyrwyddo cynlluniau denu a datblygu talent.

3.5 Cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg i fanteisio ar gyfleoedd a gwireddu eu llawn botensial.

3.6 Cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli.

3.7 Annog defnydd o drefniadau a phatrymau gwaith amgen i alluogi gweithio mwy hwylus o ran lleoliad ac amser, yn enwedig o fewn ein hardaloedd gwledig.

BLAENORIAETH PEDWAR: Cefnogi ein pobl

Nod (beth?):

Cefnogi pobl Gwynedd i wireddu eu llawn botensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleoedd yn lleol

Meysydd gweithgaredd (sut?):

4.1. Cefnogi pobl sy'n ddi-waith, yn anweithgar neu sy'n wynebu heriau ychwanegol i gael gwaith.

4.2 Cefnogi pobl sydd mewn gwaith i gyrraedd swydd well â chyflogau uwch neu amodau gwaith mwy sicr.

4.3 Hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith cyflogwyr y sir.

4.4 Hyrwyddo mathau cynhwysol o gyflogaeth i'w gwneud yn haws i bobl allu gweithio.

4.5 Hyrwyddo cyfleoedd gwaith sy'n rhoi sicrwydd i bobl.

4.6 Cefnogi pobl hŷn mewn oedran ymddeol i barhau i weithio a gwirfoddoli, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

4.7 Lleihau anghydraddoldeb rhwng dynion a merched i sicrhau bod pawb yn cael yr un driniaeth ac yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y farchnad lafur.

4.8 Sicrhau bod pobl anabl yn cael cyfleoedd teg, drwy ddileu rhwystrau a sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau ac at gyfleoedd.

## Lle
## Yr amodau gorau i ffynnu

BLAENORIAETH PUMP: Y cysylltedd a'r isadeiledd gorau posibl

Nod (beth?):

Gweithredu am well cysylltedd ac isadeiledd busnes i hybu'r economi

Meysydd gweithgaredd (sut?):

5.1. Ehangu mynediad at y cysylltedd digidol gorau posibl mewn ardaloedd ble mae'n wan.

5.2 Pwyso am welliannau mewn trafnidiaeth er mwyn hwyluso symudedd pobl yn lleol.

5.3 Pwyso am welliannau yn rhwydwaith ffyrdd Gwynedd er mwyn hwyluso datblygiad busnes.

5.4 Pwyso am welliannau yng nghapasiti'r grid yn lleol ac isadeiledd cyfleustodau.

5.5 Cefnogi cynlluniau adfywio canol trefi.

5.6 Creu a gwella stoc unedau gwaith er mwyn sicrhau darpariaeth addas.

BLAENORIAETH CHWECH: Lle gwych i fyw, gweithio a mentro

Nod (beth?):

Hyrwyddo Gwynedd fel lle gwych i fyw, gweithio a mentro, gan ddathlu'r iaith Gymraeg a'n hunaniaeth arbennig

Meysydd gweithgaredd (sut?):

6.1. Cryfhau hunan-hyder a'r gred y gellir llwyddo'n lleol yng Ngwynedd.

6.2 Egnïo a chefnogi sin ddiwylliannol a chymdeithasol unigryw Gwynedd.

6.3 Cryfhau defnydd a gwelededd y Gymraeg fel agwedd unigryw o economi Gwynedd.

6.4 Ymgysylltu â diaspora Gwynedd er mwyn denu profiad, arbenigedd a buddsoddiad gwahanol yn ôl i'r ardal.

6.5 Annog mwy o bobl a mentrau i brynu'n lleol.

# VII. Y STRATEGAETH AR WAITH

Gweithio drwy bartneriaeth

Nid yw'r Strategaeth yn ddogfen ar gyfer sefydliad unigol. Bydd gofyn am ymdrech ar draws sefydliadau a sectorau er mwyn ei gwireddu.

Byddwn yn adeiladu ar y profiad cadarnhaol o weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Gyfunol (DG) a'r gwerthfawrogiad mae sefydliadau wedi ei fynegi o'r cyfle i ddod ynghyd i gydweithio, cydlynu eu hymdrechion, a lleisio anghenion eu rhanddeiliaid. Byddwn felly yn sefydlu '**Fforwm Economi Gwynedd'** er mwyn gweithredu'r Strategaeth.

Bydd aelodaeth y Fforwm yn cynnwys y prif sefydliadau sy'n cyfrannu i ffyniant lleol, a'r cyrff sy'n gweithio i ddatblygu economi sy'n buddio ein cymunedau. Bydd y Fforwm yn dod â phartneriaid lleol ynghyd o'r sector gyhoeddus, sector breifat a'r drydedd sector. Bydd sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol hefyd yn rhan o'r Fforwm.

Byddwn yn sicrhau llais i rannau gwahanol o Wynedd er mwyn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'r amrywiaethau ar draws y sir.

Bydd y Fforwm yn cwrdd yn ffurfiol dair gwaith y flwyddyn, er mwyn:

1. Llunio a chydlynu Cynllun Cyflawni blynyddol ar gyfer y Strategaeth.
2. Monitro gweithgareddau a'u dangosyddion unigol a chyfansawdd.
3. Cynnal gorolwg o'r cynnydd tuag at gyflawni'r Strategaeth.
4. Adolygu a diweddaru'r Strategaeth yn ôl yr angen.
5. Cynnal gorolwg o'r maes a datblygiadau ehangach sy'n berthnasol i economi Gwynedd gan lobio o blaid ein hanghenion.
6. Hyrwyddo a hwyluso cydweithio rhwng sefydliadau gyda rôl yn datblygu economi'r sir a phartneriaethau / fforymau eraill.

Cynllun Cyflawni'r Strategaeth

Mae'r Strategaeth yn sefydlu'r nod ac yn adnabod dull o fynd i'r afael â'r heriau economaidd hirdymor sydd wedi eu hadnabod ar gyfer Gwynedd.

Bydd Cynllun Cyflawni yn cael ei lunio yn flynyddol dan arweiniad Fforwm Economi Gwynedd i weithredu'r Strategaeth. Bydd y Cynllun yn cynnwys gweithgaredd sydd eisoes ar waith, a phrosiectau sydd ar y gweill gan nodi eu haliniad gyda'r Strategaeth a'r ardaloedd fydd yn elwa.

Bydd y cynllun hefyd yn fodd i'r Fforwm adnabod bylchau mewn darpariaeth ac o ddylanwadu ar gynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol.

<u>Monitro, gwerthuso ac adolygu</u>

Mae'n allweddol ein bod yn gallu mesur yr hyn mae cynlluniau a gweithgareddau yn eu cyflawni yn unigol, a'u heffaith cyfansawdd.

I'r perwyl yma rydym wedi datblygu Fframwaith monitro a gwerthuso sy'n cynnwys cyfres o ddangosyddion i fesur:

- ALLBYNNAU
  Cynnyrch uniongyrchol prosiect neu weithgaredd yn y tymor byr
    - CANLYNIADAU
      Dangosyddion tymor canol sy'n deillio o gynlluniau a gweithgareddau, ac yn adlewyrchu newid mewn ymddygiad
        - EFFAITH
          Dangosyddion o newid hirdymor, strategol dros gyfnod o flynyddoedd

Drwy gael detholiad cyson o ddangosyddion bydd modd gwerthuso effaith gweithgareddau ac adolygu ein cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Strategaeth.

Mae'r dangosyddion sydd wedi eu hadnabod yn adlewyrchu'r newid sydd ei angen a'r blaenoriaethau o fewn y Strategaeth

# FFRAMWAITH MONITRO A GWERTHUSO

## Y NEWID SYDD EI ANGEN

### Newidiadau i'r Economi

- Codi lefelau cynhyrchiant ein mentrau a'n gweithwyr
- Cynyddu cystadleurwydd ein mentrau cynhenid
- Cryfhau cysylltedd digidol ac isadeiledd busnes y sir
- Creu sylfaen ddiwydiannol sy'n fwy amrywiol
- Cefnogi ein pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt
- Cadw mwy o'r cyfoeth rydym yn ei greu yn lleol yng Ngwynedd
- Adeiladu economi sy'n gynaliadwy

### Gwahaniaeth Cadarnhaol i Fywydau Pobl

- Cyflogau ac incwm gros aelwydydd yn uwch
- Mwy o bobl wedi'u cyflogi mewn swyddi sefydlog
- Lefelau is o dlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol
- Amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith yn lleol
- Mwy o bobl yn gallu aros, byw a gweithio yn eu cymunedau lleol
- Economi werdd sy'n amddiffyn amgylchedd naturiol eithriadol y sir
- Economi Gymraeg sy'n cynyddu defnydd a gwelededd yr iaith gyda chwsmeriaid ac yn y gweithle ledled Gwynedd

## BLAENORIAETHAU'R STRATEGAETH

| **MENTERGARWCH**<br>**Mentrau lleol llewyrchus sy'n rhagori** | | **POBL**<br>**Gweithlu medrus a chynhwysol** | | **LLE**<br>**Yr amodau gorau i ffynnu** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **BLAENORIAETH UN**<br>**Uchafu gwerth ein heconomi bresennol** | **BLAENORIAETH DAU**<br>**Gwneud y mwyaf o gyfleoedd newydd** | **BLAENORIAETH TRI**<br>**Sicrhau gweithlu medrus** | **BLAENORIAETH PEDWAR**<br>**Cefnogi ein pobl** | **BLAENORIAETH PUMP**<br>**Y cysylltedd a'r isadeiledd gorau posibl** | **BLAENORIAETH CHWECH**<br>**Lle gwych i fyw, gweithio a mentro** |
| Cefnogi mentrau i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol, a chreu mwy o werth | Denu buddsoddiad er mwyn creu cyflogaeth o ansawdd i'r sir | Cefnogi mentrau Gwynedd i oresgyn heriau recriwtio ac anghenion sgiliau | Cefnogi pobl sy'n ddi-waith, yn anweithgar neu sy'n wynebu heriau ychwanegol i gael gwaith | Ehangu mynediad at y cysylltedd digidol gorau posibl mewn ardaloedd ble mae'n wan | Cryfhau hunan-hyder a'r gred y gellir llwyddo'n lleol yng Ngwynedd |
| Cefnogi mentrau i ddod yn fwy effeithlon, a lleihau costau a gwastraff | Manteisio ar fuddsoddiadau sylweddol yn rhanbarth y Gogledd er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i Wynedd o Gynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Wrecsam a Sir Fflint, a Phorthladd Rhydd Ynys Môn | Cyd-weithio â phartneriaid sector addysg er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion sgiliau hir-dymor | Cefnogi pobl sydd mewn gwaith i gyrraedd swydd well â chyflogau uwch neu amodau gwaith mwy sicr | Pwyso am welliannau mewn trafnidiaeth er mwyn hwyluso symudedd pobl yn lleol | Egnïo a chefnogi sin ddiwylliannol a chymdeithasol unigryw Gwynedd |
| Cefnogi mentrau i fabwysiadu ac/neu ymateb i dechnolegau newydd | Cefnogi mentrau lleol sydd â photensial mewn diwydiannau a gweithgaredd newydd er mwyn cadw'r budd yn lleol | Cadw cyswllt â phobl ifanc sy'n gadael y sir, neu sy'n ystyried gwneud, a dangos y cyfleoedd gwaith sydd yma yng Ngwynedd | Hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith cyflogwyr y sir | Pwyso am welliannau i rwydwaith ffyrdd Gwynedd er mwyn hwyluso datblygiad busnes | Cryfhau defnydd a gwelededd y Gymraeg fel agwedd unigryw o economi Gwynedd |
| Cefnogi mentrau i arloesi drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i greu a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd | Cefnogi mentrau lleol i fanteisio ar gyfleoedd buddsoddiad amgen a phreifat | Hyrwyddo cynlluniau denu a datblygu talent | Hyrwyddo mathau cynhwysol o gyflogaeth i'w gwneud yn haws i bobl allu gweithio | Pwyso am welliannau yng nghapasiti'r grid yn lleol ac isadeiledd cyfleustodau | Ymgysylltu â diaspora Gwynedd er mwyn denu profiad, arbenigedd a buddsoddiad gwahanol yn ôl i Wynedd |
| Cefnogi mentrau lleol i gyrraedd marchnadoedd newydd | Sicrhau bod datblygiadau newydd yng Ngwynedd yn elwa'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt | Cefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg (NEET) i fanteisio ar gyfleoedd a gwireddu eu llawn botensial | Hyrwyddo cyfleoedd gwaith sy'n rhoi sicrwydd i bobl | Cefnogi cynlluniau adfywio canol trefi | Annog mwy o bobl a mentrau i brynu'n lleol |

| Uchafu gwerth ein heconomi bresennol | Gwneud y mwyaf o gyfleoedd newydd | Sicrhau gweithlu medrus | Cefnogi ein pobl | Y cysylltedd a'r isadeiledd gorau posibl | Lle gwych i fyw, gweithio a mentro |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi cynlluniau olyniaeth sy'n cadw perchnogaeth yn lleol | Gwneud y mwyaf o'n hasedau strategol â photensial i ddenu datblygiadau sylweddol | Cefnogi cyfleoedd gwirfoddoli | Cefnogi pobl hŷn mewn oedran ymddeol i barhau i weithio a gwirfoddoli os ydynt yn dymuno gwneud hynny | Creu a gwella stoc unedau gwaith er mwyn sicrhau darpariaeth addas | |
| Cadw mwy o wariant cyhoeddus yn lleol | Sicrhau fod mentrau Gwynedd yn manteisio ar gyfleoedd yn deillio o newidiadau mawrion yn yr economi fyd-eang | Annog defnydd o drefniadau a phatrymau gwaith amgen i alluogi gweithio mwy hwylus o ran lleoliad ac amser, yn enwedig o fewn ein hardaloedd gwledig | Lleihau anghydraddoldeb rhwng dynion a merched i sicrhau bod pawb yn cael yr un driniaeth ac yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y farchnad lafur | | |
| Ymgysylltu rheolaidd â mentrau Gwynedd er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd a gwybodaeth busnes | Annog a galluogi mentrau a sefydliadau addysg i gydweithio ar gyfleoedd ymchwil a datblygu | | Sicrhau bod pobl anabl yn cael cyfleoedd teg, drwy ddileu rhwystrau a sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau ac at gyfleoedd | | |
| Cefnogi'r newid at economi sero net a manteisio ar gyfleoedd sy'n dod o hynny | | | | | |
| Annog mentrau maint micro a bychain i gydweithio er mwyn adeiladu ar gryfderau ei gilydd | | | | | |
| Annog a chefnogi perchnogaeth leol o asedau economaidd. | | | | | |

## Y STRATEGAETH AR WAITH

**Allbynnau** - Tymor Byr

1. Mentrau wedi'u cefnogi i fabwysiadu technoleg
2. Mentrau wedi derbyn cefnogaeth olyniaeth
3. Mentrau wedi'u cefnogi i drosglwyddo i berchnogaeth gweithwyr
4. Mentrau yn mabwysiadu technoleg wyrdd
5. Mentrau lleol yn ymgysylltu â chefnogaeth busnes
6. Mentrau wedi derbyn cefnogaeth caffael
7. Mentrau wedi'u cefnogi i ehangu i farchnad newydd
8. Mentrau'n wedi'u cefnogi i ennill cytundebau sector cyhoeddus
9. Mentrau wedi'u cefnogi i ddod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol
10. Mentrau gweithgynhyrchu wedi'u cefnogi i sefydlu neu dyfu
11. Mentrau mewn sectorau gwerth uchel wedi'u cefnogi i sefydlu neu dyfu
12. Datblygiadau mawrion wedi ymgysylltu
13. Datblygiadau mawrion wedi'u caniatáu
14. Mewnfuddsoddiad i brosiectau cyfalaf
15. Buddsoddiad sector gyhoeddus i brosiectau cyfalaf
16. Buddsoddiad sector gyhoeddus i gefnogi twf busnesau presennol
17. Mewnfuddsoddiad i gefnogi twf busnesau presennol
18. Mentrau yn derbyn cefnogaeth recriwtio
19. Pobl sy'n cofrestru ar gyfer cymhwyster
20. Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn derbyn cefnogaeth
21. Pobl wedi'u cefnogi gan gynlluniau denu a datblygu talent
22. Pobl wedi'u cefnogi i wirfoddoli
23. Pobl di-waith, anweithgar neu sy'n wynebu heriau ychwanegol wedi'u cefnogi i gael gwaith
24. Pobl sydd mewn gwaith wedi cael hyfforddiant neu gymorth
25. Pobl o oedran ymddeol wedi'u cefnogi i barhau i weithio neu wirfoddoli
26. Pobl anabl wedi'u cefnogi i gael hyfforddiant, gwaith neu i wirfoddoli
27. Merched wedi'u cefnogi i gael hyfforddiant neu i ddychwelyd i waith
28. Gwelliannau i isadeiledd digidol wedi'u cefnogi
29. Trefi wedi derbyn buddsoddiad
30. Adeiladau gwag wedi dychwelyd i ddefnydd
31. Mannau cyhoeddus wedi'u gwella
32. Gwelliannau i gysylltedd trafnidiaeth
33. Gwelliannau i gapasiti'r grid ac isadeiledd cyfleustodau eraill
34. Unedau gwaith wedi eu hadeiladu
35. Gofodau llawr masnachol wedi'u caniatáu
36. Gofodau llawr masnachol wedi'u hadeiladu
37. Siaradwyr Cymraeg wedi'u cefnogi i gael swydd a dychwelyd i'r ardal
38. Mentrau yn ymrwymo i ddefnyddio mwy o Gymraeg
39. Pobl ifanc sy'n cael eu hymgysylltu cyn iddynt raddio o addysg
40. Mentrau wedi'u cefnogi i wario mwy yn y gadwyn gyflenwi leol
41. Gweithgareddau diwylliannol neu gymdeithasol wedi eu cefnogi
42. Nifer o weithgareddau i hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o Wynedd

**Canlyniadau** - Tymor Canolig

1. Mentrau yn aros mewn perchnogaeth lleol yn dilyn ymddeoliad sefydlydd
2. Mentrau yn fwy cynhyrchiol o ganlyniad i gefnogaeth
3. Mentrau wedi lleihau eu hôl troed carbon o ganlyniad i gefnogaeth
4. Cynnydd yn y gyfradd sefydlu busnesau
5. Cynnydd yn y gyfradd busnesau sy'n goroesi
6. Gwariant gyda mentrau lleol gan y sector gyhoeddus
7. Cynnydd mewn gwariant yn y gadwyn gyflenwi yng Ngogledd Cymru
8. Mentrau yn cael eu sefydlu neu'n tyfu o ganlyniad i fewnfuddsoddiad
9. Mentrau yn cael eu sefydlu neu'n tyfu o ganlyniad i fuddsoddiad sector gyhoeddus
10. Gwariant gyda mentrau lleol gan ddatblygiadau sylweddol
11. Mentrau sy'n adrodd bod lleihad mewn heriau recriwtio
12. Pobl yn ennill cymhwyster o ganlyniad i gefnogaeth
13. Pobl ifanc NEET mewn addysg, hyfforddiant neu waith o ganlyniad i gefnogaeth
14. Pobl yn gwirfoddoli o ganlyniad i gefnogaeth
15. Pobl oedd yn ddi-waith, anweithgar neu'n wynebu heriau ychwanegol mewn gwaith
16. Pobl sy'n cynyddu eu henillion (mwy o oriau/cyflog) o ganlyniad i gefnogaeth
17. Mentrau yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o ganlyniad i gefnogaeth
18. Pobl mewn gwaith o ganlyniad i gefnogaeth
19. Pobl o oedran ymddeol mewn gwaith neu'n gwirfoddoli o ganlyniad i gefnogaeth
20. Pobl anabl wedi cael hyfforddiant, mewn gwaith neu'n gwirfoddoli o ganlyniad i gefnogaeth
21. Unigolion / busnesau gyda mynediad i isadeiledd digidol gwell
22. Trigolion yn byw / ymweld â threfi wedi derbyn buddsoddiad
23. Pobl yn elwa o well cysylltedd i drafnidiaeth
24. Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â chanol trefi
25. Mentrau wedi eu lleoli mewn unedau gwaith newydd neu ofodau llawr masnachol newydd
26. Mentrau yn defnyddio mwy o Gymraeg o ganlyniad i gefnogaeth
27. Pobl wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd diwylliannol neu gymdeithasol
28. Pobl wedi ymgysylltu gyda gweithgareddau i hyrwyddo canfyddiadau cadarnhaol o Wynedd
29. Mentrau yn creu cynllun gweithredu i ddefnyddio'r Gymraeg

**Effeithiau** - Tymor Hir

1. Bwlch cynhyrchedd economi Gwynedd yn lleihau o'i gymharu â Cymru, y DG ac ardaloedd cyffelyb
2. Cyfran o fusnesau yn cyflogi yn agosach i gyfartaledd Cymru a'r DG
3. Cynnydd yn y gyfran o fentrau canolig eu maint
4. Twf mewn cyflogaeth ar draws yr economi, yn enwedig yn y sectorau gwerth uchel / cynhyrchiant uchel
5. Economi yn fwy amrywiol o ran sectorau
6. Twf mewn cyflogaeth ar draws yr economi, yn enwedig yn y sectorau gwerth uchel / cynhyrchiant uchel
7. Economi fydd yn fwy abl i fanteisio ar gyfleoedd byd-eang
8. Twf busnesau'n cynyddu wrth i gyflenwad talent gryfhau
9. Lefel sgiliau'r sir wedi'i chynnal ac wedi gwella
10. Lleihad mewn pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
11. Cynnydd mewn balchder bro ac ymgysylltiad cymunedol
12. Cyfradd anweithgarwch economaidd yn agosach i'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DG
13. Lleihad yn y bwlch cyflog cyfartalog â Cymru a'r DG
14. Incwm aelwydydd yn agosach i'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DG
15. Cyfradd gweithio rhan amser yn agosach i'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DG
16. Lleihad yn y gyfradd o blant mewn aelwydydd heb waith
17. Cynnydd yn y gyfradd o bobl dros 50 oed sy'n parhau i weithio
18. Cyfradd argaeledd isadeiledd digidol yn agosach i'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DG ac yn well nag ardaloedd cyffelyb
19. Canol trefi sy'n fwy gwydn a chynaliadwy, gyda llai o adeiladau sydd wedi dirywio neu'n wag
20. Lleihad yn y risg y bydd capasiti'r grid neu isadeiledd arall yn cyfyngu ar neu'n oedi datblygiadau
21. Lleihad yn y rhwystr mae cysylltedd trafnidiaeth yn ei greu i bobl sy'n ceisio gwaith
22. Lleihad yn y gyfradd o bobl ifanc yn ymfudo o'r sir
23. Cynnydd yn y canfyddiad fod Gwynedd yn lle da i fyw neu fentro ymhlith pobl ifanc
24. Lleihad yn y gyfradd o bobl yn cymudo o'r sir
25. Cynnydd yn y defnydd o Gymraeg ar draws y sir
26. Cymunedau lle mae'r canran o siaradwyr wedi ei gynnal neu wedi gwell

**Atodiad 2**

# Asesiad Effaith Cyfansawdd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

# Asesiad Cydraddoldeb Strategaeth Economi Gwynedd 30/01/2026

**Awdur:** Siwan Lisa Evans (ECON A CMND)

**Teitl Swydd:** Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gwynedd

**Dyddiad**: 30 Ionawr 2026

**Fersiwn:** 1

## CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

### 1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth Iaith Gymraeg)

### 2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Gweledigaeth Strategaeth Economi Gwynedd yw meithrin economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleoedd newydd ac yn cyfrannu at lesiant pawb. Nod y Strategaeth newydd hon yw sicrhau twf gynhwysol a chynaliadwy, fel bod unigolion, busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd yn elwa'n wirioneddol o'r economi. Bydd y Strategaeth yn weithredol hyd at 2035.

Drwy adnabod cryfderau a gwendidau'r sir, ynghyd â'r cyfleoedd sydd ar gael a'r meysydd sydd angen eu gwella, mae'r amcan yn glir: galluogi pobl a mentrau Gwynedd i gyrraedd eu potensial llawn, gan greu buddion a chyfleoedd newydd i'r dyfodol.

### 3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

Busnesau Gwynedd
Pobl a chymunedau Gwynedd
Mentrau cymunedol
Mentrau cymdeithasol
Sefydliadau addysgol Gwynedd

## CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiad | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Prif Swyddog Mantell Gwynedd | 21/11/24 | Meysydd i'w ystyried yn y Strategaeth:<br>Recriwtio staff yn heriol i fentrau cymunedol.<br>Angen mesur gwerth cymdeithasol prosiectau a buddsoddi yn y llefydd sy'n cyfrannu mwy.<br>Angen ymateb i heriau cludiant cymunedol.<br>Angen hyrwyddo a gwarchod amgylchedd Gwynedd a'r iaith Gymraeg. |
| Swyddogion adran fusnes Prifysgol Bangor | 21/11/24 | Meysydd i'w ystyried yn y Strategaeth:<br>Angen dangos y cyd-destun rhanbarthol i economi Gwynedd<br>Busnesau newydd angen cymorth i ddatblygu<br>Cynyddu'r cysylltiad rhwng y brifysgol a chymunedau Gwynedd – defnyddio'r arbenigedd ac adnoddau i gynyddu sgiliau'r gweithlu, i wneud gwaith ymchwil.<br>Sylwadau ar y drafft:<br>Hunaniaeth a diwylliant Gymraeg yn bwysig ar gyfer twf.<br>Angen eglurdeb ar pa isadeiledd sy'n cael ei dargedu<br>Cynnwys patrymau gwaith yn Lle / Pobl<br>Mwy o le i gynllunio |
| Prif Weithredwr GISDA | 26/11/24 | Mewnbwn cychwynnol i'r Strategaeth:<br>mae angen cyfeirio at yr her o gael rhaglenni ariannu tymor byr, a pwysigrwydd cydraddoldeb.<br>Angen dangos bod cydweithio rhwng y gwahanol adrannau yn y Cyngor i wireddu'r Strategaeth<br>Cefnogol i gadw mwy o'r budd yn lleol<br>Mwy o bwyslais ar werth y celfyddydau |
| Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri | 03/12/24 | Ymgynghori i gael mewnbwn i'r strategaeth: Yn croesawu'r dyhead am Strategaeth yn fawr. Angen targedu pethau tuag at yr ardaloedd gwledig yn y sir. Prentisiaethau yn bwysig er mwyn cyfarch yr angen am sgiliau hefo'r swyddi sydd ar gael er mwyn cadw pobl ifanc yn yr ardal. |
| Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn | 03/12/24 | Ymgynghori i gael mewnbwn cychwynnol: Angen gwneud yn siŵr bod y strategaeth yn alinio hefo'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynllun llesiant cyfredol. Angen cyfarch sut i gadw pobl ifanc a'u denu nhw'n ôl i'r ardal, a sut mae rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg gyda swyddi. Ystyried sut i sicrhau bod y gymuned leol yn cael budd o dwristiaeth. |
| Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) | 13/12/24 | Ymgynghori i gael mewnbwn i'r strategaeth: Mae angen i'r strategaeth fod yn realistig – uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy. Angen ystyried daearyddiaeth y sir – anghenion trafnidiaeth a chysylltedd digidol. Cyfarch sut mae manteisio ar dwristiaeth i roi buddion i'r economi leol. Cynnwys cefnogaeth i fusnesau yn y strategaeth. |
| Rheolwr Caffael Cyngor Gwynedd | 08/01/25 | Cefnogol i'r cyfeiriadau i gaffael. Angen sicrhau fod y Strategaeth Economi yn cyd-fynd â'r Strategaeth Caffael. |
| Cynghorwr Sirol NFU | 27/05/25 | ymgynghori i gael mewnbwn i'r strategaeth |
| Cynrychiolydd Rhwydwaith Mentrau Cymunedol Gwynedd | 29/07/25 | ymgynghori i gael mewnbwn i'r strategaeth |
| Uchelgais Gogledd Cymru | 21/11/25 | Sylwadau ar y drafft: Yn gefnogol ond wedi cywiro rhai o'r ffeithiau ar gynlluniau yn y Cynllun Cyflawni |
| Rheolwr Sgiliau - Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru | 01/25 a 31/10/25 | Ymgynghori i gael mewnbwn cychwynnol ac wedyn rhoi sylwadau ar y drafft: Yn gadarnhaol iawn am y strategaeth. Gellid cyfeirio at raglenni gwaith penodol gan y Bartneriaeth Sgiliau. |
| Uwch Ymgynghorydd Iaith Cyngor Gwynedd | 07/02/25 a 28/10/25 | Ymgynghori i gael mewnbwn cychwynnol ac wedyn rhoi sylwadau ar y drafft: Cadarnhaol bod y Gymraeg yn cael sylw yn y weledigaeth. Yn awyddus i'r iaith gael lle mwy amlwg yn y blaenoriaethau, ac i gael dangosydd i fesur effaith y nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n dal swyddi proffesiynol. Dylid hefyd gyfeirio at strategaeth iaith y Cyngor. |
| Llywodraeth Cymru | 21/02/25 a 31/10/25 | Ymgynghori i gael mewnbwn cychwynnol ac wedyn rhoi sylwadau ar y drafft: Y ddogfen wedi ei strwythuro'n dda, ond angen cryfhau'r bwriad strategol yn well. Gellid dangos yn well sut y bydd amcanion yn cael eu gwireddu, a pha rai sydd fwyaf allweddol. Rhoi mwy o wybodaeth am rôl Fforwm Economi Gwynedd. Yn gefnogol o'r ffshould fframwaith monitro. |

| | | |
|---|---|---|
| Cynrychiolydd Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Gwynedd | 28/07/25 | Sylwadau ar y drafft: Angen cyfeirio mwy at ddenu mewnfuddsoddiad Dylid cyfeirio at dwristiaeth yn y rhagair, ac oes lle i gyfeirio at yr ardoll dwristiaid? |
| Busnes Cymru | 31/07/25 | Ymgynghori i gael mewnbwn i'r strategaeth: Angen dangos pwysigrwydd cydweithio gyda phartneriaid, twf o ansawdd a chynaliadwy. |
| Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo-Menai | 21/08/25 | Sylwadau ar y drafft: Cefnogol ond angen cyfarch uwchsgilio pobl ifanc er mwyn ateb y galw i ddiwydiannau newydd. Cydweithio rhwng mentrau, sefydliadau a chymunedau yn bwysig. |
| Cyfarwyddwr Polisi a Chyflawni - Cymdeithas dai Adra Cyf. | 15/09/25 | Sylwadau ar y drafft: Y Strategaeth yn taro'r marc o ran y prif feysydd. Angen dangosyddion clir sy'n cysylltu hefo'r blaenoriaethau y gellid eu defnyddio i fesur llwyddiant Angen cyfarch sut mae annog buddsoddiad gan y sector breifat, a rôl Llywodraethau. Cryfhau'r cyfeiriad at gadw'r gwario yn lleol a caffael. |
| Pwyllgor craffu Cyngor Gwynedd | 16/10/25 | Sylwadau ar y drafft:<br>Mae angen dangos y bydd adnoddau yn cael eu targedu tuag at ardaloedd difreintiedig a gwledig.<br>Angen sicrhau y bydd adrannau yn cyd-weithio.<br>Ni ddylid cyplysu sectorau lletygarwch ac amaeth – mae nhw'n wahanol iawn.<br>Angen adolygu be sydd wedi ei gyflawni yn flynyddol |
| Rheolwr Gyfarwyddwr Menter Môn | 30/10/25 | Sylwadau ar y drafft:<br>Yn gefnogol bod rôl economaidd bwysig mentrau cymdeithasol yn cael ei gydnabod. Angen cynnwys sut mae rhoi cymorth ac annog mentrau cymdeithasol i dyfu, ac arweiniad ar wireddu potensial asedau diwylliannol a threftadaeth. Nid oes cyfeiriad at dreialu syniadau newydd na chydnabod yr hybiau arloesi sy'n bodoli. Angen cryfhau'r cyfeiriad at y gadwyn gyflenwi lleol. |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol | Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim tystiolaeth | Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn |
| **Anabledd** | Mae canran yr eiddo â mynediad at gysylltedd gigabeit (>1,000 Mbps) yn is na | Effeithiau Gadarnhaol o weithredu'r Strategaeth:<br>Gwella hygyrchedd i adeiladau |

| | | |
|---|---|---|
| | chyfartaleddau Cymru a’r DG, gyda chyfran uwch o eiddo hefyd â’r cysylltedd gwan (<30 Mbps). Cyrhaeddiad 4G – a 5G hefyd yn is yng Ngwynedd. Felly, nid oes cymaint o gyfle i gyflogwyr gynnig telerau gweithio’n hybrid neu o gartref.<br>Mae cyfradd cyflogaeth pobl anabl yng Ngwynedd yn is fel canran nag yng Nghymru a’r Deyrnas Gyfunol. | busnesau Gwynedd<br>Cynyddu cynhwysiant digidol ymysg pobl Gwynedd<br>Cynyddu is-adeiledd digidol yng Ngwynedd fydd yn caniatau i fwy o wasanaethau a busnesau weithredu ar-lein<br>Annog cyflogwyr i fabwysiadu arferion recriwtio cynhwysol, gan gynnwys cyfweliadau hygyrch a swyddi hyblyg<br>Cynyddu amrywiaeth yn y gweithlu<br>Cynyddu cyfleoedd a swyddi i bobl ag anghenion amrywiol<br>Lleihau'r bwlch rhwng cyflogau yn yr economi leol<br>Sicrhau bod busnesau a mentrau Gwynedd yn cadw at deddfwriaeth, safonau hygyrchedd a hawliau pobl anabl a/neu niwro-wahanol ac yn eu gweithredu’n ymarferol<br>Mae’r cyngor yn rhan o gynllun Hyderus o ran anabledd hyd at lefel 2, ac yn oed-gyfeillgar. |
| **Rhyw** | Mae mwy o ddynion na merched mewn cyflogaeth, ac mae cyflog wythnosol merched ar gyfartaledd yn is na chyflog wythnosol dynion Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics | Lleihau'r bwlch cyflogau rhwng y rhywiau drwy gynnig cyfleoedd mwy hyblyg, a lleihau effaith o gyflogau tymhorol a gwaith rhan-amser.<br>Cynyddu'r cyfleon i ferched ddychwelyd i waith ar ôl cyfnod mamolaeth. |
| **Oedran** | Poblogaeth yn heneiddio’n gyflymach na chyfartaledd Cymru a’r DG, a lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc sy'n creu her i gynnal gweithlu medrus a digonol. | Lleihau pwysau ar y farchnad lafur drwy gefnogi pobl mewn oedran ymddeol i barhau i weithio neu wirfoddoli os dymunant.<br>Cynyddu'r nifer o bobl dros 50 sydd mewn cyflogaeth drwy wella cynhwysiant digidol y gweithlu, gwella hyblygrwydd amodau gwaith swyddi yng Ngwynedd, a chynyddu hyfforddiant a chyngor ar gyfer newid neu ail-afael mewn gyrfa.<br>Gweithlu mwy medrus drwy sicrhau bod hyfforddiant addas ar gael i bobl ifanc ar gyfer y diwydiannau / gyrfaoedd / sectorau sydd ar gael yng Ngwynedd, fydd yn ei dro yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n cael eu cyflogi yn y sir.<br>Mwy o bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith yn cael eu cefnogi ar y daith o addysg i gyflogadwyedd. |
| **Crefydd a Chred** | Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn | Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn | Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn |
| **Ail-bennu rhywedd** | Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn | Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn | Dim effaith wedi ei adnabod hyd yn hyn |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Mae mwy o ddynion na merched mewn cyflogaeth, ac mae cyflog wythnosol merched ar gyfartaledd yn is na chyflog wythnosol dynion [Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics] | Mwy o ddiogelwch swydd i fenywod beichiog, drwy leihau'r risg o gontractau ansicr neu oriau ansefydlog.<br>Cynyddu'r cyfleoedd i ferched ddychwelyd i waith ar ôl cyfnod mamolaeth, drwy annog amodau gwaith mwy hyblyg a chefnogol gan fentrau yng Ngwynedd.<br>Gwell mynediad at hyfforddiant a datblygiad gyrfaol ar ôl cyfnod o absenoldeb mamolaeth.<br>Annog cyflogwyr i fabwysiadu polisïau mwy cynhwysol sy'n cefnogi merched ar ôl cyfnod o absenoldeb mamolaeth - e.e. dychwelyd graddol, oriau hyblyg, cefnogaeth iechyd, gofal plant |
| **Iaith Gymraeg** | Gwynedd yw'r sir yng Nghymru â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg | Cryfhau gwelededd a defnydd y Gymraeg - bydd yr iaith yn rhan o brofiad cwsmeriaid ac yn y gweithle. Bydd mynediad i wasanaethau a gweithgareddau gan fentrau'r sir yn well.<br>Sicrhau cyfleoedd gwaith sy'n cefnogi'r iaith, bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau neu ddychwelyd.<br>Bydd fframwaith monitro yn cynnwys yr ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg gan fentrau'r sir. |

| | | |
|---|---|---|
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Mae cyfradd anweithgarwch y sir (h.y. cyfran y boblogaeth 16-64 nad ydynt mewn gwaith) yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru a'r Deyrnas Gyfunol.<br>Mae cyflog cyfartalog wythnosol gweithiwr llawn-amser ac incwm gwario gros aelwydydd yn gyson is yng Ngwynedd ers 2010 na chyfartaleddau Cymru a'r DG.<br>Mae cyfraddau sylweddol uwch o weithwyr yng Ngwynedd yn gyflogai rhan-amser a thymhorol o gymharu â Chymru a'r DG.<br>Mae cyflogau isel a swyddi rhan-amser yn achosi lefelau uchel o dlodi mewn ardaloedd gwledig a threfol, gyda thlodi mewn gwaith yn arbennig o uchel yng Ngwynedd o gymharu â Chymru a'r DG. | Lleihau tlodi ac amddifadedd drwy geisio codi cyflogau a sicrhau swyddi sefydlog, fydd yn ei dro yn cynyddu incwm aelwydydd.<br>Cefnogi unigolion sy'n ddi-waith neu'n anweithgar i oresgyn rhwystrau er mwyn cael swyddi neu hyfforddiant.<br>Ceisio sicrhau nad oes unrhyw gymuned neu grŵp yn cael eu gadael ar ôl drwy hyrwyddo cyflogaeth gynhwysol i alluogi pobl o wahanol gefndiroedd ac oedrannau i weithio.<br>Cryfhau cymunedau lleol drwy adfywio is-adeiledd a chanol trefi. |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn | Dim effaith wedi ei adnabod hyn yn hyn |
| **Hawliau Dynol** | Dim tystiolaeth wedi ei gasglu hyd yn hyn | Dim effaith wedi ei adnabod hyn yn hyn |
| **Arall** | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Mae ymgynghoriad gynhwysfawr wedi ei wneud ac nid oes unrhyw fylchau wedi eu hadnabod

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Mae effaith gynyddol gadarnhaol gan fod y Strategaeth yn un hirdymor.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Mae'r strategaeth yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb ac atal gwahaniaethu trwy sawl dull gweithredu pendant - mae'n pwysleisio nad oes unrhyw berson, ardal na chymuned i gael eu gadael ar ôl, ac yn anelu i sicrhau fod cyfleoedd gwaith, hyfforddiant a chefnogaeth i fentergarwch ar gael i bawb, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, oedran neu leoliad.

Bydd cefnogaeth i oresgyn rhwystrau ar gyfer pobl sy'n ddi-waith neu anweithgar oherwydd heriau ychwanegol.
Bydd cynlluniau i atal pobl ifanc rhag bod yn NEET (heb waith, addysg na hyfforddiant).
Mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau mathau gynhwysol o gyflogaeth drwy hyrwyddo patrymau gwaith hyblyg a threfniadau amgen i alluogi pobl o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys rhieni, gofalwyr a phobl ag anableddau, i weithio.

Bydd cyfleoedd gwirfoddoli i gryfhau sgiliau a chydlyniant cymunedol yn cael eu cefnogi – bydd hyn yn annog pobl o fewn cymuned i ddod at ei gilydd drwy weithgareddau gwahanol. Bydd hyn yn meithrin perthnasau da o fewn cymunedau a chydlyniant ehangach ar gynlluniau cymunedol a chymdeithasol.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Bydd mentrau'r sir yn cael eu hannog i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol er mwyn lleihau tlodi mewn i'r rhai sydd yn gweithio.
Bydd mynediad teg i bawb at sgiliau a hyfforddiant gan gynnwys grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli.

Bydd dangosyddion tymor byr, canolig a hir yn cael eu monitro i asesu cynnydd tuag at economi gynhwysol, er enghraifft:

- nifer o bobl sy'n cael cymorth i oresgyn rhwystrau
- nifer y busnesau sy'n ymrwymo i gyflogau teg
- nifer o unigolion o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli sy'n manteisio ar gyfleoedd.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â  gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â  pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae Polisi Iaith presennol Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar egwyddor bod y Gymraeg yn iaith naturiol y Cyngor ac mai'r Gymraeg yw'r brif iaith weinyddol a chyhoeddus, gyda phob gwasanaeth, cyfarfod, gohebiaeth ac arwydd yn ddwyieithog ond gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg. Mae'n sicrhau bod y cyhoedd a staff yn cael gwasanaeth llawn yn Gymraeg, bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol i bob swydd, ac mae disgwyl i gyrff sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor hefyd hyrwyddo'r Gymraeg.

Un o brif flaenoriaethau'r Strategaeth yw i 'Hyrwyddo Gwynedd fel lle gwych i fyw, gweithio a mentro, gan ddathlu ein hunaniaeth arbennig, a'r Iaith Gymraeg'. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i gryfhau'r defnydd o'r iaith yn y gweithle ac ymhlith cwsmeriaid, gan sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn naturiol mewn busnesau yn y sir.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod ffactorau economaidd yn dylanwadu ar drosglwyddiad iaith, yn enwedig mewn aelwydydd sy'n wynebu tlodi. Trwy greu swyddi o ansawdd a chyflogau teg, mae'n ceisio lleihau'r pwysau economaidd sy'n arwain at golli'r iaith.

Mae sicrhau cyfleoedd gwaith i siaradwyr Cymraeg yn flaenllaw yn y Strategaeth er mwyn ceisio cadw pobl ifanc yn lleol trwy greu swyddi deniadol, gan leihau allfudo – sef un o'r prif achosion o golli siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl leol symud i swyddi rheolaethol a phroffesiynol.

Mae'r Strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd sîn ddiwylliannol Gwynedd fel rhan o'r economi, gan gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith a hunaniaeth leol.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

<u>Pum ffordd o weithio ar waith</u>

Cynnwys: Defnyddiwyd barn trigolion Gwynedd o'r ymgynghoriad Ardal Ni a dau arolwg gan fusnesau Gwynedd i ddeall anghenion pobl, cymunedau a mentrau. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol i sicrhau amrywiaeth o safbwyntiau ac arbenigedd.

Gweithredu Tymor Hir: Mae'r Strategaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer y dyfodol er gwaethaf ansicrwydd ariannu. Mae'n mynd i'r afael â bylchau economaidd hirdymor fel cynhyrchiant isel, poblogaeth sy'n heneiddio, cysylltedd digidol gwael a chyflogau isel.

Gweithredu Ataliol: Mae'r Strategaeth yn ymateb yn fwriadol i atal cyfres o broblemau economaidd gymdeithasol rhag gwaethygu trwy godi lefelau cynhyrchiant, cryfhau cysylltedd, creu sylfaen ddiwydiannol sy'n fwy amrywiol, cynyddu sgiliau, a chadw mwy o'r buddion yn lleol. Disgwylir canlyniadau fel swyddi sefydlog, cyflogau uwch, llai o dlodi, economi werdd a Chymraeg.

Integreiddio: Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â chynlluniau presennol y Cyngor a fframweithiau adfywio lleol. Mae hefyd yn ategu cynlluniau twristiaeth a chaffael i gadw buddion yn lleol.

Cyd-weithio: Mae'r Strategaeth wedi ei ddatblygu gyda mewnbwn gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus, cyrff preifat a mentrau cymunedol. Bydd cynlluniau gweithredu lleol yn cael eu cyd-ddatblygu gyda'r partneriaid dros gyfnod llawn y Strategaeth 2025–2035.

Ymateb i'r 7 nod

1. Cymru Lewyrchus: Gweledigaeth y Strategaeth yw economi sy'n rhoi pwyslais ar les economaidd-gymdeithasol y boblogaeth, nid dangosyddion macro traddodiadol.

2. Cymru Gydnerth: Mae gan Wynedd gyfoeth naturiol eithriadol sy'n ei gwneud yn un o'r lleoedd gorau i fyw a gweithio. Felly, mae amddiffyn a meithrin yr amgylchedd yn ganolog i'r Strategaeth - bwriedir gweithredu i leihau gwastraff, annog dulliau cylchol a gwyrdd o wneud busnes, hybu a chymryd mantais o gyfleon newydd yn yr economi werdd, a phwyso am welliannau yng ngapasiti'r grid yn lleol er mwyn gwneud datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn fwy dichonadwy yng Ngwynedd.

3. Cymru Iachach: Mae pobl sy'n byw mewn tlodi, gydag ansicrwydd gwaith neu'n cael cyflogau isel yn aml yn dioddef o iechyd corfforol a meddyliol gwaeth. Mae'r Strategaeth yn gweithio i wella cyflogau ac amodau gwaith, ac yn y pen draw bydd hyn yn helpu i wella iechyd pobl Gwynedd. Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod bod mwynhau eich gwaith yn bwysig i iechyd meddyliol, felly mae sicrhau bod pobl yn cael swyddi sy'n rhoi boddhad iddynt yn bwysig.

4. Cymru sy'n fwy Cyfartal: Un o flaenoriaethau allweddol y Strategaeth yw cefnogi pobl Gwynedd i gyrraedd eu llawn botensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleon yn lleol. Mae'r camau ymarferol i wneud hyn yn cynnwys:

- Helpu pobl ddi-waith, yn anweithgar neu sy'n wynebu rhwystrau i gael swydd.
- Cefnogi pobl sydd mewn gwaith i symud i swyddi gwell gyda chyflogau ac amodau tecach.
- Hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Hyrwyddo swyddi sy'n gynhwysol i'w wneud yn haws i bobl allu gweithio.
- Hyrwyddo cyfleon gwaith sy'n rhoi sicrwydd i bobl Gwynedd.
- Helpu pobl hŷn i barhau i weithio neu wirfoddoli os dymunant.

**Mae'r Strategaeth hefyd yn ceisio atal pobl ifanc rhag gadael Gwynedd am resymau gwaith, trwy greu cyfleoedd lleol a dangos bod modd llwyddo yma.**

5. Cymru o Gymunedau Cydlynus: Mae cysylltedd yn rhan hanfodol o'r Strategaeth oherwydd bod band-eang yn wannach na'r cyfartaledd yng Ngwynedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd gweithredu felly i wella cysylltedd digidol, gan sicrhau bod mwy o bobl a busnesau yn cael mynediad at fand-eang cyflym a dibynadwy.

6. Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu: Mae'r Gymraeg yn ganolog i'r Strategaeth. Mae'n cydnabod bod ffactorau economaidd yn gallu effeithio ar hyfywedd yr iaith mewn cymunedau Cymraeg fel Gwynedd. Felly, mae'r Strategaeth yn gweithio i atal neu wrthdroi'r newid iaith sy'n digwydd, ac i gynyddu defnydd a gwelededd y Gymraeg ymhlith cwsmeriaid ac yn y gweithle.
Bydd unrhyw fusnes neu fenter sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor yn gorfod dangos cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg, ac mae system fonitro newydd wedi'i chreu i wirio hyn.
Mae'r Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd diwylliant Gwynedd, yn enwedig wrth greu egni a bywyd cymdeithasol gyfoethog yn lleol, ac mae blaenoriaeth benodol yn ymdrin â hyn.

7. Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang: Mae'r Strategaeth yn edrych y tu hwnt i Wynedd, gan gydnabod bod llawer o bobl o Gymru sy'n byw dramor yn awyddus i helpu eu cymunedau gwreiddiol. Mae hyn yn gyfle i ddod â'u profiad, eu harbenigedd a'u talent yn ôl i Wynedd, ac mae'r grŵp hwn yn cael eu targedu'n benodol. Yn ogystal â hyn, mae'r Strategaeth yn cefnogi'r symudiad byd-eang tuag at economi sero net, gan ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

## CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

### 12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Bydd

### Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau?

**Caffael:**

Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo'r dyletswydd gan y Cyngor a'u bartneriaid i gefnogi cyflenwyr lleol wrth gaffael gwasanaethau a phenodi contractwyr.

Bydd unrhyw ddogfennau tendro a manyldebau yn dilyn polisiau caffael Cyngor Gwynedd ac yn cydymffurfio ag unrhyw reolau a deddfwriaeth perthnasol.

**Partneriaeth:**

Mae'r Strategaeth yn hyrwyddo'r dyletswydd gan y Cyngor a'u bartneriaid i gefnogi cyflenwyr lleol wrth gaffael gwasanaethau a phenodi contractwyr.

Bydd unrhyw ddogfennau tendro a manyldebau yn dilyn polisiau caffael Cyngor Gwynedd ac yn cydymffurfio ag unrhyw reolau a deddfwriaeth perthnasol.

**CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer**

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**

1. Mwy o swyddi sefydlog a chyflogau teg - bydd y Strategaeth yn helpu i greu swyddi o ansawdd, lleihau ansicrwydd gwaith, a hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
2. Lleihau tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol - trwy wella incwm aelwydydd a chynnig cyfleoedd gwaith lleol, bydd llai o dlodi mewn gwaith ac amddifadedd.
3. Cadw pobl ifanc a thalent yn lleol - bydd cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn lleihau allfudo pobl ifanc ac yn denu talent yn ôl i'r sir.
4. Gwella sgiliau a mynediad at hyfforddiant - mae rhaglenni hyfforddiant a chynlluniau sgiliau yn sicrhau gweithlu medrus ar gyfer diwydiannau newydd.
5. Cryfhau'r Gymraeg a diwylliant Gwynedd - bydd busnesau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg, a bydd cefnogaeth i'r sîn ddiwylliannol yn hybu hunaniaeth leol.
6. Gwella cysylltedd digidol ac isadeiledd - drwy fuddsoddi mewn band-eang a thrafnidiaeth, fydd yn ei dro yn creu cyfleoedd gwaith mwy hygyrch ac amrywiol.
7. Economi werdd a gynaliadwy - mae'r Strategaeth yn cefnogi economi sero net, gan greu cyfleoedd mewn technolegau gwyrdd a diogelu'r amgylchedd.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**

1. Ansicrwydd ariannu - mae cyflawni'r Strategaeth yn dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phartneriaid. Os na fydd y cyllid ar gael, gallai rhai prosiectau fethu â chael eu gweithredu. Gan fod y Strategaeth yn un hirdymor gobeithir gallu sianelu unrhyw arian fydd ar gael i wireddu prosiectau fydd yn dod â'r buddion mwyaf i bobl Gwynedd.
2. Risgiau gweithredu - gallai prosiectau mawr gymryd amser hir i'w cwblhau, gan achosi oedi cyn gweld canlyniadau. Gall hyn yn ei dro greu rhwystredigaeth ymhlith busnesau a chymunedau.
3. Effaith anghyfartal - bydd angen targedu adnoddau yn ofalus rhag i rai ardaloedd neu grwpiau elwa mwy na'i gilydd, a allai gynyddu anghydraddoldeb o fewn y sir. Bydd y Cynllun Cyflawni yn ystyried lledaeniad daearyddol cynlluniau er mwyn gwirio fod pob ardal yn elwa ac i leihau anghydraddoldeb daearyddol.

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Ddim yn berthnasol

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Na fydd

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Ddim yn berthnasol

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Gan fod ystyriaeth briodol wedi ei wneud yn barod nid oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Gan fod ystyriaeth briodol wedi ei wneud yn barod nid oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Gan fod ystyriaeth briodol wedi ei wneud yn barod nid oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd.

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol

## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu.

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno i Cabinet y Cyngor | 10/03/2026 | un tro | Sioned Williams | Ia |
| Cyflwyno i'r Cyngor Llawn | 14/05/2026 | un tro | Sioned Williams | Ia |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | Amserlen ac Amlder | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| Cynllun Cyflawni'r Strategaeth | Bob Blwyddyn | Swyddogion Adran Economi | Na |

**ATODIAD 3**

**TEITL** **Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**1. PWRPAS YR ASESIAD**

1.1. Yn yr asesiad hwn, cyflwynir Strategaeth Economaidd Gwynedd, ac yn egluro'r modd y cafodd y Strategaeth ei datblygu, a sut mae'n bodloni gofynion a phwrpas Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**2. GOFYNION Y DDEDDF**

2.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithredu mewn modd cynaliadwy a chyfrannu at lesiant cenedlaethau heddiw, yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol. Mae'n ystyried llesiant mewn modd cyfannol, gan gynnwys agweddau economaidd a chymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

2.2. Gofynnir fod y penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus yn bodloni dau ofyn – y Pum Ffordd o Weithio a'r Saith Nod Llesiant Cenedlaethol. Mae'r Pum Ffordd o Weithio yn adnabod cyfres o gamau y dylid gweithredu arnynt wrth wneud penderfyniadau, ac mae'r Saith Nod Llesiant yn amlinellu'r canlyniadau hir-dymor y dylid cyfrannu tuag atynt.

Pum Ffordd o Weithio (Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Cymru):

- Cynnwys
- Gweithredu hir-dymor
- Atal
- Integreiddio
- Cyd-weithio

Nodau Llesiant Cenedlaethol:

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n fwy Cyfartal
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

## 3. CYMRU LEWYRCHUS

3.1. Er fod y nodau llesiant yn gyfannol ac yn gyd-ddibynnol, *Cymru Lewyrchus* sy'n edrych fwyaf ar faterion economaidd. Fe'i diffinnir yn y modd canlynol:

*"Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur – gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd; ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy [...] waith teg."*

Mae'n cydnabod gwerth a phwysigrwydd cynhyrchiant, ond yn pwysleisio nad twf er ei fwyn ei hun yw "llewyrch". Yn hytrach, rhoddir pwyslais ar les economaidd-gymdeithasol – ar ganlyniadau bywyd, nid dangosyddion economaidd traddodiadol, a hynny heb or-ddefnyddio adnoddau'r blaned.

3.2. Yn ei Adroddiad Blynyddol yn 2025, dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nad yw polisi economaidd yng Nghymru wedi symud ddigon at fodel economi llesiant (tud. 86.), ac y dylid gwneud hynny ar bob lefel, gan gynnwys llywodraeth leol. Yn ei ddiffiniad, mae'n cynnwys gwaith gweddus, caffael teg a lleol, economïau lleol, sgiliau ar gyfer y dyfodol a chymdeithas carbon isel.

3.3. Yng ngolau'r diffiniadau hyn, dadleuir fod gweledigaeth y Strategaeth yn asio'n agos iawn at ystyr y nod llesiant a bwysleisir gan y Comisiynydd:

*"Economi arloesol, cynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleon ac yn cyfrannu at lesiant pawb."*

Diffinnir y weledigaeth yn erbyn pum o egwyddorion sy'n canolbwyntio ar anghenion llesiant pobl Gwynedd:

- **Cael byw ag urddas:** Y dylai pawb gael digon i gynnal eu hunain a'u teuluoedd, i fyw heb eisiau, yn llawn ac yn hapus.
- **Cyfleoedd:** Y dylai pob unigolyn allu cyrraedd y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwireddu eu llawn botensial, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.
- **Tegwch:** Na ddylai unrhyw ardal, berson neu gymuned fod wedi'u gadael ar ôl.
- **Gwreiddiau lleol:** Mai mentrau Gwynedd yw hanfod economi Gwynedd, a trwyddynt y mae modd cadw'r cyfoeth a grëir yng Ngwynedd yn lleol.
- **Cynaliadwyedd:** Y dylid meithrin a gwarchod y Gymraeg a'r amgylchedd sydd, fel ei gilydd, yn gwneud Gwynedd yn le mor arbennig i fyw, gweithio a mentro.

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

| FFORDD O WEITHIO | SUT Y'I RHODDWYD AR WAITH? |
|---|---|
| **CYNNWYS**<br>Ennyn mewnbwn gan unigolion a grwpiau gyda diddordeb ac/neu arbenigedd mewn materion perthnasol, ac adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir. | ▪ Defnyddiwyd y negeseuon a gyflëwyd gan bobl Gwynedd yn yr *Ymgynghoriad Ardal Ni* (2022) er mwyn adnabod yr hyn y mae pobl Gwynedd yn teimlo sy'n dda am eu hardaloedd lleol, a'r pethau hynny sydd angen gwella. Ymgorfforwyd y negeseuon hyn yng ngweledigaeth y Strategaeth er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae'n adnodd ddefnyddiol ar gyfer deall barn trigolion Gwynedd, ac amrywiaeth barn yng ngwahanol rannau'r sir.<br>▪ Gwahoddwyd mentrau yng Ngwynedd i ymateb i ddau *Arolwg Busnes*, y cyntaf yn 2024 a'r ail yn 2025. Er fod busnesau lletygarwch wedi'u gor-gynrychioli rhyw ychydig, cafwyd ymatebion gan fusnesau mewn ystod amrywiol o ddiwydiannau. Cyflëwyd negeseuon am fwriad busnesau i'r dyfodol, yr heriau a wynebant a'r mathau o gymorth a werthfawrogir. Mae'r Strategaeth yn ymateb i'r mewnbwn hwn, yn enwedig wrth drin â mentrau Gwynedd – yn ymateb, e.e., i'r heriau a nodwyd ganddynt, gan gynnwys recriwtio.<br>▪ Mae'r maes economi yn gymhleth ac yn cynnwys actorion polisi ar sawl lefel. Er mwyn ennyn mewnbwn gan yr amrywiaeth fwyaf posibl o actorion a dwyn eu harbenigedd, trefnwyd cyfres o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda'r cyrff canlynol: Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru; Ffederasiwn Busnesau Bychain Cymru; yr undebau amaethyddol (FUW, NFU Cymru); Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru; Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru; Parc Cenedlaethol Eryri; Prifysgol Bangor; Grŵp Llandrillo-Menai; Rhwydwaith Mentrau Cymunedol Gwynedd, ac; Mantell Gwynedd ar gyfer y maes gwirfoddol yng Ngwynedd. |
| **GWEITHREDU HIR-DYMOR**<br>Adnabod tueddiadau hir-dymor a chynllunio ar eu cyfer mewn modd sydd wedi'i gyd-bwyso ag anghenion tymor byr. | ▪ Mae'r cyd-destun polisi a chynllunio economaidd yn ansicr ac yn newid yn gyflym yng Nghymru. Nid oes sicrwydd o ran dyfodol cynlluniau ariannu gan lywodraethau Cymru a'r DG, ac mae pwyslais cynyddol ar gyd-weithio rhanbarthol. Mae'r Strategaeth hon yn ymateb i'r ansicrwydd hyn, yn gosod cyfeiriad strategol hir-dymor, waeth beth fo'r cynlluniau ariannu a drosglwyddir i'r Cyngor a'i bartneriaid.<br><br>▪ Mae'r Strategaeth yn ymateb i gyfres o "fylchau" sy'n adlewyrchu tan-berfformiad strwythurol yr economi yng Ngwynedd dros y tymor hwy, pan y'i cymherir â Chymru a'r DG. Mae dros hanner ohonynt yn Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol ac yn dangos anfantais cymharol Gwynedd o ran lles economaidd:<br>○ **Bwlch Cynhyrchiant (Dangosydd Llesiant 09):** Gwerth yr hyn a gynhyrchir yng Ngwynedd (fesul pob awr a weithir; fesul pob swydd a lenwir) yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG yn 2023, a chyfradd twf cynhyrchiant yng Ngwynedd yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru a'r DG ers 2004.<br>○ **Bwlch Diwydiannol:** Amrywiaeth cymharol gul o ddiwydiannau, gyda chyflogeion a mentrau yn fwy niferus mewn ystod llai o ddiwydiannau. |

| | |
|---|---|
| | ○ **Bwlch Mentergarwch Newydd:** Y cyfradd geni busnes yng Ngwynedd ymhlith yr isaf ar draws siroedd Cymru yn 2023, yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DG.<br>○ **Bwlch Perfformiad Uchel:** Canran y mentrau a welodd cynnydd o 20% yn nifer y cyflogeion dros gyfnod tair blynedd yn gyson is yng Ngwynedd na Chymru a'r DG rhwng 2018 a 2023.<br>○ **Bwlch Cysylltedd Digidol (Dangosydd Llesiant 50):** Canran yr eiddo â mynediad at gysylltedd gigabeit (>1,000 Mbps) yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DG, gyda chyfran uwch o eiddo hefyd â'r cysylltedd gwannaf (<15 Mbps) yn unig. Cyrhaeddiad 4G – a 5G yn enwedig – hefyd yn is yng Ngwynedd.<br>○ **Bwlch Gweithlu (Dangosydd Llesiant 21):** Cyfradd diweithdra isel, ond cyfradd anweithgarwch y sir (h.y., cyfran y boblogaeth 16-64 nad ydynt mewn gwaith) yn uwch na chyfartaledd Gogledd Cymru a'r DG.<br>○ **Bwlch Poblogaeth:** Poblogaeth yn heneiddio'n fwy cyflym na Chymru a'r DG, gyda chyfran uwch o bobl hŷn mewn oed ymddeol a lefelau uchel o allfudo ymhlith pobl ifanc.<br>○ **Bwlch Cyflog (Dangosydd Llesiant 10):** Cyflog cyfartalog wythnosol gweithiwr llawn-amser ac incwm gwario gros aelwydydd yn gyson is yng Ngwynedd ers 2010 na chyfartaleddau Cymru a'r DG.<br>○ **Bwlch Amodau Gwaith (Dangosydd Llesiant 16):** Cyfraddau sylweddol uwch o weithwyr yng Ngwynedd yn gyflogeion rhan-amser a thymhorol o gymharu â Chymru a'r DG.<br>○ **Bwlch Llesiant (Dangosyddion Llesiant 18 & 19):** Cyflogau isel a swyddi rhan-amser yn achosi lefelau uchel o dlodi mewn ardaloedd gwledig a threfol, gyda thlodi mewn gwaith yn arbennig o uchel yng Ngwynedd o gymharu â Chymru a'r DG.<br><br>▪ Ynghyd â'r "bylchau" hir-dymor hyn, adnabuwyd tueddiadau hir-dymor eraill hefyd sy'n debygol o gael effaith ar y Strategaeth a'i heffeithiolrwydd:<br>○ Symudiad at economi sero net a charbon isel yn gyfle economaidd; ond, os am gadw'r cyfoeth newydd a grëir yn lleol, mae angen sicrhau fod gan bobl Gwynedd y sgiliau er mwyn manteisio ar gyfleon gwaith a busnes.<br>○ Technolegau newydd, e.e., deallusrwydd artiffisial yn gyfle; ond yn peri risgiau, yn enwedig os nad yw pobl a busnesau Gwynedd yn fyw i'r datblygiadau diweddaraf ac yn gallu ymateb iddynt yn effeithiol.<br>○ Shifft iaith yng Ngwynedd yn cael ei ddylanwadu'n rhannol gan yr economi (Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024); e.e., trosglwyddiad iaith yn is mewn aelwydydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **GWEITHREDU ATALIOL**<br>Atal problemau rhag ddigwydd yn y lle cyntaf neu waethygu. | ▪ Mae'r Strategaeth yn ymateb yn fwriadol i gyfres o "fylchau" ble mae Gwynedd yn perfformio islaw cyfartaleddau cenedlaethol neu gymeiriaid, ac sy'n creu problemau lles economaidd-gymdeithasol. Gweithredir felly am y newidiadau canlynol sydd, wrth eu hanfod, yn ceisio lliniaru'r "bylchau" neu'u hatal rhag waethygu. Ar yr un llaw, newid strwythurol yn yr economi, gan gynnwys:<br>○ **Codi lefelau cynhyrchiant ein mentrau a'n gweithwyr** er mwyn ysgogi cyflogau uwch ac amodau gwaith gwell;<br>○ **Cynyddu cystadleurwydd ein mentrau cynhenid** fel eu bod yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn gwireddu'u hamcanion busnes |

| | |
|---|---|
| | hir-dymor ac yn creu swyddi o safon;<br>○ **Cryfhau cysylltedd digidol ac isadeiledd busnes y sir** er mwyn creu'r amodau gorau posibl ar gyfer mentro;<br>○ **Creu sylfaen ddiwydiannol sy'n fwy amrywiol** gyda mentrau lleol mewn ystod o ddiwydiannau yn creu cyfleon newydd ac economi mwy gwydn;<br>○ **Cefnogi ein pobl i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt** fel eu bod nhw, ynghyd a'r mentrau sy'n eu cyflogi, yn gallu manteisio'n llawn ar gyfleon;<br>○ **Cadw mwy o'r cyfoeth rydym yn ei greu yn lleol yng Ngwynedd yn lleol** er mwyn uchafu buddion i bobl, mentrau a chymunedau Gwynedd, ac;<br>○ **Adeiladu economi sy'n gynaliadwy** yn amgylcheddol, ieithyddol a diwylliannol.<br><br>▪ Gwneir hyn yn bennaf oll er mwyn atal neu leihau'r heriau lles economaidd-gymdeithasol a wynebir yng Ngwynedd. I'r pwrpas hwn, bydd y newid a weithredir ar ei gyfer yn cynnwys:<br>○ Cyflogau ac incwm gros aelwydydd yn uwch;<br>○ Mwy o bobl wedi'u cyflogi mewn swyddi sefydlog;<br>○ Lefelau is o dlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol;<br>○ Amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith yn lleol;<br>○ Mwy o bobl yn gallu aros, byw a gweithio yn eu cymunedau lleol;<br>○ Mwy o bobl yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo'u bod yn cyrraedd eu llawn botensial;<br>○ Economi werdd sy'n amddiffyn amgylchedd naturiol eithriadol y sir, ac;<br>○ Economi Gymraeg sy'n cynyddu defnydd a gweledebb yr iaith, gyda chwsmeriaid ac yn y gweithle ledled Gwynedd. |
| **INTEGREIDDIO**<br>Gweithredu mewn modd sy'n gydnaws â chynlluniau a blaenoriaethau eraill, ac sy'n ychwanegu gwerth atynt yn hytrach na'u tanseilio. | ▪ Adeiladir ar y cyfeiriad strategol sydd wedi'i osod eisoes yng Nghynllun y Cyngor: *"Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng".* Mae'r Strategaeth yn derbyn y cyfeiriad hwn, ond oherwydd ei fod yn un mewn nifer o flaenoriaethau corfforaethol, pwrpas y Strategaeth hon yw diffinio'r weledigaeth economaidd mewn dyfnder pellach a rhoi sylw penodol i'r economi; hynny er mwyn sicrhau blaenoriaethau a gweithredu ystyrlon.<br>▪ Mae'r Strategaeth Economaidd newydd yn gorwedd ochr-yn-ochr â Chynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, yn dilyn y cyfeiriad sydd wedi'i osod yn y Cynllun hwnnw ym maes twristiaeth, ac yn ategu'r weledigaeth sydd ynddo am economi llesiant gynaliadwy.<br>▪ Gwynedd Ni yw fframwaith adfywio lleol Cyngor Gwynedd. Mae'n canolbwyntio ar 13 o ardaloedd lleol ledled y sir. Er mwyn sicrhau gweithredu ystyrlon ym mhob un o'r ardaloedd lleol hyn, bydd cynlluniau gweithredu unigol yn cael eu paratoi ar eu cyfer ac yn cael ei ychwanegu at y fframwaith. Bydd cynnwys y cynlluniau hyn yn cael eu cyd-ddatblygu â phartneriaid y Cyngor yn lleol – yn gynrychiolwyr lleol, yn fentrau cymunedol ac yn gyrff preifat ac elusennol. |

| | |
|---|---|
| | ▪ Datblygwyd y Strategaeth ar y cyd â Chynllun Caffael newydd y Cyngor, gan olygu'u bod yn asio'n agos iawn at ei gilydd, yn enwedig wrth geisio cadw buddion gwariant cyhoeddus yn lleol. |
| **CYD-WEITHIO**<br>Gweithredu ar y cyd â phartneriaid (mewnol ac allanol), a chyda mentrau a phobl Gwynedd. | ▪ Mae'r Strategaeth wedi'i ddatblygu yng ngolau'r mewnbwn a roddwyd gan gyfres o bartneriaid, fel y'u rhestrir uchod yn y Rhan Cynnwys. Mae'n cydnabod y bydd angen cyd-weithio â hwy er mwyn uchafu gwerth y Strategaeth ac na all y Cyngor fel corff unigol weithredu'n annibynnol. Felly, mae'r Strategaeth hyn fyw i'r grymoedd sydd yn nwylo'r Cyngor, yn ogystal â'r grymoedd sy'n gorwedd mewn cyrff eraill.<br>▪ Mae'r Strategaeth yn cydnabod mai pobl a mentrau Gwynedd yw hanfod yr economi leol. Felly, bydd y Cyngor yn parhau i ennyn mewnbwn ganddynt dros lawn cyfnod y Strategaeth, gan gynnwys yr Arolygon Busnes blynyddol. Bydd angen parhau i gyd-weithio hefyd wrth weithredu ar brosiectau'r Strategaeth.<br>▪ Bydd y cynlluniau gweithredu lleol a ddatblygir yng ngolau'r Strategaeth yn cael eu cyd-greu â phartneriaid y Cyngor yn lleol – yn gynrychiolwyr lleol, yn fentrau cymunedol ac yn gyrff preifat ac elusennol. Bydd hyn yn sicrhau cyd-gynhyrchu a chyd-gweithredu dros lawn gyfnod bywyd y Strategaeth, 2025-35. |

## 5. SUT Y CAIFF Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL EU BODLONI?

**Cymru Lewyrchus**

| | |
|---|---|
| *"Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur – gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd; ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy [...] waith teg."* | Gweler Rhan 3. Eglurir priod weledigaeth y Strategaeth yn asio'n agos iawn at ddiffiniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o'r nod Cymru Llewyrchus, h.y., economi sy'n rhoi pwyslais ar les economaidd-gymdeithasol y boblogaeth, nid dangosyddion macro traddodiadol. |

**Cymru Gydnerth**

| | |
|---|---|
| *"Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid."* | Mae gan Wynedd gyfoeth naturiol eithriadol sy'n ei gwneud yn un o'r lleoedd gorau i fyw a gweithio. Felly, mae amddiffyn a meithrin yr amgylchedd yn ganolog i'r Strategaeth,<br><br>Bwriedir gweithredu i leihau gwastraff, annog dulliau cylchol a gwyrdd o wneud busnes, hybu a chymryd mantais o gyfleon newydd yn yr economi werdd, a phwyso am welliannau yng ngapasiti'r grid yn lleol er mwyn gwneud datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn fwy dichonadwy yng Ngwynedd. |

**Cymru Iachach**

| | |
|---|---|
| *"Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol."* | Gwyddys fod pobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, sy'n wynebu cyflogau isel, ansicrwydd gwaith neu dlodi, yn fwy tebygol o wynebu iechyd corfforol a meddyliol salach. Gweithredir am welliannau yng nghyflog ac amodau gwaith yn y Strategaeth – ac bydd hyn, maes o law, yn cael effaith strwythurol bositif ar ganlyniadau iechyd.<br><br>Cydnabyddir hefyd yn y Strategaeth fod iechyd meddyliol yn cael ei siapio'n rhannol gan y mwynhad a geir o waith, neu beidio. Felly, mae sicrhau fod pobl yng Ngwynedd yn cael gafael ar waith a fwynheir hefyd yn bwysig. |

**Cymru sy'n fwy Cyfartal**

| | |
|---|---|
| *"Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial [...], waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau."* | Mae rhyddhau potensial pobl Gwynedd yn amcan ganolog yn y Strategaeth, ac fe'i pwysleisir ar sawl tro yn y ddogfen ei hun. Ar y foment, mae'r "bylchau" sy'n golygu fod Gwynedd yn tan-berfformio'n economaidd pan y'i cymherir â Chymru a'r DG, yn golygu fod pobl Gwynedd yn wynebu anfantais cymharol – ac, o'r herwydd, yn wynebu heriau strwythurol yn cyrraedd eu llawn potensial. Felly, gweithredir i liniaru'r "bylchau" a'u hatal rhag waethygu ar draws chwe blaenoriaeth y Strategaeth. |

Yn benodol, mae'r bedwaredd flaenoriaeth – *Cefnogi Ein Pobl* – yn ymdrin yn benodol ar gefnogi pobl i gyrraedd eu llawn potensial: *"Cefnogi pobl Gwynedd i gyrraedd eu llawn potensial, i gael gwaith o ansawdd, cyflogau teg a chyfleon yn lleol."* Mae'n cynnwys y gweithrediadau canlynol:

- Cefnogi pobl i waith sy'n ddi-waith, yn anweithgar neu sy'n wynebu heriau ychwanegol;
- Cefnogi pobl sydd mewn gwaith i gyrraedd swydd gwell â chyflogau uwch, neu amodau gwaith mwy sicr.
- Hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol ymhlith cyflogwyr y sir.
- Hyrwyddo mathau cynhwysol o gyflogaeth i'w wneud yn haws i bobl allu gweithio.
- Hyrwyddo cyfleoedd gwaith sy'n rhoi sicrwydd i bobl Gwynedd.
- Cefnogi pobl hŷn mewn oedran ymddeol i barhau i weithio ac/neu wirfoddoli, ble maent eisiau gwneud hynny.

Gwyddys hefyd fod llawer o'r pobl ifanc sy'n gadael Gwynedd yn gwneud hynny nid am eu bod eisiau gadael o reidrwydd, ond eu bod yn teimlo fod angen gwneud am resymau gwaith. Oherwydd hyn, ymdrinnir â'r her mudo yn benodol (5.3.) er mwyn cefnogi pobl ifanc i allu llwyddo'n lleol, waeth beth fo'u cefndir a'u dyheadau.

**Cymru o Gymunedau Cydlynus**

| | |
|---|---|
| *"Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da."* | Mae cysylltedd yn rhan hanfodol o'r Strategaeth, yn enwedig yn ngolau'r "bwlch" digidol sy'n golygu fod cysylltedd band-eang yn wannach yng Ngwynedd. Gweithredir felly am welliannau mewn cysylltedd band-eang, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n wynebu'r cysylltedd digidol mwyaf gwan. |

**Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**

| | |
|---|---|
| *"Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden."* | Mae'r Gymraeg yn derbyn sylw canolog yn y Strategaeth. Gwyddys fod y dylanwadau economaidd strwythurol yn cael effaith ar hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg (Comisiwn Cymunedau Cymraeg, 2024), gan gynnwys Gwynedd – ac mae'r Strategaeth yn derbyn hynny'n llwyr. Bydd y Strategaeth yn gweithredu i liniaru neu wrth-droi'r shifftiau iaith a wynebir yng Ngwynedd a'u gyrrir yn rhannol gan yr economi, yn ogystal â chynyddu defnydd a gwelededd y Gymraeg yn fwy cyffredinol yng Ngwynedd, hynny ymhlith cwsmeriaid ac yn y gweithlu.<br>Mae'r shifftiau iaith mwyaf yn cynnwys:<br>▪ Allfudo pobl ifanc – Yn fwy tebygol o fod yn siarad Cymraeg.<br>▪ Pobl lleol wedi'u tan-gynrychioli yn y swyddi rheolaethol uchaf yng Ngwynedd, ac; |

- Aelwydydd ag un rhiant neu fwy yn siarad Cymraeg ond sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn llai tebygol o drosglwyddo'r Gymraeg i blant.

Bydd unrhyw gorff, menter neu fusnes sy'n derbyn cymorth gan y Cyngor, boed yn gymorth ariannol neu anariannol, yn gorfod dangos cynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg; ac mae dogfen fonitro newydd wedi'i datblygu i'r pwrpas hwn.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod mor bwysig yw sîn ddiwylliannol Gwynedd, yn enwedig wrth greu egni a bywyd cymdeithasol gyfoethog yn lleol – ac fel un agwedd bwysig o'r economi. Oherwydd hyn, ymdrinnir â diwylliant yn benodol yn chweched blaenoriaeth y Strategaeth.

**Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang**

| | |
|---|---|
| *"Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang."* | Mae gogwydd rhyngwladol i'r Strategaeth. Mae'n cydnabod fod gan Wynedd a Chymru "ddiaspora" rhyngwladol sydd, llawer tro, yn edrych yn ôl i Gymru ac eisiau gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau y maent yn dod ohonynt yn wreiddiol. Mae'n gyfle i ddod ag adnodd, arbenigedd a phersonau talentog yn ôl i Wynedd, ac fe'u targedir yn y Strategaeth er mwyn gwneud hynny.<br><br>Tu hwnt i'r cyfle hwn, mae'r Strategaeth yn cefnogi'r symudiad at economi sero net oherwydd yr argyfwng newid hinsawdd yn rhyngwladol. |

**6. CASGLIAD**

6.1. Yn dilyn yr asesiad hwn, deuir i'r casgliad fod Strategaeth Economaidd Gwynedd yn bodloni gofynion a phwrpas y Ddeddf Llesiant yn agos iawn. Cafodd y Pum Ffordd o Weithio eu hymgorffori'n llawn wrth ddatblygu'r Strategaeth, ac mae gogwydd llesiant clir i'w weld yn ei chynnwys – gogwydd sy'n gochel rhag ffocws traddodiadol ar dwf economaidd er ei fwyn ei hun, tuag at fodel datblygu economaidd newydd sy'n rhoi blaenoriaeth i les economaidd-gymdeithasol y boblogaeth.

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| **Chwarter 1**<br>**Ebrill 2026 – Gorffennaf 2026** | | |
| **Ebrill 2026** | | |
| | | |
| **Mai 2026** | Rhaglen Gyfalaf 2025/26 - Adolygiad Diwedd Blwyddyn (Sefyllfa 31 Mawrth 2026) | Cyng. Huw Wyn Jones |
| | Cyfrifon Terfynol 2025/26 - Alldro Refeniw | Cyng. Huw Wyn Jones |
| | | |
| | | |
| **Mehefin 2026** | Polisi Coed | Cyng. June Jones |
| | Strategaeth Gwastraff | Cyng. Craig ab Iago |
| | | |
| | | |
| **Gorffennaf 2026** | Cynllun Ariannol Tymor Canolig | Cyng. Huw Wyn Jones |
| | | |